*Cadeirydd*

Samir Shah

Mae cyfarwyddwr sy'n gwneud ffilm i'r BBC yn bwriadu gwneud recordiad cudd. Mae un arall yn ffilmio rhaglen ddogfen mewn ysgol. Mae cynhyrchydd adloniant eisiau cyflwyno cystadleuaeth i'w rhaglen i gysylltu'n fwy rhyngweithiol â'r gynulleidfa. Beth yw'r rheolau sy'n llywodraethu sut mae'r BBC yn delio â'r materion sy'n cael eu codi gan y gwneuthurwyr rhaglenni hyn?

Mae'r ateb ar dudalennau'r llyfryn hwn – Canllawiau Golygyddol y BBC. Bob dydd, yma yn y DU ac ar draws y byd, mae'r BBC yn comisiynu, yn cynhyrchu neu'n prynu rhaglenni i'w darlledu ar sianeli'r BBC ac ar ei lwyfannau digidol. Rhaid i bob un ohonynt – yn ddieithriad – gydymffurfio â safonau a gwerthoedd golygyddol y BBC.

Mae'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb yn gofyn i'r Bwrdd gytuno ar y safonau golygyddol a fydd yn berthnasol ar draws y BBC. Mae'r Canllawiau Golygyddol hyn yn gwneud hynny ac mae Bwrdd y BBC wedi'u cymeradwyo. Mae'r Canllawiau'n egluro'r gwerthoedd golygyddol sy'n sail iddynt. Yn bwysig, maent yn cynnwys yr hawl i ryddid mynegiant yn ogystal â diffinio'r cydbwysedd rhwng y rhyddid hwnnw a hawliau eraill, preifatrwydd er enghraifft. Mae'r Canllawiau hefyd yn egluro ymrwymiad y Bwrdd i annibyniaeth olygyddol y BBC a phwysigrwydd sylfaenol uniondeb golygyddol allbwn y BBC, yn rhydd o fuddiannau gwleidyddol, masnachol, corfforaethol neu bersonol. Mae'r Siarter hefyd yn ymrwymo'r BBC i ddarparu newyddion a materion cyfoes ac allbwn ffeithiol sy'n ddiiduedd ac yn gywir. Mae'r Canllawiau'n egluro sut gellir cyflawni hynny a phwysigrwydd ei gyflawni drwy adlewyrchu barn yr holl gynulleidfaoedd amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yn ein cynnwys.

Mae'r BBC yn dangos creadigrwydd enfawr ei allbwn bob dydd. Mae dilyn y Canllawiau hyn yn golygu ein bod yn parhau i allu gwneud hynny, ar yr un pryd â dangos y safonau golygyddol y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gennym ni. Mae'r naill a'r llall yn hanfodol i enw da'r BBC yn y DU ac ym mhedwar ban byd.

Mehefin 2025

*Y Cyfarwyddwr Cyffredinol*

Tim Davie

Gan fod y dirwedd cyfryngau yn newid yn gyson, mae'r egwyddorion sy'n sail i'r gwaith o greu cynnwys y BBC yn bwysicach fyth. Yn y BBC mae'r Canllawiau Golygyddol wedi bod yn sylfaen foesegol i raglenni'r BBC ers degawdau; dyma'r wythfed argraffiad.

Mae'r Canllawiau'n deillio o gyd-ddoethineb gwneuthurwyr cynnwys o'r gorffennol a'r presennol ynghyd â gofynion Siarter y BBC a'i reoleiddiwr cynnwys, Ofcom, yn ei God Darlledu. Mae'r Canllawiau wedi'u cynllunio er mwyn ni allu bod yn uchelgeisiol, yn greadigol a chymryd risgiau ond gan fod yn seiliedig bob tro ar y safonau golygyddol uchaf posibl.

A ninnau mewn byd o allbwn digidol sy'n newid yn gyflym, mae'r Canllawiau'n rhoi'r gwerthoedd a'r safonau golygyddol sy'n gwneud y BBC yn unigryw ac yn ddibynadwy. Mae'r BBC wedi ymrwymo i ryddid mynegiant ond nid yw hyn yn golygu bod popeth yn dderbyniol. Mewn byd o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, mae gwerthoedd golygyddol y BBC o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch yn bwysicach nag erioed. Felly hefyd, yng nghyd-destun hylltra llawer o'r cyfryngau cymdeithasol, yw'r gwedduster sylfaenol a geir mewn adrannau fel Niwed a Thramgwydd neu Blant a Phobl Ifanc.

Mae'r Canllawiau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith, yn enwedig datblygu hawliau preifatrwydd; yn yr amgylchedd rheoleiddio, lle mae dyletswydd gofal gwneuthurwyr rhaglenni i gyfranwyr wedi cael ei hehangu; ac mewn technoleg lle mae datblygiadau digidol yn parhau a deallusrwydd artiffisial yn cyflwyno heriau newydd. Mae'r Canllawiau bob amser wedi symud gyda'r oes.

Ond mae gwerthoedd y Canllawiau'n oesol. Mae cynulleidfaoedd y BBC bob amser wedi disgwyl rhaglenni a chynnwys o'r ansawdd gorau. Ac maent hefyd yn disgwyl y safonau golygyddol uchaf posibl. Mae'r Canllawiau wedi cael eu dylunio i alluogi'r naill a'r llall.

Mehefin 2025

# ADRAN 1: Safonau GOLYGYDDOL Y BBC - gwybodaeth hanfodol

1.1 Cyflwyniad
1.2 Gwerthoedd Golygyddol y BBC
1.3 Budd y Cyhoedd
1.4 Cyfiawnhad Golygyddol
1.5 Ofcom
1.6 Atebolrwydd
1.7 Cwynion
1.8 Hygyrchedd
1.9 Sut mae Defnyddio’r Canllawiau

- Canllawiau Golygyddol
- Atgyfeiriadau
- Polisi Golygyddol
- Cydymffurfiaeth a Safonau Golygyddol

## 1.1 CYFLWYNIAD

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn ymgorffori doethineb a ddatblygwyd dros 100 mlynedd a mwy o greu rhaglenni, cynhyrchu cynnwys a newyddiaduraeth. Fe’u cynlluniwyd i gefnogi creadigrwydd ac i helpu gwneuthurwyr cynnwys i bwyso a mesur risgiau a gwneud penderfyniadau golygyddol anodd. Mae angen ymddiriedaeth ei gynulleidfa ar y BBC – a chryfder ei benderfyniadau golygyddol sy’n cynnal yr ymddiriedaeth honno. Y Canllawiau sy’n gosod y safonau golygyddol ar gyfer holl gynnwys y BBC ac maent hefyd yn bodloni gofynion rheoleiddiwr y BBC, Ofcom.

Mae Siarter Frenhinol y BBC[1] yn nodi Cenhadaeth y BBC, sef gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu ei holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Y Siarter Frenhinol sydd hefyd yn sefydlu annibyniaeth y BBC oddi wrth y llywodraeth, yn gwarantu ei ryddid golygyddol a chreadigol ac yn diogelu ffi’r drwydded.

Mae’r Siarter yn nodi Dibenion Cyhoeddus y BBC:

1. Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymwneud â’r byd o’u cwmpas.

2. Cefnogi dysgu i bobl o bob oed.

3. Dangos yr allbwn a’r gwasanaethau mwyaf creadigol a neilltuol sydd o’r ansawdd gorau.

4. Adlewyrchu, portreadu a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, hybu’r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.

[1] Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

5. Dangos y Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Mae'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith sydd gyda hi[2] yn cadarnhau bod dyletswydd ar Fwrdd y BBC i bennu'r safonau ar gyfer allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC. Rhaid i'r BBC gyhoeddi, adolygu o bryd i'w gilydd a sicrhau y dilynir y canllawiau sydd wedi cael eu cynllunio i sicrhau safonau golygyddol priodol ar gyfer ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Rhaid iddo hefyd ddiogelu a chynnal uniondeb golygyddol ac ansawdd uchel BBC World Service a BBC Monitoring.

Mae cynhyrchu a chynnal y Canllawiau Golygyddol hyn yn cyflawni'r gofynion hynny. Maent yn berthnasol i'r holl gynnwys sy'n cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi gan y BBC pwy bynnag sy'n ei greu ac ym mha ffordd bynnag ac ym mha le bynnag yn y byd y mae'n cael ei wneud neu ei dderbyn. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel prif olygydd y BBC, sy'n gyfrifol yn y pen draw am ei gynnwys golygyddol, ond rhaid i bawb sy'n ymwneud â chreu cynnwys ar gyfer y BBC weithio i'r safonau a nodir yn y Canllawiau Golygyddol hyn. Bydd yr holl allbwn a wneir yn unol â'r Canllawiau Golygyddol hyn hefyd yn bodloni gofynion rheoleiddiwr y BBC, Ofcom[3].

Mae'r Canllawiau Golygyddol yn amlinellu rhwymedigaethau rheoleiddiol a moesegol y BBC, sydd yn aml yn mynd ymhellach na'r gyfraith. Bydd achlysuron pan fernir bod cynnwys yn ddiogel i'w gyhoeddi neu ei ddarlledu ar sail gyfreithiol, ond ei fod er hynny yn peri risg i enw da'r BBC neu ei allu i gydymffurfio â rheoliadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y BBC yn ceisio ymddwyn yn foesegol. Er bod cyfreithwyr a'r Canllawiau Golygyddol yn darparu cyngor, mae'r cyfrifoldeb golygyddol a'r penderfyniad terfynol ynghylch darlledu neu gyhoeddi cynnwys yn aros gyda rheolwyr golygyddol y BBC.

**Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y ceir cynnig neu weithred na fyddai'n ymddangos ei bod yn cyd-fynd â'r Canllawiau Golygyddol. Bydd angen cyfiawnhad cryf iawn dros hyn a rhaid ei drafod a chytuno arno gyda Chyfarwyddwr yr Uwch-adran. Rhaid ymgynghori hefyd â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

Mae'n bosibl y cymerir camau disgyblu lle ceir achosion o natur ddifrifol o dorri'r Canllawiau'n fwriadol heb gyfeirio'r mater neu dorri'r canllawiau drwy esgeulustod.

# 1.2 GWERTHOEDD GOLYGYDDOL Y BBC

Mae cynulleidfaoedd yn **ymddiried** yn y BBC ac maent yn disgwyl iddo lynu wrth y safonau golygyddol uchaf.

Mae gan y BBC hawl i **ryddid mynegiant** o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol, sy'n cael ei adlewyrchu yn y Siarter. Mae'r rhyddid hwn wrth wraidd **annibyniaeth** y BBC. Mae hawl gan ei gynulleidfaoedd i gael deunydd creadigol, gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth. Ond mae cynulleidfaoedd hefyd yn disgwyl i'r BBC gydbwyso ei hawl i ryddid mynegiant â'i gyfrifoldebau i gynulleidfaoedd ac i gyfranwyr.

---

[2] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

[3] Cod Darlledu Ofcom

Mae'r BBC yn gweithredu **er budd y cyhoedd** – gan ohebu ar straeon newyddion sydd o bwys i gynulleidfaoedd a dal y rhai sydd mewn grym yn atebol. Yn ei newyddiaduraeth yn benodol, nod y BBC yw sefydlu'r **gwir** a defnyddio'r safonau gohebu uchaf i ymdrin â materion mewn modd **teg** a **chywir**. Mae arbenigedd y BBC yn darparu barn broffesiynol a dadansoddi clir.

Mae'r BBC yn **ddiduedd**, yn ceisio adlewyrchu barn a phrofiadau ei gynulleidfaoedd, fel bod ei allbwn cyfan yn cynnwys barn eang ac amrywiol ac fel na fydd unrhyw safbwyntiau arwyddocaol yn cael eu tangynrychioli neu eu hepgor. Mae'r BBC yn annibynnol ar drefniadau a buddiannau allanol a allai beryglu ei **ddidwylledd golygyddol**. Fodd bynnag, nid yw ei safonau golygyddol yn galw am niwtraliaeth lwyr yng nghyswllt bob mater nac am ymbellhau oddi wrth egwyddorion democrataidd sylfaenol.

Mae rhyddid mynegiant yn galluogi cyfnewid gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan y wladwriaeth. Mae'n helpu i lywio trafodaeth gyhoeddus – gan gymell chwilfrydedd, beirniadaeth ac ymgysylltu. Er enghraifft, mae'n caniatáu i ddramodwyr, dychanwyr a digrifwyr roi sylwebaeth am y byd o'u cwmpas. Fodd bynnag, nid yw rhyddid mynegiant yn hawl ddiamod – mae'n mynd law yn llaw â dyletswyddau a chyfrifoldebau ac mae hefyd yn dod o dan gyfyngiadau a therfynau cyfreithiol.

Wrth arfer rhyddid mynegiant, rhaid cynnig **amddiffyniad priodol i grwpiau sy'n agored i niwed** a rhaid i'r BBC osgoi **achosi tramgwydd diangen**. Rhaid parchu **preifatrwydd** pobl, fel arfer dim ond pan fydd budd y cyhoedd yn bwysicach na disgwyliad cyfreithlon unigolyn o breifatrwydd y dylid cyhoeddi gwybodaeth breifat.

Mae gan y BBC gyfrifoldeb neilltuol tuag at blant a phobl ifanc a rhaid iddo gadw eu hawl i godi llais a chael eu clywed. Lle maent yn cyfrannu i allbwn y BBC neu'n ymddangos ynddo, rhaid cymryd gofal dyladwy i sicrhau bod eu hurddas a'u lles corfforol ac emosiynol yn cael eu diogelu.

Mae hawl gan blant i gael gwybodaeth a dysgu am syniadau; fodd bynnag, rhaid i'r BBC sicrhau bod cynnwys a all fod yn anaddas iddynt yn cael ei amserlennu'n briodol.

# 1.3 BUDD Y CYHOEDD

Mae Cenhadaeth y BBC[4] yn nodi bod rhaid iddo 'weithredu **er budd y cyhoedd**'. Mae er budd y cyhoedd i'r BBC gyflawni ei genhadaeth i ddarparu allbwn sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Nid oes un diffiniad o fudd y cyhoedd; mae'n cwmpasu ystod eang o werthoedd ac egwyddorion sy'n ymwneud â'r hyn sydd er budd pennaf cymdeithas, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- rhyddid mynegiant
- darparu gwybodaeth sy'n helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth neu i wneud penderfyniadau ar faterion o bwys i'r cyhoedd
- atal pobl rhag cael eu camarwain gan ddatganiadau neu weithredoedd unigolion neu sefydliadau
- datgelu neu ganfod trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sylweddol
- datgelu llygredd, anghyfiawnder, anghymhwyster neu esgeulustod sylweddol.

[4] Erthygl 5 Cenhadaeth y BBC, Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

## 1.4 CYFIAWNHAD GOLYGYDDOL

Mae'r cysyniad o gyfiawnhad golygyddol yn codi'n aml ym mhob rhan o'r Canllawiau Golygyddol ac mae'n hanfodol ar gyfer cymhwyso gwerthoedd a safonau'r BBC.

Cyfiawnhad golygyddol yw'r farn bod mantais unrhyw benderfyniad neu gynnwys golygyddol yn gorbwyso unrhyw effaith negyddol. Dylid rhoi cyfiawnhad golygyddol fesul achos ac ystyried yr effaith ar gyfranwyr, neu, lle bo hynny'n berthnasol, y rheini sydd agosaf atynt, a chynulleidfaoedd. Mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: cydbwyso preifatrwydd unigolion yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu gwybodaeth amdanynt; a chydbwyso'r defnydd o allbwn a allai fod yn dramgwyddus yn erbyn rhyddid mynegiant y BBC a chynulleidfaoedd.

## 1.5 OFCOM

O dan y Siarter, rhaid i Ofcom reoleiddio safonau cynnwys perthnasol ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r gofynion yn Safonau a Chodau Tegwch Ofcom[5]. Felly mae'n ystyried cwynion yn erbyn rhywfaint o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar y BBC.

Nid yw Ofcom yn rheoleiddio safonau BBC World Service. Nid yw gwasanaethau darlledu masnachol y BBC, a ddarperir gan gwmnïau'r BBC, yn Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU ond bydd safonau eu cynnwys yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom lle maent yn cael eu dosbarthu o dan drwyddedau Ofcom.

Lle mae Ofcom yn canfod achos o dorri ei God Darlledu, gall fynnu bod y BBC yn darlledu datganiad o'i ganfyddiadau. Os bydd Ofcom o'r farn bod ei god wedi'i dorri 'yn ddifrifol, yn fwriadol, yn fynych neu'n ddifeddwl', gall osod sancsiynau sy'n amrywio o ofyniad i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiad i ddirwy o ddim mwy na £250,000.

## 1.6 ATEBOLRWYDD

Mae'r Siarter yn mynegi dyletswydd y BBC i fod yn dryloyw ac yn atebol. Rhaid i'r BBC gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a fydd yn cynnwys gwybodaeth yn dangos y modd cafodd safonau golygyddol priodol eu gosod, eu hadolygu a'u bodloni. Rhaid iddo gynnwys gwybodaeth hefyd am y modd y mae'r BBC wedi gwasanaethu gwledydd a rhanbarthau'r DU ac a wnaed newidiadau sylweddol i unrhyw Wasanaethau Cyhoeddus. Rhaid i ni hefyd adrodd ar y ffordd yr ymdriniwyd â chwynion a'r hyn a gafodd ei ddysgu o ganlyniad iddynt.

Ar ben hynny, bydd Bwrdd y BBC yn dal Gweithrediaeth y BBC i gyfrif i sicrhau bod safonau golygyddol yn cael eu cynnal. Bydd yn comisiynu adolygiadau thematig mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus a bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi.

## 1.7 CWYNION

Mae'r BBC yn barod i gydnabod camgymeriadau pan fyddant wedi'u gwneud ac am ddysgu gwersi o ganlyniad iddynt. Mae'n ofynnol iddo bennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion, a'u

[5] Erthygl 46 Prif Swyddogaethau Ofcom, Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

datrys. Mae Trefn Gwyno'r BBC [6] yn nodi o fewn pa gyfnodau y bydd cwynion yn cael eu hateb fel arfer ac yn ystyried rhwymedigaethau ei Wasanaethau Cyhoeddus a hefyd ei weithrediadau masnachol.

Y BBC sy'n ymdrin â chwynion am y mwyafrif o gynnwys y BBC[7] yn y lle cyntaf, fel y mae'r Weithdrefn Gwyno'n nodi[8]. Trafodir y cwynion gan dîm Gwasanaethau Cynulleidfaoedd y BBC yn gyntaf ond, os bydd achwynwyr yn anfodlon ar yr ymateb i'w cwyn, gallant ofyn i Uned Cwynion Gweithredol y BBC ymchwilio iddi.

Mae'r Uned Cwynion Gweithredol yn delio â chwynion am achosion posibl o dorri safonau golygyddol y BBC mewn cysylltiad â rhaglenni neu eitemau cynnwys penodol. Bydd yn delio â chwynion am unrhyw un o wasanaethau, llwyfannau neu gynhyrchion y BBC lle mae cyfrifoldeb golygyddol gan y BBC. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau rhyngwladol, cyhoeddus a masnachol a chylchgronau brand y BBC.

Bydd yr Uned Cwynion Gweithredol hefyd yn ystyried 'cwynion cyffredinol', a allai fod yn gwynion am faterion golygyddol sydd wedi'u hanelu at yr allbwn yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag at eitemau penodol, neu am amrywiaeth o faterion nad ydynt yn rhai golygyddol.

Mae penderfyniadau gan yr Uned Cwynion Gweithredol yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel prif olygydd y BBC.

Pan fydd yr Uned Cwynion Gweithredol yn canfod achos difrifol o dorri safonau golygyddol sydd yn y Canllawiau hyn, bydd ei chanfyddiad yn cael ei gyhoeddi fel arfer ar wefan gwynion y BBC. Hefyd gall roi cyfarwyddyd i'r BBC ddarlledu ymddiheuriad neu gywiriad.

Os bydd achwynwyr yn anfodlon ar ganfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol, a bod y gŵyn yn ymwneud â chynnwys y BBC sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom, gall yr achwynydd gyfeirio'r mater i sylw Ofcom, wedi i'r BBC orffen ystyried y gŵyn. Bydd Ofcom yn dyfarnu ynghylch a yw Cod Darlledu Ofcom wedi'i dorri.

Nid yw cwynion am gynnwys BBC World Service a chynnwys y BBC ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhan o gylch gorchwyl Ofcom. Caiff y rhain eu hystyried fel rhan o broses gwyno'r BBC, yn unol â'r Drefn Gwyno.

# 1.8 HYGYRCHEDD

Mae'r BBC wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob cynulleidfa ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael gafael ar allbwn.

Mae'r BBC yn darparu gwasanaethau is-deitlo, disgrifio clywedol ac iaith arwyddion, ond bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol' yn datblygu law yn llaw â thechnoleg[9].

---

[6] Fframwaith a Gweithdrefnau Cwyno'r BBC Mehefin 2020 https://www.bbc.co.uk/contact/sites/default/files/2024-05/Complaints_Framework_eng_0.pdf

[7] Gall unigolion gyflwyno cwynion parti cyntaf sy'n ymwneud â thegwch a phreifatrwydd yn uniongyrchol i Ofcom

[8] Fframwaith a Gweithdrefnau Cwyno'r BBC Mehefin 2020

[9] Polisïau'r BBC: Is-deitlau ar y Teledu a disgrifio Clywedol ar y Teledu. Mae'r rhain ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

Mae Ofcom hefyd yn pennu gofynion gorfodol ar gyfer pob darlledwr[10].

Bydd penderfyniadau a wneir drwy gydol y broses gynhyrchu yn cael effaith o ran a fydd allbwn yn hygyrch i bobl sydd â nam ar y golwg, gan gynnwys dallineb i liwiau, nam ar y clyw neu nam lleferydd. Rhaid i gynhyrchwyr ystyried y gofyniad bod cynnwys y BBC, i fod yn hygyrch i'r cynulleidfaoedd hynny, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.

(Gweler y canllawiau: Cynulleidfaoedd sydd â Nam ar y Golwg a Nam ar y Clyw)

# 1.9 SUT MAE DEFNYDDIO'R CANLLAWIAU

1.9.1 Mae gwybodaeth am y Canllawiau Golygyddol a bod yn gyfarwydd â nhw yn sgil broffesiynol hanfodol. Mae'n ofyniad contract i bawb sy'n gwneud neu'n cyflwyno cynnwys i'r BBC lynu wrthynt.

1.9.2 Wrth gymhwyso'r Canllawiau, disgwylir i gynhyrchwyr cynnwys unigol wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau angenrheidiol ar eu pen eu hunain, ond mae rhai materion yn galw am ystyriaeth ofalus ar lefel uwch. Ni ddylai neb oedi cyn gofyn am gyngor, ac mae'r Canllawiau Golygyddol felly yn cynghori, ac weithiau'n mynnu, bod materion yn cael eu hatgyfeirio i ffigyrau golygyddol uwch, y tîm Polisi Golygyddol neu arbenigwyr fel y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglen neu arbenigwyr ar ddiogelwch.

1.9.3 Rhaid i olygyddion a rheolwyr fod yn barod i drafod meysydd sy'n peri pryder a bod yn barod i gynnig cyfarwyddyd. Rhaid iddynt gynorthwyo cynhyrchwyr a staff eraill i reoli eu cynnwys o safbwynt golygyddol, a hynny'n cynnwys goruchwyliaeth effeithiol o ran cyflwynwyr ar yr awyr, gohebwyr a rolau eraill ar yr awyr.

1.9.4 Gall materion godi sy'n gorgyffwrdd ag ystyriaethau golygyddol, neu sydd ar wahân iddynt. Mae cynghorwyr mewnol arbenigol yn y BBC i roi cyngor ar faterion cyfreithiol, diogelu data, diogelwch, ynganu, ffilmio mewn gwledydd tramor ac iechyd a diogelu, y dylid ymgynghori â nhw fel y bo'n briodol. Mae gan BBC News swyddfeydd o gwmpas y byd yn ogystal â thîm ymchwil wleidyddol a phennaeth ystadegau.

Mae gan y BBC dîm cyfreithiol ar wahân yn yr Alban sy'n gallu darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith yr Alban.

**Rhaid atgyfeirio unrhyw benderfyniad i barhau â chynnwys neu barhau i gyhoeddi cynnwys sy'n groes i gyngor cyfreithiol y BBC at sylw Cyfarwyddwr yr Uwch-adran a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

[10] Cod Ofcom ar gyfer Gwasanaethau Mynediad at Deledu

## Canllawiau Golygyddol

1.9.5 Mae canllawiau ychwanegol sy’n ategu’r Canllawiau Golygyddol ar gael ar wefan Canllawiau Golygyddol y BBC. Mae’r canllawiau’n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ffyrdd i gymhwyso a dehongli meysydd penodol o’r Canllawiau. Bydd canllawiau newydd yn cael eu llunio pan fo angen.

## Atgyfeiriadau

1.9.6 Mae enw da’r BBC yn dibynnu ar benderfyniadau doeth, ac mae’r system atgyfeirio yn sicrhau bod penderfyniadau golygyddol cymhleth yn cael eu hystyried yn briodol. Mae atgyfeiriadau yn rhan hanfodol o broses olygyddol y BBC ac yn cyfrannu at ei gryfder. Mae’n bwysig na fydd neb sydd â rhan mewn gwneud neu gyflwyno allbwn y BBC yn oedi cyn atgyfeirio materion golygyddol sy’n achosi cyfyng-gyngor.

1.9.7 Mae’r Canllawiau Golygyddol yn pennu nifer o Atgyfeiriadau Gorfodol. Gall y rhain fod i olygyddion uwch yn uwch-adran yr allbwn, i’r tîm Polisi Golygyddol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol neu, weithiau, i rannau eraill o’r BBC.

Mae pob Atgyfeiriad Gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.

Mae crynodeb o’r Atgyfeiriadau Gorfodol ym mhob adran o’r Canllawiau. Fodd bynnag, er mwyn eu deall yn llawn, rhaid eu darllen yng nghyd-destun y Canllawiau perthnasol sydd wedi’u croesgyfeirio.

Po bwysicaf neu ddadleuol yw’r mater dan sylw, yr uchaf y dylid ei atgyfeirio. Y gwneuthurwr cynnwys sy’n gyfrifol am wybod at bwy y dylid atgyfeirio eu hymholiad. Os nad ydych chi’n siŵr, atgyfeiriwch.

1.9.8 Ar rai achlysuron, mae’r Canllawiau Golygyddol yn awgrymu neu’n mynnu y dylid atgyfeirio materion i sylw adnodd mewnol yn y BBC nad yw cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn gallu cysylltu atynt. Mewn achosion o’r fath, dylai cynhyrchwyr annibynnol dynnu sylw golygydd comisiynu'r BBC neu swyddog cyfatebol at y mater.

Dylai contractau â chwmnïau cynhyrchu annibynnol ddiffinio pwy sy'n gyfrifol am beth yn gyfreithiol a dylai cwmnïau cynhyrchu annibynnol geisio cyngor cyfreithiol annibynnol fel y bo’n briodol. Ond, gall cwmnïau cynhyrchu annibynnol atgyfeirio cwestiynau cyfreithiol o natur olygyddol drwy eu golygydd comisiynu ac mae’n bosibl y bydd yntau’n eu trafod â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

1.9.9 Dylid mynd ati’n brydlon i atgyfeirio unrhyw achos sylweddol o dorri’r safonau golygyddol yn y Canllawiau at olygydd uwch priodol, a fydd yn ystyried pa gamau y gallai fod angen eu cymryd – gan gynnwys a ddylid diwygio, cywiro neu ddileu cynnwys neu a ddylid rhoi ymddiheuriad.

## Polisi Golygyddol

1.9.10 Er mai cyfrifoldeb y timau allbwn yw cynnwys golygyddol, gellir gofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol. Mae’r tîm Polisi Golygyddol, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol, yn darparu cyngor ar sut mae gweithio o fewn y Canllawiau ar bob cam yn y broses gynhyrchu ar gyfer pob

math o gynnwys. Os yw'n bosibl bod cynnwys yn ddadleuol, gorau po gyntaf iddo gael ei atgyfeirio. Mae cyngor ar gael bob awr o'r dydd a'r nos.

Yn ogystal â'r atgyfeiriadau sydd wedi'u nodi ym mhob adran, mae modd ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol pan fydd cwestiynau'n codi ynglŷn â sut mae dehongli neu gymhwyso'r Canllawiau Golygyddol.

## Cydymffurfiaeth a Safonau Golygyddol

Cyfiawnhad golygyddol yw'r farn bod mantais unrhyw benderfyniad neu gynnwys golygyddol yn gorbwyso unrhyw effaith negyddol. Dylid rhoi cyfiawnhad golygyddol fesul achos ac ystyried yr effaith ar gyfranwyr, neu, lle bo hynny'n berthnasol, y rheini sydd agosaf atynt, a chynulleidfaoedd.

1.9.11 Mae rhwymedigaethau'r BBC i gydymffurfio yn galw am adolygu'r holl gynnwys nad yw'n fyw cyn ei gyhoeddi neu ei ddarlledu, ac am gofnodi a chadw canlyniadau'r adolygiad hwnnw. Mae Canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer allbwn byw. Mae'r rhan fwyaf o allbwn newyddion yn cael ei drin fel allbwn byw. Mae pob rhaglen fyw sy'n cynnwys pytiau sydd wedi cael eu recordio ymlaen llaw yn cael ei thrin fel rhaglen fyw.

(Gweler y canllawiau: Allbwn Byw)

Mae'r Canllawiau Golygyddol, atgyfeiriadau a chyngor gan y tîm Polisi Golygyddol yn gallu cyfrannu at y penderfyniadau sy'n hanfodol i sicrhau bod allbwn y BBC yn cydymffurfio â gofynion golygyddol. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen gofyn am gyngor cyfreithiol.

Mae cyngor ar y broses gydymffurfio ar gael gan Benaethiaid Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion a/neu reolwyr cydymffurfiaeth ym mhob uwch-adran allbwn.

# ADRAN 2: DIDUEDDRWYDD

2.1 Cyflwyniad
2.2 Egwyddorion
2.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
2.4 Canllawiau

- Didueddrwydd Dyladwy, Pwyslais Dyladwy ac Amrywiaeth Barn
- Pynciau Dadleuol, Polisi Cyhoeddus Cyfredol a Materion Gwleidyddol
- Didueddrwydd ar gyfer Allbwn Newyddion, Materion Cyfoes a Newyddiaduraeth Ffeithiol
- Mynegi Barn yn Gyhoeddus
- Pan mae'r Stori yn ymwneud â'r BBC neu ei Gynnwys neu ei Gyflwynwyr
- Safbwyntiau Dadleuol a Thramgwydd Posibl
- Cysylltiadau Cyfranwyr a Deunydd Newyddion a Ddarperir
- Defnyddio Technoleg
- Didueddrwydd a Chynulleidfaoedd
- Protestiadau a Gwrthdystiadau
- Craffu, Ymgyrchoedd a Chonsensws
- Etholiadau a Refferenda
- Didueddrwydd mewn Cyfresi a Thros Amser
- Gwleidyddion a Chynnwys Gwleidyddol fel rhan o Allbwn Anwleidyddol
- Drama, Adloniant a Diwylliant
- Cynnwys sy'n Farn Bersonol

# 2.1 CYFLWYNIAD

Mae bod yn ddiduedd yn un o ddibenion sylfaenol y BBC ac mae wedi'i ymgorffori yn Siarter y BBC. Mae'n golygu na ddylid ffafrio un ochr dros un arall ac adlewyrchu pob ochr berthnasol i'r ddadl. Mae'n golygu peidio â chymryd ochrau, adlewyrchu pob elfen berthnasol o ddadleuon cyhoeddus a'u herio yr un mor drylwyr â'i gilydd. Mae bod yn ddiduedd yn allweddol er mwyn cael perthynas o ymddiriedaeth â chynulleidfaoedd, fel eu bod yn gwybod nad oes unrhyw agenda bersonol nac agenda arall yn dylanwadu ar y BBC o ran yr hyn y mae'n dewis ei ddarlledu neu ei gyhoeddi neu yn y ffordd y mae'n ymdrin â straeon a'i fod yn ceisio cynnwys amrywiaeth eang o safbwyntiau ar unrhyw bwnc penodol.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn ei holl allbwn. Ystyr y term 'didueddrwydd dyladwy' yw ei fod yn ddigonol ac yn briodol i'r allbwn, gan ystyried y pwnc a

natur y cynnwys, disgwyliad tebygol y gynulleidfa ac unrhyw hysbysrwydd a all ddylanwadu ar y disgwyliad hwnnw[11].

Mae angen i'r BBC allu portreadu a chynnwys pob gwahanol fath o ddiddordebau a safbwyntiau ar draws yr holl gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu. Dylid adlewyrchu'r safbwyntiau a'r diddordebau hynny'n deg ac yn gywir, ac ni ddylai'r BBC gael ei weld yn hyrwyddo nac yn datgelu ei farn ei hun. Un ffordd allweddol o wneud hyn yw selio unrhyw wybodaeth ar ffeithiau ac ar dystiolaeth, gan ddal awdurdodau ac eraill i gyfrif, ar ran y cyhoedd, am yr hyn maen nhw'n ei ddweud ac yn ei wneud. Mae angen trafodaeth a barn i fynd ati'n effeithiol i fod yn ddiduedd yng nghynnyrch y BBC er mwyn gwneud pethau'n iawn; gall hyn olygu bod yn dryloyw wrth egluro sut mae llwyddo i fod yn ddiduedd ar ran pob cynulleidfa a mynd ati'n gyflym i gywiro unrhyw beth sy'n anghywir.

Bydd bod yn ddiduedd bob amser yn dibynnu ar grebwyll da, yn hytrach nag unrhyw fformiwla fathemategol; mae sawl elfen iddo, fel 'cywirdeb', 'tegwch', 'gwrthrychedd', 'meddwl agored' ac mae bob amser yn ystyried y cyd-destun. Fel arfer, mae mwy iddo na mater syml o 'gydbwyso' rhwng safbwyntiau croes ac nid yw'n atal penderfyniadau gwrthrychol rhag cael eu gwneud, ar sail tystiolaeth.

Nid yw bod yn ddiduedd yn golygu datgysylltu oddi wrth werthoedd democrataidd sylfaenol, gan gynnwys rhyddid mynegiant, yr hawl i bleidleisio, rheolaeth y gyfraith a rhyddid rhag dioddef gwahaniaethu. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhaid i'r BBC fod yn ddiduedd ar y dadleuon neu'r pynciau llosg cysylltiedig, ar unrhyw bolisïau neu ddewisiadau sy'n deillio o hynny ac ar weithredu'r gwerthoedd hyn mewn gwirionedd.

Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i allbwn newyddion a materion cyfoes a ffeithiol y BBC fodloni'r lefelau uchaf o ddidueddrwydd a chywirdeb. Mae'r cyfeiriadau yn y Canllawiau at allbwn newyddiaduraeth ffeithiol yn ymwneud â chynnwys o natur newyddiadurol sy'n cael ei gynhyrchu y tu allan i allbwn newyddion a materion cyfoes.

Mae geiriau ac ymddygiad yr holl bobl sy'n cynrychioli'r BBC yr un mor bwysig â chynnwys y BBC. Gall gweithgarwch allanol a mynegi barn yn gyhoeddus, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, gael gymaint o effaith ar ganfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC ag y mae allbwn. Bydd hyn yn cael ei weithredu'n wahanol yn dibynnu ar genre a rôl; **ac o ganlyniad, dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran 4: Gwrthdaro rhwng Buddiannau ac Adran 10: Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus, yn ogystal â'r canllawiau ar Ddidueddrwydd a'r canllawiau ar Ddefnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol.**

---

[11] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw adran 5: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau. Fodd bynnag, nid yw Rheol 5.13 Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau yn berthnasol i'r BBC

## 2.2 EGWYDDORION

2.2.1 Mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn ei holl allbwn.

2.2.2 Mae didueddrwydd y BBC yn ymgorffori egwyddorion cymdeithas ddemocrataidd; nid yw ar wahân i'w gwerthoedd.

2.2.3 Mae'r BBC wedi ymrwymo i adlewyrchu amrywiaeth fawr o bynciau a phersbectifau yn ein holl allbwn a thros gyfnod priodol fel na fydd unrhyw safbwynt pwysig yn cael ei adael allan na'i dangynrychioli'n fwriadol. O bryd i'w gilydd, bydd hynny'n cynnwys agweddau a barn a allai fod yn annymunol neu'n dramgwyddus i rai.

2.2.4 Mae angen y lefel uchaf o ddidueddrwydd mewn newyddion a newyddiaduraeth ar bob ffurf, gan roi pwys dyladwy i ddigwyddiadau, barn a'r prif safbwyntiau mewn dadleuon.

2.2.5 Gall y BBC arfer ei ryddid golygyddol i gynhyrchu cynnwys am unrhyw bwnc, ar unrhyw bwynt o fewn ystod y drafodaeth, ar yr amod bod rhesymau golygyddol da dros wneud hynny.

2.2.6 Nid yw sicrhau eich bod yn ddiduedd yn eich atal rhag gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth na gwneud penderfyniad golygyddol i ganolbwyntio'r craffu ar safbwynt penodol.

2.2.7 Nid oes gofyniad i roi'r un pwyslais ar bob barn – nid yw cywerthedd ffug yn sicrhau didueddrwydd a dylid osgoi hynny. Nid oes angen rhoi'r un amlygrwydd a phwyslais i safbwyntiau lleiafrifol na'r rheini sydd â llai o dystiolaeth i'w cefnogi â'r hyn ar roddir i'r rheini sydd â mwy o gefnogaeth, i'r consensws cyffredinol, neu'r rheini sydd a mwy o dystiolaeth i'w cefnogi[12].

2.2.8 Dylai allbwn y BBC ystyried y gwahanol ddiwylliannau a strwythurau gwleidyddol ar draws y DU a safbwyntiau gwahanol rhai cymunedau a charfanau o gymdeithas. Dylai gydnabod pan fydd gwahaniaeth yn y prif safbwyntiau mewn dadl, yn enwedig yn y Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr, gan roi pwys ac amlygrwydd dyladwy iddynt mewn allbwn ar draws y DU.

2.2.9 Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i artistiaid, awduron a diddanwyr gael rhyddid i edrych ar bynciau o safbwynt penodol ac i greu cynnwys sy'n adlewyrchu eu llais neilltuol eu hunain. Rhaid iddi fod yn glir i gynulleidfaoedd ble mae barn bersonol yn cael ei mynegi.

2.2.10 Lle mae cynnwys y BBC yn tynnu sylw at faterion y mae eraill yn ymgyrchu arnynt, rhaid bod yn ofalus i beidio â chefnogi'r ymgyrchoedd hynny, na chaniatáu iddi ymddangos bod y BBC yn ymgyrchu dros newid polisi cyhoeddus. Ond ni ddylai hyn atal allbwn rhag tynnu sylw at

---

[12] I gael gwybodaeth am ddidueddrwydd yn ystod refferenda ac etholiadau, gweler Adran 10: Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus

faterion a chynnig gwybodaeth a dewisiadau i gynulleidfaoedd ynghylch sut i'w deall a pherthnasu iddynt.

# 2.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeiriadau i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth

2.3.1 Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle bydd barn benodol neu unigol yn cael ei mynegi ar 'bwnc dadleuol', polisi cyhoeddus cyfredol neu fater gwleidyddol ar raglen unigol neu gynnwys arall y BBC, fel rhaglen ddogfen barn bersonol neu ddrama, nad yw'n rhan o gyfres neu allbwn parhaus neu hirhoedlog. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i sicrhau ei fod yn dal i fodloni'r gofynion o ran didueddrwydd dyladwy.

(Gweler 2.4.30)

2.3.2 Rhaid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn gwneud unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i gymryd rhan mewn allbwn na fyddai fel arfer yn cynnwys gwleidyddion, barn wleidyddol na 'materion dadleuol', ni waeth a yw'r cyfraniad arfaethedig ei hun yn 'wleidyddol' ai peidio. Rhaid hefyd atgyfeirio unrhyw gynnig gan wleidydd i gymryd rhan mewn allbwn o'r fath cyn y gellir derbyn neu wrthod y cynnig.

(Gweler 2.4.31)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.3-10.4.5)

## Atgyfeiriadau Eraill

2.3.3 Rhaid i unrhyw unigolyn mewn rôl lle mae didueddrwydd[13] yn ofynnol sy'n bwriadu mynegi barn yn gyhoeddus ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol, gwleidyddiaeth neu unrhyw fater dadleuol, neu gymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol, roi gwybod i'w reolwr llinell ymlaen llaw, a dylai'r rheolwr llinell ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth os oes perygl i ddidueddrwydd, neu'r canfyddiad o ddidueddrwydd.

(Gweler 2.4.14)

---

[13] Canllawiau: Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol

(Gweler Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 4.4.13-4.4.20)

2.3.4 Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n bwriadu ceisio cael ei enwebu fel ymgeisydd plaid ar gyfer etholiad ar lefel genedlaethol neu leol, neu sy'n bwriadu datgan yn gyhoeddus eu bod am fod yn ymgeisydd annibynnol, hysbysu eu rheolwr llinell ymlaen llaw, a ddylai wedyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn datgan bwriad yn gyhoeddus.

(Gweler 2.4.14)

(Gweler Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 4.4.21-4.4.23)

2.3.5 Oni bai ei fod yn gyfrifoldeb proffesiynol, rhaid i unrhyw unigolion sy'n gwneud sylwadau cyhoeddus – fel ar gyfryngau cymdeithasol – ar faterion y BBC, straeon am y BBC, neu faterion sy'n ymwneud â darlledwyr eraill neu bolisi darlledu, ymgynghori â'u rheolwr llinell ymlaen llaw.

(Gweler 2.4.15)

2.3.6 Gallai rhai safbwyntiau ac iaith achosi tramgwydd difrifol, ond gallai methu â'u hadlewyrchu arwain at oblygiadau o ran didueddrwydd y BBC; os oes perygl o naill ai achosi tramgwydd difrifol neu beryglu didueddrwydd, rhaid gwneud atgyfeiriad i ffigwr golygyddol uwch, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 2.4.16)

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.24-5.4.36)

2.3.7 Wrth gomisiynu allbwn drama, adloniant neu ddiwylliannol sy'n ymdrin â materion polisi cyhoeddus cyfredol, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu 'bynciau dadleuol' eraill, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol ymlaen llaw.

(Gweler 2.4.33)

2.3.8 Rhaid i ffigwr golygyddol uwch fod yn gyfrifol ac yn atebol am oruchwylio'r gwaith o ddefnyddio a pharhau i ddefnyddio unrhyw Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Dylai ofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol, a all ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Risg Deallusrwydd Artiffisial, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r deallusrwydd artiffisial.

Ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, dylid trafod unrhyw ddefnydd arfaethedig o ddeallusrwydd artiffisial fel rhan o'r broses gomisiynu, mewn achosion lle gallai fod effaith sylweddol ar gynnwys i gynulleidfaoedd. Dylai ffigwr golygyddol uwch, sy'n gyfrifol am gydymffurfio o fewn y tîm cynhyrchu, fod yn gyfrifol ac yn atebol am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial.

(Gweler 2.4.19)

## 2.4 CANLLAWIAU

## Didueddrwydd Dyladwy, Pwyslais Dyladwy ac Amrywiaeth Barn

2.4.1 Mae didueddrwydd yn golygu peidio â ffafrio un ochr dros un arall. Ystyr 'dyladwy' yw bod rhaid i'r didueddrwydd fod yn ddigonol ac yn briodol i'r allbwn, gan ystyried pwnc a natur y cynnwys, disgwyliad tebygol y gynulleidfa ac unrhyw hysbysrwydd a all ddylanwadu ar y disgwyliad hwnnw.

Nid yw didueddrwydd dyladwy yn golygu bod yn rhaid rhoi amser cyfartal i bob barn, neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl bob achlysur. Mae cyd-destun yn bwysig, ac felly hefyd genre a llwyfan yr allbwn.

2.4.2 Rhaid i'r BBC fod yn gynhwysol, gan adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth barn, ar draws yr allbwn yn ei gyfanrwydd.

Efallai y bydd ehangder ac amrywiaeth barn yn gofyn nid yn unig am ystod wleidyddol a diwylliannol, ond hefyd am ystyried amrywiadau eraill, fel rhwng pobl hŷn ac iau, tlawd a chyfoethog, trefol a gwledig, a rhwng yr arloesol a'r drefn bresennol. Gall gynnwys archwilio safbwyntiau mewn gwahanol gymunedau, grwpiau diddordeb ac ardaloedd daearyddol. Ar adegau, bydd angen cynnwys safbwyntiau y gallai rhai aelodau o'r cymunedau neu'r grwpiau hynny ddadlau na ddylid eu cynnwys, oherwydd eu bod yn eu hystyried yn annymunol neu'n dramgwyddus.

2.4.3 Nid yw didueddrwydd yn galw o reidrwydd am gynnwys pob persbectif neu farn yn gyfartal yn yr allbwn cyfan neu o fewn un rhaglen, tudalen we neu eitem. Yn hytrach, dylai gwneuthurwyr cynnwys geisio cyflawni 'pwys dyladwy'. Er enghraifft, ni ddylid o reidrwydd rhoi'r un amlygrwydd a phwyslais i safbwyntiau lleiafrifol na'r rheini sydd â llai o dystiolaeth i'w cefnogi â'r hyn ar roddir i'r rheini sydd â mwy o gefnogaeth, i'r consensws cyffredinol, neu'r rheini sydd a mwy o dystiolaeth i'w cefnogi[14].

(Gweler 2.4.22)

2.4.4 Ar adegau, mae'n bosibl y gallai hepgor barn neu ddeunydd arall beryglu didueddrwydd neu gywirdeb. Nid oes unrhyw farn ar unrhyw bwnc na ddylid ei chynnwys fel mater o egwyddor; dylai cynhyrchwyr cynnwys wneud penderfyniadau rhesymegol, ar sail barn olygyddol gyson, ynghylch a ddylid cynnwys neu hepgor safbwyntiau o'r fath.

(Gweler 2.4.16)

## Pynciau Dadleuol, Polisi Cyhoeddus Cyfredol a Materion Gwleidyddol

---

[14] I gael gwybodaeth am ddidueddrwydd yn ystod refferenda ac etholiadau, gweler Adran 10: Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus

2.4.5 Mae'r BBC yn rhoi didueddrwydd dyladwy i bob pwnc; fodd bynnag, mae gofynion penodol o ran materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol', gan gynnwys lle maent yn digwydd mewn unrhyw allbwn y tu allan i newyddion, materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol, fel mewn chwaraeon, drama, adloniant, comedi ac mewn mannau eraill[15].

Bydd pynciau dadleuol yn codi mewn meysydd polisi cyhoeddus, fel iechyd, addysg neu ddigwyddiadau byd-eang, ac mewn perthynas â gwleidyddiaeth, materion cymdeithasol neu economaidd neu faterion diwydiannol. Yn ogystal â materion sy'n destun trafodaethau polisi cyhoeddus cyfredol, gall unrhyw faes arall gynnwys pynciau dadleuol, fel crefydd, gwyddoniaeth, diwylliant, hunaniaeth neu foeseg. Gall materion hanesyddol, pynciau a allai fod wedi ymddangos fel eu bod wedi'u setlo o'r blaen neu'r rhai y deddfwyd arnynt, fod yn ddadleuol unwaith yn rhagor.

2.4.6 Pan fydd gwneuthurwyr cynnwys yn penderfynu a yw pynciau'n ddadleuol, yn y DU neu'n rhyngwladol, dylent ystyried y canlynol:

- lefel yr ymryson a dadlau cyhoeddus a gwleidyddol
- a yw'r pwnc yn destun dadlau sylweddol neu'n fater pwysig mewn gwlad, rhanbarth neu gymuned benodol neu mewn ardal ar wahân sy'n debygol o daro tant gyda rhan sylweddol o'r gynulleidfa
- pa mor amserol yw'r pwnc
- y sensitifrwydd o ran credoau a diwylliannau cynulleidfaoedd perthnasol
- barn resymol ynghylch a yw'r pwnc yn un pwysig
- y gwahaniaeth rhwng materion seiliedig ar ffaith a'r rheini sy'n fater o farn.

Mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol ynghylch a yw pwnc yn 'ddadleuol'.

2.4.7 Wrth ddelio â 'phynciau dadleuol', polisi cyhoeddus cyfredol neu faterion gwleidyddol, rhaid i'r BBC sicrhau bod pwys a sylw dyladwy yn cael eu rhoi i amrywiaeth fawr o farnau a phersbectifau arwyddocaol, yn enwedig os yw'r dadlau amdanynt yn frwd. Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng barn a ffaith.

(Gweler 2.4.28-2.4.30)

2.4.8 Rhaid cymryd gofal neilltuol i sicrhau didueddrwydd dyladwy pan fo lle i gredu bod 'pwnc dadleuol' yn fater o bwys[16]. Ar y cyfan, mae 'materion o bwys' yn faterion sy'n ddadleuol o ran

---

[15] Gweler Cod Ofcom Adran 5 ar gyfer Ystyr 'materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol'

[16] Gweler Cod Ofcom Adran 5.11 ar gyfer Ystyr 'materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol sylweddol a materion o bwys sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol'

polisi cyhoeddus cyfredol neu mewn cyd-destun gwleidyddol neu ddiwydiannol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol, neu o bwysigrwydd tebyg o fewn ardal lai.

Wrth ddelio â ‘materion o bwys’, neu pan fydd y materion dan sylw’n ddadleuol iawn a/neu pan fydd disgwyl moment dyngedfennol yn y dadlau, rhaid cynnwys ystod eang briodol o safbwyntiau pwysig a rhoi pwys dyladwy iddynt ar bob rhaglen neu eitem ar y we neu mewn rhaglenni neu eitemau sydd â chysylltiad clir ac amserol. Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau.

2.4.9 Fel arfer mae didueddrwydd dyladwy yn caniatáu i allbwn edrych neu adrodd ar agwedd benodol o fater penodol neu roi cyfle i fynegi un safbwynt neu i’r craffu ganolbwyntio ar safbwynt penodol. Dylid nodi hyn yn glir wrth ddelio â ‘phynciau dadleuol’ neu faterion gwleidyddol neu rai sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Dylid cydnabod bod amrywiaeth o safbwyntiau o wahanol bwys yn bodoli, ac ni ddylid camgyfleu’r safbwyntiau hynny na’r pwys a roddir iddynt.

(Gweler 2.4.3-2.4.4)

Dylid ystyried o fewn pa gyfnod y dylid adlewyrchu persbectifau eraill ac a oes angen eu cynnwys neu beidio eu cynnwys mewn allbwn arall cysylltiedig. Efallai y bydd angen dwyn i sylw cynulleidfaoedd lle mae cysylltiad clir rhwng elfennau o allbwn sydd wedi’u gwahanu, er enghraifft ar draws cyfres o gyfweliadau dros amser, neu at raglen arall ar yr un gwasanaeth, fel bod didueddrwydd cyffredinol yn cael ei gyflawni. Lle bo’n briodol, dylid cyfeirio yn ôl at allbwn blaenorol, yn ogystal â chyfeirio ymlaen at allbwn wedi’i gynllunio; fel arfer dylid nodi’r cysylltiad yn glir.

(Gweler 2.4.27-2.4.29)

Os yw allbwn o’r fath yn cynnwys honiadau difrifol, mae’n bosibl y bydd angen ymateb iddynt, un ai’n rhan o’r un allbwn neu mewn allbwn arall sy’n gysylltiedig ac wedi’i ddwyn i sylw’r gynulleidfa.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

2.4.10 Lle mae gwefan ar-lein y BBC sy’n rhoi sylw i ‘bynciau dadleuol’ yn cynnig dolenni i wefannau allanol, dylai geisio sicrhau bod y wybodaeth ar y gwefannau allanol hynny, o’u cymryd gyda’i gilydd, yn cynrychioli ystod resymol o safbwyntiau am y pwnc.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.22)

(Gweler y canllawiau: Dolenni a Ffrydiau)

## Didueddrwydd ar gyfer Allbwn Newyddion, Materion Cyfoes a Newyddiaduraeth Ffeithiol

2.4.11 Rhaid trin newyddion ym mha ffurf bynnag gyda didueddrwydd dyladwy, gan roi pwys dyladwy i ddigwyddiadau, barn a'r prif safbwyntiau mewn dadleuon. Mae'n bwysig bod ymagwedd a thôn straeon newyddion yn adlewyrchu gwerthoedd golygyddol y BBC bob amser, yn cynnwys ein hymrwymiad i ddidueddrwydd.

2.4.12 Y cyflwynwyr, y gohebwyr a'r golygyddion ar yr awyr yw wyneb cyhoeddus a llais y BBC; gallant gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau ynghylch a yw didueddrwydd dyladwy wedi'i sicrhau. Ni ddylai cynulleidfaoedd allu dweud o allbwn y BBC - nac o unrhyw le arall - beth yw barn bersonol ei newyddiadurwyr na'i gyflwynwyr mewn newyddion a materion cyfoes na newyddiaduraeth ffeithiol am faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, materion sy'n ddadleuol o ran polisi cyhoeddus neu mewn cyd-destun gwleidyddol neu ddiwydiannol, nac am 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall.

Gallant ddarparu barn broffesiynol, wedi'i seilio ar dystiolaeth a phrofiad proffesiynol, ond ni chânt fynegi barn bersonol am faterion o'r fath yn gyhoeddus, gan gynnwys mewn unrhyw allbwn sydd â brand y BBC neu mewn blogiau personol neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

2.4.13 Er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy mae angen bod yn ymwybodol y gall rhagfarnau anfwriadol ddeillio o ddefnyddio iaith ensyniadol, o ragdybiaethau yn yr isymwybod ac o ddewisiadau ynghylch amlygrwydd. Er enghraifft, gallai ymadrodd fel 'baich trethiant' awgrymu barn ragfarnllyd ynglŷn â threthiant. Mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

## Mynegi Barn yn Gyhoeddus

2.4.14 Bydd angen i bob unigolyn sydd â rolau lle mae'n hollbwysig eu bod yn ddiduedd asesu risg a chymryd cyfrifoldeb personol o ran beth yw mynegi eu barn yn 'gyhoeddus', er enghraifft, mewn grwpiau cyfryngau cymdeithasol caeedig, cyfarfodydd preifat (ar-lein neu wyneb yn wyneb) neu amgylchiadau eraill y gallent, fel arfer, ystyried eu bod yn gyfrinachol.

**Rhaid i unrhyw unigolyn mewn rôl lle mae didueddrwydd yn ofynnol sy'n bwriadu mynegi barn yn gyhoeddus ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol, gwleidyddiaeth neu unrhyw fater dadleuol, neu gymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol, roi gwybod i'w reolwr llinell ymlaen llaw, a dylai'r rheolwr llinell ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth os oes perygl i ddidueddrwydd, neu'r canfyddiad o ddidueddrwydd.**

(Gweler Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 4.4.14-4.4.18)

(Gweler y canllawiau: Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol)

**Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n bwriadu ceisio cael ei enwebu fel ymgeisydd plaid ar gyfer etholiad ar lefel genedlaethol neu leol, neu sy'n bwriadu datgan yn gyhoeddus ei fod am fod yn ymgeisydd annibynnol, hysbysu ei reolwr llinell ymlaen llaw, a ddylai wedyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn datgan bwriad yn gyhoeddus.**

(Gweler Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 4.4.19-4.4.23)

## Pan mae'r Stori yn ymwneud â'r BBC neu ei Gynnwys neu ei Gyflwynwyr

2.4.15 Wrth ddelio â materion sy'n ymwneud â'r BBC ei hun, rhaid i ohebu'r BBC aros yn ddyladwy o ddiduedd, yn ogystal â bod yn gywir a theg.

Bydd yn bwysig bod gwahaniad golygyddol clir rhwng y rheini sy'n gohebu ar y stori a'r rheini sy'n gyfrifol am gyflwyno safbwynt corfforaethol y BBC. Dylai cyflwynwyr a gohebwyr fod yn ofalus i sicrhau eu bod yn osgoi unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau. Wrth ohebu am y BBC, bydd yn amhriodol fel arfer i ni gyfeirio at y BBC drwy ei alw'n 'ni' neu alw'r cynnwys yn 'ein cynnwys ni'.

(Gweler Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 4.4.16)

Gall profiad personol gohebwyr a chyflwynwyr – er enghraifft, mewn perthynas â'u hunaniaeth – fod yn berthnasol wrth adrodd straeon; dylai cyd-destun unrhyw adroddiadau o'r fath fod yn briodol, ac yn gyffredinol dylid ei ddwyn i sylw'r gynulleidfa ymlaen llaw ac ni ddylai amharu ar eu didueddrwydd nhw nac ar ddidueddrwydd y BBC.

**Oni bai ei fod yn gyfrifoldeb proffesiynol, rhaid i unrhyw unigolion sy'n gwneud sylwadau cyhoeddus – fel ar gyfryngau cymdeithasol – ar faterion y BBC, straeon am y BBC, neu faterion sy'n ymwneud â darlledwyr eraill neu bolisi darlledu, ymgynghori â'u rheolwr llinell ymlaen llaw.**

## Safbwyntiau Dadleuol a Thramgwydd Posibl

2.4.16 Mae rhyddid mynegiant yn hanfodol i'r BBC; o bryd i'w gilydd, bydd hyn yn golygu cynnwys safbwyntiau neu ddatganiadau a allai fod yn sarhaus neu'n annerbyniol i rai carfanau o'r gynulleidfa.

Rhaid herio cyfranwyr sy'n mynegi safbwyntiau dadleuol, naill ai drwy gyfweliad neu drwy ddulliau eraill, a hefyd rhoi cyfle teg iddynt nodi eu hymateb i graffu priodol; fel arfer dylid cynnig safbwyntiau amgen fel rhan o'r un allbwn, dros amser os oes angen. Dylid rhoi lle priodol i safbwyntiau lleiafrifol yn yr allbwn.

Wrth ymdrin â hyn, dylid cydnabod y posibilrwydd o beri tramgwydd, gan ei drafod gyda chadernid priodol, ond dylid hefyd fod yn deg a gwrthrychol.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.43-5.4.44 ac Adran 8 Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3)

Os oes bwriad i unrhyw allbwn ddarparu cynnwys, fel iaith neu olygfeydd a allai achosi tramgwydd difrifol, rhaid pwyso a mesur hynny ochr yn ochr â budd y cyhoedd.

**Gallai rhai safbwyntiau ac iaith achosi tramgwydd difrifol, ond gallai methu â'u hadlewyrchu arwain at oblygiadau o ran didueddrwydd y BBC; os oes perygl o naill ai achosi tramgwydd difrifol neu beryglu didueddrwydd, rhaid gwneud atgyfeiriad i ffigwr golygyddol uwch, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.24-5.4.36)

Os bydd staff a chyflwynwyr yn mynegi'n gyhoeddus eu hymatebion personol eu hunain i ddatganiad neu fater – fel tramgwydd personol neu ddicter; neu gytundeb neu gymeradwyaeth – gallai hynny beryglu canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC a gallai roi argraff o ragfarn. Gallai canfyddiadau tebyg ddeillio o'r dôn neu'r agwedd a ddangoswyd wrth gyflwyno eitem neu raglen.

## Cysylltiadau Cyfranwyr a Deunydd Newyddion a Ddarperir

2.4.17 Ni ddylid tybio bod cyfranwyr i allbwn y BBC yn amhleidiol nac yn ddiduedd. I'r rheini sy'n dod o sefydliadau fel elusennau, melinau trafod neu brifysgolion, efallai y bydd angen, pan fo hynny'n berthnasol, rhoi gwybodaeth briodol am gysylltiadau, cyllid neu safbwyntiau penodol. Mae'r un peth yn wir am ymchwilwyr unigol, newyddiadurwyr, gwyddonwyr neu arbenigwyr eraill ac, o bryd i'w gilydd, i gyfranwyr a allai fod yn sôn am eu profiadau eu hunain. Y prawf allweddol yw ystyried a fyddai'r gynulleidfa'n cael ei chamarwain pe na bai gwybodaeth o'r fath ar gael. Efallai y bydd angen ystyried hefyd a oes perygl i gysylltiadau o'r fath danseilio ymddiriedaeth yng nghredadwyedd proffesiynol y cyfrannwr neu ddilysrwydd tybiedig eu profiadau.

2.4.18 Weithiau, bydd sefydliadau allanol, fel cwmnïau, y gwasanaethau brys, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau diddordeb, clybiau chwaraeon, ymgyrchwyr, elusennau neu sefydliadau eraill sy'n ceisio llwyfan yn darparu datganiadau newyddion fideo a sain neu ddeunydd arall (er enghraifft, defnyddio nodiadau llais fel hawl i ymateb) fel ffordd o osgoi craffu priodol. Gall defnyddio deunydd o'r fath beryglu didueddrwydd neu'r canfyddiad o ddidueddrwydd; fel rheol

dim ond dyfyniadau o ddeunydd o'r fath y dylai'r BBC eu defnyddio pan nad yw'n gallu ei gasglu dros ei hun a bod ei arwyddocâd golygyddol yn cyfiawnhau ei ddefnyddio.

Dylid nodi'n glir pan fydd datganiadau newyddion fideo a sain, neu ddeunydd arall a gyflenwir gan sefydliadau allanol yn cael eu defnyddio, gan nodi pwy a'i darparodd ac egluro ym mha amgylchiadau perthnasol y cafodd ei gynhyrchu.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.14)

## Defnyddio Technoleg

2.4.19 Gall defnydd cynyddol o dechnolegau, fel awtomatiaeth neu ddeallusrwydd artiffisial, effeithio ar y canfyddiad o ddidueddrwydd y BBC neu realiti hynny. Gall technolegau newydd ddarparu manteision golygyddol neu weithredol, ond dylai gwneuthurwyr cynnwys hefyd ystyried y risgiau golygyddol a achosir gan unrhyw ddefnydd uniongyrchol o ddeallusrwydd artiffisial wrth greu cynnwys, wrth gefnogi cynhyrchu neu ymchwil olygyddol, neu wrth ddosbarthu a churadu cynnwys. Dylid hefyd ystyried materion eraill, gan gynnwys materion cyfreithiol, hawliau, diogelu data a diogelwch gwybodaeth.

**Rhaid i ffigwr golygyddol uwch fod yn gyfrifol ac yn atebol am oruchwylio'r gwaith o ddefnyddio a pharhau i ddefnyddio unrhyw ddeallusrwydd artiffisial. Dylai ofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol, a all ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Risg Deallusrwydd Artiffisial, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r deallusrwydd artiffisial.**

**Ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, dylid trafod unrhyw ddefnydd arfaethedig o ddeallusrwydd artiffisial fel rhan o'r broses gomisiynu, mewn achosion lle gallai fod effaith sylweddol ar gynnwys i gynulleidfaoedd. Dylai ffigwr golygyddol uwch, sy'n gyfrifol am gydymffurfio o fewn y tîm cynhyrchu, fod yn gyfrifol ac yn atebol am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial.**

Mae unrhyw gynnyrch sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddosbarthu neu guradu cynnwys yn cael ei ystyried yn brofiad golygyddol ac felly mae angen cymeradwyaeth olygyddol a goruchwyliaeth gan bobl.

(Gweler y canllawiau: Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial)

## Didueddrwydd a Chynulleidfaoedd

2.4.20 Mae gwrando ar gynulleidfaoedd ac ymgysylltu â nhw a chynnwys eu persbectifau'n ganolog i allbwn y BBC. Ond ni ddylid priodoli arwyddocâd ehangach i ymatebion nag y maent yn ei haeddu a dylid gofalu nad yw pwys cymharol y safbwyntiau a fynegir yn cael eu camgyfleu. Mae'n bosibl y bydd angen craffu'n briodol ar farn cynulleidfaoedd a sicrhau nad yw'n

ymddangos bod aelodau o’r gynulleidfa sy’n arddel barn leiafrifol yn cael eu diystyru mewn dadl.

(Gweler 2.4.16)

(Gweler Adran 11 Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon: 11.4.25-11.4.46)

(Gweler y canllawiau: Cyfraniadau a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr)

## Protestiadau a Gwrthdystiadau

2.4.21 Mae protestiadau a gwrthdystiadau’n rhan bwysig o’r broses ddemocrataidd ac maent yn cael sylw fel mater o drefn fel rhan o allbwn newyddion y BBC. Dylai cyfweliadau â threfnwyr, protestwyr a gwrthdystiadau fod yn ddiduedd, yn drylwyr ac yn heriol; dylai’r allbwn gynnwys safbwyntiau gwahanol.

Yn ogystal, mae’n bwysig bod gwneuthurwyr cynnwys yn gwneud y canlynol:

- asesu’r risg y gallai rhoi rhagolwg o brotestiadau a gwrthdystiadau annog pobl i gymryd rhan ac felly newid natur y digwyddiad; fodd bynnag, ni ddylai hyn atal trafodaeth ymlaen llaw am y materion sy’n sail i’r brotest
- tynnu’n ôl ar unwaith os bydd protest neu wrthdystiad heddychlon yn troi’n dreisgar a’u bod yn credu bod eu presenoldeb yn gwaethygu’r sefyllfa a/neu’n cyfrannu at y newid i natur y digwyddiad
- bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried a ddylid defnyddio deunydd sy’n cael ei bostio gan brotestwyr i roi cyhoeddusrwydd i’w gweithredoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a’u cyfiawnhau.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.12, Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.10, Adran 12 Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.10 ac Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.68)

## Craffu, Ymgyrchoedd a Chonsensws

### Craffu

2.4.22 Dylai newyddiaduraeth y BBC graffu ar ddadleuon, herio consensws a dal y rhai sydd mewn grym yn atebol mewn ffordd gyson gan arfer didueddrwydd dyladwy. Dylai asesu lefelau craffu priodol fod yn seiliedig ar faint o bŵer, cyfrifoldeb ac atebolrwydd sydd gan y cyfrannwr.

Dylid defnyddio lefelau priodol o graffu i’r rheini sydd mewn llywodraeth, yn ogystal â chyrff neu sefydliadau eraill sydd â phŵer a chyfrifoldeb; ond dylid hefyd graffu’n briodol ar y rheini sy’n gwrthwynebu neu’n ceisio dylanwadu, gan gynnwys gwrthbleidiau, ymgyrchwyr, arbenigwyr ac

academyddion. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen craffu hefyd ar safbwyntiau a fynegir gan aelodau o'r cyhoedd.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys y BBC gwestiynu, gwirio a, phan fo'n briodol, profi ffeithiau a herio safbwyntiau a gyflwynir gan gyfranwyr, pan fydd hynny'n berthnasol. Dylent fod yn ofalus eu bod yn canfod a phriodoli gwybodaeth a data amgen neu anghyson lle bo hynny'n briodol, fel ei bod yn amlwg nad yw'r craffu'n seiliedig ar gredoau neu farn y BBC, ei newyddiadurwyr neu ei gyflwynwyr.

Pan fydd cyfwelwyr yn defnyddio cwestiynau sy'n rhoi ochr arall y ddadl, dylai fod yn amlwg i'r gynulleidfa nad ydynt yn mynegi eu barn eu hunain na barn y BBC.

## Ymgyrchoedd, Mentrau a Gweithredu Cymdeithasol

2.4.23 Lle mae cynnwys y BBC yn tynnu sylw at faterion y mae eraill yn ymgyrchu arnynt, ni ddylai gefnogi'r ymgyrchoedd hynny, na chaniatáu iddo gael ei defnyddio i ymgyrchu dros newid polisi cyhoeddus. Ond ni ddylai hyn atal y BBC rhag tynnu sylw at faterion a chynnig gwybodaeth a dewisiadau i gynulleidfaoedd ynghylch sut i'w deall a pherthnasu iddynt.

Mae'n rhaid i'r BBC (a staff perthnasol yn unigol) aros yn annibynnol ar fentrau'r llywodraeth, ymgyrchwyr, elusennau a'u hagendâu ac wedi'i ddatgysylltu oddi wrthynt, ni waeth pa mor deilwng y mae'r achos yn ymddangos na pha mor annadleuol neu dderbyniedig yr ymddengys eu neges.

Bydd angen ystyried yn ofalus i sicrhau bod canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC yn cael eu cynnal pan fydd cynnwys yn cael ei amserlennu fel ei fod yn amserol ac yn cyd-ddigwydd ag ymgyrch neu fenter gan drydydd parti. Mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.22)

2.4.24 Mae rhai materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn gallu bod yn addas ar gyfer astudiaethau achos cefnogol neu'n fwy tebygol o gael eu trin o safbwynt unigolyn, er enghraifft rhywun a effeithir gan dlodi neu salwch penodol. Lle gallai dull o'r fath beryglu canfyddiadau ynghylch didueddrwydd y BBC (er enghraifft, os oes gan yr unigolyn gysylltiadau perthnasol), bydd angen ystyried cynnwys cyd-destun ehangach neu safbwyntiau gwahanol, boed hynny o fewn yr eitem neu dros amser.

Pan fydd modd bodloni gofynion didueddrwydd dyladwy mewn eitem o'r fath, efallai y bydd angen ystyried effaith gronnus bosibl o hyd os bydd dull tebyg yn cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro ar draws yr un gwasanaeth. Hefyd, bydd angen i reolwyr allbwn perthnasol ystyried effaith gronnol o'r fath ar draws gwasanaethau gwahanol i sicrhau nad oes canfyddiad o duedd.

2.4.25 Gall allbwn am weithredu cymdeithasol fod yn rhan bwysig o wasanaeth cyhoeddus y BBC. Fodd bynnag, mae angen cymryd gofal i sicrhau bod y BBC yn gosod ei agenda ei hun ar

weithredu cymdeithasol ac yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun. Dylai gwneuthurwyr cynnwys sicrhau'r canlynol:

- nad yw allbwn yn cynnwys agenda unrhyw grwpiau ymgyrchu neu elusennau penodol yn unig (ac eithrio ar gyfer apelau elusennol y BBC) a bod grwpiau'n cael eu trin yn wrthrychol, ac nad yw'n ffafrio un dros y llall
- os bydd rhaglenni neu ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol y BBC yn digwydd ar yr un pryd ag ymgyrch gan lywodraeth neu fenter lobïo, cedwir hyd braich oddi wrthynt
- nid yw'r BBC yn lobïo ar faterion polisi cyhoeddus wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol pwysig
- mae adroddiadau newyddion am ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol y BBC yn ddyladwy o ddiduedd.

Rhaid sicrhau na fydd mentrau gweithredu cymdeithasol yn cynnwys unrhyw elfen o godi arian ar yr awyr ac eithrio apelau elusennol y BBC.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.11-16.4.15)

### Consenswss

2.4.26 Mae rhai materion a all ymddangos yn annadleuol, lle gellir credu bod consensws cyffredinol neu hyd yn oed barn unfrydol amdanynt. Serch hynny, gall y materion hyn beryglu didueddrwydd y BBC yn sylweddol; er enghraifft, pan fydd barn yn newid dros amser, neu pan fydd gan leiafrif farn y mae naill ai'n amharod ei mynegi neu fod ei gyfle i wneud hynny'n gyfyngedig. Mewn achosion o'r fath, dylai'r BBC barhau i ohebu ar sail y consensws a rhoi pwys dyladwy iddo. Er hynny, hyd yn oed os nad oes angen neu os nad yw'n briodol chwilio am safbwyntiau gwrthwynebol, ni ddylid defnyddio iaith a thôn wrth ohebu sy'n ymddangos fel pe baent yn derbyn bod y consensws neu'r farn gyffredin yn ffaith neu'n amlwg ohono'i hun.

Rhaid i wneuthurwyr cynnwys herio eu rhagdybiaethau a'u profiadau eu hunain a hefyd y rheini a all fod yn gyffredin mewn rhannau o'r gynulleidfa. Dylid osgoi pethau sy'n ategu cyffredinoliadau sydd heb dystiolaeth berthnasol yn allbwn y BBC, yn enwedig wrth drafod amgylchiadau penodol. Gall hyn ddigwydd ym meysydd gwleidyddiaeth, hil, elusennau, gwyddoniaeth, technoleg, meddygaeth neu feysydd eraill. Dylid bod yn ofalus defnyddio trylwyredd priodol wrth drin meysydd lle mae'n ymddangos bod consensws; mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

## Etholiadau a Refferenda

2.4.27 Nid oes yr un maes darlledu lle y bydd craffu mwy manwl ar ymrwymiad y BBC i sicrhau didueddrwydd dyladwy nag yn ystod ymgyrchoedd etholiadau a refferenda, yn y DU ac o

amgylch y byd. Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda (h.y. pan fydd y rheini sydd ar fin pleidleisio yn defnyddio cynnwys yn uniongyrchol), ond gall hefyd fod yn berthnasol yn y cyfnod cyn dechrau'r cyfnodau ymgyrchu ffurfiol hynny, am rai misoedd cyn hynny mewn rhai achosion. Mae hyn yn debygol o olygu mwy o sensitifrwydd o ran didueddrwydd dyladwy ym mhob genre allbwn. Mae cyngor penodol ar gael gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth, a fydd yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer pob ymgyrch yn y DU[17].

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.21-10.4.23)

## Didueddrwydd mewn Cyfresi a Thros Amser

2.4.28 Wrth sicrhau didueddrwydd dyladwy, mae'n bosibl y caiff 'cyfres o raglenni' eu hystyried gyda'i gilydd[18].

Mae'r term 'cyfres o raglenni' yn berthnasol i'r canlynol:

- nifer o ddarnau o gynnwys ar yr un gwasanaeth, sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n delio â'r un materion neu faterion cysylltiedig, o fewn cyfnod priodol ac wedi'u hanelu at gynulleidfa debyg.

  Gall hyn gynnwys gwahanol fathau o raglenni cysylltiedig (fel drama a dadl yn ei dilyn); tymor rhaglenni neu glwstwr o raglenni sydd wedi'u nodi'n glir neu eitemau am yr un pynciau; neu set o dudalennau gwe neu negeseuon cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Mae angen i wefannau, eitemau neu gynnwys o'r fath sicrhau didueddrwydd dyladwy drwy'r gyfres gyfan, a dylent gynnwys hysbysrwydd neu ddolenni priodol.

  Mae'n bwysig bod y bwriad i sicrhau didueddrwydd dyladwy fel hyn yn cael ei gynllunio ymlaen llaw a'i egluro drwy dynnu sylw ato fel rhan o'r allbwn.

- rhaglenni sy'n ymdrin â materion gwahanol iawn o un rhifyn i'r llall, ond sydd hefyd wedi'u cysylltu'n glir fel llinyn parhaus gyda theitl cyffredin a chylch gwaith penodol. Mewn llinynnau rhaglenni o'r fath, dylid sicrhau didueddrwydd dyladwy fel arfer o fewn rhaglenni unigol, neu ar draws nifer penodol o raglenni sydd â chysylltiad golygyddol clir.

[17] Yn y cyfnod cyn ac yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler y wefan Polisi Golygyddol i gael Canllawiau Etholiad

[18] Gweler Adran 5 Cod Ofcom i weld beth yw Ystyr 'cyfres o raglenni sy'n cael eu hystyried gyda'i gilydd'

Fodd bynnag, dros gyfres gyfan neu dros amser bydd angen hefyd i'r llinynnau hyn ddangos didueddrwydd dyladwy, er enghraifft drwy gymhwyso barn olygyddol yn gyson.

2.4.29 Ar allbwn hirhoedlog neu barhaus (fel rhaglenni newyddion dyddiol cyffredinol, sianel Newyddion y BBC, gwefan Newyddion y BBC a sianeli cymdeithasol) gellir sicrhau didueddrwydd dyladwy dros amser drwy gymhwyso barn olygyddol yn gyson mewn meysydd pwnc perthnasol; er enghraifft, nid oes yn rhaid i ymddangosiad gan wleidydd, neu gyfrannwr arall sydd â barn unochrog, gael ei ddilyn fel arfer gan rywun sy'n cyflwyno barn groes, er y gallai weithiau fod yn angenrheidiol cynnig cyfle i ymateb.

Er hynny, dylai golygyddion allbwn di-dor neu hirbarhaol sicrhau bod yr allbwn hwnnw:

- yn adlewyrchu amrywiaeth fawr o unigolion a safbwyntiau, yn cynnwys, lle bo hynny'n briodol yn olygyddol, pob un o'r prif safbwyntiau mewn dadl
- yn rhoi pwys dyladwy i farnau gwahanol ac yn eu trin yn deg, yn cynnwys o ran maint y sylw, y dull o'u trafod a'r amser o'r diwrnod
- bod cyfnod priodol yn cael ei bennu ar gyfer asesu a yw didueddrwydd dyladwy wedi'i sicrhau.

Pan na fydd un rhaglen yn gallu adlewyrchu elfennau pwysig o'r ddadl ar fater penodol, ond ei bod yn sicrhau didueddrwydd drwy gyfeirio at raglen arall (er enghraifft, dibynnu ar yr un rhaglen y diwrnod canlynol, neu raglen ddyddiol wahanol ar yr un gwasanaeth), dylid mynd ati fel arfer i egluro hynny i'r gynulleidfa. Os yw'n 'fater o bwys', efallai y bydd angen cyfeirio'n benodol at raglen amserol sydd â chysylltiad clir er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy[19].

Ym mhob achos lle mai'r nod yw sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â gwleidyddiaeth neu bolisi cyhoeddus cyfredol dros gyfres neu dros amser, mae angen cymryd gofal penodol a rhoi ystyriaeth ychwanegol wrth nesáu at gyfnodau etholiadau a refferenda ac yn ystod cyfnodau'r etholiadau a'r refferenda hynny; mae cyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

2.4.30 **Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle bydd barn benodol neu unigol yn cael ei mynegi ar 'bwnc dadleuol', polisi cyhoeddus cyfredol neu fater gwleidyddol ar raglen unigol neu gynnwys arall y BBC, fel rhaglen ddogfen barn bersonol neu ddrama, nad yw'n rhan o gyfres neu allbwn parhaus neu hirhoedlog. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i sicrhau ei fod yn dal i fodloni'r gofynion o ran didueddrwydd dyladwy.**

(Gweler 2.4.9 a 2.4.34-2.4.35)

[19] Gweler Cod Ofcom Adran 5.11 a 5.12 gan gynnwys Ystyr 'materion o bwys'

## Gwleidyddion a Chynnwys Gwleidyddol fel rhan o Allbwn Anwleidyddol

2.4.31 Mewn rhai mathau o allbwn sy’n ymdrin â meysydd sy’n annadleuol fel arfer (fel hoff lyfrau neu gerddoriaeth, cefnogi timau chwaraeon neu fywgraffiadau personol) gellir ceisio cynnwys cyfranwyr sy’n adnabyddus fel arall am eu hunochredd, er enghraifft, gwleidyddion, ymgyrchwyr neu eraill sy’n cael eu cysylltu â safbwynt penodol. Dros amser, dylid ystyried amrywiaeth briodol o gyfranwyr o'r fath. Bydd pethau eraill i'w hystyried cyn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau a refferenda.

**Rhaid ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn gwneud unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i gymryd rhan mewn allbwn na fyddai fel arfer yn cynnwys gwleidyddion, barn wleidyddol na ‘materion dadleuol’, ni waeth a yw’r cyfraniad arfaethedig ei hun yn ‘wleidyddol’ ai peidio. Rhaid hefyd atgyfeirio unrhyw gynnig gan wleidydd i gymryd rhan mewn allbwn o’r fath cyn y gellir derbyn neu wrthod y cynnig.**

Pan fydd cynnig i gynnwys pobl eraill sydd, efallai, wedi mabwysiadu safbwynt gwleidyddol amlwg, mewn allbwn o'r fath, gellir cael cyngor gan y tîm Polisi Golygyddol.

2.4.32 Lle na fyddai cynnwys fel arfer yn cynnwys barn wleidyddol, polisi cyhoeddus cyfredol neu ‘faterion dadleuol’ (er enghraifft mewn chwaraeon, cerddoriaeth, sioeau cwis/panel, adloniant ffeithiol, allbwn ffordd o fyw), fe’ch cynghorir i ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol ymlaen llaw cyn gwneud hynny.

(Gweler 2.4.5)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.3-10.4.9)

## Drama, Adloniant a Diwylliant

2.4.33 Bydd cynulleidfaoedd yn disgwyl i artistiaid, awduron a diddanwyr gael rhyddid i archwilio pynciau o safbwynt penodol, i greu cynnwys sy’n adlewyrchu eu llais unigryw eu hunain ac sy’n rhoi cyfle iddynt fynegi eu hunain mewn allbwn drama, adloniant a diwylliannol. Mae’r BBC wedi ymrwymo i gynnig cynnwys o’r fath.

Dylai comisiynwyr a phenaethiaid genres perthnasol ystyried yr ystod o safbwyntiau a gynrychiolir dros amser. O bryd i’w gilydd, efallai y bydd angen tynnu sylw at allbwn arall cysylltiedig er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy.

**Wrth gomisiynu allbwn drama, adloniant neu ddiwylliannol sy’n ymdrin â materion polisi cyhoeddus cyfredol, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ‘bynciau dadleuol’ eraill, rhaid ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol ymlaen llaw.**

Bydd angen rhoi ystyriaeth benodol yn ystod y cyfnod sy'n arwain at etholiadau a refferenda. Bydd cyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

Efallai y bydd angen ystyried gwrthdaro posibl rhwng buddiannau hefyd.

(Gweler 2.4.5-2.4.9)

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.31 ac Adran 4 Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

## Cynnwys sy’n Farn Bersonol

2.4.34 Mae traddodiad yn y BBC o alluogi gwahanol fathau o unigolion, grwpiau neu sefydliadau i gynnig barn neu safbwynt personol, mynegi cred, neu gyflwyno safbwynt dadleuol yn ei allbwn. Mae hyn yn gallu amrywio o ymgyrchydd yn mynegi safbwyntiau unochrog iawn, i farn arbenigwr neu weithiwr proffesiynol, gan gynnwys academydd neu wyddonydd, i safbwyntiau sy'n cael eu mynegi drwy gyfraniadau gan gynulleidfaoedd. Mae pob un o’r rhain yn gallu ychwanegu at ddealltwriaeth ac ansawdd y drafodaeth ymysg y cyhoedd, yn enwedig lle maent yn caniatáu i gynulleidfaoedd glywed safbwyntiau newydd a gwreiddiol am faterion cyfarwydd.

Rhaid nodi natur cynnwys o’r fath sy’n farn bersonol yn glir i gynulleidfaoedd ymlaen llaw.

2.4.35 Yn ogystal, pan fydd cynnwys â barn bersonol yn trin a thrafod ‘pynciau dadleuol’, yn enwedig pan mae’r rhain yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus cyfredol neu â materion dadleuol ym maes gwleidyddiaeth neu ddiwydiant, dylent wneud y canlynol:

- cynnal cywirdeb ffeithiol
- cynrychioli safbwyntiau croes i'w gilydd mewn modd teg pan mae’r rhain yn cael eu cynnwys
- rhoi cyfle i ymateb neu safbwyntiau amgen pan fo hynny’n briodol, er enghraifft mewn rhaglen drafod sydd wedi'i threfnu ymlaen llaw y cyfeirir ati.

(Gweler 2.4.30)

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

2.4.36 Gall staff y BBC a chyflwynwyr neu ohebwyr rheolaidd y BBC sy’n gysylltiedig â rhaglenni newyddion neu raglenni sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus gynnig barn broffesiynol sy’n seiliedig ar dystiolaeth bendant a phrofiad proffesiynol. Serch hynny, fel arfer, ni fydd yn briodol iddynt gyflwyno nac ysgrifennu cynnwys sy’n farn bersonol am bolisi cyhoeddus, materion gwleidyddol neu ddiwydiannol ddadleuol, na 'phynciau dadleuol’ mewn unrhyw faes.

(Gweler 2.4.15)

# ADRAN 3: CYWIRDEB

3.1 Cyflwyniad
3.2 Egwyddorion
3.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

3.4 Canllawiau

- Casglu Deunydd
- Cywirdeb mewn Cynnwys Byw
- Gohebu ar Ystadegau a Risg
- Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr, Cyfryngau Cymdeithasol a Deunydd Ar-lein Arall
- Deunydd gan Drydydd Partïon gan gynnwys Cyhoeddi Newyddion Fideo a Sain
- Gwneud Nodiadau
- Osgoi Camarwain Cynulleidfaoedd
- Cynnwys y mae Amgylchiadau sy'n Newid yn Effeithio arno
- Cywiro Camgymeriadau
- Cywirdeb a'r Gwledydd

# 3.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau cywirdeb dyladwy yn ei holl allbwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn hanfodol i'w enw da ac i sicrhau ymddiriedaeth cynulleidfaoedd. Ystyr y term 'dyladwy' yw bod rhaid i'r cywirdeb fod yn ddigonol ac yn briodol i'r allbwn, gan ystyried pwnc a natur y cynnwys, disgwyliad tebygol y gynulleidfa ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y BBC a allai ddylanwadu ar y disgwyliad hwnnw[20].

Ni fydd y cywirdeb dyladwy sy'n ofynnol mewn drama, adloniant neu gomedi, er enghraifft, fel arfer yr un fath â hynny a geir yn y rhan fwyaf o gynnwys ffeithiol. Gall y gofynion amrywio o fewn genre hyd yn oed, felly gall y cywirdeb dyladwy sy'n ofynnol mewn cynnwys ffeithiol fod yn wahanol yn ôl a yw, er enghraifft, yn adloniant ffeithiol, yn rhaglen ddogfen hanesyddol, yn faterion cyfoes neu'n newyddion[21].

# 3.2 EGWYDDORION

3.2.1 Mae'n rhaid i'r BBC wneud popeth yn ei allu i sicrhau cywirdeb yn ei holl allbwn.

3.2.2 Rhaid i holl allbwn y BBC, fel y bo'n briodol i'w bwnc a'i natur, fod wedi'i seilio ar ffynonellau da a thystiolaeth gadarn sydd wedi'i chadarnhau lle bo modd. Dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn onest ac yn agored ynghylch beth nad ydynt yn ei wybod ac osgoi dyfalu di-sail. Fel arfer dylid priodoli honiadau, cyhuddiadau, ffeithiau perthnasol a mathau eraill o gynnwys na ellir eu cadarnhau i'w ffynonellau.

[20] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 5: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau

[21] Mae'r Cytundeb Fframwaith sydd gyda Siarter y BBC yn mynnu bod y BBC yn dilyn gofynion cywirdeb y Cod Darlledu o ran cywirdeb; fodd bynnag, drwy gymhwyso'r gofyniad am 'gywirdeb dyladwy' at ein holl allbwn, mae'r BBC yn rhagori ar y gofyniad hwnnw

3.2.3 Rhaid i'r BBC beidio â chamarwain ei gynulleidfaoedd yn fwriadol ac yn sylweddol. Ni ddylai gwneuthurwyr cynnyrch ystumio ffeithiau hysbys, cyflwyno deunydd a ddyfeisiwyd fel pe bai'n ffaith na thanseilio ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yng nghynnwys y BBC fel arall.

3.2.4 Fel arfer, dylid cydnabod a chywiro gwallau ffeithiol difrifol yn gyflym, yn glir ac yn briodol.

3.2.5 Mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes, mae sicrhau cywirdeb dyladwy yn bwysicach na chyflymder.

## 3.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

*Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.*

### Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

3.3.1 Os bydd unrhyw gynnig i ddibynnu ar un ffynhonnell ddienw sy'n gwneud honiad difrifol neu i ganiatáu i gyfrannwr pwysig sy'n gwneud honiad difrifol aros yn ddienw, rhaid ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 3.4.21)

### Atgyfeiriadau Eraill

3.3.2 Os bydd cynhyrchwyr cynnwys yn meddwl eu bod wedi darlledu rhywbeth anghywir sy'n ddifenwol, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 3.4.34)

3.3.3 Dylai unrhyw gynhyrchwyr cynnwys sy'n bwriadu cynhyrchu rhaglenni am Ogledd Iwerddon neu brosiectau sylweddol sy'n ymwneud â Gweriniaeth Iwerddon roi gwybod i Gyfarwyddwr Gogledd Iwerddon am eu cynigion yn gynnar. Yn yr un modd, dylai cynhyrchwyr cynnwys sy'n creu deunydd sy'n ymdrin â materion neu themâu o bwys cenedlaethol neu ranbarthol am Gymru, Lloegr a'r Alban nad ydynt wedi'u lleoli yn y wlad dan sylw roi gwybod i gyfarwyddwr y wlad honno.

(Gweler 3.4.37)

3.3.4 Rhaid i uwch-olygydd fod yn gyfrifol ac yn atebol am oruchwylio'r gwaith o ddefnyddio a pharhau i ddefnyddio unrhyw Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Dylai ofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol, a all ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Risg Deallusrwydd Artiffisial, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r deallusrwydd artiffisial.

Dylai uwch-olygydd, sy'n gyfrifol am gydymffurfio o fewn y tîm cynhyrchu, fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddefnydd cwmnïau cynhyrchu annibynnol o ddeallusrwydd artiffisial.

(Gweler 3.4.27)

# 3.4 CANLLAWIAU

## Casglu Deunydd

3.4.1 Nid mater o gael ffeithiau'n gywir yn unig yw cywirdeb. Efallai y bydd angen pwyso a mesur unrhyw farn berthnasol yn ogystal â ffeithiau a'u hystyried er mwyn cael y gwirionedd.

Lle bo'n briodol i'r allbwn a phryd bynnag y bo modd, dylai gwneuthurwyr cynnwys:

- gasglu gwybodaeth o ffynonellau uniongyrchol
- gwirio ffeithiau ac ystadegau, gan nodi cafeatau a chyfyngiadau o bwys
- dilysu tystiolaeth ddogfennol a deunydd digidol
- cael tystiolaeth i ategu honiadau a chyhuddiadau a wneir gan gyfranwyr
- pwyso a mesur a dehongli honiadau, a'u rhoi yn eu cyd-destun, gan gynnwys honiadau ystadegol.

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar Ystadegau; ac Ymchwiliadau)

3.4.2 Mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes, mae sicrhau cywirdeb dyladwy yn bwysicach na chyflymder.

3.4.3 Dylai cynhyrchwyr cynnwys geisio bod yn dyst i ddigwyddiadau a chasglu gwybodaeth o lygad y ffynnon. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid siarad â ffynonellau uniongyrchol ac, os yw'n ymarferol, cadarnhau'r dystiolaeth.

(Gweler 3.4.20-3.4.23)

3.4.4 Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn gyndyn i ddibynnu ar un ffynhonnell. Os ydynt yn dibynnu ar un ffynhonnell, dylai fod yn ffynhonnell gredadwy, ac mae ffynhonnell wedi'i henwi sy'n siarad ar goedd yn well bob amser.

(Gweler 3.4.20-3.4.23)

3.4.5 Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid recordio cyfweliadau ymchwil gyda ffynonellau sy'n gwneud honiadau difrifol. Mewn amgylchiadau lle byddai recordio'n gallu llyffetheirio'r ffynhonnell, dylid gwneud nodiadau llawn ar y pryd os oes modd neu, os na ellir gwneud hynny, mor fuan â phosibl wedyn.

(Gweler 3.4.15)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.30)

3.4.6 Rhaid gwirio a dilysu gwybodaeth, dogfennau, ffeithiau a deunydd digidol er mwyn sicrhau cywirdeb dyladwy. Os nad yw cynhyrchwyr cynnwys wedi gallu dilysu deunydd, dylent ddweud hynny fel arfer a phriodoli'r wybodaeth i'w ffynhonnell.

## Cywirdeb mewn Cynnwys Byw

3.4.7 Mae sicrhau cywirdeb dyladwy mewn cynnwys byw yn gallu bod yn her, gan mai'n bosibl na fydd fawr o gyfle i wirio honiadau ffeithiol. Os oes modd, ac yn arbennig os yw mater yn un dadleuol, dylid nodi risgiau ymlaen llaw a chymryd camau i'w lliniaru. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys paratoi'n briodol drwy sicrhau bod digon o her yn y cynnwys ac y rhoddir cyd-destun digonol iddo; neu drwy wneud yn siŵr bod cyfranwyr eraill yn gallu darparu her ychwanegol. Os bydd unrhyw anghywirdeb sylweddol yn codi, dylid ei gywiro'n gyflym.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.5-2.4.10)

(Gweler y canllawiau: Allbwn Byw)

## Gohebu ar Ystadegau a Risg

3.4.8 Dylid defnyddio'r un sgeptigaeth a ddefnyddir wrth gasglu gwybodaeth wrth ystyried ystadegau a niferoedd ac ni ddylid o reidrwydd eu cymryd ar yr olwg gyntaf. Pan fydd allbwn yn cynnwys ystadegau, dylid rhoi esboniad clir o'r niferoedd, eu rhoi mewn cyd-destun, eu pwysoli, eu dehongli a, lle bo hynny'n briodol, eu herio. Dylid eu cyflwyno'n glir a'u priodoli. Rhaid i'r ystadegau fod yn gywir a chael eu gwirio pan fo angen, a rhaid egluro cafeatau a chyfyngiadau pwysig. Dylid defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i roi honiadau ystadegol yn eu cyd-destun a helpu cynulleidfaoedd i farnu am eu harwyddocâd a'u pwysigrwydd. Lle gwneir honiadau anghywir neu gamarweiniol, dylid eu herio.

3.4.9 Mae gohebu ar risg yn gallu dylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd o'r risg honno, er enghraifft yng nghyswllt straeon am droseddu neu straeon am yr economi, y tywydd neu'r hinsawdd. Dylai gwneuthurwyr cynnwys osgoi peri pryder diangen i'n cynulleidfaoedd a rhoi adroddiadau yn eu cyd-destun er mwyn egluro graddfa'r risg. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt gohebu ar straeon iechyd a allai beri i unigolion newid eu hymddygiad mewn ffyrdd a allai fod yn niweidiol. Dylid ystyried effaith emosiynol lluniau a thystiolaeth bersonol, yn enwedig ar y canfyddiadau o risg.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.10)

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar Ystadegau)

## Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr, Cyfryngau Cymdeithasol a Deunydd Ar-lein arall

3.4.10 Ni ddylid tybio bod deunydd a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn gywir; efallai y bydd angen ei ddilysu a dylid ei nodi'n glir bob amser. Rhaid bod yn ofalus gyda chynnwys a allai fod wedi cael ei ddarparu gan unrhyw un sydd â buddiant personol, yn hytrach na rhywun diduedd a oedd yn digwydd bod yn bresennol. Efallai na fydd cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn rhoi darlun cyflawn.

(Gweler y canllawiau: Cyfraniadau a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr)

3.4.11 Hyd yn oed os yw ffynonellau gwybodaeth ar y rhyngrwyd yn ymddangos yn ddibynadwy, mae'n bosibl na fyddant yn gywir nac yn gyflawn bob amser. Mae'n bosibl y bydd angen gwirio pwy sy'n rhedeg y wefan neu gael cadarnhad gan unigolyn neu sefydliad fod y deunydd yn ddilys.

(Gweler y canllawiau: Ymchwil ar y Rhyngrwyd)

3.4.12 Rhaid gwahaniaethu rhwng ffeithiau a sibrydion, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol – ond nid yno'n unig o bell ffordd – lle mae'n bosib y bydd camwybodaeth a thwyllwybodaeth wedi'u defnyddio'n fwriadol. Gall gwallau neu sibrydion ledaenu'n gyflym ac yn aml iawn, ni fydd cywiriadau'n denu'r un sylw â'r stori wreiddiol.

Mae'n bosibl y bydd angen craffu'n fwy manwl os yw deunydd o wefan ar y cyfryngau cymdeithasol neu ffynhonnell arall ar y Rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau ffaith. Dylid priodoli deunydd nad yw cynhyrchwyr cynnwys wedi'i gasglu eu hunain i'w ffynhonnell.

## Deunydd gan Drydydd Partïon gan gynnwys Cyhoeddi Newyddion Fideo a Sain

3.4.13 Mae angen arfer gofal priodol wrth drin deunydd sydd wedi'i ddarparu gan drydydd parti, gan gynnwys darparwyr newyddion, drwy ystyried dibynadwyedd y ffynhonnell.

Fel arfer, dim ond adroddiadau asiantaeth gan asiantaethau newyddion sy'n ffynonellau dibynadwy neu rai y gall un o'u gohebwyr eu cadarnhau y dylai'r BBC ddibynnu arnynt.

Yr unig ddeunydd a ddarparwyd gan drydydd partïon y dylem eu defnyddio yw'r rheini sydd o ffynonellau credadwy a dibynadwy.

Dylai unrhyw gydnabyddiaeth neu briodoli sy'n ymwneud â defnyddio deunydd gan drydydd parti sy'n cael ei chynnwys fod yn unol â chanllawiau priodol y BBC ar gydnabyddiaeth.

(Gweler Adran 12 - Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.1-12.4.4 a 12.4.19)

(Gweler y canllawiau: Cydnabod a Labelu Perthnasoedd Allanol)

3.4.14 Dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn gyndyn i ddefnyddio datganiadau newyddion fideo a sain neu ddeunydd arall gan gynnwys nodiadau llais a ddarperir gan bartïon allanol a allai fod

â buddiannau personol. Mae hyn yn cynnwys deunydd gan gwmnïau, gwasanaethau brys, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau buddiant, clybiau chwaraeon, ymgyrchwyr, elusennau neu fudiadau neu unigolion eraill sy'n chwilio am lwyfan. Gellir ei gynnig yn aml er mwyn osgoi'r craffu sy'n digwydd mewn cyfweliad a gallai fod yn anghywir. Er y gall y sefydliad sy'n darparu'r deunydd honni ei fod wedi cael ei gynhyrchu'n wrthrychol, ni all y BBC warantu o dan ba amgylchiadau y cafodd y deunydd ei gynhyrchu na'r safonau golygyddol a ddefnyddiwyd.

Fel arfer, ni ddylid defnyddio deunydd o'r fath oni bai nad yw gwneuthurwyr cynnwys yn gallu ei gasglu eu hunain a bod cyfiawnhad golygyddol dros ei ddefnyddio.

Dylid labelu'n glir unrhyw ddefnydd a wneir o ddatganiadau newyddion fideo a sain, neu ddeunydd arall a gyflenwyd gan bartïon allanol. Rhaid nodi pwy ddarparodd y datganiad ac mae'n rhaid rhoi esboniad o ran yr amodau perthnasol pan gafodd ei gynhyrchu.

(Gweler y canllawiau: Datganiadau Newyddion Fideo a Chlywedol)

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.18)

## Gwneud Nodiadau

3.4.15 Rhaid gwneud nodiadau cywir a dibynadwy, ar y pryd os oes modd, o bob ymchwil o bwys a gwybodaeth berthnasol arall. Rhaid cadw cofnodion o ymchwil, gan gynnwys dogfennau, nodiadau cefndir, negeseuon e-bost ac unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig arall, yn ogystal â negeseuon a gwybodaeth sy'n cael eu cyfnewid ar lwyfannau cymdeithasol. Dylid eu cadw mewn ffordd sy'n caniatáu eu hailwirio, yn enwedig ar y cam sgriptio, ac os oes angen gan aelod arall o'r tîm.

Pan fydd y BBC yn darlledu honiadau difrifol sydd wedi'u gwneud gan ffynhonnell ddienw, rhaid cadw nodiadau amserol, llawn o gyfweliadau, sgyrsiau a gwybodaeth sy'n sail i'r stori.

(Gweler 3.4.5)

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.31-6.4.36 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.30)

(Gweler y canllawiau: Ymchwiliadau)

## Osgoi Camarwain Cynulleidfaoedd

3.4.16 Rhaid i'r BBC beidio â chamarwain cynulleidfaoedd yn fwriadol nac yn sylweddol gyda'r cynnwys y mae'n ei gynhyrchu. Mae'n bosibl y bydd angen i gynhyrchwyr egluro natur rhai mathau o gynnwys drwy labelu i osgoi camarwain (er enghraifft, ar lafar, mewn testun neu drwy arwyddion gweledol neu glywedol).

3.4.17 Rhaid i'r cywirdeb dyladwy fod yn ddigonol ac yn briodol i'r allbwn, gan ystyried pwnc a natur y cynnwys, disgwyliad tebygol y gynulleidfa ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y BBC a allai ddylanwadu ar y disgwyliad hwnnw.

Gall y gofynion amrywio o fewn genre hyd yn oed, felly gall y cywirdeb dyladwy sy'n ofynnol mewn cynnwys fod yn wahanol yn ôl a yw, er enghraifft, yn adloniant ffeithiol, yn gynnwys am y byd naturiol, neu'n rhaglen ddogfen yn cynnwys hanes, drama, comedi, materion cyfoes neu newyddion.

Gall cynhyrchwyr cynnwys ddefnyddio technegau gwahanol i ddod â naratif yn fyw ond rhaid iddynt fod yn gywir o hyd.

(Gweler y canllawiau: Cofnodi'r Byd Naturiol; Bwletinau Newyddion Ffuglennol; ac Adrodd a Phortreadu Pobl Frodorol)

3.4.18 Wrth ddadansoddi setiau data, dylai'r fethodoleg fod ar gael i'r gynulleidfa fel arfer, gan gynnwys unrhyw ansicrwydd neu led gwall perthnasol.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys sy'n defnyddio unrhyw ddadansoddiad awtomataidd o ddata ei wirio, yn enwedig os yw'r canlyniadau'n ymddangos yn anarferol neu'n annisgwyl.

(Gweler Adran 11 Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon: 11.4.23)

3.4.19 Gall hepgor manylion arwyddocaol arwain at anghywirdeb. Dylai cynulleidfaoedd gael y ffeithiau perthnasol, gwybodaeth gyflawn a chyd-destun i'w galluogi i gael dealltwriaeth gywir o'r cynnwys.

## Ffynonellau

3.4.20 Fel arfer dylid nodi ffynonellau gwybodaeth a chyfranwyr arwyddocaol a nodi eu manylion yn glir er mwyn i gynulleidfaoedd allu barnu eu statws.

3.4.21 Pryd bynnag y cytunir ar anhysbysrwydd, rhaid i'r newyddiadurwr a'r ffynhonnell ddeall i ba raddau y maent yn cael eu gwneud yn anhysbys a sut mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i bawb yn y BBC sy'n ymwybodol o'u hunaniaeth.

Wrth ddyfynnu ffynhonnell ddienw, yn enwedig ffynhonnell sy'n gwneud honiadau difrifol, rhaid i'r rhai sy'n creu'r cynnwys gymryd pob cam priodol i warchod ei hunaniaeth. Fodd bynnag, dylent roi pa bynnag wybodaeth y gallant amdanynt i'r gynulleidfa ac mewn ffordd nad yw'n camarwain statws y ffynhonnell yn sylweddol.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.31-6.4.36)

Pan geisir hynny, mae gan y golygydd perthnasol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Olygydd, yr hawl i gael gwybod pwy yw'r ffynhonnell ac, yn yr un modd, mae'n rhaid iddo gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol. Yn achos stori sy'n ymwneud â honiadau difrifol, dylai newyddiadurwyr wrthsefyll unrhyw ymgais gan ffynhonnell ddienw i atal datgelu ei hunaniaeth i olygydd uwch yn y BBC neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu perthnasol. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid ei gwneud yn glir na ellir darlledu'r wybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol.

**Os bydd unrhyw gynnig i ddibynnu ar un ffynhonnell ddienw sy'n gwneud honiad difrifol neu i ganiatáu i gyfrannwr pwysig sy'n gwneud honiad difrifol aros yn ddienw, rhaid ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni,** a fydd yn ystyried:

- a yw'r stori er budd sylweddol i'r cyhoedd neu beidio[22]
- a yw'n sicr bod y ffynhonnell yn gredadwy ac yn ddibynadwy a'i bod mewn sefyllfa i fod â digon o wybodaeth am y digwyddiadau dan sylw
- a oedd honiad difrifol wedi'i wneud neu ei gadarnhau'n gyfrinachol
- a geisiwyd ymateb i honiadau difrifol

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

a byddant hefyd yn ystyried

- unrhyw faterion cyfreithiol
- pryderon diogelwch, er enghraifft ar gyfer chwythwyr chwiban

(Gweler y canllawiau: Ymchwiliadau)

- unrhyw faterion sensitif a phersonol.

3.4.22 Dylid sgriptio'n ofalus yr adroddiadau ar honiadau a wneir gan ffynhonnell ddienw er mwyn egluro:

- natur yr honiad
- bod yr honiad yn cael ei wneud gan ffynhonnell anhysbys ac nid gan y BBC.

Pan nad yw'r honiadau wedi'u cadarnhau gan ffynhonnell annibynnol, dylai newyddiadurwyr ystyried a yw'n briodol hysbysu'r gynulleidfa o hynny.

3.4.23 Fel arfer, ni ddylid defnyddio sgwrs ddwy ffordd heb ei sgriptio i roi gwybod am honiadau. Y golygydd a fydd yn penderfynu a ydynt yn ffordd briodol i dorri'r newyddion. Pan fydd cydweithwyr yn y BBC yn adrodd ar y stori wedyn, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn deall ym mha dermau y dylai'r honiadau gael eu hadrodd a'u bod yn gwneud hynny'n gywir.

## Dolenni i Wefannau Trydydd Partïon

3.4.24 Fel arfer dylai dolenni o gynnwys y BBC i wefannau sy'n cael eu rhedeg gan eraill arwain at wefannau credadwy. Gall cynhyrchwyr cynnwys greu dolenni i wefannau allanol sy'n arwyddocaol i stori

[22] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

newyddion gyfredol os oes cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, ond dylid asesu eu hygrededd cyn gwneud hynny.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.10 ac Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol eraill: 15.4.22)

(Gweler y canllawiau: Dolenni a Ffrydiau)

## Technegau Cynhyrchu

3.4.25 Prin iawn yw'r rhaglenni a recordiwyd nad ydynt yn cynnwys rhywfaint o ymyrraeth gan y tîm cynhyrchu, ond ceir technegau cynhyrchu sy'n dderbyniol a rhai sy'n annerbyniol. Rhaid ystyried bwriad ac effaith unrhyw ymyriad. Fel arfer mae'n dderbyniol defnyddio technegau sy'n ychwanegu at gynnwys mewn ffordd syml, er enghraifft drwy ei wneud yn fwy eglur a llyfn neu'n fwy atyniadol. Gall hyn gynnwys sgiliau crefftus fel rhyngdorri lluniau, lluniau sefydlu i ddangos y rhai a gyfwelir a gofyn i gyfranwyr ail-wneud gweithredoedd dibwys neu gyflawni gweithgaredd bob dydd. Annerbyniol fel arfer yw defnyddio technegau cynhyrchu sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol am y gwir naratif neu'r gwir ddigwyddiadau.

Yn achos newyddion, cynnwys ffeithiol a rhai mathau o gynnwys adloniant ffeithiol, oni bai fod hynny'n cael ei ddangos yn glir i'r gynulleidfa neu wrth ail-greu, ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys fel arfer:

- lwyfannu neu ail-lwyfannu gweithredoedd neu ddigwyddiadau sy'n bwysig yn natblygiad y digwyddiad neu'r naratif
- rhyngdorri lluniau a dilyniannau os bydd cyfosod y deunydd fel hyn yn rhoi argraff gamarweiniol o ddigwyddiadau.

Rhaid peidio byth â defnyddio sylwebaeth a dulliau golygu i roi argraff sylweddol gamarweiniol i'r gynulleidfa o ddigwyddiadau neu o gyfraniad.

3.4.26 Dylid sicrhau nad yw unrhyw dechnegau sy'n creu neu'n trin deunydd yn ddigidol megis y defnydd o gynnwys synthetig yn ystumio ystyr digwyddiadau, yn newid effaith deunydd dilys neu'n camarwain cynulleidfaoedd yn sylweddol. Dylai cynhyrchwyr cynnwys hefyd fod yn ymwybodol bod ffyrdd o drin lluniau, fideos a dogfennau'n ddigidol wedi'u defnyddio i dwyllo darlledwyr.

## Defnyddio Technoleg Awtomataidd a Deallusrwydd Artiffisial

3.4.27 Gall defnyddio technolegau, fel awtomeiddio neu ddeallusrwydd artiffisial, arwain at anghywirdeb yng nghynnwys y BBC. Gall hynny gael ei achosi gan ragfarn algorithmig neu ddata hyfforddi; cynnwys neu atebion sy'n ymddangos yn gredadwy ond nad ydynt o reidrwydd yn ffeithiol gywir – a elwir yn aml yn rithweledigaethau; neu lên-ladrad a dynwared. Rhaid i'r BBC beidio â chamarwain cynulleidfaoedd yn fwriadol nac yn sylweddol gyda deallusrwydd artiffisial.

**Rhaid i uwch-olygydd fod yn gyfrifol ac yn atebol am oruchwylio'r gwaith o ddefnyddio a pharhau i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Dylai ofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol, a all ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Risg Deallusrwydd Artiffisial, cyn gwneud**

**unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r deallusrwydd artiffisial.**

**Ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, dylid trafod unrhyw ddefnydd arfaethedig o ddeallusrwydd artiffisial fel rhan o'r broses gomisiynu, mewn achosion lle gallai fod effaith sylweddol ar gynnwys i gynulleidfaoedd. Dylai uwch-olygydd sy'n gyfrifol am gydymffurfio o fewn y tîm cynhyrchu fod yn gyfrifol ac yn atebol am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial.**

3.4.28 Mae unrhyw gynnyrch sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddosbarthu neu guradu cynnwys yn cael ei ystyried yn brofiad golygyddol ac felly mae angen cymeradwyaeth olygyddol a goruchwyliaeth gan bobl.
3.4.29 Rhaid i unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan y BBC fod yn dryloyw ac yn glir i'r gynulleidfa. Dylid rhoi gwybod i'r gynulleidfa mewn ffordd sy'n briodol i'r cyd-destun ac efallai y byddai'n ddefnyddiol esbonio bod deallusrwydd artiffisial wedi cael ei ddefnyddio a sut a pham mae wedi cael ei ddefnyddio.

(Gweler y canllawiau: Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial)

## Ail-greu

3.4.30 Mewn rhaglenni ffeithiol, mae'n bwysig nad yw dulliau ail-greu yn gorddramateiddio mewn ffordd gamarweiniol neu i greu cyffro. Ystyr ail-greu yw ail-lwyfannu digwyddiad neu ddigwyddiadau. Dylid ei seilio fel arfer ar dystiolaeth sylweddol y gellir ei chadarnhau. Dylai hefyd fod yn bosibl gweld mai ail-greu sy'n digwydd, er enghraifft drwy ddefnyddio labeli geiriol neu weledol neu arwyddion gweledol neu glywedol, fel symud araf neu raddio. Dylai fod yn amlwg i'r gynulleidfa ble mae'r ail-greu yn dechrau ac yn gorffen.

Ni ddylid ail-greu digwyddiadau cyfoes fel arfer mewn rhaglenni newyddion oherwydd y perygl o ddrysu'r gynulleidfa. Ond gellir adrodd ar ail-greu sydd wedi'i lwyfannu gan eraill.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.11)

## Dramâu Seiliedig ar Ffeithiau

3.4.31 Pan fydd drama yn portreadu pobl neu ddigwyddiadau go iawn, mae'n anochel y bydd y ffyrdd creadigol o ddangos rhai elfennau dramatig fel cymeriadu, deialog ac awyrgylch yn ffuglennol. Er hynny, dylid seilio'r portreadu ar gorff o dystiolaeth sylweddol gan ffynhonnell ddibynadwy pryd bynnag y bo modd a dylid sicrhau nad yw'n ystumio'r ffeithiau hysbys yn ormodol, yn cynnwys cronoleg.

Ceir y sensitifrwydd mwyaf yn aml pan fydd drama yn un sydd â'r prif amcan o bortreadu pobl fyw, pobl y mae eu perthnasau agosaf yn fyw, neu ddigwyddiadau diweddar. Dylid cymryd gofal i sicrhau cywirdeb dyladwy.

Mae'n bwysig egluro sail ffeithiol y ddrama (neu'r defnydd o ryddid dramatig) gyda gwybodaeth glir.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.58-6.4.59 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.9)

## Deunydd Archifol

3.4.32 Ni ddylid defnyddio deunydd archifol mewn ffordd sy'n camarwain y gynulleidfa yn sylweddol am sefyllfa, digwyddiadau neu'r pwnc sy'n cael ei bortreadu. Efallai fod deunydd y mae gwneuthurwyr cynnwys yn bwriadu ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu yn anghywir, neu wedi dyddio a, lle bo'n briodol, dylid ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd fod y deunydd yn archifol.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.10)

## Cynnwys y mae Amgylchiadau sy'n Newid yn Effeithio arno

3.4.33 Rhaid gwirio cynnwys a baratowyd gryn amser cyn ei gyhoeddi neu ei ddarlledu i wneud yn siŵr nad yw'r digwyddiadau wedi dyddio oherwydd newidiadau yn yr amserlen. Gallai hyn gynnwys marwolaeth hysbys cyfrannwr, arestio, apelio neu gyhuddo unigolyn a amheuir, neu newidiadau sylweddol mewn bywyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen gwneud cyhoeddiad ar yr awyr neu ddefnyddio label priodol; mewn achosion eraill, efallai bydd angen newid neu ddileu deunydd penodol.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.11)

## Cywiro Camgymeriadau

3.4.34 Dylid cydnabod camgymeriadau ffeithiol difrifol a chywiro camgymeriadau'n brydlon, yn glir ac yn briodol. Gall diffyg cywirdeb arwain at gŵyn o annhegwch.

Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol, gan ystyried y gynulleidfa pan gafodd y gwall ei ddarlledu neu ei gyhoeddi, a dylid nodi beth oedd yn anghywir yn ogystal â'i gywiro.

Mae'r dudalen Cywiriadau ac Esboniadau ar wefan y BBC yn caniatáu cydnabyddiaeth gyhoeddus o gamgymeriad.

**Rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni os credir bod rhywbeth anghywir sy'n ddifenwol wedi'i gyhoeddi neu ei ddarlledu.**

### Camgymeriadau mewn cynnwys ar-lein a chynnwys ar-alw

3.4.35 Pan fydd disgwyliad y bydd cynnwys ar gael yn barhaol, fel ar BBC News Online; neu ar-alw, fel ar BBC iPlayer, rhaid cywiro achosion difrifol o dorri safonau golygyddol a chydnabod y camgymeriad mewn ffordd amserol. Mewn achosion eithriadol, gellir dileu'r cynnwys. Dylid nodi'n glir y newidiadau sydd wedi'u gwneud, oni bai fod rhesymau golygyddol neu gyfreithiol dros beidio â gwneud hynny.

Pan fydd camgymeriadau mewn cynnwys ar-alw yn annhebygol o dorri safonau golygyddol yn ddifrifol, dylid cyhoeddi cywiriad ar y llwyfan hwnnw, fel y gellir ei weld cyn ailchwarae'r allbwn. Fel arfer ni fydd angen i gynnwys o'r fath gael ei newid neu ei dynnu'n ôl wedyn.

3.4.36 Mewn cynnwys testun ar-lein, dylid cywiro unrhyw gamgymeriad sy'n newid yr ystyr golygyddol. Mae'n bwysig cydnabod beth oedd y camgymeriad, cywiro'r gwall, a'i gwneud yn glir bod yr erthygl wedi'i diwygio.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.24-13.4.30)

(Gweler y canllawiau: Tynnu Cynnwys BBC Online)

## Cywirdeb a'r Gwledydd

3.4.37 **Dylai unrhyw gynhyrchwyr cynnwys sy'n bwriadu cynhyrchu rhaglenni am Ogledd Iwerddon neu brosiectau sylweddol sy'n ymwneud â Gweriniaeth Iwerddon roi gwybod i Gyfarwyddwr Gogledd Iwerddon am eu cynigion yn gynnar. Yn yr un modd, dylai cynhyrchwyr cynnwys sy'n creu deunydd sy'n ymdrin â materion neu themâu o bwys cenedlaethol neu ranbarthol am Gymru, Lloegr a'r Alban nad ydynt wedi'u lleoli yn y wlad dan sylw roi gwybod i gyfarwyddwr y wlad honno.**

3.4.38 Mae gan y DU ddiwylliannau gwleidyddol amrywiol yn y gwahanol wledydd. Pan fydd stori neu fater yn effeithio'n wahanol ar gynulleidfaoedd y DU, dylid gwneud hynny'n glir. Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ofalus ynghylch cyfeirio at strwythurau llywodraethol a chyfreithiol a all amrywio.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.1-10.4.2)

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar y DU)

# ADRAN 4: GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU


4.1 Cyflwyniad
4.2 Egwyddorion
4.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
4.4 Canllawiau

- Datgan Buddiannau Personol
- Risgiau o Wrthdaro Rhwng Buddiannau
- Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiadurol Ffeithiol
- Gweithgareddau Allanol
  - Mynegi Barn yn Gyhoeddus gan gynnwys ar Gyfryngau Cymdeithasol
  - Gweithgareddau Gwleidyddol
  - Gwaith Elusennau ac Ymgyrchoedd
  - Ysgrifennu ac Ymrwymiadau Darlledu Eraill ym Mhob Cyfrwng
  - Siarad Cyhoeddus ac Ymddangosiadau Cyhoeddus Eraill
  - Rolau Academaidd
  - Hyfforddiant ar y Cyfryngau
  - Buddion Personol
  - Cyflwynwyr ac eraill sydd â rôl ar yr awyr, a Gweithgareddau Hyrwyddo gan gynnwys Hysbysebu
  - Cyfeiriadau at Gynnwys y BBC mewn Hysbysebion ac Actorion ac Artistiaid sy'n dyblygu eu rolau yn y BBC
  - Gweithgareddau Allanol gan Gyfranwyr Rheolaidd i Allbwn Trydydd Parti, Gan Gynnwys Dylanwadwyr Cyfryngau Cymdeithasol
  - Cyflwynwyr Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Ffeithiol yn Ymddangos mewn Drama
  - Cwmnïau Cynhyrchu Annibynnol sy'n Eiddo i Dalentau neu Asiantau


# 4.1 CYFLWYNIAD

Rhaid i gynulleidfaoedd allu ymddiried yn y BBC a'r rheini sy'n gweithio iddo, a bod yn hyderus nad yw dylanwadau allanol fel gweithgareddau masnachol neu wleidyddol neu safbwyntiau neu brofiadau personol yn effeithio'n ormodol ar benderfyniadau golygyddol. Mae'r adran hon yn egluro sut gallai gweithgareddau unigolyn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o'r BBC, a'u rôl yn y BBC.

Gall gwrthdaro rhwng buddiannau godi i unrhyw un sy'n gweithio i'r BBC mewn unrhyw ffordd, sut bynnag y mae'n gysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu, goruchwylio neu ymddangos yng nghynnwys y BBC. Mae hefyd yn berthnasol i gynhyrchwyr annibynnol sy'n creu cynnwys ar gyfer y BBC, a Gwasanaethau Masnachol y BBC sy'n gwneud cynnwys ar gyfer unrhyw barti.

Mae gwrthdaro posibl rhwng buddiannau yn codi pan fydd ymddygiad a dewisiadau unigolyn y tu allan i'r BBC yn gallu effeithio ar ei ddidueddrwydd, ei annibyniaeth a'i uniondeb ei hun ac ar ddidueddrwydd, annibyniaeth ac uniondeb y BBC – neu'n cael ei weld yn rhesymol fel rhywbeth sy'n effeithio arno. Mae gwrthdaro posibl rhwng buddiannau hefyd yn gallu niweidio brand ac enw da'r BBC.

Mae'n ofynnol bod holl staff y BBC yn datgan yn ffurfiol unrhyw fuddiant personol a all effeithio ar eu gwaith gyda'r BBC. Mae rheolwyr ym mhob adran yn gyfrifol am benderfynu pa gamau i'w cymryd, os oes angen, i reoli neu i liniaru gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Rhaid iddynt ystyried y goblygiadau ehangach i'r BBC yn ei gyfanrwydd. Mewn rhai amgylchiadau, gall hefyd fod yn briodol ystyried a allai sefyllfa teuluoedd a chysylltiadau personol agos achosi gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Mae unigolion yn gyfrifol am lenwi ffurflen Datgan Buddiannau Personol ac mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i gyflwynwyr llawrydd, gohebwyr, cynhyrchwyr ac ymchwilwyr a gweithwyr eraill. Yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddatgan buddiannau personol. Mae sensitifrwydd neilltuol yn gallu bodoli yng nghyswllt talentau ar yr awyr.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen cyfyngu ar ryddid unigol neu pan fydd rheolwyr yn penderfynu y gallai fod angen cyfyngu ar y meysydd y gall unigolion weithio ynddynt, yr amseroedd y gallant weithio neu mewn agweddau penodol ar eu rolau. Bydd y penderfyniadau hyn yn dibynnu ar y math o allbwn y maent yn ymwneud ag ef, eu rôl, pa mor uchel yw eu swydd a natur eu buddiannau personol a gweithgareddau allanol.

Nid yw gwrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei reoleiddio gan Ofcom, ac eithrio lle gallai arwain at fethiant o ran didueddrwydd dyladwy[23]. Mae polisi'r BBC ar fuddiannau personol yn rhan o'r contract cyflogaeth sy'n berthnasol i'w weithwyr. Dylai pob contract (boed yn gontract staff neu weithiwr llawrydd) gynnwys gofyniad i gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol gan gynnwys y nodiadau cyfarwyddyd ar Wrthdaro rhwng Buddiannau a, lle bo hynny'n berthnasol, Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol. Gall methiant i gydymffurfio â'r Canllawiau hyn neu fethiant i ddilyn y canllawiau cysylltiedig arwain at gymryd camau. Yn achos unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y BBC fel arall – gan gynnwys gohebwyr, cynhyrchwyr, ymchwilwyr, cyflwynwyr ar yr awyr a phobl eraill sy'n gweithio mewn rolau ar yr awyr fel beirniaid, capteiniaid timau ac ati – dylai goblygiadau methu â chydymffurfio â'r Canllawiau hyn a'r canllawiau cysylltiedig gael eu hadlewyrchu yn eu contractau, yn ogystal â bod yn amodol ar y broses gwynion arferol.

Mae'r egwyddorion o ran gwrthdaro rhwng buddiannau yn berthnasol i bawb, ond bydd y dull o gymhwyso'r egwyddorion yn amrywio yn ôl rôl yr unigolyn a faint mae'n ymwneud â chynnwys y BBC. Mae hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd ac uniondeb cynnyrch y BBC, yn enwedig y disgwyliad y bydd ei newyddion a materion cyfoes a

---

[23] Cod Darlledu Ofcom, Rheol 5.8: Rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fudd personol sydd gan ohebydd neu gyflwynydd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy'r rhaglen

newyddiaduraeth ffeithiol yn cyrraedd y lefelau uchaf o gywirdeb a didueddrwydd. Mae allbwn newyddiaduraeth ffeithiol yn cyfeirio at gynnwys o natur newyddiadurol sy'n cael ei gynhyrchu y tu allan i allbwn newyddion a materion cyfoes.

Mae cyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol ychwanegol ar y rheini sy'n ymwneud â newyddiaduraeth ariannol neu'r rheini sy'n gysylltiedig ag allbwn sy'n cynnig cyngor ariannol neu gyngor i ddefnyddwyr.

Nid yw'r Canllawiau hyn wedi'u bwriadu i atal y BBC rhag defnyddio staff, gweithwyr llawrydd a chyflwynwyr sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol. Nid oes dim yn y Canllawiau hyn ychwaith sydd â'r bwriad o atal swyddogion etholedig yr undebau llafur sy'n cael eu cydnabod gan y BBC rhag cyflawni dyletswyddau cyfreithlon ar ran eu hundeb.

Rhaid darllen yr adran hon o'r Canllawiau Golygyddol ar y cyd â'r adran ar Ddidueddrwydd a'r canllawiau manwl ar Wrthdaro rhwng Buddiannau a Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd)

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro rhwng Buddiannau; a Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol)

# 4.2 EGWYDDORION

4.2.1 Rhaid sicrhau na fydd buddiannau gwleidyddol, masnachol neu ariannol yr unigolyn na'i fuddiannau allanol eraill yn dylanwadu, neu'n cael eu gweld yn rhesymol yn dylanwadu, ar benderfyniadau golygyddol y BBC.

4.2.2 Rhaid i'r rheini sydd â rôl creu cynnwys yn y BBC beidio â chael unrhyw gysylltiad sylweddol â chynnyrch, busnesau na sefydliadau eraill sy'n cael sylw yn y cynnwys hwnnw, na gyda'u cystadleuwyr nac, mewn rhai achosion, â'r sector busnes perthnasol. Os oes cysylltiad o'r fath yn bodoli, rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol.

4.2.3 Pan fydd cyflwynwyr ar yr awyr neu eraill sy'n cael eu defnyddio mewn rôl ar yr awyr fel capteiniaid timau, cyflwynwyr, beirniaid, neu hasiantau, yn berchen ar neu'n meddu ar uwch swyddi rheoli mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n creu allbwn ar gyfer y BBC, rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol gyffredinol ar bob agwedd ar y cynnwys, gan gynnwys marchnata a hyrwyddo.

# 4.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL - rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae atgyfeiriadau gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

4.3.1 Ni ddylai cyflwynwyr newyddion a materion cyfoes arwain ymgyrchoedd dros elusennau neu gyrff ymgyrchu oherwydd gallai hyn danseilio enw’r BBC am ddidueddrwydd. Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig a fyddai’n groes i hyn i sylw’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 4.4.26)

4.3.2 Ni ddylai unigolion sy’n rhan o’r broses o gynhyrchu neu gyflwyno allbwn newyddion, materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol y BBC – gan gynnwys gweithwyr llawrydd sy’n cael eu hadnabod yn bennaf am eu rôl yn y BBC – ymgymryd â gwaith hyfforddi cyfryngau allanol fel arfer, gan gynnwys ar gyfer cwmnïau masnachol, elusennau na grwpiau ymgyrchu. Rhaid i unrhyw gynnig i gyflawni gwaith o’r fath gael ei atgyfeirio i’r rheolwr llinell ymlaen llaw a’i atgyfeirio i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 4.4.33)

4.3.3 Gellir cael amgylchiadau lle nad yw’n bosibl cynhyrchu cynnwys am unigolyn enwog penodol neu faes lle mae gan yr unigolyn enwog fynediad neu arbenigedd unigryw, oni bai ei fod yn cael ei gynhyrchu gan gwmni cynhyrchu annibynnol sy’n eiddo i’r dalent honno neu sy’n cael ei chydgynhyrchu â’r dalent honno neu asiantaeth gysylltiedig. Bydd unrhyw gynnig o’r fath yn gofyn am gyfiawnhad golygyddol cryf a rhaid ei atgyfeirio i’r cyfarwyddwr uwch-adrannol perthnasol a’r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid ymgynghori hefyd â’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 4.4.46)

## Atgyfeiriadau Eraill

4.3.4 Rhaid i unrhyw unigolyn mewn rôl lle mae didueddrwydd yn ofynnol sy’n bwriadu mynegi barn yn gyhoeddus ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol, gwleidyddiaeth neu unrhyw fater dadleuol, neu gymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol, roi gwybod i’w reolwr llinell ymlaen llaw, a dylai’r rheolwr llinell ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth os oes perygl i ddidueddrwydd, neu’r canfyddiad o ddidueddrwydd.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.14)

4.3.5 Os yw unigolyn yn credu bod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau wedi codi nad yw wedi’i ddatgan eisoes, rhaid iddo roi gwybod i’w reolwr llinell ar unwaith. Gellir ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.4)

4.3.6 Pan fydd pobl sy’n gweithio i’r BBC yn datblygu gyrfaoedd portffolio sy’n cynnwys rolau allanol, mae angen eu hatgyfeirio’n gynnar at ffigwr golygyddol uwch. Gellir ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.5)

4.3.7 Pan fydd cysylltiad o bwys rhwng unrhyw un sydd â rôl yn y gwaith o greu cynnwys y BBC gyda chynnyrch, busnesau neu sefydliadau eraill sy’n cael sylw neu sy’n cael eu hadlewyrchu yn y cynnwys hwnnw, rhaid ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol ymlaen llaw.

(Gweler 4.4.1)

4.3.8 Mewn rhai meysydd, fel rhaglenni cerddoriaeth, celfyddydau, chwaraeon, gwyddoniaeth neu ffordd o fyw arbenigol, mae’n bosibl y bydd gan gyflwynwyr a thalent ar yr awyr, staff comisiynu a chynhyrchu, a thimau eraill sy’n eu cefnogi fuddiannau masnachol, proffesiynol a phersonol allanol ym maes eu harbenigedd. Mewn achosion o’r fath, dylai’r uwch-adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith fel na fydd gwrthdaro rhwng buddiannau â’u rôl yn y BBC. Gellir ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.9)

4.3.9 Rhaid ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ar y dechrau os oes unrhyw bosibilrwydd y gallai gweithgareddau gwleidyddol gael eu gweld yn risg i ddidueddrwydd y BBC. Bydd penderfyniadau ynghylch beth sy’n dderbyniol yn adlewyrchu amgylchiadau’r unigolyn, yn cynnwys y math o weithgarwch a natur rôl yr unigolyn gyda’r BBC.

(Gweler 4.4.21-4.4.23)

4.3.10 Rhaid i unrhyw unigolyn sy’n bwriadu ceisio cael ei enwebu fel ymgeisydd plaid ar gyfer etholiad ar lefel genedlaethol neu leol, neu sy’n bwriadu datgan yn gyhoeddus ei fod am fod yn ymgeisydd annibynnol, hysbysu ei reolwr llinell ymlaen llaw, a ddylai wedyn ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn datgan bwriad yn gyhoeddus.

(Gweler 4.4.22)

4.3.11 Rhaid i unrhyw gynnig gan unigolion, gan gynnwys cyflwynwyr y prif raglenni, i weithio i elusennau a grwpiau ymgyrchu neu lobïo, neu gael eu cysylltu â nhw’n gyhoeddus, gael ei atgyfeirio i bennaeth yr adran, a fydd yn ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.25)

4.3.12 Rhaid i unigolion sy’n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno allbwn newyddion a materion cyfoes ac allbwn newyddiaduraeth ffeithiol, yn cynnwys gweithwyr llawrydd sy’n cael

eu hadnabod yn bennaf fel cyflwynwyr neu ohebwyr newyddion y BBC, ac unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu newyddiaduraeth ffeithiol, atgyfeirio cynigion i ysgrifennu colofnau neu ddarnau blog i gyhoeddiadau allanol i ffigwr golygyddol uwch yn yr uwch-adran berthnasol.

(Gweler 4.4.28)

4.3.13 Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n gwneud sylwadau cyhoeddus, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, am faterion neu straeon y BBC, neu faterion sy'n ymwneud â darlledwyr eraill neu'r polisi darlledu, ymgynghori â'i reolwr llinell ymlaen llaw, oni bai ei fod yn dod o fewn ei gylch gwaith proffesiynol.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.15)

4.3.14 Rhaid i unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno cynnwys golygyddol i'r BBC gael caniatâd gan eu rheolwr llinell cyn cytuno i ddarparu hyfforddiant ar y cyfryngau. Rhaid i gyflwynwyr llawrydd ddatgelu eu gwaith hyfforddi os gallai greu gwrthdaro rhwng buddiannau â'u gwaith i'r BBC.

(Gweler 4.4.32)

4.3.15 Rhaid i unigolion beidio â derbyn buddion personol, neu fuddion i'w teulu neu berthnasau agos, gan sefydliadau neu bobl y gallent fod yn ymwneud â nhw ar ran y BBC. Mae buddion personol annerbyniol yn cynnwys nwyddau, disgowntiau, gwasanaethau, arian parod, benthyciadau, arian rhodd neu adloniant, yn cynnwys tocynnau, y tu allan i gwmpas arferol lletygarwch busnes.

Mae'n ofynnol bod unrhyw eithriad i hyn, lle gallai effeithio ar gynhyrchu cynnwys i'r BBC, yn cael ei atgyfeirio i'r pennaeth adran perthnasol, a ddylai ymgynghori fel arfer â'r tîm Polisi Golygyddol, i sefydlu a yw derbyn y cynnig yn creu gwrthdaro rhwng buddiannau.

(Gweler 4.4.34)

4.3.16 Rhaid i gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill a ddefnyddir mewn rôl ar yr awyr fel beirniaid, cyflwynwyr, capteiniaid tîm ac ati beidio â hyrwyddo cynnyrch tybaco na gwasanaethau i oedolion. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynnig iddynt hyrwyddo cynnyrch neu wasanaethau eraill a allai beri risg o niweidio enw da'r BBC, fel gamblo, alcohol a chynnyrch fepio gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 4.4.35)

4.3.17 Pan fydd unigolyn a ddefnyddir o flaen y camera/microffon yn cymryd rhan ar sail gyfyngedig neu achlysurol mewn allbwn ffeithiol, rhaid i unrhyw gynnig i ymgymryd â gwaith

hyrwyddo gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i bennaeth yr adran, a dylai pennaeth yr adran ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.38-4.4.39)

4.3.18 Mewn rhai rhaglenni ffeithiol, efallai y bydd gan gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd ag arbenigedd yn eu maes gysylltiadau masnachol cysylltiedig. Pan fydd unrhyw gynnig i'r unigolion hynny gymryd rhan mewn gweithgarwch hyrwyddo allanol, dylai'r uwch-adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith fel na fydd gwrthdaro rhwng buddiannau â'u rôl yn y BBC. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.40)

4.3.19 Efallai y gofynnir i gyflwynwyr allbwn ffeithiol ail-greu eu rolau mewn allbwn ffuglennol. Gallai hyn achosi dryswch i gynulleidfaoedd a chyfaddawdu hygrededd eu hallbwn eu hunain. Rhaid i gynnig o'r fath gael ei atgyfeirio i bennaeth eu hadran.

(Gweler 4.4.45)

4.3.20 Mae'n bwysig na fydd cyflwynwyr presennol allbwn newyddion y BBC yn ymddangos fel cyflwynwyr newyddion mewn bwletin ffuglennol os oes posibilrwydd rhesymol y bydd hyn yn drysu neu'n camarwain cynulleidfaoedd. Rhaid i unrhyw gynnig i wneud hyn, er enghraifft mewn sefyllfa ddramatig, gomig, afrealaidd neu ffantasi, gael ei atgyfeirio i'w pennaeth adran.

(Gweler 4.4.45)

# 4.4 CANLLAWIAU

## Datgan Buddiannau Personol

4.4.1 Mae'n ofynnol bod pob unigolyn sy'n cael ei ddefnyddio gan y BBC yn datgan unrhyw fuddiannau personol a all effeithio ar ei waith gyda'r BBC. Dylid cofnodi'r rhain ar ffurflen Datganiad o Fuddiannau Personol a chyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau ei bod yn cael ei chadw a'i diweddaru. Fel arfer, gellir rheoli gwrthdaro posibl a dylai unigolion eu trafod â'u rheolwr llinell i werthuso'r goblygiadau tebygol ar gyfer eu rôl yn y BBC ac unrhyw fesurau lliniaru gofynnol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd ddatgan unrhyw fuddiannau allanol neu fasnachol a all wrthdaro â'u gwaith gyda'r BBC. Dylai cynhyrchwyr annibynnol ddatgan hyn ar adeg y comisiynu.

**Pan fydd cysylltiad o bwys rhwng unrhyw un sydd â rôl yn y gwaith o greu cynnwys y BBC a chynnyrch, busnesau neu sefydliadau eraill sy'n cael sylw neu sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cynnwys hwnnw, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol ymlaen llaw.**

Gallai buddiannau allanol – rhai masnachol a rhai nad ydynt yn fasnachol – cyflwynwyr ac unigolion eraill ar yr awyr sydd â rôl ar yr awyr sydd â chysylltiad agos â rhaglen fel beirniad, cyflwynydd, panelydd rheolaidd ac ati arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Pan gaiff contractau eu negodi, rhaid i unigolion o'r fath ddatgan unrhyw fuddiant masnachol neu fuddiant allanol arall a all effeithio ar eu rôl ar yr awyr neu sy'n gysylltiedig â phwnc y rhaglen y maent yn ei chyflwyno.

Mae'n bwysig bod yr holl staff cynhyrchu a golygyddol sy'n gweithio i'r BBC yn datgan buddiannau ariannol sylweddol os oes unrhyw gysylltiad o gwbl rhyngddynt a'r maes y maent yn gweithio ynddo neu'r pwnc y maent yn ymdrin ag ef.

Y maes gyda'r sensitifrwydd mwyaf yw newyddiaduraeth ariannol lle mae gofynion cyfreithiol ychwanegol o ran yr hyn y mae'n rhaid ei ddatgan.

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro Rhwng Buddiannau)

4.4.2 Mae unigolion yn gyfrifol am roi gwybod i'w rheolwyr am unrhyw fuddiannau allanol sydd ganddynt, fel y gall y BBC benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd mewn ymateb i unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a welir. Mewn rhai achosion gall hyn hefyd fod yn berthnasol i deulu unigolyn a/neu gysylltiadau personol agos.

4.4.3 Mae rhai rolau cyhoeddus gwirfoddol anwleidyddol, fel llywodraethwr ysgol neu ynad, yn dderbyniol fel arfer hyd yn oed yn achos y rheini sy'n ymwneud â phenderfyniadau golygyddol, yn cynnwys mewn allbwn newyddion a materion cyfoes. Dylid datgan y rolau hyn.

4.4.4 **Os yw unigolyn yn credu bod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau wedi codi nad yw wedi'i ddatgan eisoes, rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell ar unwaith.** Gellir ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.

4.4.5 Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gweithio i'r BBC a gyda'r BBC yn ceisio arallgyfeirio eu diddordebau allanol, felly efallai na fyddant yn gweithio i'r BBC yn unig, hyd yn oed os tybir bod eu swydd yn un amser llawn. Yn dibynnu ar faes y BBC y mae unigolyn yn ymwneud ag ef, gall gyrfaoedd portffolio o'r fath fod yn wrthdaro rhwng buddiannau. Rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod rolau allanol yn cael eu hamlinellu a'u nodi'n glir, fel y bo'n briodol, fel bod y gynulleidfa'n glir o ran pa swyddogaeth y mae person yn ei gweithredu. Efallai y bydd angen gwirio sefyllfa gytundebol yr unigolyn hefyd. **Pan fydd pobl sy'n gweithio i'r BBC yn datblygu gyrfaoedd portffolio sy'n cynnwys rolau allanol, mae angen eu hatgyfeirio'n gynnar at ffigwr golygyddol uwch.** Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

## Risgiau o Wrthdaro Rhwng Buddiannau

4.4.6 Mae pedwar prif fath o risg bosibl yn gallu codi o fuddiannau a gweithgareddau allanol unigolyn. Mae'r risgiau hyn yn bodoli yn yr holl feysydd cynnwys:

- y risg o ddwyn anfri ar yr unigolyn a/neu'r BBC
- y risg o godi amheuon ynghylch didueddrwydd yr unigolyn a/neu'r BBC
- y risg o godi amheuon ynghylch annibyniaeth y BBC
- y risg o danseilio eu huniondeb personol a/neu uniondeb y BBC oherwydd buddiannau masnachol, gwaith hyrwyddo, gweithgareddau allanol a buddiannau eraill yr unigolyn.

Yn nes ymlaen yn yr adran ceir rhestr o weithgareddau allanol a allai arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, gwybodaeth am y risgiau posibl a allai godi a'r cyfyngiadau a allai fod yn ofynnol mewn gwahanol feysydd allbwn. Ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau, ceir cyngor cyffredinol wedi'i ddilyn gan gyngor penodol i'r rheini sy'n gweithio ym maes newyddion a materion cyfoes ac allbwn ffeithiol.

### Yr holl feysydd allbwn

4.4.7 Rhaid sicrhau na fydd perygl i weithgareddau allanol y rheini sy'n gyfrifol am gomisiynu neu gynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC, na thalentau ar yr awyr wneud drwg i enw'r BBC. Rhaid sicrhau na fydd cysylltiadau'r unigolyn oddi ar yr awyr ag elusennau, ymgyrchoedd, pleidiau gwleidyddol neu sefydliadau eraill yn creu risg o godi amheuon ynghylch didueddrwydd neu uniondeb y BBC. Os gellir cyfyngu ar weithgareddau a buddiannau unigolion oddi ar yr awyr oherwydd natur eu rôl gyda'r BBC, mae hyn wedi'i amlinellu isod yn Gweithgareddau Allanol.

4.4.8 Mae perygl i bobl sy'n gysylltiedig â gwneud neu gyflwyno cynnwys i'r BBC danseilio uniondeb eu hallbwn i'r BBC drwy ymwneud oddi ar yr awyr â buddiannau masnachol amhriodol.

4.4.9 Nid bwriad y Canllawiau yw atal unigolion sydd ag arbenigedd rhag creu cysylltiadau masnachol sefydledig a phriodol yn eu maes.

**Mewn rhai meysydd, fel rhaglenni cerddoriaeth, celfyddydau, chwaraeon, gwyddoniaeth neu ffordd o fyw arbenigol, mae'n bosibl y bydd gan dalent ar yr awyr, staff comisiynu a chynhyrchu, a thimau eraill sy'n eu cefnogi fuddiannau masnachol, proffesiynol a phersonol allanol ym maes eu harbenigedd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r uwch-adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith fel na fydd gwrthdaro rhwng buddiannau â'u rôl yn y BBC. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

### Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol

4.4.10 Mae allbwn newyddion a materion cyfoes yn gallu ymdrin ag unrhyw fater, achos, sefydliad neu unigolyn a rhaid sicrhau nad oes amheuaeth ynghylch uniondeb na didueddrwydd timau golygyddol. Am y rheswm hwn, mae cyfyngiadau ychwanegol ar y rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu a chyflwyno allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn amddiffyn didueddrwydd y BBC ac yn diogelu unigolion sy'n gysylltiedig, a all wynebu honiadau o duedd.

4.4.11 Mae cyfyngiadau pwysig hefyd ar y gwaith allanol a masnachol y mae'n briodol i unigolion sy'n gweithio ym maes newyddion a materion cyfoes eu cyflawni. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u hamlinellu isod yn Gweithgareddau Allanol.

Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd yn berthnasol i feysydd allbwn ffeithiol sy'n ystyried materion polisi cyhoeddus cyfredol neu faterion gwleidyddol dadleuol yn rheolaidd.

**Newyddiaduraeth Ariannol**

4.4.12 Mae gofynion ychwanegol a chyfyngiadau cyfreithiol ar newyddiadurwyr ariannol. Dylai pobl sy'n gweithio ar raglenni ariannol i'r BBC gofrestru eu cyfranddaliadau a'u buddiannau neu eu trafodion ariannol eraill. Mae'n anghyfreithlon defnyddio gwybodaeth ariannol a gafwyd ymlaen llaw i fasnachu o flaen y marchnadoedd. Mae hefyd yn anghyfreithlon hyrwyddo gwasanaethau ariannol heb gael awdurdodiad priodol gan yr awdurdodau rheoleiddio perthnasol. Mae rhagor o wybodaeth yn y canllawiau ar Wrthdaro Rhwng Buddiannau.

## Gweithgareddau Allanol

4.4.13 Mae gweithgareddau allanol a all achosi gwrthdaro rhwng buddiannau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- mynegi barn yn gyhoeddus, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- gweithgareddau gwleidyddol
- gwaith i elusennau ac ymgyrchoedd
- ysgrifennu ac ymrwymiadau darlledu eraill ym mhob cyfrwng
- siarad cyhoeddus ac ymddangosiadau cyhoeddus eraill
- rolau academaidd
- hyfforddiant ar y cyfryngau
- buddion personol
- talentau ar yr awyr a gweithgarwch hyrwyddo, yn cynnwys hysbysebu a chymeradwyo masnachol
- cyfeiriadau at gynnwys y BBC mewn hysbysebion neu hyrwyddiadau, ac actorion sy'n ailadrodd eu rolau yn y BBC mewn allbwn allanol

- gweithgareddau allanol gan gyfranwyr rheolaidd i allbwn trydydd parti, gan gynnwys dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol
- cyflwynwyr newyddion a materion cyfoes, ac allbwn newyddiaduraeth ffeithiol sy'n ymddangos mewn drama
- cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n eiddo i dalentau neu asiantau.

## Mynegi barn yn gyhoeddus, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol

***Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr ag Adran 2: Didueddrwydd; a chanllawiau: Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol***

4.4.14 Pan fydd unigolion yn nodi eu bod yn gysylltiedig â'r BBC, a'u bod yn wneuthurwyr cynnwys mewn rolau ar yr awyr neu oddi ar yr awyr neu'n gyflwynwyr sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r BBC, mae gan eu datganiadau barn cyhoeddus ar faterion dadleuol neu faterion polisi cyhoeddus cyfredol y potensial i beryglu eu didueddrwydd eu hunain a didueddrwydd y BBC neu achosi niwed arall i enw da. Mae hyn yn cynnwys arddangos arwyddluniau, ymuno â phrotestiadau neu orymdeithiau, cefnogi ymgyrchoedd neu lofnodi deisebau, ysgrifennu llythyrau agored i'r wasg, i wleidyddion, neu i unrhyw sefydliad allanol. Gall unrhyw farn o'r fath a roddir yn gyhoeddus arwain at wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau.

4.4.15 Gall cymryd safbwynt cyhoeddus ar fater o bolisi cyhoeddus cyfredol, dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall fod yn anghydnaws â rhai o rolau'r BBC. Bydd yn hanfodol cael trafodaeth ymlaen llaw â rheolwyr llinell yn yr holl feysydd genre.

4.4.16 Rhaid i unigolion ymgynghori â'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol yn eu maes a all hefyd ymgynghori â Swyddfa'r Wasg ar fynegi barn yn gyhoeddus os ydynt yn ymdrin â chynnwys y BBC, yn ymwneud â'r BBC neu ddarlledu, neu'n ymwneud â materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.1 a 2.4.12-2.4.15)

4.4.17 Dylai cyflwynwyr sy'n cyflwyno rhaglenni i'r BBC yn achlysurol yn unig ymgynghori â'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol dros farn gyhoeddus a fynegir sy'n berthnasol i bwnc eu rhaglenni fel arfer, os bydd yn cael ei chyhoeddi o gwmpas yr amser darlledu.

**Gofynion ychwanegol ym maes newyddion a materion cyfoes ac allbwn newyddiaduraeth ffeithiol sy'n delio â materion polisi cyhoeddus cyfredol**

4.4.18 Mae cyfyngiadau ychwanegol ar unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno unrhyw allbwn o'r fath a rhaid iddynt beidio â:

- datgan neu ddatgelu'n gyhoeddus sut maent yn pleidleisio na dangos cefnogaeth i unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd

- eirioli unrhyw safbwynt penodol neu newid sy'n ymwneud â mater polisi cyhoeddus cyfredol neu ddadl wleidyddol plaid, dadl wleidyddol ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall
- siarad neu ysgrifennu'n gyhoeddus am y BBC heb gael cymeradwyaeth benodol ymlaen llaw gan y Pennaeth Adran perthnasol.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.12-2.4.15)

Mewn achosion prin eithriadol, er enghraifft, pan fydd mater penodol yn effeithio'n bersonol ar unigolyn, rhaid ei ddatgan fel gwrthdaro posibl er mwyn gallu ystyried cymryd camau lliniaru.

## Gweithgareddau Gwleidyddol

4.4.19 Mae gan bawb hawl i fod yn aelod o blaid wleidyddol neu sefydliad arall sy'n gyfreithlon. Fodd bynnag, mae angen i unigolion mewn rhai rolau ystyried a fyddai datgelu aelodaeth o'r fath i'r cyhoedd yn peryglu tanseilio hyder y cyhoedd yn eu gallu i gyflawni rhai agweddau ar eu swydd, neu bob agwedd ar eu swydd, neu beryglu'r canfyddiad o ddidueddrwydd y BBC fel arall.

4.4.20 Byddai chwarae rhan weithredol mewn plaid wleidyddol – neu mewn gweithgarwch cyhoeddus arall sy'n dangos safbwynt gwleidyddol – yn gallu achosi gwrthdaro rhwng buddiannau i'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y BBC neu sy'n cael eu cysylltu'n gyhoeddus â'r BBC.

Mae'n bwysig sicrhau na fydd gweithgarwch o'r fath yn amharu ar ddidueddrwydd neu uniondeb y BBC neu'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y BBC. Bydd penderfyniadau ynghylch beth sy'n dderbyniol yn adlewyrchu amgylchiadau'r unigolyn, yn cynnwys y math o weithgarwch a natur rôl yr unigolyn gyda'r BBC.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.12-2.4.15)

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

4.4.21 Mae gweithgarwch gwleidyddol yn debygol o fod yn anghydnaws â rhai rolau yn y BBC.

**Rhaid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ar y dechrau os oes unrhyw bosibilrwydd i weithgarwch gwleidyddol gael ei weld yn risg i ddidueddrwydd y BBC.**

4.4.22 Mae ceisio enwebiad gan blaid i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cenedlaethol neu leol, neu fynegi bwriad i sefyll fel ymgeisydd annibynnol, yn anghydnaws â rhai rolau yn y BBC sydd, o bosib, yn delio â materion polisi cyhoeddus cyfredol, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall. Mae'n debygol o fod yn anghydnaws â'r rhan fwyaf o rolau ym maes newyddion a materion cyfoes (gweler isod). Cyn unrhyw drafodaeth allanol ynghylch enwebu, mae'n bwysig bod unigolion yn trafod â'u rheolwr llinell y

goblygiadau i'w cyfrifoldebau proffesiynol ac unrhyw risg bosibl i ddidueddrwydd y BBC os bydd bwriad o'r fath yn dod yn gyhoeddus.

**Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n bwriadu ceisio cael ei enwebu fel ymgeisydd plaid ar gyfer etholiad ar lefel genedlaethol neu leol, neu sy'n bwriadu datgan yn gyhoeddus ei fod am fod yn ymgeisydd annibynnol, hysbysu ei reolwr llinell ymlaen llaw, a ddylai wedyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn datgan bwriad yn gyhoeddus.**

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.14)

**Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes, ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol**

4.4.23 Mae unrhyw weithgareddau gwleidyddol, fel ymgyrchu neu fynegi barn ar gyfryngau cymdeithasol am faterion polisi cyhoeddus cyfredol a phynciau dadleuol eraill yn debygol o fod yn anghydnaws â'r rhan fwyaf o rolau ym maes newyddion a materion cyfoes, a newyddiaduraeth ffeithiol.

Mae bod yn aelod gweithgar o blaid wleidyddol yn anghydnaws â'r rhan fwyaf o rolau ym maes newyddion a materion cyfoes, a newyddiaduraeth ffeithiol. Gellir gofyn am gyngor gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

## Gwaith i Elusennau ac Ymgyrchoedd

Gall pobl gefnogi elusennau ac achosion elusennol sy'n adlewyrchu eu diddordebau a phrofiadau bywyd weithiau. Gall hyn arwain at nifer o faterion y mae angen eu hystyried yn ofalus, yn dibynnu ar natur y cynnwys a rôl yr unigolyn yn y BBC.

4.4.24 Mae'n bwysig na fydd unrhyw waith a gyflawnir ar ran neu o blaid elusen neu achos elusennol yn awgrymu bod y BBC yn cymeradwyo un elusen neu achos yn fwy na'i gilydd. Bydd sensitifrwydd neilltuol os yw gwaith yr elusen yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall. Rhaid i unigolion sicrhau nad yw eu didueddrwydd yn cael ei danseilio drwy eu cysylltu eu hunain ag elusen sy'n gweithredu yn yr un maes â'r allbwn y maent yn gweithio arno.

4.4.25 Mae llawer o sefydliadau, yn cynnwys grwpiau ymgyrchu a lobïo, elusennau, papurau newydd a gwefannau arbenigol, yn ymgymryd â safbwynt cyhoeddus ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu unrhyw 'bynciau dadleuol' eraill . Cyn ymwneud yn weithredol â sefydliad sydd â safbwynt pleidiol neu ymgyrchol ar faterion o'r fath, neu gynnig cefnogaeth gyhoeddus iddo, dylai unigolion a gyflogir gan y BBC roi'r un ystyriaeth i'r risgiau i ddidueddrwydd ag sydd ei hangen yng nghyswllt gweithgarwch pleidiau gwleidyddol.

**Rhaid i unrhyw gynnig gan unigolion, gan gynnwys cyflwynwyr y prif raglenni, i weithio i elusennau a grwpiau ymgyrchu neu grwpiau lobïo, neu gael eu cysylltu â nhw'n gyhoeddus, gael ei atgyfeirio i bennaeth yr adran, a fydd yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

### Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol

4.4.26 Fel rheol ni ddylai cyflwynwyr, gohebwyr na phobl olygyddol mewn rhaglenni newyddion, materion cyfoes, ffeithiol a defnyddwyr gysylltu eu hunain ag unrhyw gorff ymgyrchu.

**Ni ddylai cyflwynwyr newyddion a materion cyfoes arwain ymgyrchoedd dros elusennau neu gyrff ymgyrchu oherwydd gallai hyn danseilio enw'r BBC am ddidueddrwydd. Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig a fyddai'n groes i hyn i sylw'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Ysgrifennu ac Ymrwymiadau Darlledu Eraill ym Mhob Cyfrwng

4.4.27 Efallai y bydd pob unigolyn sy'n ymwneud ag allbwn golygyddol a'r rheini sy'n darparu cymorth ar gyfer allbwn o'r fath yn dymuno ymgymryd â gwaith allanol, gan gynnwys creu podlediadau, ysgrifennu erthyglau, neu lyfrau, neu ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiadau ar wefannau a llwyfannau trydydd parti eraill. Rhaid sicrhau na fydd gweithgarwch o'r fath yn creu'r perygl o danseilio didueddrwydd neu uniondeb y BBC neu ei gynnwys neu o wneud drwg i enw'r BBC.

Rhaid i unrhyw gynigion i ysgrifennu am faterion cyfoes, neu faterion polisi cyhoeddus cyfredol, neu bynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol neu 'bynciau dadleuol' eraill gael eu hatgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch. Yn achos gweithwyr llawrydd, rhaid gwneud atgyfeiriad os yw'r cyhoeddi'n debygol o ddigwydd yr un pryd â'r darllediad ac unrhyw farchnata a chyhoeddusrwydd cysylltiedig.

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

### Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol

4.4.28 **Rhaid i unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno allbwn newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol, yn cynnwys gweithwyr llawrydd sy'n cael eu hadnabod yn bennaf am eu rôl yn y BBC – atgyfeirio cynigion i ysgrifennu colofnau neu ddarnau blog i gyhoeddiadau allanol mewn unrhyw gyfrwng i ffigwr golygyddol uwch yn yr uwch-adran berthnasol.**

Rhaid i’r erthyglau hyn, p’un a ydynt yn rheolaidd neu’n achlysurol, gael eu darllen gan ffigwr golygyddol uwch yn y BBC a rhaid i’r cynnwys fodloni gofynion y Canllawiau Golygyddol.

Ni chaiff unigolion ysgrifennu colofn yn rheolaidd mewn papur newydd neu gylchgrawn sy’n delio â materion cyfoes neu faterion cysylltiedig â pholisi cyhoeddus, sy’n ddadleuol yn wleidyddol neu’n ddiwydiannol, nac unrhyw 'bynciau dadleuol’ eraill.

Mae angen i'r rheini sy’n gweithio ym maes newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol gael caniatâd ffigwr golygyddol uwch i gyhoeddi llyfrau. Ni ddylai'r llyfr amharu ar uniondeb neu ddidueddrwydd y BBC.

## Siarad Cyhoeddus ac Ymddangosiadau Cyhoeddus Eraill

4.4.29 Mae’n bwysig na fydd ymrwymiadau siarad cyhoeddus neu ymddangosiadau cyhoeddus eraill yn tanseilio didueddrwydd neu uniondeb y BBC na’i gynnwys, nac yn awgrymu bod unrhyw ran o’r BBC yn cymeradwyo sefydliad, cynnyrch, gwasanaeth neu ymgyrch trydydd parti.

Pan fydd cyflwynwyr cynnwys y BBC yn ymgymryd ag ymddangosiadau cyhoeddus oddi ar yr awyr, gall hynny danseilio eu rôl ar yr awyr i’r BBC. Ni ddylent ganiatáu defnyddio enw na brandiau’r BBC mewn cysylltiad â hysbysebion ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus, oni bai fod hyn wedi’i glirio ymlaen llaw gan y BBC. Ni ddylid cael unrhyw awgrym o gysylltiad gan y BBC â’r digwyddiad neu'r sefydliad trydydd parti, nac o’i gymeradwyaeth iddynt, oni bai fod hynny’n briodol o safbwynt golygyddol a’i fod wedi’i gymeradwyo gan y pennaeth adran perthnasol.

### Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol

4.4.30 Rhaid i unigolion sy’n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno allbwn newyddion, materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol y BBC – yn cynnwys gweithwyr llawrydd sy’n cael eu hadnabod yn bennaf am eu rôl yn y BBC – aros yn ddiduedd wrth siarad yn gyhoeddus neu gymryd rhan mewn digwyddiadau, fel dadl neu drafodaeth gyhoeddus. Rhaid iddynt beidio â hyrwyddo unrhyw blaid wleidyddol, sefydliad ymgyrchu neu grŵp lobïo. Byddai cadeirio mewn cynadleddau’n gallu creu gwrthdaro rhwng buddiannau. Ni ddylent gadeirio mewn cynadleddau sy’n ddigwyddiad hyrwyddo gan gwmni masnachol sy’n cefnogi unrhyw bleidiau gwleidyddol yn uniongyrchol, neu sydd heb fod yn ddiduedd ar fater polisi cyhoeddus cyfredol, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol neu unrhyw ‘bwnc dadleuol’ arall.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.12-2.4.15)

## Rolau Academaidd

4.4.31 Gall cyflwynwyr a ffigyrau golygyddol y BBC ymgymryd â rolau academaidd gan barhau i weithio i'r BBC; fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r rolau hyn yn peryglu didueddrwydd neu uniondeb y BBC neu ei gynnwys nac yn creu perygl o wneud drwg i enw'r BBC.

## Hyfforddiant ar y Cyfryngau

4.4.32 Mae cyflwynwyr, ffigyrau golygyddol uwch, comisiynwyr a chynhyrchwyr allbwn eraill y BBC yn cael siarad mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill am faterion sy'n berthnasol i ddarlledu, newyddiaduraeth neu gynhyrchu cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwysig na fyddant, wrth gymryd rhan, yn tanseilio didueddrwydd neu uniondeb y BBC neu ei gynnwys nac yn creu perygl o wneud drwg i enw'r BBC.

Mae darparu hyfforddiant ar y cyfryngau yn gallu achosi gwrthdaro rhwng buddiannau os rhoddir cyfarwyddyd i unigolion neu sefydliadau sy'n derbyn hyfforddiant ynghylch sut i'w cyflwyno eu hunain yn y cyfryngau.

**Rhaid i unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno cynnwys golygyddol i'r BBC gael caniatâd gan eu rheolwr llinell cyn cytuno i ddarparu hyfforddiant ar y cyfryngau. Rhaid i gyflwynwyr llawrydd ddatgelu eu gwaith hyfforddi os gallai greu gwrthdaro rhwng buddiannau â'u gwaith i'r BBC.**

Fel arfer, ni ddylai unigolion ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar y cyfryngau i'r rheini y maent yn debygol o orfod eu cyfweld, neu gyfweld â'r rheini y maent eisoes wedi'u hyfforddi.

### Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes *ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol*

4.4.33 **Ni ddylai unigolion sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu neu gyflwyno allbwn newyddion, materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol y BBC – gan gynnwys gweithwyr llawrydd sy'n cael eu hadnabod yn bennaf ar gyfer eu rôl yn y BBC – ymgymryd â gwaith hyfforddi cyfryngau allanol fel arfer, gan gynnwys ar gyfer cwmnïau masnachol, elusennau na grwpiau ymgyrchu. Rhaid i unrhyw gynnig i gyflawni gwaith o'r fath gael ei atgyfeirio i'w reolwr llinell ymlaen llaw a'i atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

Fel arfer, ni ddylai unigolion ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar y cyfryngau i'r rheini y maent yn debygol o orfod eu cyfweld, neu gyfweld â'r rheini y maent eisoes wedi'u hyfforddi.

Gellir cael achlysuron pan fydd unigolion yn gallu cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyfryngau, er enghraifft, i helpu i hyfforddi newyddiadurwyr. Rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan reolwyr llinell.

## Buddion Personol

4.4.34 Nid oes unrhyw amgylchiadau lle dylai rhywun sy'n gweithio i'r BBC neu ar ran y BBC dderbyn buddion personol gan gyflenwyr na derbyn nwyddau neu wasanaethau fel anogaeth. Gall hyn gynnwys manteision anniriaethol fel ffafrau 'cyfwerth' neu gyfnewid buddion. Mae gofynion y Canllawiau Golygyddol yn gyson â Chod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo'r BBC a pholisïau BBC Studios.

Rhaid i unrhyw gynnig o letygarwch gan gyrff neu gwmnïau allanol gael ei ystyried yn ofalus i sicrhau nad yw'n creu gwrthdaro rhwng buddiannau nac yn tanseilio canfyddiad y cyhoedd o ddidueddrwydd neu uniondeb y BBC neu'n creu'r perygl o wneud drwg i'w enw fel arall.

**Ni ddylai unigolion dderbyn buddion personol, neu fuddion i'w teulu neu berthnasau agos, gan sefydliadau neu bobl y gallent ymwneud â nhw ar ran y BBC. Mae buddion personol annerbyniol yn cynnwys nwyddau, disgowntiau, gwasanaethau, arian parod, benthyciadau, arian rhodd neu adloniant, yn cynnwys tocynnau, y tu allan i gwmpas arferol lletygarwch busnes.**

**Mae'n ofynnol bod unrhyw eithriad i hyn, lle gallai effeithio ar gynhyrchu cynnwys i'r BBC, yn cael ei atgyfeirio i'r pennaeth adran perthnasol, a ddylai ymgynghori fel arfer â'r tîm Polisi Golygyddol, i sefydlu a yw derbyn y cynnig yn creu gwrthdaro rhwng buddiannau.**

Gallai derbyn cynnyrch, nwyddau (gan gynnwys dillad) neu wasanaethau am ddim neu am gost sylweddol is, i'w defnyddio yng nghynnwys y BBC heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw, arwain at ddwyn anfri ar y BBC.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.13-15.4.15)

(Gweler y canllawiau: Propiau)

## Cyflwynwyr ar yr Awyr ac Eraill sydd â Rôl Amlwg ar yr Awyr: Gwaith Hyrwyddo, yn Cynnwys Hysbysebion a Chymeradwyaethau Masnachol

4.4.35 Nid yw'r BBC yn ceisio gosod cyfyngiadau diangen neu afresymol ar bobl sy'n gweithio iddo mewn unrhyw gapasiti, boed hynny'n gyflwynwyr ar yr awyr neu eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr neu rôl gynhyrchu uchel ei phroffil oddi ar yr awyr fel rhedwyr sioe, awduron, cyfarwyddwyr ac ati. Mewn llawer o achosion nid yw staff o'r fath yn egsgliwsif i'r BBC a gallant fod yn gysylltiedig â nifer o gwmnïau cyfryngau. Efallai na fydd unigolyn yn ennill y rhan fwyaf o'i incwm drwy ymddangos ar y BBC ac mae manteision i'r unigolyn ac i'r BBC o gael portffolio cyhoeddus eang. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau na fydd gweithgarwch hyrwyddo, sy'n cynnwys hysbysebu a chymeradwyo masnachol, yn creu'r perygl o amharu ar uniondeb cynnwys y BBC y maent yn gysylltiedig ag ef, nac yn creu'r perygl o wneud drwg i enw'r BBC yn gyffredinol. Dylid atgyfeirio cynigion ar gyfer gweithgarwch o'r fath at y BBC yn gynnar.

Ni ddylai gwaith hyrwyddo allanol unigolyn awgrymu cymeradwyaeth gan y BBC, danseilio gwerthoedd y BBC, dwyn anfri ar y BBC, na rhoi lle i'r cyhoedd amau didueddrwydd neu uniondeb yr unigolyn sy'n gysylltiedig â'r BBC, na chynnwys y BBC y mae'n gysylltiedig ag ef.

Hyd yn oed pan nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau â rôl yr unigolyn ar yr awyr, mae rhai cynnyrch, gwasanaethau neu sefydliadau na ddylai talentau ar yr awyr eu hyrwyddo gan y byddai hynny'n creu'r perygl o wneud drwg i enw'r BBC.

**Rhaid i gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr fel beirniaid, cyflwynwyr, capteiniaid tîm ac ati beidio â hyrwyddo cynnyrch tybaco na gwasanaethau i oedolion. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynnig iddynt hyrwyddo cynnyrch neu wasanaethau eraill a allai beri risg o niweidio enw da'r BBC, fel gamblo, alcohol neu gynnyrch fepio gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch.**

4.4.36 Pan fydd cyflwynwyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr fel beirniaid ac ati yn ystyried gweithgareddau hyrwyddo newydd, neu wrth ddefnyddio pobl newydd mewn rolau o'r fath, dylid ystyried a fydd y gweithgareddau hyrwyddo yn cael – neu a allent ymddangos fel pe baent yn cael – dylanwad gormodol ar agenda olygyddol cynnwys y BBC y maent yn gysylltiedig ag ef.

Bydd y gweithgareddau hyrwyddo y gellir ymgymryd â nhw yn amrywio yn ôl y gwahanol feysydd y maent yn gweithio ynddynt. Mae'n debygol y bydd llai o gyfyngiadau ar y cyflwynwyr ar yr awyr hynny ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sy'n gweithio ym maes adloniant, chwaraeon neu allbwn ffordd o fyw nag ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes newyddion a materion cyfoes ac allbwn newyddiaduraeth ffeithiol. Mae hyn yn berthnasol ar yr amod nad yw eu huniondeb na chywirdeb yr allbwn y maent yn gysylltiedig ag ef yn cael ei beryglu.

Bydd llai o gyfyngiadau ar unigolyn sy'n cael ei weld yn rhywun annibynnol o'r tu allan, neu'n arbenigwr, sy'n cyflwyno nifer bach o raglenni, llinynnau neu gyfresi untro, ond nad yw'n cael ei ystyried yn dalent ar yr awyr y BBC yn bennaf.

4.4.37 Ni ddylai cyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr fel beirniaid, ac ati hyrwyddo cynnyrch, nwyddau, gwasanaethau neu ddillad, gan gynnwys ategolion, y maent yn eu defnyddio ar yr awyr. Ni ddylai'r rheini a ddefnyddir gan y BBC dderbyn dillad, ategolion na chynnyrch eraill am ddim, nac am gost is o lawer, gyda'r dealltwriaeth y byddant yn eu gwisgo, yn cyfeirio atynt neu'n eu defnyddio ar yr awyr. Ni ddylent ychwaith ymddangos ar yr awyr yn gwisgo dillad neu'n defnyddio cynhyrchion, nwyddau neu wasanaethau y maent wedi cytuno, neu wedi gwneud contract, i'w hyrwyddo neu y mae ganddynt fudd ariannol ynddynt.

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

**Gofynion Ychwanegol mewn Rhai Meysydd o Allbwn Ffeithiol**

4.4.38 Mae'n annhebygol y bydd cyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sy'n ymddangos yn rheolaidd mewn allbwn ffeithiol sy'n ymdrin â materion polisi cyhoeddus cyfredol neu bynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyrwyddo ar ran trydydd partïon.

Ni fydd cyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr ar allbwn i ddefnyddwyr sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau yn cael ymgymryd ag unrhyw waith hyrwyddo ar ran trydydd partïon gan nad oes unrhyw gynnyrch neu wasanaeth sydd y tu allan i gylch gwaith yr allbwn.

Caniateir i gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sy'n ymddangos mewn allbwn i ddefnyddwyr sy'n ymdrin â phwnc penodol hyrwyddo cynnyrch, nwyddau neu wasanaethau sydd heb gysylltiad o gwbl â phwnc yr allbwn yn unig.

Mae'n bwysig na fydd cyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sydd fel rhan o'u rôl rheolaidd ar yr awyr yn cynnig cyngor ar brynu neu ddefnyddio cynnyrch brand yn ymgymryd ag unrhyw waith hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu fanwerthwyr sy'n gysylltiedig â phwnc yr allbwn.

Rhaid sicrhau na fydd cyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sydd, fel rhan o'u rôl ar yr awyr yn rhoi cyngor ynghylch sut i ddatrys problemau, yn hyrwyddo cynnyrch neu wasanaethau sydd â'r pwrpas o ddatrys y problemau penodol hyn.

4.4.39 **Pan fydd unigolyn a ddefnyddir o flaen y camera/microffon yn cymryd rhan ar sail gyfyngedig neu achlysurol mewn allbwn ffeithiol, rhaid i unrhyw gynnig i ymgymryd â gwaith hyrwyddo gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i bennaeth yr adran, a dylai pennaeth yr adran ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Gellir ystyried amser ymrwymiadau a hyrwyddiadau allanol mewn perthynas â chynnwys y BBC.**

4.4.40 **Nid bwriad y canllawiau yw atal unigolion sydd ag arbenigedd rhag creu cysylltiadau masnachol sefydledig a phriodol yn eu maes. Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i artistiaid, cerddorion, cogyddion, bwytai a dylunwyr gerddi. Pan fydd unrhyw gynnig i gymryd rhan mewn gweithgarwch hyrwyddo allanol, dylai'r uwch-adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith fel na fydd gwrthdaro rhwng buddiannau â'u rôl yn y BBC. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

**Gofynion Ychwanegol mewn Allbwn i Blant**

4.4.41 Rhaid i gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar allbwn plant beidio â hyrwyddo cynnyrch, nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u hanelu'n benodol at blant sydd â chysylltiad uniongyrchol â phwnc y cynnwys maent yn ei gyflwyno. Efallai y bydd eithriadau lle

mae ganddynt arbenigedd allanol a chysylltiadau masnachol allanol presennol yn y maes hwn, er enghraifft artistiaid, cogyddion neu gerddorion.

Rhaid sicrhau na fydd cyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr mewn allbwn i blant yn hyrwyddo cynnyrch sy'n debygol o fod yn niweidiol i blant (fel alcohol neu doddyddion) neu sy'n anghydnaws â'u rôl ar yr awyr (fel gamblo).

Rhaid i gyflwynwyr ar yr awyr ac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr a'u hasiantau gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad masnachol allanol ar gyfer cynnyrch lle mae eu cyfraniad yn debygol o wneud i gynnyrch o'r fath apelio at blant.

### Gofynion Ychwanegol ym Maes Newyddion a Materion Cyfoes a Rhaglenni Busnes

4.4.42 Ni chaniateir i gyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr mewn rhaglenni newyddion, materion cyfoes a busnes gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyrwyddo ar ran trydydd partïon. Gellir caniatáu gweithgareddau hyrwyddo mewn perthynas â gweithgareddau grŵp y BBC[24].

## Cyfeiriadau at gynnwys y BBC mewn hysbysebion neu hyrwyddiadau ac actorion ac artistiaid sy'n dyblygu eu rolau yn y BBC mewn allbwn allanol

4.4.43 Ni ddylai hysbysebion neu hyrwyddiadau sy'n ymwneud â thalentau sy'n gysylltiedig â'r BBC ddynwared, awgrymu cyfeiriad neu gysylltiad at neu 'basio' cynnwys y BBC, er enghraifft, drwy ailadrodd unrhyw elfennau golygyddol o raglen. Gallai hyn gynnwys cymeriadau, logos, teitlau, enwau sianeli neu gerddoriaeth neu graffeg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, neu ddefnyddio neu ddynwared setiau neu leoliadau allweddol yn uniongyrchol, ymadroddion neu bwyntiau fformat o'r cynnwys neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud ag arddull y cynnwys a allai awgrymu cysylltiad yn rhesymol.

Ni ddylai cyflwynwyr ar yr awyr nac eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr sy'n gysylltiedig ag allbwn y BBC ymddangos mewn gwaith hyrwyddo, yn cynnwys hysbysebion, mewn ffordd sy'n dynwared neu'n ailadrodd eu rolau yn y BBC.

Fel arfer ni ddylai actorion, artistiaid na pherfformwyr o'r un allbwn i'r BBC ymddangos gyda'i gilydd yn yr un hysbysebion neu ar wahân mewn cyfres o hysbysebion ar gyfer yr un cynnyrch. Bydd ystyriaethau hefyd o ran hyd y cyfnod y mae hysbysebion o'r fath yn ymddangos.

Mewn amgylchiadau lle mae ffigwr/talent yn berchen ar yr eiddo deallusol yn y cynnwys, bydd ystyriaethau ynghylch amserlen a natur hyrwyddiadau o'r fath.

---

[24] Mae Grŵp y BBC yn cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC, BBC World Service, ac is-gwmnïau masnachol y BBC

Ni ddylai'r hysbyseb na'r hyrwyddiad ddwyn anfri ar y BBC.

(Gweler Adran 16 Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.23)

(Gweler y canllawiau: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

## Gweithgareddau Allanol gan Gyfranwyr Rheolaidd i Allbwn Trydydd Parti, Gan Gynnwys Dylanwadwyr Cyfryngau Cymdeithasol

4.4.44 Mae angen ystyried gweithgareddau hyrwyddo neu allanol y mae cyfranwyr sy'n ymddangos yn rheolaidd mewn rhaglenni ond nad ydynt wedi'u cyflogi fel cyflwynwyr neu fel rhan o'r tîm cyflwyno yn ymgymryd â nhw. Nid fyddai'r BBC fel arfer yn dymuno cyfyngu ar weithgareddau hysbysebu, hyrwyddo neu weithgareddau allanol y cyfranwyr allanol hynny. Fodd bynnag, ni ddylai'r BBC ddefnyddio cyfranwyr lle byddai gweithgareddau hyrwyddo neu allanol o'r fath yn gallu codi amheuon yn rhesymol ynghylch eu didueddrwydd, eu huniondeb neu eu hannibyniaeth nhw neu'r cynnwys y maent yn cyfrannu iddo.

Mae dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol sy'n ymddangos ar y BBC fel cyflwynwyr neu gyfranwyr rheolaidd yn debygol o fod ag ymrwymiadau masnachol allanol, a allai newid yn gyflym heb fawr o rybudd, oherwydd natur eu gwaith. Mae'r egwyddorion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adran hon yn berthnasol a dylid bod yn ofalus i drafod natur eu gweithgareddau masnachol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol gyda nhw i sicrhau nad oes gwrthdaro â'u gwaith yn y BBC.

(Gweler y canllawiau: Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol)

## Cyflwynwyr Newyddion a Materion Cyfoes ac Allbwn Newyddiaduraeth Ffeithiol yn Ymddangos mewn Drama

4.4.45 **Efallai y gofynnir i gyflwynwyr allbwn newyddiaduraeth ffeithiol ail-greu eu rolau mewn allbwn ffuglennol. Gallai hyn achosi dryswch i gynulleidfaoedd a chyfaddawdu hygrededd eu hallbwn eu hunain. Rhaid i gynnig o'r fath gael ei atgyfeirio i bennaeth eu hadran.**

**Ni ddylai cyflwynwyr presennol allbwn newyddion y BBC ymddangos fel cyflwynwyr newyddion mewn bwletin ffuglennol os oes posibilrwydd rhesymol y bydd hyn yn drysu neu'n camarwain cynulleidfaoedd. Rhaid i unrhyw gynnig i wneud hyn, er enghraifft mewn sefyllfa ddramatig, gomig, afrealaidd neu ffantasi, gael ei atgyfeirio i'w pennaeth adran.**

(Gweler y canllawiau: Bwletinau Newyddion Ffuglennol)

## Cwmnïau Cynhyrchu Annibynnol sy'n Eiddo i Dalentau neu Asiantau

4.4.46 Mae cynnwys cyflwynwyr ar yr awyr neu eraill sydd â rôl amlwg ar yr awyr neu eu hasiantau ym mherchnogaeth neu uwch reolaeth cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n creu cynnwys ar gyfer y BBC yn realiti busnes cynyddol a gall ychwanegu gwerth creadigol. Rhaid i drefniadau o'r fath beidio â bwrw amheuaeth ar ddidueddrwydd, uniondeb neu benderfyniadau golygyddol sy'n ymwneud ag unrhyw allbwn gan y BBC a rhaid mynd i'r afael â hyn yn ofalus.

Mae'n hanfodol bod y BBC yn cael ei weld yn arfer rheolaeth olygyddol gyffredinol ar bob agwedd ar y cynnwys, a'i fod yn gallu dangos ei fod yn arfer rheolaeth o'r fath, a'i fod wedi rhoi mesurau priodol ar waith i gynnal rheolaeth olygyddol a sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau. Ni ddylid defnyddio cynnwys y BBC fel cyfrwng i hyrwyddo buddiannau masnachol allanol na buddiannau eraill talentau neu eu hasiantau.

Bydd risgiau amlwg o wrthdaro rhwng buddiannau os bydd talentau a/neu eu cwmnïau cynhyrchu yn cael eu comisiynu i gynhyrchu rhaglenni amdanyn nhw eu hunain. Mae'r un peth yn wir yng nghyswllt asiantau a/neu eu cwmnïau cynhyrchu sy'n cynnig cynhyrchu cynnwys am y dalent y maent yn ei chynrychioli.

**Gellir cael amgylchiadau lle nad yw'n bosibl cynhyrchu cynnwys am unigolyn enwog penodol neu faes lle mae gan yr unigolyn enwog fynediad neu arbenigedd unigryw, oni bai ei fod yn cael ei gynhyrchu gan gwmni cynhyrchu annibynnol sy'n eiddo i'r dalent honno neu sy'n cael ei chydgynhyrchu â'r dalent honno neu asiantaeth gysylltiedig. Bydd unrhyw gynnig o'r fath yn gofyn am gyfiawnhad golygyddol cryf a rhaid ei atgyfeirio i'r cyfarwyddwr uwch-adrannol perthnasol a'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid ymgynghori hefyd â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

# ADRAN 5: NIWED A THRAMGWYDD

5.1 Cyflwyniad
5.2 Egwyddorion
5.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
5.4 Canllawiau

- Disgwyliadau'r Gynulleidfa a Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol
- Cyd-destun
- Gwybodaeth am Gynnwys
- Labelu Cynnwys Ar-alw ac Ar-lein
- Amserlennu a Digwyddiadau Trasig
- Amserlennu Teledu a Radio a Chyhoeddi Cynnwys Ar-lein ac Ar-alw
- Allbwn Byw

- Pynciau a allai achosi Niwed a Sarhad:
- Iaith
- Trais
- Triniaeth gamdriniol neu ddifrïol ac iaith casineb
- Bygwth a Bychanu
- Noethni
- Rhyw
- Dangos Gofal Dyladwy
- Portreadu
- Alcohol, Ysmygu, Fepio, Camddefnyddio Toddyddion, Cyffuriau a Gamblo
- Hunanladdiad, Ymgais gan Rywun i'w Ladd ei Hun neu i Niweidio ei Hun ac Anhwylderau Bwyta
- Ymddygiad Dynwaredol
- Crefydd
- Hypnotiaeth, Dadreibio, yr Ocwlt a'r Paranormal
- Delweddau Fflachio, Strobio a Delweddau Byr Iawn eu Parhad

- Rhaglenni a Gaffaelwyd gan gynnwys Cynnwys a Ardystiwyd gan y BBFC
- Defnyddio Technoleg

# 5.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn anelu at adlewyrchu'r byd fel y mae, yn cynnwys holl agweddau'r profiad dynol a gwirioneddau'r byd naturiol. Rhaid i'r BBC gydbwyso ei hawl i ryddid mynegiant, sy'n caniatáu iddo gyhoeddi cynnwys arloesol a heriol, gyda'r cyfrifoldeb o osgoi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau.[25]

Mae cymryd risgiau creadigol yn rhan hanfodol o genhadaeth y BBC. Fodd bynnag, yn yr holl allbwn, po fwyaf y risg o achosi niwed neu dramgwydd, mwyaf fydd y meddwl, y gofal a'r cynllunio sydd eu hangen.

Mae gan y BBC hawl i ryddid mynegiant o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol, sy'n cael ei adlewyrchu yn y Siarter. Mae rhyddid mynegiant yn cynnwys hawl y gynulleidfa i gael gafael ar ddeunydd creadigol, gwybodaeth, syniadau, a chynnwys a all fod yn ddadleuol neu'n dramgwyddus heb ymyrraeth ond o dan gyfyngiadau sydd wedi'u pennu mewn cyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd .

At ddibenion y Canllawiau Golygyddol ac oni nodir fel arall, mae plentyn yn rhywun dan 16 mlwydd oed. Pobl ifanc yw'r rheini sy'n 16 ac yn 17 oed[26]. Dylid nodi nad diffiniadau cyfreithiol yw'r rhain.

## 5.2 Egwyddorion

5.2.1 Rhaid i'r BBC ddiogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol oni bai fod ganddo bwrpas golygyddol digonol. Bydd angen y cyfiawnhad golygyddol cryfaf ar gynnwys a allai fod yn dramgwyddus iawn.

5.2.2 Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol' yn ogystal â disgwyliadau cynulleidfaoedd wrth ystyried cyhoeddi deunydd a allai fod yn dramgwyddus neu'n niweidiol. Rhaid i'r cyd-destun gyfiawnhau cyhoeddi neu ddarlledu cynnwys o'r fath. Mae cynnwys a allai fod yn dramgwyddus yn cynnwys iaith gref, trais, rhyw, trais rhywiol, bychanu, achosi gofid, amharu ar urddas dynol, a thriniaeth neu iaith wahaniaethol.

5.2.3 Rhaid i gynulleidfaoedd gael gwybodaeth glir i'w galluogi i asesu a fydd cynnwys yn addas ar eu cyfer.

5.2.4 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio iaith gref a rhaid rhoi gwybod am ddefnydd o iaith o'r fath i sicrhau ei bod yn cwrdd â disgwyliadau cynulleidfaoedd, lle bynnag y mae'n ymddangos.

5.2.5 Rhaid peidio â darlledu deunydd a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant a phobl ifanc.

---

[25] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 1: Diogelu'r Rhai Dan 18 Oed a 2: Niwed a Thramgwydd. I weld sut mae'r BBC yn delio â phobl ifanc o dan 18 oed sy'n cyfrannu ac yn rhyngweithio â chynnwys, gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr

[26] Mae'r safon hon yn uwch na'r gofyniad yng Nghod Darlledu Ofcom ar gyfer Diogelu'r rhai Dan Ddeunaw Oed. Mae hwnnw'n dweud bod 'plant yn bobl dan bymtheng mlwydd oed'

5.2.6 Rhaid cydbwyso'r cyfrifoldeb i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus â'u hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid i gael gwybodaeth.

5.2.7 Rhaid amserlennu deunydd a all fod yn anaddas i blant yn briodol – ar y teledu, drwy gydymffurfio â'r trothwy 9pm ac, ar y radio, drwy roi sylw i'r amseroedd y mae plant yn debygol iawn o fod yn gwrando. Rhaid gosod a labelu deunydd ar-lein yn briodol.

# 5.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae atgyfeiriadau gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

5.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i ddangos y foment y bu farw rhywun gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 5.4.37)

5.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i gyhoeddi neu i ddarlledu portread o'r Proffwyd Muhammad gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch a fydd yn gorfod ymgynghori â Chyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 5.4.67)

## Atgyfeiriadau Eraill

5.3.3 Rhaid i raglenni a ddarlledir ar y teledu yn y DU rhwng 5.30am a 9pm fod yn addas i gynulleidfa gyffredinol a allai gynnwys plant. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir gwyro oddi wrth yr arfer hwn. Rhaid atgyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig at y sawl sy'n rhedeg y sianel a dylid rhoi gwybodaeth glir am y cynnwys.

Fel arfer, dylai rhaglenni sy'n pontio'r trothwy gydymffurfio â gofynion cyn y trothwy drwy gydol y rhaglen. Yn eithriadol, efallai na fydd yn angenrheidiol pan nad oes disgwyl i'r gynulleidfa fod yr un fath drwy gydol y rhaglen. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.11 a 5.4.12)

5.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio'r iaith gryfaf (cunt, motherfucker neu fuck neu eiriau eraill sy'n tarddu o'r rhain) gael ei atgyfeirio i bennaeth y sianel berthnasol a ddylai ystyried y cyfiawnhad golygyddol. Gellir ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.31)

**5.3.5 Rhaid i gyfarwyddwr yr uwch-adran, neu ei ddirprwy enwebedig, gymeradwyo defnyddio'r iaith hiliol gryfaf, fel y'i rhestrir yng ngholofn 'cryf' Ofcom, mewn unrhyw raglenni neu allbwn sydd ar y gweill[27].**

**(Gweler** 5.4.24 a 5.4.33)

5.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys golygfeydd graffig o greulondeb at anifeiliaid neu gamdriniaeth amlwg gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Bydd angen cyfiawnhad golygyddol cryf hyd yn oed os yw'r cynnwys yn cael ei recordio mewn gwledydd lle mae'n gyfreithlon.

Gweler 5.4.42)

5.3.7 Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw gynnig i gynnwys lluniau o grogi, i bortreadu hunanladdiad, ymgais gan rywun i'w ladd ei hun neu i niweidio ei hun oherwydd sensitifrwydd y pwnc a'r posibilrwydd o ddynwared a rhaid ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Dylid ei atgyfeirio hefyd i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.58)

5.3.8 Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys arddangosiad o hypnosis i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a rhaid i'r golygydd hwnnw ymgynghori â'r Tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.69)

5.3.9 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys delweddau fflachio neu ddilyniannau strobio mewn rhaglenni a recordir sy'n methu profion technegol yr Adolygiad Darlledu gael ei gymeradwyo gan y rheolwr allbwn perthnasol.

(Gweler 5.4.72)

5.3.10 Ni ddylid defnyddio unrhyw dechnegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i gynulleidfaoedd, neu o ddylanwadu ar eu meddyliau fel arall, heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Gallai technegau o'r fath gynnwys negeseuon a lluniau isganfyddol sy'n para am gyfnodau byr iawn. Os bydd gan rywun le i gredu y gallai techneg o'r fath fod wedi'i defnyddio yn ei gynnwys, rhaid iddo atgyfeirio'r mater i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.73)

---

[27] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/225336/offensive-language-summary-report.pdf

# 5.4 CANLLAWIAU

## Disgwyliadau Cynulleidfaoedd a Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol

5.4.1 Rhaid i'r BBC ddiogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol oni bai fod ganddo bwrpas golygyddol digonol. Bydd angen y cyfiawnhad golygyddol cryfaf ar gynnwys a allai fod yn dramgwyddus iawn.

5.4.2 Pan fydd cynnwys yn cynnwys deunydd a allai achosi niwed neu dramgwydd, rhaid iddo fod â phwrpas golygyddol clir a rhaid iddo gael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun. Rhaid i'r BBC ystyried y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer y cynnwys a hefyd disgwyliadau ehangach o ran allbwn y BBC, y cyfeirir atynt fel 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol'.

Bydd yr hyn sy'n cyfrif fel 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol' yn datblygu dros amser ac yn cael ei seilio ar ymchwil berthnasol. Mae'n ystyriaeth ehangach nag a yw cynnwys yn bodloni disgwyliadau'r gynulleidfa arfaethedig ac yn adlewyrchu'r hyn y byddai cynulleidfaoedd yn gyffredinol yn ei weld yn dderbyniol i'w ddarlledu neu ei gyhoeddi, gan ystyried y cyd-destun. Mae'r cyd-destun yn cynnwys yr amser darlledu, y llwyfan ac unrhyw gyfeiriadau am y cynnwys. Pan fydd cynnwys yn mynd y tu hwnt i 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol', mae perygl o niwed i enw da'r BBC.

5.4.3 Rhaid barnu pa mor addas yw cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, mewn perthynas â disgwyliadau'r gynulleidfa debygol, ac ystyried y cyd-destun.

## Cyd-destun

5.4.4 Wrth ystyried a allai cynnwys achosi niwed neu dramgwydd, dylid ystyried ym mha gyd-destun y bydd y deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei ddarlledu. Mae'r cyd-destun yn cynnwys y llwyfan, yr amser darlledu ac unrhyw wybodaeth am y cynnwys a roddir i gynulleidfaoedd ymlaen llaw. Er mwyn asesu a oes cyfiawnhad golygyddol dros y cynnwys, a'i fod o fewn disgwyliadau'r gynulleidfa, dylid ystyried y canlynol:

- diben golygyddol a chynnwys yr allbwn
- y gwasanaeth a'r llwyfan y mae ar gael arno
- yr amser a'r diwrnod y caiff ei ddarlledu neu ei gyhoeddi, gan gynnwys a oes materion sensitif arbennig fel gwyliau crefyddol neu benblwyddi digwyddiadau mawr
- allai allbwn arall sy'n gysylltiedig â'r rhaglen neu'r cynnwys dan sylw effeithio ar y 'gynulleidfa tynnu drwodd' debygol
- a oes modd tynnu sylw cynulleidfaoedd yn briodol at natur unrhyw gynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus, er enghraifft, drwy gyfeirio a gwybodaeth am gynnwys

- cyfansoddiad y gynulleidfa debygol, gan gynnwys plant, gan ystyried amser ysgol, penwythnosau a gwyliau
- a yw'r cyflwynydd neu'r dalent gysylltiedig (er enghraifft y perfformiwr neu'r awdur), y slot, y teitl, y genre neu'r gwasanaeth yn dod â disgwyliadau sydd eisoes yn bodoli a all fod yn groes i'r cynnwys
- hyd yn oed os yw deunydd a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus eisoes ar gael i'r cyhoedd, gall ei ddefnydd gan y BBC ymddangos yn ddi-alw-amdano heb gyfiawnhad golygyddol digonol
- a allai cynnwys fod yn fwy tebygol o achosi niwed neu dramgwydd os caiff ei gynnwys mewn allbwn o natur benodol, fel rhaglenni crefyddol neu wyddonol
- effaith tebygol y deunydd, yn cynnwys deunydd hyrwyddo, ar gynulleidfaoedd a all ddod ar ei draws yn annisgwyl.

Wrth wneud penderfyniadau, ni fydd yr un pwys yn cael ei roi o reidrwydd i bob un o'r ffactorau hyn.

Ar gyfer deunydd sydd ar gael ar-lein, mae'r cyd-destun hefyd yn cynnwys a oes mesurau ar waith i ddiogelu mynediad plant ac a roddir hysbysrwydd a gwybodaeth am gynnwys.

## Gwybodaeth am Gynnwys

5.4.5 Rhaid amserlennu cynnwys yn briodol. Mae gwybodaeth am gynnwys yn helpu i lunio disgwyliadau cynulleidfaoedd, a dylai fod yn glir, yn gyson ac yn ffeithiol.

Rhaid i gynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus gael ei nodi'n glir.

Gall hyn gynnwys cyhoeddiadau ar yr awyr, labeli cynnwys, canllawiau rhaglenni electronig, rhaghysbysebion, hysbysiadau, datganiadau i'r wasg a mathau eraill o gyhoeddusrwydd.

5.4.6 Ar y teledu, pan fo hynny'n berthnasol, dylid rhoi gwybodaeth glir am gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos cyn y trothwy, rhaglenni sy'n dechrau cyn y trothwy ac yn dal i redeg y tu hwnt iddo, a rhaglenni ar ôl y trothwy.

(Gweler 5.4.10-5.4.14)

Ar y radio, dylid darparu gwybodaeth am gynnwys pan fo'n debygol iawn y bydd plant yn y gynulleidfa neu pan fo posibilrwydd y bydd cynnwys yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau arferol y gynulleidfa.

(Gweler 5.4.15-5.4.17)

Dylai cynnwys ar-lein, gan gynnwys cynnwys ar-alw, ar y BBC neu ar lwyfannau trydydd parti fod â gwybodaeth glir am gynnwys. Mae hyn yn arbennig o wir am gynnwys a fyddai'n cael ei ddarlledu ar y teledu ar ôl y trothwy.

(Gweler 5.4.18-5.4.20)

## Labelu Cynnwys Ar-alw ac Ar-lein

5.4.7 Pan fydd cynnwys ar gael ar-alw ar lwyfannau'r BBC, ac mewn mannau eraill fel y bo'n briodol, rhaid darparu gwybodaeth i alluogi defnyddwyr i ddeall ei gyd-destun a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ei addasrwydd, iddyn nhw eu hunain ac i blant, cyn iddynt fynd ato.

Dylai cynnwys ar-alw gynnwys gwybodaeth glir am gynnwys y dylid ei ymgorffori yn y cynnwys fel nad yw'n cael ei golli neu ei ddileu os yw'n cael ei rannu.

5.4.8 Efallai y bydd angen labelu cynnwys cryfach neu fwy heriol, er enghraifft cynnwys i'w ddarlledu ar ôl y trothwy yn unig, o dan y system 'G for Guidance'. Mae hon yn darparu:

- eicon 'G for Guidance' y BBC sy'n dangos bod arweiniad ar y cynnwys ar gael i'r defnyddiwr
- system o labeli cynnwys i ddisgrifio cynnwys cryf neu heriol
- system diogelu â PIN/cyfrinair i alluogi rhieni i gyfyngu mynediad at ddeunydd mwy heriol sy'n dwyn label cynnwys
- gwybodaeth ychwanegol am iaith hiliol a materion penodol (hunanladdiad, hunan-niwed, cam-drin rhywiol ac anhwylderau bwyta).

## Amserlennu a Digwyddiadau Trasig

5.4.9 Yn sgil digwyddiadau trasig, mae'n bosibl y bydd angen newid amserlenni a/neu ailolygu allbwn ar gyfer teledu a radio. Dylid adolygu allbwn i ganfod unrhyw beth a allai achosi tramgwydd na ellir ei gyfiawnhau, yng nghyd-destun digwyddiadau pwysig, ar sail safonau a dderbynnir yn gyffredinol.

## Amserlennu Teledu a Radio a Chyhoeddi Cynnwys Ar-lein ac Ar-alw

*Bwriad yr adran hon yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i gynhyrchwyr cynnwys am amseru, amserlennu a gosod deunydd a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus. Mae cyngor ar feysydd penodol o niwed a thramgwydd wedi'i gynnwys yn nes ymlaen yn yr adran.*

### *Amserlennu Teledu a'r Trothwy*

5.4.10 Mae darlledwyr yn defnyddio'r trothwy 9pm ar gyfer teledu i wahaniaethu rhwng rhaglenni sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cynulleidfa gyffredinol yn bennaf a'r rhaglenni hynny sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cynulleidfa o oedolion. Fodd bynnag, mae rhieni a gofalwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb am asesu a yw cynnwys rhaglenni'n addas i'w plant.

Wrth wneud penderfyniadau am amserlennu teledu, mae angen cydbwyso'r angen i amddiffyn pobl ifanc, a phlant yn enwedig, â hawliau'r holl wylwyr i gael deunydd o bob math drwy gydol y diwrnod.

5.4.11 **Rhaid i raglenni a ddarlledir ar deledu yn y DU rhwng 5.30am a 9pm fod yn addas i gynulleidfa gyffredinol sy'n cynnwys plant. Po gynharaf yn y noson y caiff rhaglen ei gosod, mwyaf addas y dylai**

**fod i blant ei gwylio heb berson hŷn. Gall rhaglenni a ddarlledir mewn slotiau hwyrach cyn y trothwy fod yn anaddas i'r plant ieuengaf neu i blant eu gwylio heb berson hŷn**.

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir ymadael â'r arfer hon, a bryd hynny dylid rhoi gwybodaeth glir am y cynnwys. Rhaid atgyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig i sylw rheolwr/golygydd y sianel**.

Mewn cynnwys cyn y trothwy, efallai y byddai'n briodol tynnu sylw cynulleidfaoedd at gynnwys a allai beri gofid iddynt ond nad yw'n mynd y tu hwnt i safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, adroddiadau newyddion neu olygfeydd mewn rhaglenni am fyd natur.

5.4.12 **Fel arfer, os yw rhaglen yn pontio'r trothwy, hynny yw yn dechrau cyn 9pm ac yn gorffen rhywbryd ar ôl 9pm, yna dylai ei holl gynnwys gydymffurfio â'r gofynion o ran y trothwy. Yn eithriadol, efallai na fydd yn angenrheidiol pan nad oes disgwyl i'r gynulleidfa fod yr un fath drwy gydol y rhaglen. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

Mae'r trothwy 9pm yn nodi dechrau'r newid i ddeunydd sydd wedi'i fwriadu'n fwy ar gyfer oedolion ond, yn gyffredinol, ni ddylai'r newid fod yn sydyn.

Mae'n bwysig hefyd fod gwneuthurwyr ac amserlenwyr rhaglenni yn ystyried natur y sianel a disgwyliadau gwylwyr.

Ar gyfer cynnwys ar ôl y trothwy ar deledu, dylid rhybuddio cynulleidfaoedd am y defnydd o iaith gref neu gynnwys a allai beri tramgwydd fel y bydd yr allbwn yn cwrdd â disgwyliadau'r gynulleidfa.

Fel arfer dylai'r deunydd cryfaf gael ei ddangos yn hwyrach ymlaen yn yr amserlen. Os nad oes modd osgoi newid cyflym mewn tôn, dylid eu nodi'n glir a'u barnu yn erbyn gofynion y trothwy.

5.4.13 Mae gan sianeli a slotiau darlledu ddisgwyliadau sefydledig ar gyfer cynulleidfaoedd yn aml, boed hynny cyn neu ar ôl y trothwy. Felly bydd yn ddoeth penderfynu ar slotiau rhaglenni mor gynnar â phosibl yn y broses gynhyrchu. Os bydd newid o ran y sianel neu slotiau darlledu, yn enwedig cynnig i ddarlledu rhaglen cyn yn hytrach nag ar ôl y trothwy, yna mae'n bosibl y bydd angen ailolygu'r rhaglen yn sylweddol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol hyn.

5.4.14 Fel arfer, dylai cynnwys rhyngweithiol ac ar-lein sy'n gysylltiedig â theitlau rhaglenni penodol fod yn briodol ar gyfer cynulleidfa'r rhaglenni cysylltiedig.

## Amserlennu Radio

5.4.15 Nid oes trothwy amser ar radio. Dylid seilio penderfyniadau ynghylch amserlennu ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa ac ar wybodaeth ynghylch pryd y mae plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, er enghraifft, wrth fynd a dod i'r ysgol yn y bore a'r prynhawn neu yn ystod gwyliau ysgol. Dylid rhoi hysbysrwydd clir am ddeunydd annisgwyl neu heriol i osgoi peri tramgwydd heb gyfiawnhad.

5.4.16 Fel arfer, dylid golygu cerddoriaeth sy'n cynnwys deunydd anaddas, gan gynnwys iaith gref neu gynnwys treisgar, ar gyfer cynulleidfaoedd prif ffrwd yn ystod y dydd. Ar adegau eraill ac mewn rhaglenni cerddoriaeth arbenigol, mae'n bosibl y bydd cyfiawnhad golygyddol dros chwarae'r fersiwn wreiddiol

ond dylai fod yn gyson â disgwyliadau'r gynulleidfa am y rhaglen ac, os oes angen, dylid cymryd camau i sicrhau hyn (er enghraifft, darparu hysbysrwydd a gwybodaeth am gynnwys).

(Gweler 5.4.27)

5.4.17 Gall cyhoeddiadau ar yr awyr fod yn ddefnyddiol i roi gwybod i wrandawyr am raglenni sy'n cynnwys deunydd anodd neu ddadleuol a fyddai'n annisgwyl fel arall ar wasanaethau llafar. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer gwrandawyr sy'n oedolion sy'n disgwyl i sylw gael ei roi i bob math o faterion a digwyddiadau ym mhob rhan o'r amserlen.

## Cyhoeddi Cynnwys Ar-lein a Chynnwys Ar-alw

5.4.18 Nid oes dim yn yr arlwy ar-lein sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r trothwy. Pryd bynnag y bydd cynnwys â brand y BBC yn cael ei ddefnyddio, ar lwyfan y BBC ai peidio, dylid labelu cynnwys annisgwyl a heriol er mwyn osgoi achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau. Dylai labeli cynnwys fod yn glir ac yn ffeithiol, ond nid ar ffurf amhriodol o amlwg. Dylid bod yn ofalus gyda geiriad hysbysiadau gwthio.

5.4.19 Ar gyfer defnyddwyr nad ydynt wedi mewngofnodi i gyfrif y BBC, dylai unrhyw gynnwys sy'n cael ei argymell bob amser fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd y gwasanaeth ar-lein penodol. Dylai hefyd fod yn seiliedig ar a fydd yn debygol o apelio at gyfran sylweddol o blant. Mae hyn yr un mor berthnasol i gynnwys wedi'i greu gan y BBC, cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a deunydd a geir o wefannau trydydd parti.

Yn achos defnyddwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd wedi mewngofnodi i gyfrif BBC, gellir dangos cynnwys iddynt naill ai drwy offer personoli/argymell neu ar Hafan y BBC. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod natur y cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd sydd wedi mewngofnodi yn cael ei seilio ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r gwasanaeth ar-lein.

5.4.20 Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys wirio cynnwys gwefannau trydydd parti wrth ystyried creu dolen o un o wefannau'r BBC. Ni ddylid gosod dolen i wefan allanol os yw'n amhriodol gwneud hynny. Gall fod yn angenrheidiol cynnwys ymwadiad, a gwybodaeth ychwanegol, os yw'r ddolen yn mynd i ddeunydd a all fod yn dramgwyddus.

Ar dudalennau gwe'r BBC sydd wedi'u llunio ar gyfer plant, neu lle mae'r gynulleidfa'n debygol o fod yn blant, dim ond dolenni i dudalennau trydydd parti sydd â chynnwys addas i gynulleidfa gyffredinol y dylid eu cynnwys.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.41 ac Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol eraill: 15.4.22)

## Ystyriaethau Amserlennu a Chyhoeddi ar gyfer Cynnwys Newyddion

5.4.21 Oherwydd natur newyddion, nid yw bob amser yn bosibl osgoi dangos deunydd cyn y trothwy a all beri gofid i rai o'r gynulleidfa.

Nid yw sianel BBC News fel arfer yn gweithredu polisi trothwy os yw'n cael ei ddarlledu'n rhyngwladol, oherwydd mae'n cael ei ddangos yn fyw mewn gwahanol barthau amser ledled y byd. Lle bo'n briodol, dylid darparu gwybodaeth glir ac amserol am gynnwys i gyfeirio at ddelweddau a allai beri gofid neu beri tramgwydd, yn enwedig y rheini a allai beri gofid i blant.

Nid yw’n briodol defnyddio'r delweddau mwyaf ingol neu dramgwyddus neu'r iaith gryfaf yn y ‘penawdau’ ar ddechrau bwletin neu fel ‘papur wal’ neu ddelweddau sy’n ‘hofran’ mewn allbwn newyddion neu fel y mân-lun mewn cynnwys digidol.

Mae angen i wneuthurwyr cynnwys ystyried effaith gronnol defnyddio deunydd graffig yn barhaus neu dro ar ôl tro ar y gynulleidfa.

5.4.22 Mae’n bosibl y bydd digwyddiadau trasig, fel saethu torfol neu drychinebau naturiol, yn cael eu recordio mewn deunydd sydd ar gael yn rhwydd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol neu mewn mannau eraill ar-lein. Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i’r BBC ddefnyddio barn olygyddol wrth ddefnyddio’r cynnwys hwn.

(Gweler 5.4.37)

(Gweler Adran 12 - Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.1)

5.4.23 Rhaid i bob ailddefnydd dilynol o ffilm o ddigwyddiadau trasig, er enghraifft ar y dyddiad roeddent wedi digwydd, gael ei gyfiawnhau’n olygyddol ar wahân.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.1)

5.4.24 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio iaith hiliol mewn newyddion a rhaid rhoi gwybod am ddefnydd o iaith o'r fath i sicrhau ei bod yn cwrdd â disgwyliadau cynulleidfaoedd, fel sy’n briodol ar adeg ei ddarlledu. Rhaid bod rhesymau golygyddol eithriadol dros ddefnyddio’r termau hiliol cryfaf.

**Rhaid i gyfarwyddwr yr uwch-adran, neu ei ddirprwy enwebedig, fod yn ymwybodol bod yr iaith hiliol gryfaf yn cael ei defnyddio, a chymeradwyo defnyddio iaith o’r fath, fel y’i rhestrir yng ngholofn ‘cryf’ Ofcom[28], mewn unrhyw raglenni neu allbwn ar y teledu, y radio ac ar-lein.**

(Gweler 5.4.33)

(Gweler y canllawiau: Iaith Hiliol)

### *Rhaghysbysebion Rhaglenni, Hysbysiadau Gwthio a Deunydd Hyrwyddo*

5.4.25 Rhaid bod yn ofalus wrth amserlennu rhaghysbysebion cynnwys sy’n anaddas i gynulleidfa gyffredinol sy’n cynnwys plant.

Dylai rhaghysbysebion sydd wedi’u hamserlennu o amgylch cynnwys sydd wedi’i dargedu at blant neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwylio neu’n gwrando, fod yn addas i blant.

Mae gan y BBC ei system dosbarthu ei hun ar gyfer amserlennu rhaghysbysebion am raglenni teledu yn briodol i sicrhau eu bod yn addas i wahanol gynulleidfaoedd. Mae angen i raghysbysebion am raglenni gyfleu naws y rhaglenni y maent yn ymwneud â nhw yn gywir, i helpu gwylwyr i benderfynu a ydynt am eu gwylio neu beidio. Yn achos teledu llinol, mae’n bwysig bod rhaghysbysebion cyn y trothwy am raglenni a ddangosir ar ôl y trothwy yn addas i gynulleidfa gyffredinol ond mae angen iddynt hefyd roi hysbysrwydd priodol am natur y deunydd. Dylid defnyddio’r un dull wrth gyhoeddi rhaghysbysebion a

---

[28] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/225336/offensive-language-summary-report.pdf

deunyddiau hyrwyddo ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio labeli Arweiniad pan fo angen.

Mae angen ystyried geiriad hysbysiadau a hysbysiadau gwthio i osgoi achosi niwed neu dramgwydd heb gyfiawnhad.

## Allbwn Byw

5.4.26 Mae angen ystyried a chynllunio ar gyfer y risg o achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau wrth gynhyrchu a darlledu allbwn byw, a chymryd camau priodol i liniaru'r risgiau. Dyma rai o'r pethau i'w hystyried: sut y gellid monitro allbwn byw; a ydy deunydd a allai achosi tramgwydd wedi'i amserlennu'n briodol; ac a oes digon o gymorth golygyddol uwch ar gael yn ystod y darllediad.

Os bydd problemau'n codi'n anfwriadol neu'n annisgwyl mewn allbwn byw, sy'n achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau, dylid delio â nhw'n brydlon ac yn sensitif, a gydag ymddiheuriad os oes angen.

Os yw'r iaith gryfaf (cunt, motherfucker a fuck neu eiriau eraill sy'n tarddu o'r rhain) yn cael ei darlledu drwy ddamwain ar deledu cyn y trothwy neu ar y radio, pan fydd plant yn debygol o fod yn gwrando, dylai'r cyflwynydd ymddiheuro ar yr awyr cyn gynted ag y bo modd.

Dylid ymddiheuro'n ddi-oed am ddefnydd annisgwyl ac anghyfiawn o'r iaith hiliol neu wahaniaethol gryfaf.

Os bernir bod y cyd-destun yn cyfiawnhau defnyddio iaith o'r fath, er enghraifft pan fydd cyfrannwr yn siarad am brofiad personol, mae angen i'r cyflwynydd sicrhau ei fod yn glir i'r gynulleidfa, wrth ymddiheuro am dramgwydd posibl, nad oes unrhyw fai yn cael ei briodoli i'r cyfrannwr.

Pan ystyrir bod darllediad byw yn defnyddio cynnwys tramgwyddus heb gyfiawnhad, dylid ei olygu fel arfer ar lwyfannau dal i fyny fel BBC iPlayer a BBC Sounds, ar ôl cael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 5.4.33)
(Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.9.9)

(Gweler y canllawiau: Allbwn Byw; ac Iaith Hiliol)

# Pynciau a allai achosi Niwed a Sarhad

## Iaith

5.4.27 Mae effaith iaith gref yn dibynnu ar y dewis o eiriau, y siaradwr a'r cyd-destun. Mae gwahanol eiriau'n achosi gwahanol raddau o dramgwydd mewn gwahanol gymunedau a hefyd mewn gwahanol rannau o'r byd. Dros amser, bydd agweddau'r cyhoedd yn newid ac asesir hyn drwy ymchwil. Diffinnir yr

iaith gryfaf fel cunt, motherfucker a fuck, a geiriau eraill sy’n tarddu o'r rhain. Mae’r iaith gryfaf ac iaith hiliol gref yn destun proses atgyfeirio.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio unrhyw iaith sarhaus, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, a rhaid rhoi gwybod am ddefnydd o iaith o’r fath os yw’n briodol i sicrhau ei bod yn cwrdd â disgwyliadau cynulleidfaoedd, lle bynnag y mae’n ymddangos.

(Gweler 5.1)

Iaith sydd fwyaf tebygol o achosi tramgwydd pan gaiff ei defnyddio heb achos a heb ddiben golygyddol, a phan mae’n cynnwys:

- rhegfeydd rhywiol
- cyfeiriadau camdriniol at hil, crefydd, cenedligrwydd ac ethnigrwydd
- geiriau o sarhad rhywiol neu rywiaethol neu gasáu menywod neu sarhad sy’n ymwneud â rhywioldeb neu hunaniaeth rhywedd
- geiriau difrïol am iechyd meddwl, salwch neu anabledd
- defnydd di-hid neu ddifrïol o enwau sanctaidd neu eiriau crefyddol, yn enwedig ar y cyd â math arall o iaith gref.

5.4.28 Mae’r cyd-destun a’r dôn yn ystyriaethau allweddol wrth benderfynu a fydd iaith gref yn dderbyniol neu’n cael ei hystyried yn dramgwyddus heb gyfiawnhad. Dylid ystyried y canlynol:

- pa iaith a ddefnyddiwyd, gan bwy, pam y’i dywedwyd, at bwy roedd wedi’i chyfeirio a sut roeddynt wedi ymateb
- sut y cafodd ei dweud. Gall yr un termau gael eu hystyried yn fwy neu’n llai tramgwyddus yn ôl y dôn wrth eu cyfleu, a’r cymeriad neu'r bersonoliaeth sy’n eu defnyddio
- os yw’r defnydd yn teimlo’n ddilys neu fod ganddo bwrpas golygyddol clir arall
- ble mae’r cynnwys i’w gael yn yr amserlenni teledu a radio, ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol.

5.4.29 Yn gyffredinol, lle mae iaith gref yn rhan annatod o’r cynnwys, a bod cwestiynau perthnasol fel y slot darlledu a’r sianel wedi’u datrys, ni ddylid ei chuddio. Mae hyn hefyd yn berthnasol i allbwn gydag is-deitlau, naill ai er mwyn eglurder neu at ddibenion cyfieithu.

5.4.30 Ni ddylid defnyddio’r iaith gryfaf cyn y trothwy, neu ar y radio pan mae plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein neu yn y cyfryngau cymdeithasol sy’n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant.

Er mwyn osgoi newid cyflym mewn tôn, rhwng cynnwys cyn ac ar ôl y trothwy, dylid fel arfer osgoi’r iaith gryfaf mewn cynnwys sy’n cael ei ddarlledu’n syth o gwmpas y trothwy.

5.4.31 Rhaid gwneud penderfyniadau gofalus ynghylch defnyddio’r iaith gryfaf ar ôl y trothwy a sicrhau bod hysbysrwydd clir amdani. **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio’r iaith gryfaf (cunt, motherfucker neu fuck neu eiriau eraill sy’n tarddu o'r rhain) gael ei atgyfeirio i bennaeth y sianel berthnasol a chael ei gymeradwyo ganddo, ar ôl iddo ystyried y cyfiawnhad golygyddol. Gellir ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol**.

5.4.32 Ni ddylid defnyddio iaith sarhaus ond nad yw’r iaith gryfaf cyn y trothwy, neu ar y radio pan mae plant yn debygol iawn o fod yn gwrando, neu mewn cynnwys ar-lein neu yn y cyfryngau cymdeithasol sy’n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant, oni bai fod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Hyd yn oed wedyn, rhaid osgoi ei defnyddio’n aml. Ni ddylid ei defnyddio mewn:

- rhaglenni neu wefannau i blant cyn oedran ysgol (rhai pedair blwydd oed ac iau)
- rhaglenni neu wefannau ar gyfer plant iau.

## Iaith Hiliol a Gwahaniaethol

5.4.33 Mae iaith hiliol a gwahaniaethol, fel iaith gref arall, yn fwyaf tebygol o achosi tramgwydd pan gaiff ei defnyddio heb alw amdani, yn gamdriniol, a heb bwrpas golygyddol clir.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ei defnyddio, a dylid rhoi gwybod amdani pan fo’n briodol, i sicrhau ei bod yn cwrdd â disgwyliadau cynulleidfaoedd, lle bynnag y mae’n ymddangos. Efallai y bydd defnyddio iaith o’r fath, hyd yn oed gyda chyfiawnhad golygyddol a phan fydd yn unol â disgwyliadau’r rhan fwyaf o’r gynulleidfa, yn dal i beri tramgwydd i rai.

Rhaid bod rhesymau golygyddol eithriadol dros ddefnyddio’r termau hiliol a gwahaniaethol cryfaf. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed lle gallai’r bwriad fod i amlygu neu i gondemnio gwahaniaethu, nad yw ynddo’i hun yn gyfiawnhad golygyddol digonol. Rhaid bod rheswm golygyddol penodol dros ei defnyddio, er enghraifft, os gallai wneud gwahaniaeth i ddealltwriaeth y gynulleidfa, neu am resymau penodol o eglurder, neu os yw cyfrannwr yn siarad am ei brofiad personol, neu os gellid ystyried bod term wedi cael ei ‘hawlio’, neu mewn rhaglenni hanes, comedi, drama, y celfyddydau neu gerddoriaeth, yn enwedig o ran rhyddid mynegiant.

Mae’r ystyriaethau ynghylch defnyddio iaith hiliol a gwahaniaethol mewn unrhyw allbwn yn cynnwys:

- beth yw'r cyfiawnhad golygyddol
- a yw hunaniaeth yr unigolyn sy'n defnyddio'r iaith yn gwneud gwahaniaeth o ran a yw'n peri tramgwydd
- a yw'n cael ei ddefnyddio gan gyfrannwr i adlewyrchu ei brofiad ei hun
- ydy’r iaith yn cael ei defnyddio’n aml neu’n ailadroddus
- yw defnyddio’r gair yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn i’r gynulleidfa gael dealltwriaeth ddigonol o’r cynnwys
- a oes ffordd arall o gyfleu'r hyn a ddigwyddodd

- a oes digon o gyd-destun, yn enwedig yn achos fersiynau llai ar gyfer cyfryngau cymdeithasol
- a oes rhaid defnyddio'r gair yn ei gyfanrwydd.

**Rhaid i gyfarwyddwr yr uwch-adran, neu ei ddirprwy enwebedig, fod yn ymwybodol bod yr iaith hiliol gryfaf yn cael ei defnyddio, a chymeradwyo defnyddio iaith o'r fath, fel y'i rhestrir yng ngholofn 'cryf' Ofcom[29], mewn unrhyw raglenni neu allbwn ar y teledu, y radio ac ar-lein/digidol.**

**5.4.34 Dim ond os oes cyfiawnhad cyd-destunol clir a chryf y dylid defnyddio iaith hiliol 'gref' ar y teledu cyn y trothwy a dylid gwneud hyn ar yr amod bod cyfarwyddwr yr uwch-adran neu eu cynrychiolydd enwebedig wedi cymeradwyo hyn.**

O ran radio, mae'r gynulleidfa debygol, y cylch gwaith a disgwyliadau'r gynulleidfa o'r orsaf, y math o allbwn sy'n cael ei chwarae, a'r sawl sy'n cyflwyno'r rhaglen i gyd yn ystyriaethau allweddol.

Ar gyfer cynnwys ar-lein ac ar-alw, mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn cael gwybod am unrhyw ddeunydd a allai fod yn sarhaus er mwyn iddynt allu dewis beth maent yn ei weld neu'n ei glywed.

(Gweler y canllawiau: Allbwn Byw; ac Iaith Hiliol)

**Ailddefnyddio cynnwys sydd ag iaith hiliol neu wahaniaethol**

5.4.35 Byddai ailddefnyddio cynnwys mewn unrhyw gyd-destun arall (er enghraifft ar amser gwahanol neu ar-lein) yn gofyn am ystyriaeth newydd ac ar wahân o'r cyfiawnhad golygyddol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i fersiynau llai at ddibenion cyfryngau cymdeithasol.

Wrth ystyried ailddefnyddio unrhyw gynnwys archifol sydd ag iaith hiliol neu wahaniaethol, nid yw'r ffaith ei fod yn adlewyrchu safonau'r dydd yn unig yn gyfiawnhad digonol dros ei ailddefnyddio. Mae angen defnyddio barn olygyddol, gan gynnwys edrych ar bwrpas a chyd-destun; os tybir nad oes angen defnyddio'r math hon o iaith , dylid ei dileu.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.21)

**Tewi neu guddio iaith gref ac ystumiau sarhaus**

5.4.36 Yn gyffredinol, dylid amserlennu cynnwys sydd ag iaith gref ac ystumiau anweddus yn briodol, ei ddefnyddio gyda chyfiawnhad golygyddol a chyfeirio ato.

---

[29] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/225336/offensive-language-summary-report.pdf

Fodd bynnag, os oes cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio iaith gref ond nad yw'r slot, y sianel neu'r cyd-destun yn briodol, efallai y bydd angen golygu, tewi neu bipian iaith, hyd yn oed ar ôl y trothwy ar y teledu ar adegau.

Rhaid i iaith sy'n cael ei bipian ar gyfer cynnwys cyn y trothwy ar y teledu gael ei chelu'n llwyr, gan ofalu hefyd nad yw'r geiriau sarhaus yn amlwg wedyn yn symudiadau'r geg. Mewn capsiynau, dylid dileu'r gair llawn, heb unrhyw lythrennau ar ôl i nodi'r gair sydd wedi'i dynnu.

Dylai ystumiau sarhaus sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r gynulleidfa gael eu cuddio'n llwyr hefyd.

Hyd yn oed lle mae iaith gref wedi'i bipian, os caiff ei defnyddio dro ar ôl tro, yna mae'r effaith gronnol yn debygol o gynyddu'r tramgwydd a deimlir gan gynulleidfaoedd.

## Trais

5.4.37 Gellir peri ofn neu ofid i gynulleidfaoedd, a phlant yn enwedig, drwy bortreadu trais gwirioneddol a thrais ffuglennol. Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ofalus wrth benderfynu lle maent yn bwriadu cynnwys trais yn yr allbwn.

Dylid hefyd ystyried y cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw bortread o drais, a dylid rhoi hysbysrwydd clir fel arfer am gynnwys treisgar. Pan fydd trais gwirioneddol, neu ei ganlyniadau, yn cael ei ddangos ar deledu neu ei adrodd ar y radio ac ar-lein, mae angen i gynhyrchwyr cynnwys gadw cydbwysedd rhwng y galw am gywirdeb a'r perygl o achosi gofid neu dramgwydd heb gyfiawnhad.

**Prin iawn yw'r amgylchiadau sy'n cyfiawnhau darlledu eiliad y farwolaeth. Rhaid i unrhyw gynnig i wneud hynny gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.55 ac Adran 12 Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.1)

5.4.38 Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol o ffactorau sy'n gallu cynyddu effaith trais, mewn cynnwys ffeithiol a ffuglennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trais sy'n debyg i fywyd ac sydd hefyd yn gallu adlewyrchu profiad personol, er enghraifft trais domestig, ymladd mewn tafarndai, hwliganiaeth pêl-droed, cythraul gyrru, a mygio
- trais mewn mannau sy'n cael eu hystyried yn ddiogel fel arfer, fel cartref y teulu ac ysbytai
- ffyrdd anarferol neu sadistaidd o achosi poen, anaf neu farwolaeth
- digwyddiadau lle mae menywod, plant a rhai agored i niwed yn dioddef
- trais heb ddangos yr effaith ar y dioddefwr neu'r canlyniadau i'r drwgweithredwr
- trais rhywiol

- ymosodedd geiriol a thôn ymosodol, yn enwedig os yw'n cynnwys defnyddio'r iaith gryfaf a thermau hiliol, gwahaniaethol neu rywiol dramgwyddus
- pa mor barhaus yw'r trais a'i effaith gronnol
- hunanladdiad, ymgais gan rywun i'w ladd ei hun neu i niweidio ei hun
- lle dangosir ymateb pobl eraill i'r trais, yn enwedig plant
- technegau ôl-gynhyrchu fel cerddoriaeth lawn awyrgylch, effeithiau gweledol, symud araf, lluniau agos clir ac effeithiau sain
- awyrgylch bygythiol estynedig neu naws dywyll, ddi-ildio neu greu awyrgylch ingol ar ddiwedd rhaglen ar ffurf sefyllfa min dibyn
- allbwn sy'n ddwys neu'n ymdrwythol.

5.4.39 Dylai cynhyrchwyr cynnwys osgoi cynnwys deunydd sy'n esgusodi neu'n glamoreiddio trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol peryglus neu ddifrifol, neu ddeunydd sy'n debygol o gymell pobl eraill i ddynwared ymddygiad o'r fath, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros wneud hynny.

*Trais ac Amddiffyn Plant*

5.4.40 Os bydd trais, y canlyniadau iddo a disgrifiadau ohono, yn cael ei ddarlledu mewn rhaglenni cyn y trothwy, neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant, rhaid sicrhau ei fod yn briodol i'r gynulleidfa debygol a bod cyfiawnhad golygyddol drosto.

5.4.41 Ni ddylid darlledu trais geiriol neu gorfforol y mae'n hawdd i blant ei ddynwared mewn ffordd niweidiol neu beryglus mewn rhaglenni cyn y trothwy, neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf drosto.

(Gweler 5.4.61-5.4.62)

*Trais yn erbyn Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid*

5.4.42 Gall delweddau neu olygfeydd sy'n dangos trais dynol yn erbyn anifeiliaid yn aml beri gofid i gynulleidfaoedd ac mae'n debygol o arwain at lefelau sylweddol o droseddu. Os yw'r golygfeydd yn graffig ond nad oedd yr anifail wedi cael niwed, dylid gwneud hynny'n glir.

Gall trais mewn rhaglenni bywyd gwyllt beri gofid i gynulleidfaoedd, a gall fod yn briodol tynnu sylw at gynnwys a allai beri gofid.

At ei gilydd, mae cynulleidfaoedd yn poeni ynghylch sut mae anifeiliaid yn cael eu trin. Pan fydd anifeiliaid yn rhan o gynnwys, dylid ystyried eu lles cyffredinol a'r amodau y maent yn cael eu cadw ynddynt. Efallai y bydd yn briodol rhoi sicrwydd i gynulleidfaoedd am eu lles.

(Gweler y canllawiau: Cofnodi Byd Natur)

**Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys golygfeydd graffig o greulondeb at anifeiliaid neu gamdriniaeth amlwg gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r**

**golygydd comisiynu. Bydd angen cyfiawnhad golygyddol cryf hyd yn oed os yw'r cynnwys yn cael ei recordio mewn gwledydd lle mae'n gyfreithlon.**

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.4-8.4.6)

## Triniaeth gamdriniol neu ddifrïol ac iaith casineb

5.4.43 Ni ddylid defnyddio deunydd lle mae unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau yn cael eu trin mewn ffordd dramgwyddus mewn allbwn oni bai fod gwneud hynny wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun.

Gall deunydd gynnwys iaith casineb os yw'n debygol o annog gweithgarwch troseddol neu arwain at anhrefn. Mae'n cynnwys bob ffurf ar fynegiant sy'n lledaenu, yn ysgogi, yn hybu neu'n cyfiawnhau casineb ar sail anoddefgarwch o anabledd, ethnigrwydd, rhyw, ailbennu rhywedd, cenedl, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gall cynhyrchwyr cynnwys roi lle i gyfraniadau gan bobl neu sefydliadau sydd â barn eithafol neu heriol. Os yw allbwn yn cynnwys barn a all ysgogi casineb, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol a chynnwys her briodol a/neu fathau eraill o gyd-destun.

Mae mwy o gyngor ar gael gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n wahanol yn yr Alban ac mae cyngor ar gael gan y Cyfarwyddwr Cyfreithiol, yr Alban.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.16 ac Adran 8 Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3)

## Bygwth a Bychanu

5.4.44 Rhaid i gynnwys y BBC barchu urddas pobl, ond gall allbwn drafod, cynnwys neu ymwneud ag ymddygiad sy'n fygythiol, yn bychanu, yn ymosodol ac yn dramgwyddus.

Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn anghymesur pan fydd wedi'i anelu at bobl go iawn a dylai fod yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.27)

## Noethni

5.4.45 Ni ddylid dangos noethni fel arfer cyn y trothwy nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant. Lle mae'n cael ei ddefnyddio, rhaid i'r cyd-destun gyfiawnhau hynny. Mae noethni, boed yn wirioneddol neu'n awgrymedig, yn gallu peri tramgwydd a rhaid bod yn ofalus mewn cynnwys cyn y trothwy, yn enwedig mewn deunydd hyrwyddo sydd heb wybodaeth am gynnwys.

## Rhyw

5.4.46 Yn holl allbwn y BBC, dylid cael cyfiawnhad golygyddol dros bortreadu rhyw, neu drafod materion rhywiol, a'i drin gyda sensitifrwydd priodol.

Mewn cynnwys ar ôl y trothwy, mae'n bosibl portreadu rhyw mewn ffordd agored a realistig ac edrych ar themâu a materion a all dramgwyddo rhai pobl.

5.4.47 Mae rhyw sy'n cynnwys pobl ifanc dan 16 oed yn anghyfreithlon. Mewn unrhyw gynnwys, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ei gynnwys, a rhaid ei roi mewn cyd-destun priodol.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.29-9.4.30)

5.4.48 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros drafod a phortreadu ymddygiad rhywiol mewn rhaglenni a ddarlledir cyn y trothwy neu pan fydd plant yn debygol iawn o fod mewn cynulleidfaoedd radio, neu ddefnyddio cynnwys ar-lein. Rhaid iddo fod yn briodol hefyd i'r gynulleidfa debygol ac ni ddylai fod yn fanwl eglur. Mae'n bosibl y bydd angen darparu gwybodaeth glir am gynnwys.

(Gweler 5.4.5-5.4.6)

(Gweler Adran 15 - Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

Ni ddylid portreadu na dangos cyfathrach rywiol heb bwrpas addysgol arwyddocaol mewn rhaglenni sy'n cael eu darlledu cyn y trothwy, neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran sylweddol o blant.

## Dangos Gofal Dyladwy

5.4.49 Efallai y bydd cynulleidfaoedd yn cael eu tramgwyddo os ydynt yn credu bod cyfranwyr yng nghynnwys y BBC yn agored i niwed ac nad yw eu lles wedi cael ei ddiogelu, neu os ydynt yn credu bod cyfranogwyr wedi cael eu rhoi mewn perygl o niwed sylweddol drwy gymryd rhan yn allbwn y BBC. Dylid darlledu gwybodaeth briodol lle byddai'n helpu i osgoi neu leihau tramgwydd.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.22-6.4.26 ac Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.19)

## Portreadu

5.4.50 Mae'r BBC yn ceisio adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig. Gall cynnwys hefyd adlewyrchu'r rhagfarnau a'r anfanteision a geir mewn cymdeithasau ledled y byd ond ni ddylid eu hatgyfnerthu. Mewn rhai achosion, gall cyfeiriadau at anabledd, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ffydd, hil, ac ati fod yn berthnasol i'r portreadu. Fodd bynnag, dylid osgoi

rhagdybiaethau ystrydebol di-ofal neu dramgwyddus a dim ond pan fo cyfiawnhad golygyddol dros hynny y dylid disgrifio pobl mewn termau o'r fath.

Wrth bortreadu neu ohebu ar ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n ymwneud â phobl frodorol neu bobl sy'n perthyn i lwyth, dylai gwneuthurwyr cynnwys osgoi eu stereoteipio. Dylid adlewyrchu eu profiadau a'u normau diwylliannol presennol gyda chywirdeb dyladwy.

(Gweler y canllawiau: Portreadu a Gohebu ar Bobl Frodorol)

5.4.51 Os yw hynny'n gyson â disgwyliadau'r gynulleidfa, mae modd cynnwys portread neu stereoteip sydd wedi'i orliwio er mwyn doniolwch neu effaith ddramatig, ond efallai y bydd cynulleidfaoedd o'r farn bod stereoteipiau diofal neu ddibwrpas yn dramgwyddus.

## Alcohol, Ysmygu, Fepio, Camddefnyddio Toddyddion, Cyffuriau a Gamblo

5.4.52 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys gydbwyso'r angen i fynd ati'n realistig i adlewyrchu gwahanol fathau o agweddau ac ymddygiad y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag alcohol, ysmygu, fepio, camddefnyddio toddyddion, cyffuriau a gamblo gyda'r perygl o annog ymddygiad a all fod yn niweidiol, yn ddynwaredol neu'n anghyfreithlon, yn enwedig ymysg plant.

5.4.53 Defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ysmygu, fepio, camddefnyddio toddyddion:

- rhaid peidio â rhoi sylw iddynt mewn cynnwys sydd wedi'i wneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros hynny
- rhaid eu hosgoi'n gyffredinol a rhaid peidio â'u hesgusodi, eu cefnogi neu eu glamoreiddio mewn unrhyw raglenni a ddarlledir cyn y trothwy neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny
- rhaid peidio â'u hesgusodi, eu cefnogi neu eu glamoreiddio mewn cynnwys sy'n debygol o gael ei weld, ei glywed neu ei ddefnyddio'n eang gan bobl ifanc, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

5.4.54 Rhaid portreadu pob agwedd ar ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau a thoddyddion, ysmygu, fepio a chamddefnyddio alcohol gyda chywirdeb dyladwy. Lle bo angen hynny i sicrhau cywirdeb dyladwy, dylai hyn gynnwys, er enghraifft, y goblygiadau i iechyd a'r agweddau gwrthgymdeithasol ar ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a goryfed mewn pyliau.

Dylid osgoi manylion penodol ynghylch sut mae defnyddio neu gael gafael ar gyffuriau anghyfreithlon neu gamddefnyddio toddyddion, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny a dylid egluro'r cyd-destun cyfreithiol a chymdeithasol.

5.4.55 Rhaid peidio ag esgusodi, annog neu glamoreiddio gamblo mewn cynnwys sy'n debygol o gael ei weld, ei glywed neu ei ddefnyddio'n eang gan blant a phobl ifanc, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros

hynny. Dylid ei bortreadu gyda chywirdeb dyladwy a, lle bo angen, dylai gynnwys agweddau niweidiol gamblo.

5.4.56 Os dangosir deunydd archifol nad yw'n adlewyrchu safonau neu agweddau cyfredol tuag at ysmygu, alcohol, gamblo, camddefnyddio sylweddau neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, mae'n bosibl y bydd y cyd-destun hanesyddol a dilysrwydd y cynnwys yn rhoi cyfiawnhad golygyddol digonol. Er hynny, dylai'r cynnwys gael ei amserlennu'n briodol a, lle bo angen, dylid rhoi hysbysrwydd amdano a dylai fod yn glir i'r gynulleidfa nad yw'n ddeunydd cyfoes.

(Gweler 5.4.5)

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.21-13.4.23)

## Hunanladdiad, Ymgais gan Rywun i'w Ladd ei Hun neu i Niweidio ei Hun ac Anhwylderau Bwyta

5.4.57 Dylai hunanladdiad, ymgais i gyflawni hunanladdiad, hunan-niwed ac anhwylderau bwyta gael eu portreadu neu eu hadlewyrchu gyda sensitifrwydd. Mae gohebu ffeithiol a phortreadu hunanladdiad, ymgais gan rywun i'w ladd ei hun, hunan-niwed ac anhwylderau bwyta yn ffuglennol yn gallu arwain at y posibilrwydd o normaleiddio gweithredoedd o'r fath a gwneud iddynt ymddangos yn rhesymol i rai sy'n agored i niwed. Dylid osgoi deunydd sy'n normaleiddio, yn annog neu'n rhamanteiddio'r ymddygiadau hyn.

Dylid ystyried gwneud cyfeiriadau a rhoi rhybuddion cynnwys, yn ogystal ag a ddylid darparu dolen i BBC Action Line berthnasol.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

Ni ddylid cynnwys manylion penodol a fyddai'n caniatáu dynwared dull o hunanladdiad yn yr allbwn. Dylid ond cynnwys dulliau hunanladdiad a hunan-niwed pan fydd cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny a bod y cyd-destun yn ei gyfiawnhau. Dylid osgoi cyfeiriadau at hunanladdiad mewn penawdau oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

5.4.58 **Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw gynnig i gynnwys lluniau o grogi, i bortreadu hunanladdiad, ymgais gan rywun i'w ladd ei hun neu i niweidio ei hun oherwydd sensitifrwydd y pwnc a'r posibilrwydd o ddynwared a rhaid ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Dylid ei atgyfeirio hefyd i'r tîm Polisi Golygyddol.**

5.4.59 Mae materion sensitif ynghylch defnyddio iaith. Cafodd hunanladdiad ei ddad-droseddoli yn 1961 ac mae'r defnydd o'r gair 'cyflawni' yn cael ei ystyried yn dramgwyddus gan rai pobl. Dylai gwneuthurwyr cynnwys osgoi defnyddio'r term yn eu sgriptiau a'u hadroddiadau, er y gall cyfranwyr ei ddefnyddio. Mae 'cymryd bywyd' 'marw drwy hunanladdiad' neu 'ladd ei hun' yn ddewisiadau eraill. Mae sefydliadau atal hunanladdiad, fel y Samariaid, hefyd fel arfer yn fodlon i rywun ymgynghori â nhw ynghylch portreadu hunanladdiad. Dylid ystyried dolen i BBC Action Line pan fydd allbwn yn delio â materion o'r fath a dylid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol fel arfer.

(Gweler Adran 15 - Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

5.4.60 Mae angen gofal wrth bortreadu hunan-niwed neu gyflyrau fel anhwylderau bwyta mewn ffyrdd y gellid eu dynwared, mewn cynnwys ffeithiol neu ffuglennol. Gallai pobl agored i niwed, a phobl ifanc yn enwedig, ddynwared neu efelychu ymddygiad a thechnegau a ddangosir. Dylid bod yn ofalus i sicrhau bod y cynnwys yn gyfrifol ac yn briodol i'r gynulleidfa debygol.

## Ymddygiad Dynwaredol

### *Plant a Dynwared Peryglus*

5.4.61 Gall yr hyn y mae plant yn ei weld, ei glywed a'i ddarllen ddylanwadu arnynt. Os yw ymddygiad yn debygol o fod yn hawdd i blant ei ddynwared mewn ffordd beryglus, rhaid peidio â'i ddarlledu cyn y trothwy, neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i gyfran sylweddol o blant.

5.4.62 Mae angen bod yn ofalus wrth benderfynu ynghylch cynnwys a all arwain at ddynwared peryglus, yn enwedig os yw hynny'n ymwneud â defnyddio eitemau domestig (fel cyllyll, morthwylion, asid a sisyrnau) mewn gweithredoedd treisgar. Rhaid peidio â chynnwys deunydd o'r fath mewn allbwn sydd wedi'i wneud ar gyfer plant yn bennaf oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros hynny. Rhaid sicrhau mewn cynnwys ar gyfer plant fod gofal yn cael ei gymryd i osgoi dynwared.

(Gweler 5.4.40-5.4.41)

5.4.63 Pan fydd gweithgareddau hamdden peryglus yn cael eu portreadu mewn cynnwys ffeithiol ac adloniant cyn y trothwy, ar y radio pan fydd plant yn debygol o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio i blant, dylid rhoi rhybudd ynghylch y perygl o ddynwared, heb oruchwyliaeth neu hyfforddiant priodol, a dylai'r offer diogelwch angenrheidiol fod yn amlwg. Lle bo'n berthnasol ac oni bai fod rheswm golygyddol cryf dros beidio â gwneud hynny, bydd yn bwysig fel arfer fod rhaglenni drama ac adloniant cyn y trothwy, neu gynnwys ar-lein cyffelyb sy'n debygol o apelio i blant, yn dangos y gweithdrefnau diogelwch cywir wrth bortreadu gweithgareddau fel hyn.

### *Diogelwch*

5.4.64 Fel arfer, dylai'r gyfraith gael ei dilyn yn y DU ac mewn gwledydd eraill, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyflwynwyr, actorion a chyfranwyr sy'n gyrru cerbydau yn gwisgo gwregysau diogelwch, yn gosod seddau car i blant yn gywir, yn gwisgo helmedau diogelwch ac yn defnyddio'r cyfarpar ffôn symudol cywir. Mae cynulleidfaoedd yn debygol o gael eu tramgwyddo os yw'n ymddangos nad yw mesurau diogelwch arferol wedi cael eu dilyn.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.3.1)

5.4.65 Dylid dangos defnydd synhwyrol o offer diogelwch lle bynnag y bo'n ymarferol, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys gwisgo offer i ddiogelu'r llygaid ar gyfer gweithgareddau crefftau cartref a phenwisgoedd a dillad diogelwch ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn enwedig y rheini sy'n boblogaidd ymysg plant fel beicio, sglefrfyrddio a chwaraeon dŵr.

## Crefydd

5.4.66 Os oes unrhyw gynnwys sy’n ymdrin â materion crefyddol ac sy’n debygol o beri tramgwydd i’r rheini sydd â barn neu gred grefyddol, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol drosto, gan ystyried disgwyliadau’r gynulleidfa a safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Mae gan wneuthurwyr cynnwys y rhyddid i ymdrin â materion sy’n ymwneud â chrefydd, gan gynnwys yn feirniadol neu mewn ffordd a allai fod yn dramgwyddus iawn i rai, ond dylent bob amser fod yn ymwybodol o’r potensial o dramgwyddo.

Nid oes trosedd cabledd yng Nghymru, Lloegr a’r Alban erbyn hyn ac nid yw bellach yn drosedd sy’n cael ei herlyn yng Ngogledd Iwerddon. Serch hynny, mae credoau crefyddol yn ganolog i fywyd llawer o bobl a gallant ysgogi barn ac emosiynau cryf. Dylid bod yn ofalus i osgoi achosi tramgwydd heb gyfiawnhad. Mae deddfau cabledd o amgylch y byd yn gallu bod yn wahanol iawn a gall cynhyrchwyr cynnwys geisio cyngor gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Yng Nghymru, Lloegr a’r Alban, mae deddfwriaeth yn gwahardd person rhag defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol neu arddangos deunydd ysgrifenedig sy’n fygythiol, gyda’r bwriad o achosi casineb crefyddol.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3)

5.4.67 Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol o sensitifrwydd crefyddol cyfeiriadau at, neu ddefnydd o, enwau, delweddau, defodau, ysgrythurau ac iaith sydd wrth galon y gwahanol grefyddau. Dylent sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw ddefnydd ohonynt, neu dros wneud cyfeiriadau llafar neu weledol atynt, o fewn safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Rhai enghreifftiau yw’r Croeshoelio, Cymun Bendigaid, y Quran, y Sabath Iddewig a’u tebyg.

Mae nifer mawr o Foslemiaid yn ystyried bod unrhyw bortreadu o’r Proffwyd Muhammad yn dramgwyddus iawn. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol cryf dros gyhoeddi unrhyw bortread o’r Proffwyd Muhammad.

**Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys portread o’r Proffwyd Muhammad mewn cynnwys i ffigwr golygyddol uwch a fydd yn gorfod ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol.**

5.4.68 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys ystyried y sensitifrwydd crefyddol ynghylch parchu dyddiau gŵyl a phrif wyliau crefyddau mawr y byd er mwyn osgoi achosi tramgwydd yn ddiangen o ganlyniad i ddeunydd a all fod yn fwy derbyniol ar adegau eraill.

## Hypnotiaeth, Dadreibio, yr Ocwlt a’r Paranormal

### *Hypnotiaeth*

5.4.69 O dan Ddeddf Hypnotiaeth 1952, mae’n ofynnol bod unrhyw arddangosiad o hypnotiaeth er difyrrwch y cyhoedd yn cael ei drwyddedu. Mae’r ddeddf yn gwahardd arddangosiadau ar bobl dan 18 oed ac mae’n berthnasol i unrhyw arddangosiad o hypnotiaeth a ddarlledir mewn sioe, neu mewn cysylltiad â sioe, sy’n rhoi mynediad i’r cyhoedd.

Dylid cymryd camau i leihau unrhyw berygl posibl o achosi hypnosis a/neu adweithiau niweidiol ymysg gwylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein sy'n agored i'w effaith. Yn benodol, rhaid i hypnotydd beidio â darlledu ei act geiriol arferol yn llawn neu gael ei ddangos yn perfformio i lygad y camera. Mae'n bwysig bod perfformiadau hypnotiaeth, yn enwedig y rheini sydd â'r bwriad o wneud hwyl am ben rhywun, yn cael eu trin yn ofalus mewn rhaglenni adloniant. Gallent fod yn niweidiol a hefyd yn dramgwyddus i'r gynulleidfa.

**Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys arddangosiad o hypnosis i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a rhaid i'r golygydd hwnnw ymgynghori â'r Tîm Polisi Golygyddol.**

### *Dadreibio, yr Ocwlt a'r Paranormal*

5.4.70 Rhaid i gynnwys sydd ag unrhyw gyfeiriad at ddadreibio, yr ocwlt, y paranormal, dewiniaeth neu unrhyw arferion cysylltiedig gael eu gwneud yn gyfrifol a dylid trin honiadau'n amheus.

Rhaid peidio â darlledu arddangosiadau yr honnir eu bod yn wir cyn y trothwy, neu ar y radio pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn y gynulleidfa, neu mewn cynnwys digidol sy'n debygol o apelio i blant.

Rhaid peidio â darlledu arferion paranormal at ddibenion adloniant (heb gynnwys drama, ffilm neu gomedi) pan fydd nifer sylweddol o blant yn debygol o fod yn gwylio neu o fod yn y gynulleidfa radio neu o ddefnyddio cynnwys digidol.

5.4.71 Ar bob adeg, rhaid trin arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt, y paranormal, dewiniaeth neu unrhyw arferion cysylltiedig, neu honiadau ynghylch y rhain, mewn rhaglenni ffeithiol gyda gwrthrychedd sy'n briodol i'r allbwn. Mewn rhaglenni adloniant rhaid rhoi hysbysrwydd clir yn eu cylch. Yn yr holl allbwn, rhaid i arddangosiadau o'r fath beidio â chynnwys cyngor am iechyd, arian, cyflogaeth neu berthnasoedd sy'n cymell pobl i wneud penderfyniadau tyngedfennol.

## Delweddau Fflachio, Strobio a Delweddau Byr Iawn eu Parhad

### *Delweddau Fflachio, Strobio ac Epilepsi Ffotosensitif*

5.4.72 Er mwyn lleihau'r perygl i wylwyr sydd ag epilepsi ffotosensitif, dylai cynhyrchwyr cynnwys ddilyn y canllawiau gan Ofcom sydd wedi'u nodi yn Rheol 2.12 o God Darlledu Ofcom[30]. Ar adegau prin, mae'n bosibl na fydd yn rhesymol ymarferol i ddilyn y canllawiau hyn, er enghraifft pan na ellir osgoi fflachio mewn cynnwys, mewn digwyddiad i'r wasg, er enghraifft, neu adroddiad newyddion byw. Pan fo cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys yr eitem, dylid rhoi rhybudd geiriol ac, os yw'n briodol, rhybudd ar ffurf testun, ar ddechrau'r rhaglen neu'r eitem.

**Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys delweddau fflachio neu ddilyniannau strobio mewn rhaglenni a recordir sy'n methu profion technegol yr Adolygiad Darlledu gael ei gymeradwyo gan y rheolwr allbwn perthnasol**.

### *Negeseuon a Delweddau Isganfyddol Byr Iawn eu Parhad*

5.4.73 Ni ddylid defnyddio unrhyw dechnegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges isganfyddol i wylwyr neu wrandawyr, neu ddylanwadu ar eu meddyliau fel arall, heb iddynt fod yn

---

[30] Nodyn Cyfarwyddyd Ofcom ar Ddelweddau Fflachio a Phatrymau Rheolaidd mewn Rhaglenni Teledu

ymwybodol, neu pan maent yn llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Byddai technegau o'r fath yn gallu cynnwys delweddau sy'n para am gyfnodau byr iawn.

**Os bydd gan rywun le i gredu y gallai techneg o'r fath fod wedi'i defnyddio mewn cynnwys, rhaid iddo atgyfeirio'r mater i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

## Rhaglenni a Gaffaelwyd gan gynnwys Cynnwys a Ardystiwyd gan y BBFC

5.4.74 Rhaid ardystio rhaglenni a brynir, a chynnwys a ardystiwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC), ar gyfer niwed a thramgwydd cyn iddynt gael eu darlledu neu eu darparu ar gais i sicrhau bod y cynnwys yn addas ar gyfer y gynulleidfa debygol. Dim ond canllaw yw dosbarthiad ffilm a dylid bod yn ofalus iawn wrth ymdrin â ffilmiau a gafodd dystysgrif '18', na ddylid eu darlledu cyn 9pm ar unrhyw wasanaeth.

5.4.75 Fel arfer, ni ddylid darlledu ffilm neu raglen y mae'r BBFC wedi gwrthod ei hardystio. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adran 1 o God Darlledu Ofcom.

Fel arfer, ni ddylid darlledu clipiau dangosol o ffilm neu raglen y mae'r BBFC wedi gwrthod eu hardystio heb gyfiawnhad golygyddol cryf.

## Defnyddio Technoleg

5.4.76 Ni ddylai unrhyw gynnwys golygyddol yr effeithiwyd arno gan awtomeiddio, megis trwy ddysgu peirianyddol neu ddeallusrwydd artiffisial, achosi tramgwydd na ellir ei gyfiawnhau. Mae hyn yn cynnwys ei ddosbarthu, ei gyflwyno neu ei gynhyrchu.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol y gall y deunydd sy'n cael ei ddefnyddio gan raglenni awtomataidd gynnwys deunydd niweidiol neu dramgwyddus neu gall gynnwys rhagfarnau sy'n ystumio'r canlyniadau mewn ffordd sy'n achosi niwed neu dramgwydd.

(Gweler Rheoli Asedau Meddalwedd ar Gateway; ac Adran 16 Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.8)

# ADRAN 6: TEGWCH

6.1 Cyflwyniad
6.2 Egwyddorion
6.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

6.4 Canllawiau

- Cyfranwyr a Chydsyniad ar sail Gwybodaeth
- Dod o hyd i Gyfranwyr
- Diogelwch a Dyletswydd Gofal tuag at Gyfranwyr
- Bygwth a Bychanu
- Rhaglenni Gemau, Cwisiau, Sioeau Talentau a Rhaglenni sy'n Cynnig Cyfleoedd Newid Bywyd
- Golygu Teg
- Anhysbysrwydd
- Cyfranwyr, Cytundebau Mynediad, Ffurflenni Indemnio ac Annibyniaeth Olygyddol
- Hawl i Ymateb
- Cyfle i Gyfrannu ac Ystyried y Ffeithiau'n Briodol
- Gwrthod Cymryd Rhan
- Twyllo
- Portreadu Pobl Go Iawn mewn Drama

## 6.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn ceisio bod yn deg â phawb – yn deg â'i gynulleidfaoedd, â'i gyfranwyr a chyfranwyr posibl, â ffynonellau ac â'r rheini y mae ei allbwn yn eu trafod.

Dylai cynnwys y BBC fod yn seiliedig ar barch, didwylledd a gonestrwydd[31]. Mae Cod Darlledu Ofcom hefyd yn gosod rhwymedigaeth ar y BBC i 'osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni'.[32]

Mae rhan helaeth o'r adran hon yn ymdrin â'r broses o recriwtio'r rheini sy'n cymryd rhan neu rhai sy'n ymwneud fel arall â chynnwys, a dylid ei hystyried ochr yn ochr ag Adran 7 Preifatrwydd: Preifatrwydd a Chydsyniad.

Rhaid arfer gofal dyladwy am ein cyfranwyr neu'n cyfranwyr posibl, yn ogystal â ffynonellau, sy'n wynebu risg o niwed neu ofid o ganlyniad i'w cyfraniad. Gofal dyladwy yw lefel y gofal sy'n briodol i'r amgylchiadau neilltuol a phenodol.

[31] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 7: Tegwch ac 8: Preifatrwydd
[32] Rheol 7.1, Cod Darlledu Ofcom

Mae asesiad gofal dyladwy yn ystyried y cynnwys golygyddol, natur a graddau'r ymwneud gan yr unigolyn a'i statws cyhoeddus, ynghyd â ffactorau perthnasol eraill fel risgiau i ddiogelwch ac a yw'r unigolyn yn agored i niwed.

Bydd anghywirdeb sylweddol yn y ffordd o gyfeirio at bobl neu o roi sylw iddynt yn gallu creu'r perygl o achosi annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i gynnwys wedi'i sgriptio a heb ei sgriptio. Er enghraifft mewn allbwn ffeithiol wrth gyfleu barn pobl eraill a gwybodaeth amdanynt, a hefyd mewn dramâu sy'n portreadu pobl neu sefydliadau go iawn. Felly, dylid darllen yr adran hon o'r Canllawiau ar y cyd ag Adran 3: Cywirdeb.

Dylid cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan gyfranwyr fel arfer. Dylid rhoi gwybodaeth briodol i unigolion a sefydliadau am natur arfaethedig a chyd-destun eu cyfraniadau cyn iddynt gymryd rhan oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fynd ymlaen heb gael cydsyniad ganddynt.

# 6.2 EGWYDDORION

6.2.1 Bydd y BBC yn agored, yn onest, yn ddidwyll ac yn deg wrth ddelio â ffynonellau, cyfranwyr, cyfranwyr posibl a chynulleidfaoedd oni bai fod budd clir i'r cyhoedd o wneud fel arall, neu os oes rhesymau pwysig fel materion cyfreithiol, diogelwch, neu gyfrinachedd.

6.2.2 Fel rheol, dylid rhoi gwybodaeth briodol i unigolion a sefydliadau am natur arfaethedig a chyd-destun eu cyfraniadau pan ofynnir iddynt gymryd rhan yng nghynnwys y BBC ac yn rhoi eu cydsyniad, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen heb gael cydsyniad ganddynt.

6.2.3 Pan fydd allbwn yn cynnwys honiadau o ddrwgweithredu, anghyfiawnder neu anghymhwystra, neu'n cyflwyno beirniadaeth gref a niweidiol am unigolyn neu sefydliad y gellir ei adnabod, dylid rhoi hawl i ymateb fel arfer i'r rheini sy'n cael eu beirniadu, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fynd ymlaen hebddo.

6.2.4 Mae gan y BBC ddyletswydd gofal tuag at ei gyfranwyr neu gyfranwyr posibl, yn ogystal â'i ffynonellau, a allai wynebu risg o niwed neu ofid sylweddol o ganlyniad i'w cyfraniad i'r allbwn.

# 6.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae Atgyfeiriadau Gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

6.3.1 Os oes bwriad i ddarlledu honiad difrifol heb gynnig cyfle i ymateb, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.46)

6.3.2 Os oes bwriad i greu gwefan sy'n cuddio unrhyw gysylltiad â'r BBC, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.54)

6.3.3 Os oes bwriad i bortreadu person go iawn mewn ffordd arwyddocaol mewn drama yn groes i ddymuniadau'r person hwnnw, neu i ddymuniadau ei deulu agos sy'n dal yn fyw, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i sylw'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i'w gymeradwyo cyn ymrwymo i'r cynhyrchiad.

(Gweler 6.4.58)

6.3.4 Os oes bwriad i gynhyrchwyr cynnwys y BBC fynd i mewn i wlad mewn ffordd sy'n osgoi cyfyngiadau fisa, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.57)

## Atgyfeiriadau Eraill

6.3.5 Rhaid atgyfeirio, i'r tîm Polisi Golygyddol, cynigion i dalu dim mwy na ffi aflonyddu i gyfranwyr at allbwn newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol am adrodd eu stori.

(Gweler 6.4.13)

6.3.6 Rhaid atgyfeirio geiriad arfaethedig yr holl apeliadau am gyfranwyr a chystadleuwyr, yn cynnwys y rheini ar gyfer rhaglenni talent ac adloniant, i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 6.4.20)

6.3.7 Rhaid i unrhyw gytundeb mynediad, ffilmio neu recordio gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Os yw'r geiriad arfaethedig yn peryglu uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol hefyd. Os na ellir newid y geiriad er boddhad y BBC, ni chaiff y cynhyrchiad fynd yn ei flaen.

(Gweler 6.4.39)

6.3.8 Rhaid trafod unrhyw geisiadau gan feysydd allbwn ar wahân i gasglu newyddion o ddydd i ddydd am gyfweliadau ag aelodau o’r Teulu Brenhinol, neu am ymddangosiadau dethol ganddynt, â Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC a’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 6.4.40)

6.3.9 Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr i allbwn newyddion neu ffeithiol i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 6.4.50)

6.3.10 Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanu, p’un a yw yn llygad y cyhoedd ai peidio, i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 6.4.53)

6.3.11 Rhaid i unrhyw gynnig i greu persona ffug neu i greu cyfrif ffug ar y cyfryngau cymdeithasol gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 6.4.55)

6.3.12 Os bydd unrhyw un yn ymyrryd i lywio cwrs trafodaeth ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol at un o ddibenion y BBC, heb ddatgelu ei gysylltiad â’r BBC, rhaid iddo fod yn gweithredu er budd y cyhoedd a rhaid iddo atgyfeirio’r mater i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Dylid ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol. Yn yr achosion mwyaf difrifol, rhaid atgyfeirio’r mater hefyd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.56)

# 6.4 CANLLAWIAU

## Cyfranwyr a Chydsyniad ar sail Gwybodaeth[33]

6.4.1 Dylai cyfranwyr gael eu trin yn deg a gyda gonestrwydd a pharch. Rhan allweddol o sicrhau tegwch yw cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, fel arfer cyn i rywun gymryd rhan mewn unrhyw gynnwys. Ystyr ‘cydsyniad ar sail gwybodaeth’ yw y dylai cyfranwyr gael yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad rhesymedig i gymryd rhan. Weithiau gall fod yn briodol cadw gwybodaeth benodol yn ôl er budd y cyhoedd.

(Gweler 6.4.16)

[33] Dyma ystyr ‘cydsyniad ar sail gwybodaeth’ i ddibenion y canllawiau hyn ac i reoleiddio cynnwys a ddarlledir. Nid yw’n fwriad iddo fod â’r un ystyr ag mewn cyfraith diogelu data

Cyn i unigolyn gymryd rhan – ac eithrio drwy gyfraniad bach fel un mewn vox pop – dylid fel rheol dweud y canlynol wrthynt ar adeg briodol:

- natur y cynnwys, h.y. beth sydd dan sylw, ei bwrpas a theitl y rhaglen, lle bo hynny'n hysbys
- pam y gofynnir iddynt gyfrannu at gynnwys y BBC, ble bydd yn ymddangos gyntaf a pha bryd, os yw'n hysbys
- natur eu cyfraniad, er enghraifft, a fydd eu cyfraniad yn fyw neu wedi'i recordio a/neu ei olygu. Os yw'n cael ei recordio, dylid egluro nad oes sicrwydd y bydd yn cael ei ddefnyddio
- y meysydd y bydd yn cael eu holi yn eu cylch, a, pan fydd hynny'n berthnasol, natur cyfraniadau tebygol eraill
- y gall gwasanaethau eraill y BBC ddefnyddio eu cyfraniad, yn cynnwys ei ailddefnyddio, ei archifo ar-lein ac ar lwyfannau digidol trydydd partïon
- y gall fod ar gael drwy'r byd ac am gyfnod amhenodol
- unrhyw risgiau posibl yn deillio o gymryd rhan yn y cynnwys a allai effeithio ar eu lles a'u diogelwch, a pha gamau y gellid eu cymryd i'w lliniaru.
- (Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.12-13.4.17)

Mae'r BBC wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb ac i gefnogi addasiadau rhesymol, fel gofynion mynediad, ar draws cynyrchiadau.

Mae'r BBC yn disgwyl i gyfranwyr fod yn onest, yn ddidwyll ac yn gywir. Lle bo'n briodol, dylid dweud wrthynt hefyd beth yw natur eu hawliau a'u rhwymedigaethau cytundebol, a hawliau gwneuthurwr y rhaglen a'r darlledwr mewn perthynas â'u cyfraniad.

6.4.2 Dylai'r holl ymrwymiadau a wneir i gyfrannwr fod yn rhai y gellir eu cadw.

6.4.3 Bydd yn deg bod pobl sydd wedi'u recordio'n cyflawni neu'n cyfaddef i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu disgwyl llai o ran preifatrwydd, gan y bydd budd y cyhoedd[34] mewn datgelu ymddygiad o'r fath yn bwysicach, felly ni ofynnir iddynt am gydsyniad fel arfer. Ni ddylid celu pwy ydynt chwaith, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny neu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 ac Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22)

[34] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

6.4.4 Gellir cael achlysuron pan fydd pobl yn cael eu trafod neu pan fyddant yn destun cyfeiriad neu'n ymddangos mewn deunydd heb iddynt wybod neu gydsynio. Gallant fod yn ffigyrau cyhoeddus neu'n unigolion preifat a gall y deunydd gynnwys ffotograffau, fideos a gohebiaeth lle maent yn ymddangos.

Dylai unrhyw bortread fod yn deg a, lle bo'n briodol, dylid cymryd camau i sicrhau cywirdeb y portread, a pharchu eu disgwyliadau dilys o breifatrwydd.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1)

6.4.5 Fel arfer dylid rhoi gwybod i gyfranwyr am newidiadau sylweddol mewn rhaglen neu gynnwys arall wrth iddo ddatblygu os gellir credu'n rhesymol bod newidiadau o'r fath wedi newid y wybodaeth sy'n sail i'w cydsyniad ar sail gwybodaeth. Gall newidiadau o'r fath gynnwys teitlau rhaglen (er enghraifft, lle maent yn newid canfyddiad y gynulleidfa o'r cynnwys neu'r cyfranwyr), newidiadau mewn cyfraniadau sylweddol eraill, newidiadau sylweddol yn y dyddiad darlledu neu gyhoeddi, neu unrhyw beth sy'n effeithio'n sylweddol ar y cyd-destun y bydd y cyfraniad yn ymddangos ynddo.

(Gweler 6.4.1)

6.4.6 Dylai darlledwyr sicrhau nad yw ailddefnyddio deunydd, h.y. defnyddio deunydd a gafodd ei ffilmio neu ei recordio'n wreiddiol at un diben ac yna ei ddefnyddio mewn cynnwys at ddiben arall, neu a ddefnyddir mewn cynnwys diweddarach neu wahanol, yn creu annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y darlledwr ei hun.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.2.2)

## *Cael Cydsyniad*

6.4.7 Gellir cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan gyfranwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn dibynnu ar amgylchiadau eu cyfraniad. Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid cael cydsyniad ar ffurf y gellir ei phrofi a all gynnwys ffurflen gydsynio, negeseuon wedi'u cyfnewid ar lwyfan digidol, recordiad o gadarnhad gan y cyfrannwr ei fod yn deall natur yr allbwn ac yn fodlon cymryd rhan, neu nodyn a wnaed ar y pryd o'r sgwrs lle trafodwyd cysyniad.

Mewn llawer achos bydd cyfranwyr yn rhoi eu cydsyniad drwy wneud dim ond cytuno i gael eu recordio ar gyfer y radio neu'r teledu neu i gyfrannu ar-lein. Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol fel arfer i'r rheini a gyfwelir ar fyr rybudd gan gynnwys pobl yn y newyddion a phobl sy'n cymryd rhan mewn vox pop.

Yn gyffredinol, pan fydd cyfranwyr yn rhoi cydsyniad ar ddechrau prosiect, mae eu cydsyniad parhaus yn oblygedig drwy gydol eu cyfraniad at wneud y cynnwys.

Fodd bynnag, wrth weithio gyda chyfranwyr agored i niwed, gall ceisio cydsyniad fod yn broses barhaus a dylai gwneuthurwyr cynnwys sefydlu eu bod wedi cael cydsyniad bob tro y disgwylir cyfraniad. Pan fydd gwneuthurwyr cynnwys yn dilyn straeon personol sensitif, lle gallai amgylchiadau bywyd newid, efallai y bydd angen iddynt hefyd barhau i gadarnhau cydsyniad drwy gydol y broses.

(Gweler y canllawiau: Cydsyniad ar sail Gwybodaeth)

6.4.8 Ni ddylai'r BBC ddibynnu fel arfer ar drydydd parti i gael cydsyniad gan oedolyn cyfrifol. Weithiau gall fod yn briodol cysylltu â chyfrannwr posibl drwy drydydd parti yn y lle cyntaf, er enghraifft wrth ddelio â phobl sy'n agored i niwed, rhai mewn profedigaeth neu mewn amgylchiadau sensitif eraill.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.5)

6.4.9 Ar gyfer cyfraniadau mwy sylweddol, gellir gofyn i gyfranwyr lofnodi ffurflen gydsynio safonol a chontract manwl sy'n ffurfioli telerau eu cytundeb. Gall gynnwys datganiadau o fuddiannau personol neu fanylion am wybodaeth a all ddwyn anfri ar y BBC.

6.4.10 Mae'n bosibl na fydd pobl ifanc ac oedolion agored i niwed mewn lle bob amser i allu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Gall esiamplau o bobl agored i niwed gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu neu fathau o ddementia, rhai mewn profedigaeth, a phobl sy'n sâl neu'n derfynol wael. Mewn achosion o'r fath, rhywun dros 18 oed sydd â'r prif gyfrifoldeb am ofalu amdanynt a ddylai roi cydsyniad ar eu rhan fel arfer, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol am fynd ymlaen hebddo. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rywun nad yw'n gallu rhoi ei gydsyniad ei hun am farn ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w allu i ateb yn briodol.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.1-9.4.3)

(Gweler y canllawiau: Gweithio â Chyfranwyr Agored i Niwed neu Gyfranwyr sydd mewn Perygl o fod yn Agored i Niwed; a Ffilmio mewn Argyfyngau Meddygol)

6.4.11 Wrth gasglu gwybodaeth bersonol am gyfranwyr, rhaid ei phrosesu'n unol â pholisi Diogelu Data'r BBC. Mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn gyfrifol am gydymffurfio â'u polisïau eu hunain ar ddiogelu data ac am gyflawni eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

(Gweler 6.4.7)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.58-7.4.63)

6.4.12 Efallai y bydd problemau pobl sy'n rhan o gynnwys y BBC yn gwneud argraff ar gynulleidfaoedd, ac efallai y byddant yn dymuno darparu cymorth. Yr arfer gorau yw cyfeirio'r aelodau hynny o'r gynulleidfa at elusen gofrestredig neu ystod o sefydliadau addas a all gefnogi'r person, a sianelu cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gellir gofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler y canllawiau: Rhoddion Cynulleidfaoedd i Gyfrannwr)

## Taliadau i Gyfranwyr

6.4.13 Fel arfer, ni ddylid talu ffi i gyfranwyr am gymryd rhan mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol pan fyddant yn adrodd eu hanes. Y rheswm am hyn yw y gallai taliad effeithio ar benderfyniad y cyfrannwr i siarad neu ddylanwadu ar yr hyn y gallai ei ddweud, neu gallai effeithio ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o onestrwydd eu cyfraniad.

Efallai y gellir talu ffi aflonyddu fach a thalu am unrhyw fân dreuliau sy'n codi er mwyn gwneud y rhaglen.

**Rhaid atgyfeirio, i'r tîm Polisi Golygyddol, cynigion i dalu mwy na ffi aflonyddu i gyfranwyr at allbwn newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol am adrodd eu stori.**

6.4.14 Fel arfer ni fydd y BBC yn gwneud taliadau, yn addo gwneud taliadau nac yn gwneud taliadau mewn nwyddau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (drwy drefnwyr neu ganolwyr, er enghraifft), i droseddwyr, neu i gyn-droseddwyr, sy'n gwneud dim ond siarad am eu troseddau. Yn gyffredinol, dylid cymhwyso'r un egwyddor at deuluoedd neu berthnasau i droseddwyr neu gyn-droseddwyr. Pwrpas hyn yw diogelu enw da'r BBC a hygrededd ffynonellau a'r bobl sy'n cael eu cyfweld, yn ogystal â pharchu teimladau dioddefwyr troseddau.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.19)

### *Tynnu Cydsyniad yn Ôl*

6.4.15 Pan fydd cyfrannwr wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i fod yn rhan o'r cynnwys, ni chytunir fel arfer i unrhyw gais ganddo i dynnu ei gyfraniad yn ôl cyn ei ddarlledu, ond dylid gwrando ar unrhyw wrthwynebiadau rhesymol. Gellir cael eithriadau, er enghraifft os oes rhwymedigaethau contractiol, lle mae amgylchiadau personol yr unigolyn dan sylw wedi newid yn sylweddol neu lle cafwyd newidiadau mawr yn y cyd-destun y mae ei gyfraniad i gael ei ddefnyddio ynddo.

(Gweler y canllawiau: Cydsyniad ar sail Gwybodaeth)

## Dod o hyd i Gyfranwyr

6.4.16 Dylid cynnal gwiriadau i gadarnhau pwy yw cyfranwyr a sicrhau nad oes twyll neu gamarwain gan westeion cyson. Dylai natur y gwiriadau hyn fod yn briodol i natur a phwysigrwydd eu cyfraniad, y cynnwys a'r genre.

Efallai y bydd angen cynnal gwiriadau mwy manwl am bobl sy'n brif destun i'r allbwn neu sy'n gwneud cyfraniad sylweddol iddo. Gall hyn gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau pwy ydynt a dangos bod eu stori neu eu cymwysterau a'u profiad yn ddilys
- cadarnhad gan bobl heblaw'r rheini a awgrymwyd gan y cyfrannwr
- datganiad gan gyfranwyr o wybodaeth bersonol a all ddwyn anfri arnynt neu ar y BBC
- adolygiad o'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Efallai y bydd gofyn i rai cyfranwyr gwblhau gwiriad cofnodion troseddol.

(Gweler 6.4.1-6.4.2)

6.4.17 Ni ddylid defnyddio asiantaethau neu wefannau trydydd parti sy'n delio ag actorion a pherfformwyr i ddod o hyd i bobl i siarad am faterion y tu allan i'w proffesiwn neu eu profiad penodol heblaw wrth chwilio am gystadleuwyr neu gynulleidfaoedd ar gyfer rhaglenni adloniant.

### Apelio am Gyfranwyr

6.4.18 Rhaid geirio hysbysebion neu apeliadau am gyfranwyr yn ofalus er mwyn osgoi dwyn anfri ar y BBC. Er mwyn cael cyfranwyr priodol, mae'n bosibl y bydd angen targedu hysbysebion yn ofalus.

6.4.19 Os defnyddir hysbysebion neu os apelir am gyfranwyr drwy gyfryngau cymdeithasol neu adnoddau eraill ar y rhyngrwyd, dylid cynnal gwiriadau priodol i sgrinio ymgeiswyr anaddas neu anonest.

6.4.20 **Rhaid atgyfeirio geiriad arfaethedig yr holl apeliadau am gyfranwyr a chystadleuwyr, yn cynnwys y rheini ar gyfer rhaglenni adloniant a thalent, i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.**

6.4.21 Wrth bostio ar wefannau neu ar y cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i gyfranwyr neu ddeunydd ymchwil, dylid ei gwneud yn glir bod y cynnwys yn cael ei wneud i'r BBC a defnyddio cyfeiriad busnes lle mae manylion cyswllt yn cael eu darparu. Os yw'n gyfres sy'n dychwelyd, efallai y bydd yn briodol enwi teitl y rhaglen.

## Diogelwch a Dyletswydd Gofal tuag at Gyfranwyr

6.4.22 Ni ddylid rhoi iechyd a diogelwch cyfranwyr nac unrhyw gyfranogwyr eraill mewn unrhyw berygl sylweddol.

6.4.23 Mae gan y BBC ddyletswydd gofal tuag at ei gyfranwyr a chyfranwyr posibl, yn ogystal â'i ffynonellau, a allai wynebu niwed neu ofid o ganlyniad i'w cyfraniad i'r allbwn. Fodd bynnag, gallai'r gofal dyladwy amrywio wrth ystyried y cynnwys golygyddol, natur a graddau'r ymwneud gan yr unigolyn a'i statws cyhoeddus, ynghyd â ffactorau perthnasol eraill fel risgiau i ddiogelwch ac a yw'r unigolyn yn agored i niwed.

6.4.24 Dylid cynnal asesiad risg 'gofal dyladwy i gyfrannwr' i nodi unrhyw risg sylweddol o niwed i'r cyfrannwr neu'r cystadleuydd, oni bai fod cyfiawnhad er budd y cyhoedd dros beidio â gwneud hynny.

Gall asesiad risg fod yn ffordd ddefnyddiol o benderfynu pa lefel o ofal sy'n 'ddyladwy' ym mhob achos. Os oes angen, dylid ei ystyried ar y cam cynharaf yn y broses gynhyrchu a gallai helpu i bennu a oes angen arbenigwyr ar gamau pellach yn y cynhyrchiad.

Cyn gofyn i gyfranwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â'r potensial i'w rhoi mewn perygl o risg gorfforol neu seicolegol sylweddol, rhaid dilyn y weithdrefn asesu risg briodol.

Yn y BBC, mae cyngor ar risg gorfforol a seicolegol ar gael gan dîm Diogelwch y BBC. Mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn gyfrifol am eu prosesau asesu risg eu hunain.

Lle bo'n briodol, gellir gofyn i gyfranwyr wneud profion addasrwydd neu asesiadau seicolegol. Rhaid i gyfranwyr gydsynio i'r camau hynny a rhaid disgrifio unrhyw risgiau yn ysgrifenedig. Mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

Mae Ofcom wedi cynhyrchu 'Matrics Risg[35]' sy'n gallu helpu i nodi, asesu a rheoli risgiau posibl i gyfranwyr. Gall y matrics risg hwn fod yn fan cychwyn ar gyfer ystyriaethau manwl pellach o risg gan gynhyrchwyr a chomisiynwyr.

---

[35] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/24713/section7.pdf

6.4.25 Ni ddylid annog cyfranwyr i'w rhoi eu hunain mewn perygl wrth gasglu deunydd a allai fod at ddefnydd y BBC.

6.4.26 Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau ymarferol i amddiffyn cyfranwyr neu ffynonellau mewn gwledydd tramor rhag sgil-effeithiau yn eu gwledydd eu hunain, o ganlyniad i gymryd rhan yn allbwn y BBC. Gall gwefannau trydydd parti atgynhyrchu cynnwys yn fyd-eang heb roi gwybod na chael cydsyniad.

(Gweler y canllawiau: Dyletswydd Gofal)

## Bygwth a Bychanu

6.4.27 Rhaid trin cyfranwyr a chyfranwyr posibl â pharch. Rhaid peidio â bygwth cyfranwyr, eu bychanu nac ymddwyn yn ymosodol tuag atynt yn ddiangen, un ai i gael cydsyniad ganddynt neu wrth iddynt gymryd rhan mewn allbwn.

Nid yw hyn yn atal cyfweliadau rhag bod yn rhai cadarn, heriol, holgar a dygn.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.44)

## Sioeau Gemau, Cwisiau, Sioeau Talent a Rhaglenni sy'n Cynnig Cyfleoedd Newid Bywyd

6.4.28 Rhaid trin aelodau o'r cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn sioeau gemau a chwisiau yn onest ac yn deg, gan ystyried eu hurddas. Rhaid iddynt gael eu hysbysu am y rheolau, a dylid rhoi gwybodaeth iddynt fel arfer am yr hyn sy'n debygol o ddigwydd iddynt a beth a ddisgwylir ganddynt. Os ydynt i ymddangos mewn ffordd ddoniol, bydd yn bwysig iddynt deimlo'n rhan o'r hwyl yn hytrach na bod hwyl yn cael ei wneud am eu pen. Hefyd rhaid cymryd gofal lle mae cystadleuwyr wedi'u cynnig gan eu teulu neu ffrindiau.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.38)

6.4.29 Dylid bod yn ofalus iawn wrth ddewis, asesu a chefnogi cystadleuwyr mewn sioeau talent a rhaglenni sy'n cynnig cyfleoedd newid bywyd. Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol o'r pwysau ychwanegol a allai godi pan fydd cystadleuwyr yn perfformio neu'n ymddangos gerbron panel neu gynulleidfa fyw, a phan fydd pleidlais gyhoeddus yn cael ei chynnal, yn enwedig pan fydd y cynnwys yn debygol o ddenu sylw ar gyfryngau cymdeithasol.

Fel arfer, dylai cynhyrchwyr cynnwys sicrhau bod cystadleuwyr wedi cael eu hasesu a bod arbenigwr addas yn gallu rhoi cymorth iddynt. Hyd yn oed pan fydd cystadleuwyr wedi dangos addewid mawr, efallai na fyddai parhau mewn cystadleuaeth dalent gyhoeddus o fudd iddynt. Mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler y [canllawiau: Chwilio am Dalent a Chystadleuwyr)]

## Golygu Teg

6.4.30 Dylai'r cynnwys terfynol fod yn bortread teg o'r hyn a ddywedodd ac a wnaeth y cyfrannwr, ac ni ddylid cambortreadu ei gyfraniad.

## Anhysbysrwydd

**6.4.31 Weithiau ni fydd gwybodaeth ar gael er budd y cyhoedd heblaw drwy ffynonellau neu gyfranwyr sy'n ei darparu ar sail anhysbys.**

Pan fydd hynny'n ymarferol, cyn cytuno i gadw ffynhonnell yn anhysbys, dylid atgyfeirio'r mater i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu a fydd efallai yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Dylid ystyried a ddylid caniatáu anhysbysrwydd a sut mae sicrhau hynny.

**Ni ddylid cynnig anhysbysrwydd oni bai fod cyfiawnhad golygyddol neu gyfreithiol, cyfiawnhad sy'n ymwneud â lles, neu gyfiawnhad arall dros wneud hynny. Lle mae cyfrannwr yn gofyn am anhysbysrwydd fel amod o'i gyfranogiad ac yr ystyrir bod cyfiawnhad dros raddau'r anhysbysrwydd a ddarperir, mae angen cytuno ar hynny. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ni ddeall pwy y mae'r cyfrannwr yn dymuno bod yn anhysbys rhagddo a pham.** Mae'n bosibl mai digon fydd sicrhau nad yw'n hawdd i'r cyfrannwr gael ei adnabod gan y cyhoedd, neu efallai y bydd am gael ei gelu rhag cael ei adnabod hyd yn oed gan ffrindiau agos ac aelodau o'i deulu. Dylid cadw cofnod o sgyrsiau gyda chyfranwyr am anhysbysrwydd.

Pan mai cyfrannwr anhysbys yw ffynhonnell yr honiadau, gweler Cywirdeb.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.20-3.4.22)

**6.4.32 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys sicrhau eu bod mewn sefyllfa i anrhydeddu unrhyw addewidion a wneir ynghylch anhysbysrwydd, gan ystyried goblygiadau unrhyw orchymyn llys posibl sy'n mynnu datgelu deunydd heb ei ddarlledu. Pan fydd anhysbysrwydd yn hanfodol, ni ddylid dangos pwy yw'r cyfrannwr mewn unrhyw ddogfen, ffeil gyfrifiadurol, neu gofnod arall. Mae hyn yn cynnwys llyfrau nodiadau, gwaith papur gweinyddol, dyfeisiau electronig, yn ogystal â deunydd fideo a chlywedol.**

**(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.31)**

**6.4.33 Er mwyn celu pwy yw rhywun yn effeithiol, mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy na gwneud wyneb rhywun yn aneglur; mae ystyriaethau gweledol a sain eraill. Mae'n bosibl y bydd angen ystyried nodweddion gwahaniaethol, yn cynnwys gwallt, dillad, cerddediad a llais. Pan fydd anhysbysrwydd yn hanfodol, fel arfer dylid gwneud lluniau yn aneglur, yn hytrach na'u picselu, a defnyddio llais rhywun arall yn y cyfraniad yn hytrach nag ystumio llais y cyfrannwr yn dechnegol, gan fod modd dad-wneud gwaith picselu ac unrhyw ystumio technegol. Dylid rhoi gwybod i gynulleidfaoedd os nad llais y cyfrannwr sy'n cael ei glywed.**

**6.4.34 Er mwyn osgoi unrhyw berygl o adnabod rhywun drwy 'ddod â'r darnau at ei gilydd' (hynny yw, datgelu nifer o eitemau gwybodaeth mewn geiriau neu ddelweddau y gellir eu casglu at ei gilydd i adnabod yr unigolyn), mae hefyd yn bosibl y bydd angen cynnwys y canlynol, er enghraifft, mewn addewidion o anhysbysrwydd: ystyried y ffordd y caiff y cyfrannwr ei ddisgrifio; gwneud rhifau tai yn**

**aneglur; dileu rhai eitemau gwybodaeth drwy olygu (o eiriau'r cyfrannwr neu eraill)** a gofalu peidio â datgelu'n union lle mae cartref cyfrannwr. Mae'n bwysig nodi y bydd yr angen i osgoi 'dod â'r darnau at ei gilydd' i adnabod cyfrannwr yn galw mewn rhai amgylchiadau am ystyried gwybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus.

**6.4.35 Efallai y bydd angen celu pwy yw cyfranwyr rhyngwladol er mwyn bodloni unrhyw rwymedigaethau o ran anhysbysrwydd neu os bydd eu diogelwch yn cael ei beryglu. Mae gwefannau trydydd parti weithiau'n atgynhyrchu cynnwys yn fyd-eang heb yn wybod i'r BBC a heb gael cydsyniad y BBC, felly ni ellir gwarantu na fydd cyfraniad yn cael ei weld mewn gwledydd penodol.**

(Gweler y canllawiau: Anhysbysrwydd)

### *Pobl â Hawl Gyfreithiol i Anhysbysrwydd*

6.4.36 Mae hawl gydol oes gan ddioddefwyr a dioddefwyr honedig rhai troseddau, yn cynnwys treisio a throseddau eraill ag elfen rywiol iddynt, i beidio â chael eu hadnabod fel dioddefwyr y troseddau hynny. Mae'r hawl hon yn bodoli pa un a yw'r heddlu wedi'i hysbysu am y trosedd honedig ai peidio. Mae'r rheini sydd wedi dioddef, neu sy'n honni eu bod wedi dioddef, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a rhai troseddau masnachu pobl hefyd â hawl gydol oes awtomatig i fod yn anhysbys yn ôl y gyfraith yng nghyswllt y troseddau honedig hynny. Bydd angen cymryd gofal arbennig o ran adnabod rhywun drwy 'ddod â darnau at ei gilydd' mewn achosion lle mai aelodau o deulu'r dioddefwr sy'n cael eu cyhuddo o droseddau. Mae unigolion sy'n 16 oed ac yn hŷn yn gallu ildio eu hawl i anhysbysrwydd, ond rhaid iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig. Mae mwy o gyngor ar gael gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Mae gan athrawon hefyd hawl i fod yn anhysbys os ydynt wedi cael eu cyhuddo o drosedd yn erbyn disgybl cofrestredig yn eu hysgol. Gellir codi'r anhysbysrwydd yng nghyswllt honiad o'r fath neu ei ddileu o dan nifer o amgylchiadau, gan gynnwys os bydd yr athro'n cael ei gyhuddo o'r drosedd dan sylw. Gall yr athro hefyd ildio ei hawl i anhysbysrwydd yn ysgrifenedig.

Mae mwy o gyngor ar gael gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n wahanol yn yr Alban ac mae cyngor ar gael gan y Cyfarwyddwr Cyfreithiol, yr Alban.

## Cyfranwyr, Cytundebau Mynediad, Ffurflenni Indemnio ac Annibyniaeth Olygyddol

6.4.37 Weithiau bydd cyfranwyr yn gofyn am gael rhagolwg o'u cyfraniadau. Nid yw'r BBC yn caniatáu dangos rhagolwg o'i gynnwys fel arfer. Lle mae rhesymau golygyddol neu gyfreithiol dros gytuno i ddangos rhagolwg, rhaid i wneuthurwyr cynnwys fod yn glir o dan ba delerau y mae'n cael ei gynnig. Fel arfer bydd yn briodol gwneud hyn yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Dylid ei gwneud yn glir y bydd y BBC yn cadw rheolaeth olygyddol ac y bydd unrhyw newidiadau a wneir ar ôl dangos rhagolwg yn ymwneud yn llwyr fel arfer â chywiro materion ffeithiol y cytunwyd eu bod yn anghywir neu ymateb i bryderon rhesymol ynghylch lles, diogelwch personol, diogelwch gwladol neu gyfrinachedd.

Nid yw'r BBC yn caniatáu cymeradwyaeth copi o'i gynnwys.

Weithiau bydd cyfranwyr yn ceisio gorfodi amodau cyn cytuno i gymryd rhan. Rhaid i'r BBC beidio ag ildio rheolaeth olygyddol. Mae'n bwysig bod unrhyw gytundeb contractiol â chyfrannwr, ei asiant, neu gwmni cynhyrchu yn ei gwneud yn bosib gofyn cwestiynau y byddai'n rhesymol i'r gynulleidfa eu disgwyl, ac i ddweud y stori'n deg ac yn gywir.

Os bydd cyfrannwr yn gwrthod rhoi cyfweliad oni bai fod y cwestiynau'n cael eu cytuno ymlaen llaw neu fod pynciau penodol yn cael eu hosgoi, rhaid ystyried yn ofalus a yw'n briodol bwrw ymlaen o gwbl. Os bydd cynhyrchwyr cynnwys yn penderfynu bwrw ymlaen, dylid ei gwneud yn glir fel arfer ar yr awyr neu fel rhan o'r eitem o dan ba amodau y cafwyd y cyfweliad.

### *Cytundebau Mynediad*

6.4.38 Mae nifer mawr o sefydliadau'n mynnu bod y BBC yn gwneud cytundebau ysgrifenedig yn gyfnewid am hwyluso mynediad i'w safleoedd neu at eu staff. Gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o ffurfioli'r telerau ar gyfer rhoi cydsyniad am fynediad neu gyfraniadau eraill.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau na fydd telerau unrhyw gytundeb yn amharu ar annibyniaeth olygyddol y BBC neu'n tanseilio ei uniondeb golygyddol. Er mwyn arfer rheolaeth olygyddol, mae'n ofynnol bod y BBC, neu gwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n cynhyrchu cynnwys i'r BBC, yn cadw'r hawl i recordio deunydd mor rhydd ag y gellir, a hefyd i olygu'n gywir, yn ddiduedd ac yn deg. Os gosodir amodau annerbyniol, rhaid i'r BBC dynnu'n ôl o'r prosiect.

(Gweler y canllawiau: Cytundebau Mynediad a Ffurflenni Indemnio)

6.4.39 **Rhaid i unrhyw gytundeb mynediad, ffilmio neu recordio gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Os yw'r geiriad arfaethedig yn peryglu uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol hefyd. Os na ellir newid y geiriad er boddhad y BBC, ni chaiff y cynhyrchiad fynd yn ei flaen.**

## Cyfraniadau gan Aelodau o'r Teulu Brenhinol

6.4.40 **Rhaid trafod ceisiadau gan feysydd allbwn sydd y tu allan i BBC News am gyfweliadau ag aelodau o'r Teulu Brenhinol, neu am ymddangosiadau dethol ganddynt, â Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC.**

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.20)

## Ffurflenni Indemnio

6.4.41 Ffurflenni indemnio yw'r cytundebau cyfreithiol a ddefnyddir gan sefydliad sy'n darparu cyfleuster i'r BBC i ddangos pwy fydd yn atebol os aiff rhywbeth o'i le, naill ai yn ystod recordiad neu o ganlyniad i ddarllediad. Gallant fod yn ddogfennau ar wahân neu'n gymal indemnio mewn Cytundeb Mynediad ehangach. Dylid ymgynghori â chynghorydd materion busnes cyn cytuno ar gymal indemnio.

6.4.42 Mae'r BBC wedi cytuno ar ffurflen indemnio safonol â'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Dim ond os yw eu geiriad yn adlewyrchu'r hyn sydd yn ffurflen safonol y BBC y gall cynhyrchwyr cynnwys y mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn rhoi ffurflenni indemnio iddynt lofnodi ffurflenni o'r fath. Mae copïau ar gael ar y wefan Canllawiau Golygyddol. Os bydd cynhyrchwyr cynnwys yn cael ffurflenni indemnio gan Heddlu'r Alban, dylent eu hatgyfeirio i sylw eu cynghorydd materion busnes cyn eu llofnodi.

(Gweler y canllawiau: Cytundebau Mynediad a Ffurflenni Indemnio)

## Hawl i Ymateb

6.4.43 Pan fydd allbwn yn cynnwys honiadau o ddrwgweithredu, anghyfiawnder neu anghymhwystra, neu'n cyflwyno beirniadaeth gref a niweidiol o unigolyn neu sefydliad y gellir ei adnabod, y rhagdybiaeth yw y bydd y rheini a gaiff eu beirniadu yn cael cyfle teg i ymateb i'r honiadau, sef hawl i ymateb.

Yn ogystal â sicrhau tegwch, bydd yr ymateb i hawl i ymateb yn gallu helpu i sicrhau cywirdeb yr allbwn.

Hyd yn oed os nad yw unigolyn neu sefydliad wedi'i enwi, mae'n bosibl y bydd yn dal yn briodol cwestiynu neu drafod cywirdeb y dystiolaeth â'r rheini a gaiff eu beirniadu.

Rhaid cadw cofnod o unrhyw gais am ymateb; dylai gynnwys dyddiadau, amseroedd, enw'r person y cysylltwyd ag ef a'r prif elfennau yn y sgwrs rhyngddynt.

6.4.44 Wrth geisio ymateb, dylid rhoi'r wybodaeth ganlynol fel arfer i wrthrych yr honiadau:

- disgrifiad o'r honiadau sy'n ddigon manwl iddo allu rhoi ymateb ar sail gwybodaeth. Fodd bynnag, nid oes angen darparu tystiolaeth berthnasol
- natur, fformat a chynnwys yr allbwn y bydd yr honiad yn cael ei wneud ynddo, gan gynnwys y teitl os yw'n arwyddocaol
- pa bryd a ble y cyhoeddir y cynnwys am y tro cyntaf (os yw'n hysbys) a
- chyfle priodol ac amserol i ymateb.

6.4.45 Mae'n bwysig bod unrhyw rannau o'r ymateb sy'n berthnasol i'r honiadau a ddarlledwyd yn cael eu portreadu'n deg a chywir a dylid eu darlledu neu eu cyhoeddi fel arfer o fewn neu ochr yn ochr â'r deunydd sy'n cynnwys yr honiadau.

Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd hyn yn amhriodol (er enghraifft, am resymau cyfreithiol, diogelwch neu gyfrinachedd). Mewn achosion o'r fath, dylid ymgynghori â ffigwr golygyddol uwch, neu olygydd comisiynu os mai cwmnïau cynhyrchu annibynnol sydd am ymgynghori. Gall fod yn briodol wedyn ystyried a ddylid cynnig cyfle arall i ymateb ar ddyddiad diweddarach.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.47-7.4.48)

6.4.46 **Os oes bwriad i ddarlledu honiad difrifol heb gynnig cyfle i ymateb, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol,** a fydd yn ystyried:

- a oes cyfiawnhad dros ddarlledu'r honiad ar sail y budd i'r cyhoedd[36]
- a oes rhesymau da i gredu ei fod yn wir.

Gall fod rhesymau dros gyhoeddi neu ddarlledu honiadau heb ofyn am ymateb gan yr unigolion neu'r sefydliadau dan sylw. Mae'r rhain yn cynnwys y risg o ymyrryd â thystion neu'r rheini y mae gan gynhyrchwyr cynnwys ddyletswydd gofal tuag atynt, neu resymau cyfreithiol eraill.

[36] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.20)

## Cyfle i Gyfrannu ac Ystyried y Ffeithiau'n Briodol

6.4.47 Cyn cyhoeddi a darlledu newyddion a materion cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol, gan gynnwys allbwn sy'n edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol, dylai'r BBC gymryd gofal rhesymol i fodloni ei hun:

- nad yw ffeithiau perthnasol wedi'u cyflwyno, eu diystyru neu eu hepgor mewn modd sy'n annheg i unigolyn neu gorff; a
- bod unrhyw un y byddai ei hepgor yn gallu bod yn annheg i unigolyn neu gorff wedi cael cyfle i gyfrannu.

### Gwrthod Cymryd Rhan

6.4.48 Mae hawl gan unrhyw un i wrthod cyfrannu i allbwn y BBC ac nid oes angen crybwyll bod rhywun wedi gwrthod bob amser. Er hynny, ni ddylid caniatáu i'r ffaith bod unigolyn neu sefydliad wedi gwrthod cyfrannu fod yn rhwystr i ddangos cyfranwyr eraill sy'n dal barn wahanol, neu i ddangos yr allbwn ei hun.

6.4.49 Lle mae'n rhesymol i'n cynulleidfa ddisgwyl clywed gwrthddadleuon neu lle nad yw unigolyn, safbwynt neu sefydliad wedi'i gynrychioli, gall fod yn briodol egluro'r absenoldeb, yn enwedig os byddai'n annheg â'r cyfrannwr coll i beidio â gwneud hynny. Dylid geirio hyn yn deg. Dylid ystyried a oes modd cynrychioli barn y cyfrannwr coll ar sail yr hyn sydd eisoes yn hysbys.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.2-2.4.4 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.46-7.4.47)

### Twyllo

6.4.50 Os yw hyn er budd y cyhoedd[37], gall fod yn dderbyniol i gynhyrchwyr cynnwys guddio pwy ydynt ai peidio â datgelu pwrpas llawn yr allbwn. Efallai y bydd hefyd yn dderbyniol creu persona ffug, neu gyfrif ffug ar y cyfryngau cymdeithasol. Nid yw twyllo cyfrannwr, ffynhonnell neu sefydliad yn y fath ffordd yn debygol o fod yn dderbyniol os oedd modd cael y deunydd mewn ffordd arall. Dylai fod y lleiaf sydd ei angen ac yn gymesur â'r pwnc dan sylw.

**Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr i allbwn newyddion neu ffeithiol i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.38-8.4.40)

## Allbwn Comedi, Adloniant a Dychanol

6.4.51 Os yw'r twyllo at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanu, fel herian i greu difyrrwch, dylai'r deunydd gael ei recordio ymlaen llaw fel arfer a rhaid cael cydsyniad unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r

[37] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

sefydliad sydd i gael ei enwi ynddo cyn ei ddarlledu. Os na ellir eu hadnabod, ni fydd angen cael cydsyniad cyn ei ddarlledu fel arfer oni bai fod y deunydd yn debygol o wneud rhywun yn destun gwawd i'r cyhoedd heb gyfiawnhad neu o beri gofid personol.

Ni ddylai'r twyllo fod â'r bwriad o fychanu a dylem ofalu nad ydym yn achosi gofid neu annifyrrwch diangen i'r rheini sy'n gysylltiedig. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â ffrindiau neu'r teulu i asesu'r risgiau cyn recordio.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.44 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.50)

6.4.52 Fel arfer ni fydd angen cael cydsyniad ymlaen llaw i ddarlledu deunydd sy'n cynnwys twyllo at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanu sy'n ymwneud â'r rheini sydd yn llygad y cyhoedd oni bai fod y deunydd wedi'i recordio'n gudd neu ei fod yn debygol o wneud rhywun yn destun gwawd i'r cyhoedd heb gyfiawnhad neu o beri gofid personol.

6.4.53 **Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanu, p'un a yw yn llygad y cyhoedd ai peidio, i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.**

## *Ar-lein*

6.4.54 **Os oes bwriad i greu gwefan sy'n cuddio unrhyw gysylltiad â'r BBC, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol**, a fydd yn ystyried:

- a yw'r cynnig yn gymesur ac a oes cyfiawnhad golygyddol drosto
- pa fesurau y gellir eu cymryd i sicrhau na fydd y rheini y tu allan i'r gynulleidfa darged yn cael eu camarwain yn sylweddol, neu'n cael niwed sylweddol.

6.4.55 **Rhaid i unrhyw gynnig i greu persona ffug neu i greu cyfrif ffug ar y cyfryngau cymdeithasol gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.**

6.4.56 **Os bydd unrhyw un yn ymyrryd i lywio cwrs trafodaeth ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol at un o ddibenion y BBC, heb ddatgelu ei gysylltiad â'r BBC, rhaid iddo fod yn gweithredu er budd y cyhoedd[38] a rhaid iddo atgyfeirio'r mater i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Yn yr achosion mwyaf difrifol, rhaid atgyfeirio'r mater hefyd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## *Gweithio Dramor*

6.4.57 **Os oes bwriad i gynhyrchwyr cynnwys y BBC fynd i mewn i wlad mewn ffordd sy'n osgoi cyfyngiadau fisa, rhaid atgyfeirio'r bwriad hwnnw i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori hefyd â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Fel arfer, dylid hysbysu rheolwyr y swyddfeydd newyddion a'r swyddfa leol. Gall

[38] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

hefyd fod yn ddoeth cysylltu â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Thîm Risg Uchel BBC Safety[39] cyn teithio.

## Portreadu Pobl Go Iawn mewn Drama

6.4.58 Lle bo’n briodol, a lle mae eu rôl yn arwyddocaol, dylid hysbysu pobl go iawn sy’n cael eu portreadu mewn drama neu berthnasau agos iddynt sy’n dal yn fyw ymlaen llaw ac, os yw’n bosibl, sicrhau eu cydweithrediad. Bydd llai o angen sicrhau cydweithrediad wrth ddelio â phobl sydd yn llygad y cyhoedd, yn enwedig os yw’r portreadu’n ymwneud yn bennaf ag agweddau cyhoeddus ar eu bywyd.

**Os oes bwriad i bortreadu person go iawn mewn ffordd arwyddocaol mewn drama yn groes i ddymuniadau’r person hwnnw, neu i ddymuniadau ei deulu agos sy’n dal yn fyw, rhaid atgyfeirio’r bwriad hwnnw i sylw’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i’w gymeradwyo cyn ymrwymo i’r cynhyrchiad.**

Oni bai ei fod yn ymwneud â phobl sydd yn llygad y cyhoedd a’r agweddau cyhoeddus ar eu bywyd, ni fydd yn cael ei gymeradwyo oni bai fod modd dangos bod y meini prawf canlynol wedi’u bodloni:

- bod y portread yn deg
- bod y portread wedi’i seilio ar gorff tystiolaeth sylweddol o ffynonellau da lle bynnag y bo modd
- bod budd i’r cyhoedd[40].

6.4.59 Pan fydd drama yn bortread realistig o bobl fyw, neu o bobl sydd â pherthnasau agos sy’n dal yn fyw, mewn sefyllfaoedd cyfoes, dylai gwneuthurwyr cynnwys sicrhau nad yw’n ystumio’r ffeithiau hysbys yn ormodol ac felly’n rhoi portread annheg yn enwedig os yw’r portread yn ymwneud â digwyddiad dadleuol neu sensitif.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.31)

---

[39] Gweler y wefan Risg Uchel: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

[40] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

# ADRAN 7: PREIFATRWYDD

7.1 Cyflwyniad

7.2 Egwyddorion

7.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

7.4 Canllawiau

- Preifatrwydd a Chydsyniad
- Recordio'n Gyfrinachol, gan gynnwys Ymchwiliadau a Chudd-weithredu
- Gwneud Nodiadau Electronig
- Dyfeisiau Recordio Anamlwg
- Ffrydio Byw
- Ymchwilwyr Preifat
- Torri'r Gyfraith
- Ceisio Cyfweld yn Ddirybudd
- Dilyn Cyrchoedd
- Gohebu ar Farwolaeth, Dioddefaint a Gofid
- Gwybodaeth Bersonol
- Defnyddio Technoleg
- Pobl Ar Goll

## 7.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn parchu preifatrwydd ac nid yw'n tresmasu arno heb reswm da, ym mha le bynnag yn y byd y mae'n gweithredu. Mae'r gyfraith yn amddiffyn preifatrwydd unigolion, a gwybodaeth breifat amdanynt, ond mae'n cydbwyso hynny â hawl darlledwr i ryddid mynegiant. Mewn rheoliadau, mae Cod Darlledu Ofcom[41] yn datgan 'Os ceir unrhyw dresmasu ar breifatrwydd mewn rhaglenni, neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni, rhaid bod â chyfiawnhad dros hynny.[42]'

Bydd tresmasu ar breifatrwydd yn cael ei ystyried mewn dau gam, ac yn galw am gyfiawnhad dros gasglu ac am ddarlledu deunydd lle mae disgwyliad teg am breifatrwydd.

Bydd disgwyliadau teg am breifatrwydd yn amrywio yn ôl lle a natur yr wybodaeth, y weithgaredd neu'r amgylchiadau dan sylw, y graddau y mae'n gyhoeddus, os o gwbl, ac a yw'r unigolyn dan sylw yn llygad y cyhoedd eisoes. Gellir cael amgylchiadau lle mae'n rhesymol i bobl ddisgwyl preifatrwydd hyd yn oed mewn man cyhoeddus. Gall rhai gweithgareddau ac amgylchiadau fod o natur mor breifat fel y byddai ffilmio neu recordio, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, yn gallu golygu tresmasu ar breifatrwydd. Mae pobl sy'n destun ymchwiliad neu sydd yn llygad y cyhoedd, eu teulu a'u ffrindiau agos, yn cadw'r hawl i fywyd preifat, er bod ymddygiad preifat yn gallu codi materion y mae'n deg eu hystyried er budd y cyhoedd.

---

[41] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 8: Preifatrwydd

[42] Rheol 8.1, Cod Darlledu Ofcom

(Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3)

# 7.2 EGWYDDORION

7.2.1 Rhaid i'r BBC gydbwyso budd y cyhoedd mewn rhyddid mynegiant â'r disgwyliad dilys o breifatrwydd gan unigolion, gan ystyried rhwymedigaethau moesegol, rheoleiddiol a chyfreithiol. Rhaid i unrhyw dresmasu ar breifatrwydd wrth gasglu deunydd fod yn gymesur.

(Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3)

7.2.2 Rhaid cyfiawnhau unrhyw dresmasu ar breifatrwydd unigolyn heb gael cydsyniad drwy ddangos bod budd y cyhoedd yn drech na'r ymyrraeth. Po fwyaf yw'r tresmasiad, y mwyaf yw'r budd cyhoeddus sydd ei angen i'w gyfiawnhau.

7.2.3 Fel arfer, ni ddylai cynhyrchwyr cynnwys adrodd am ymddygiad preifat ffigurau cyhoeddus oni bai fod eu hymddygiad yn anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol neu lle mae materion cyhoeddus ehangach yn cael eu codi naill ai gan yr ymddygiad ei hun, neu ganlyniadau bod hynny'n dod yn hysbys yn gyffredinol. Ni fydd y ffaith ei fod wedi'i gyhoeddi gan gyfryngau eraill yn cyfiawnhau gohebu arno gan y BBC.

7.2.4 Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys beidio â 'physgota' am ddeunydd, h.y. recordio'n gyfrinachol i chwilio am drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion, neu grwpiau adnabyddadwy, pan nad oes tystiolaeth prima facie o ymddygiad o'r fath.

7.2.5 Rhaid cydbwyso'r budd i'r cyhoedd mewn gohebu'n llawn a chywir ar straeon sy'n ymwneud â gofid a dioddefaint pobl a phreifatrwydd yr unigolyn a pharch at ei urddas ddynol.

7.2.6 Wrth gasglu gwybodaeth bersonol gan gyfranwyr, cynulleidfaoedd ac aelodau eraill o'r cyhoedd, rhaid bod yn glir sut y bwriedir ei defnyddio. Rhaid ei thrin yn unol â Chanllawiau Golygyddol y BBC a Deddf Diogelu Data 2018.

(Gweler 7.4.58-7.4.63)

# 7.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

*Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.*

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

7.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu deunydd yn anghyfreithlon y tu allan i'r DU drwy anwybyddu cyfreithiau preifatrwydd neu gyfreithiau tebyg eraill yn y wlad berthnasol gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Rhaid ymgynghori hefyd â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 7.4.13)

7.3.2 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi a/neu dalu rhywun y mae'n hysbys bod ganddo gofnod troseddol neu gefndir mewn gweithgarwch anghyfreithlon i weithio ar un o ymchwiliadau'r BBC.

(Gweler 7.4.19)

7.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio recordiadau cyfrinachol a wnaed gan eraill gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu . Os na fyddai'r BBC wedi barnu bod cyfiawnhad dros gasglu'r deunydd o dan amgylchiadau tebyg, rhaid atgyfeirio'r cynnig i sylw'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.29)

7.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu, heb gydsyniad, recordiadau a wnaed yn wreiddiol at ddibenion gwneud nodiadau gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd i ddarlledu deunydd a gasglwyd fel hyn.

(Gweler 7.4.31)

7.3.5 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarparu camerâu a microffonau i'w gwisgo am eu cyrff i drydydd partïon lle byddai gwneud hynny'n gallu tresmasu ar breifatrwydd unigolyn neu lle mae'r trydydd parti'n mynd i mewn i safle preifat heb ganiatâd gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.32)

7.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i adael cyfarpar recordio heb neb i ofalu amdano ar eiddo preifat heb gydsyniad y meddiannydd gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.34)

7.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio dyfais tracio lle byddai'n tresmasu ar breifatrwydd unigolyn gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.35)

7.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig i ymchwilydd preifat sy'n gweithredu ar ran y BBC dorri'r Canllawiau Golygyddol neu, yn eithriadol, dorri'r gyfraith wrth gynnal ymchwiliad gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan ffigwr golygyddol uwch a fydd yn gorfod ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol cyn cymeradwyo a hefyd rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni os credir bod posibilrwydd y caiff y gyfraith ei thorri.

(Gweler 7.4.42)

7.3.9 Os credir, yn ystod y broses gwneud rhaglenni neu gynnwys, y gallai rhywun sy'n gweithio i'r BBC dorri cyfreithiau, rhaid ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a dylai yntau ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.13 a 7.4.43)

7.3.10 Rhaid i unrhyw gynnig i gymryd rhan mewn gweithgareddau hacio neu gomisiynu hacio gan drydydd partïon gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.45)

7.3.11 Rhaid cael cytundeb y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i unrhyw gynnig i recordio cyfweliad dirybudd ag unigolyn yn gudd. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol iawn y rhoddir caniatâd i gasglu deunydd fel hyn a rhaid iddo fod er budd y cyhoedd.

(Gweler 7.4.49)

## Atgyfeiriadau Eraill

7.3.12 Rhaid i unrhyw gynnig i recordio'n gyfrinachol, ac eithrio at ddibenion cymryd nodiadau, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol. Dylai hyn fod cyn cael ei gymeradwyo gan y ffigwr golygyddol uwch perthnasol neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu.

(Gweler 7.4.13)

7.3.13 Dylai unrhyw dwyll sydd ei angen i gael deunydd wedi'i recordio'n gudd, y tu hwnt i guddio offer recordio, fod y lleiaf sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r pwnc dan sylw a rhaid ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu, ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 7.4.13)

7.3.14 Rhaid i unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr ar ymchwiliad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 7.4.17)

7.3.15 Rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol ynghylch ceisiadau am swyddi gan gudd-weithredwyr sy'n gweithio ar ymchwiliadau'r BBC.

(Gweler 7.4.20)

7.3.16 Rhaid ymgynghori â'r Tîm Polisi Golygyddol, Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, a Thîm Risg Uchel Diogelwch y BBC cyn ymchwilio, cysylltu neu o bosibl recordio'n gyfrinachol grwpiau neu unigolion yr amheuir eu bod yn ymwneud â throsedd difrifol neu drosedd treisgar, gweithredoedd o eithafiaeth neu weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

(Gweler 7.4.21)

7.3.17 Rhaid i unrhyw gynnig i enwi unigolion neu sefydliadau a recordiwyd yn gyfrinachol ar gyfer ymchwil defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol heb eu cydsyniad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a fydd yn ystyried y budd i'r cyhoedd sydd yn eu henwi a rhwymedigaethau'r BBC o ran tegwch.

(Gweler 7.4.24)

7.3.18 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys pobl y gellir eu hadnabod mewn darllediad byw at ddibenion comedi, adloniant neu ddychan, yn ddiarwybod iddynt, boed wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neu drwy unrhyw gyfrwng arall gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ar y dechrau.

(Gweler 7.4.28)

7.3.19 Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu deunydd drwy ddefnyddio drôn lle gallai dresmasu ar breifatrwydd gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 7.4.33)

7.3.20 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu ffrwd fyw heb dynnu sylw pobl sy'n ymddangos ynddi at y darllediad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 7.4.40)

7.3.21 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio ymchwilydd preifat gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch a all ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol cyn bwrw ymlaen.

(Gweler 7.4.42)

7.3.22 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio data sy'n deillio o hacio neu sydd wedi'i ryddhau'n fwriadol heb ganiatâd gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Pan fydd data o'r fath wedi cael ei anfon at y BBC, rhaid ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn ei ddefnyddio.

(Gweler 7.4.44)

7.3.23 Rhaid i unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd, lle mae cais am gyfweliad neu ddatganiad wedi'i wneud yn flaenorol, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn cael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu.

(Gweler 7.4.47)

7.3.24 Rhaid i unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd, lle na ofynnwyd am gyfweliad neu ddatganiad o'r blaen, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu a rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad. Nid yw hyn yn berthnasol i gasglu deunydd ar gyfer yr agenda newyddion ddyddiol.

(Gweler 7.4.48)

7.3.25 Fel arfer, dylai unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanol gael ei gymeradwyo ymlaen llaw fel arfer gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu. Dylid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 7.4.50)

7.3.26 Dylid atgyfeirio penderfyniad i fynd ati i ail-greu neu ddramodi digwyddiadau yn y gorffennol sy'n ymwneud â dioddef neu drawma, pan fo gwrthwynebiadau rhesymol gan y dioddefwyr sydd wedi goroesi a pherthnasau sydd â disgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd, i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 7.4.57)

7.3.27 Rhaid i unrhyw gais gan awdurdod cyhoeddus am wybodaeth bersonol cyfrannwr, neu pan fydd cynhyrchwyr cynnwys yn bwriadu rhannu'r wybodaeth honno am resymau diogelu neu les, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a rhaid iddo gyfeirio at y tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn rhannu gwybodaeth.

(Gweler 7.4.61)

7.3.28 Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu gwybodaeth bersonol ar un o wefannau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC a allai gael ei datgelu i drydydd partïon, yn cynnwys Gwasanaethau Masnachol y BBC, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a fydd efallai eisiau ymgynghori â'r tîm Hawliau Gwybodaeth a thîm Masnachu Teg y BBC.

(Gweler 7.4.62)

7.3.29 Rhaid i unrhyw gynnig i ddatgelu manylion personol rhywun dan 18 oed i drydydd parti heb ei gydsyniad gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol, y tîm Diogelu a'r tîm Hawliau Gwybodaeth.

(Gweler 7.4.63)

# 7.4 CANLLAWIAU

## Preifatrwydd a Chydsyniad

7.4.1 Pan fydd cyfranwyr wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan yn allbwn y BBC, gellir cymryd eu bod wedi ildio eu disgwyliadau o ran preifatrwydd mewn perthynas â'u cyfraniad, o dan unrhyw amodau a gytunwyd ar gyfer eu cyfranogiad.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.5)

7.4.2 Dylai cynhyrchwyr cynnwys weithredu'n agored lle mae perygl o dresmasu ar breifatrwydd pobl, oni bai fod recordiad cyfrinachol wedi'i gymeradwyo. Mae hyn yn bwysig wrth ddefnyddio dyfeisiau recordio anamlwg neu ffrydio byw. Lle bo hynny'n ymarferol, dylid defnyddio hysbysiadau i wneud pobl yn ymwybodol bod recordio neu ffrydio byw yn digwydd ac i'w galluogi i'w hosgoi.

(Gweler 7.4.40-7.4.41)

7.4.3 Wrth ffilmio'n agored mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, nid oes angen cydsyniad fel arfer gan unigolion sy'n cael eu dal yn ddamweiniol ar gamera fel rhan o'r olygfa gyffredinol, oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd lle mae ganddynt ddisgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd sydd heb ei orbwyso gan fudd i'r cyhoedd o'u dangos.

Fodd bynnag, os gofynnir i wneuthurwyr cynnwys roi'r gorau i ffilmio neu recordio gan unigolion neu sefydliad oherwydd pryder am breifatrwydd, rhaid iddynt benderfynu a oes cyfiawnhad dros barhau er budd y cyhoedd.

Os bydd rhywun yn cysylltu â chynhyrchwyr cynnwys yn syth ar ôl ffilmio gyda chais i beidio â chael eu dangos, a bod cyfiawnhad dros eu cais am breifatrwydd, dylid ei ystyried yn ofalus.

7.4.4 Fel arfer, dylid cael dau gydsyniad ar wahân mewn mannau a allai fod yn sensitif, er enghraifft, ambiwlansys, ysbytai, ysgolion, carchardai neu orsafoedd heddlu; un ar gyfer casglu'r deunydd a'r llall ar gyfer ei ddarlledu, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â chael cydsyniad o'r fath. .

(Gweler y canllawiau: Ffilmio mewn Argyfyngau Meddygol)

7.4.5 Dylai gwneuthurwyr cynnwys gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod cydsyniad wedi'i gael lle bo angen. Weithiau, gall fod yn briodol gofyn i drydydd partïon helpu i gael cydsyniad, ond y BBC sy'n dal i fod yn gyfrifol am hyn.

7.4.6 Fel arfer, dylid cael cydsyniad cyn recordio ar eiddo preifat. Er hynny, gellir cyfiawnhau recordio ar eiddo preifat heb gael caniatâd ymlaen llaw lle mae mynediad cyffredinol i'r cyhoedd, er enghraifft, ar drafnidiaeth gyhoeddus, canolfan siopa, gorsaf drenau neu faes awyr. Gellir ei gyfiawnhau hefyd lle mae rheswm i gredu y bydd y recordiad yn helpu i ddatgelu ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol neu lle gellir ei gyfiawnhau fel arall er budd y cyhoedd. Wrth recordio heb gael cydsyniad ymlaen llaw ar eiddo preifat, os yw'r perchennog, y meddiannydd cyfreithiol neu'r sawl sy'n gweithredu o dan ei awdurdod yn gofyn i'r recordiad gael ei stopio, dylai gwneuthurwyr cynnwys wneud hynny fel arfer oni bai fod cyfiawnhad er budd y cyhoedd i barhau.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn ymwybodol o gyfraith tresmasu a dylent fel arfer adael eiddo preifat pan fydd y meddiannydd cyfreithiol yn gofyn iddynt wneud hynny. Mae mynd i mewn i eiddo preifat heb gydsyniad yn gallu bod yn gamwri sifil, ond nid yw'n fater i'r heddlu fel arfer.

Dylid ystyried a oes cyfiawnhad dros gyhoeddi gwybodaeth a allai ddatgelu union leoliad cartref neu deulu person adnabyddadwy.

7.4.7 Wrth ffilmio, dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn ymwybodol o'r risg o recordio gwybodaeth breifat yn ddiarwybod heb gydsyniad, mewn cofnodion ysgrifenedig, er enghraifft, neu ar sgriniau cyfrifiaduron neu mewn swyddfeydd.

## Plant, Pobl Ifanc a Chyfranwyr Agored i Niwed

7.4.8 Pan fydd plant yn ymddangos mewn allbwn mewn ffordd a allai darfu ar eu disgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd, dylai gwneuthurwyr cynnwys gael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan riant, gwarcheidwad cyfreithiol neu oedolyn arall sy'n gweithredu in loco parentis. Fel arfer, dylent hefyd sefydlu parodrwydd y plentyn i gymryd rhan lle bo hynny'n briodol. Efallai y bydd angen i wneuthurwyr cynnwys hefyd gael

cydsyniad ar sail gwybodaeth gan oedolyn cyfrifol wrth ystyried cynnwys person agored i niwed mewn allbwn. Mae'n bosibl y bydd ystyriaethau cyfreithiol ychwanegol yng nghyswllt plant a phobl agored i niwed a gellir gofyn am gyngor gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Nid yw plant yn colli eu hawl i breifatrwydd oherwydd enwogrwydd neu ddrwg-enwogrwydd eu rhieni, er enghraifft, neu oherwydd digwyddiadau yn eu hysgolion.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.1-9.4.9)

(Gweler y canllawiau: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr; a Gweithio gyda Chyfranwyr gan gynnwys Cyfranwyr Agored i Niwed neu Gyfranwyr sydd mewn Perygl o fod yn Agored i Niwed)

## Trydydd Partïon

7.4.9 Mae cynnwys sy'n datgelu gwybodaeth bersonol am unigolyn yn gallu bod yn dresmasu ar ei breifatrwydd hyd yn oed os nad yw'n cyfrannu i'r allbwn neu wedi'i gynnwys ynddo yn uniongyrchol. Mae hyn yn gallu cynnwys gwybodaeth bod rhywun yn destun ymchwiliad rheoleiddiol neu ymchwiliad gan yr heddlu yn ogystal â thystiolaeth bersonol am drydydd parti. Pan nad yw gwybodaeth o'r fath eisoes yn y parth cyhoeddus, dylai budd y cyhoedd fod yn drech nag unrhyw ddisgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd. Mae gan unigolion hawl i adrodd eu profiadau eu hunain; fodd bynnag, dylid asesu'r goblygiadau preifatrwydd i unrhyw drydydd parti y gallant gyfeirio atynt.

(Gweler 7.4.58-7.4.63)

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.12)

## Deunydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol

7.4.10 Pan fydd y BBC yn defnyddio fideos a delweddau o gyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd, efallai y byddant yn cael mwy o awdurdod nag ar lwyfannau digidol eraill. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried preifatrwydd y rheini sy'n cael eu cynnwys, yn enwedig lle nad oeddent yn gwneud neu'n cyhoeddi'r deunydd. Efallai hefyd y bydd angen cael rhagor o gydsyniad. Gall ailddefnyddio gael effaith ar y rhai dan sylw, yn enwedig mewn cysylltiad â digwyddiadau trasig, bychanol neu drallodus.

Lle mae cynnwys yn dangos unigolion sydd wedi postio deunydd amdanynt eu hunain yn agored ar gyfryngau cymdeithasol, efallai y bydd eu disgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd yn llai. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae unigolyn wedi dangos ei fod yn deall yr effaith bosibl y mae postio deunydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu ei chael ar ei breifatrwydd ei hun, neu lle na ddefnyddiwyd gosodiadau preifatrwydd. Mae'n bosibl na fydd hyn yn berthnasol i unigolion eraill sy'n ymddangos yn y cynnwys hwnnw, yn enwedig os ydynt yn blant.

Rhaid ystyried hawlfraint hefyd. O fewn y BBC, mae cyngor ar gael gan y tîm Eiddo Deallusol. Mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn gyfrifol am unrhyw faterion hawlfraint yn y cynnwys y maent yn ei wneud i'r BBC.

(Gweler y canllawiau: Cyfraniadau a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr)

## Recordio Cyfrinachol

7.4.11 Rhaid cael cyfiawnhad dros recordio cyfrinachol, sef ei fod er budd y cyhoedd. Fel arfer, dim ond at y dibenion canlynol y dylid defnyddio recordio cyfrinachol:

- er mwyn ymchwilio:
  - pan fydd tystiolaeth prima facie o ymddygiad, neu fwriad i ddangos ymddygiad, y bydd ei ddatgelu er budd y cyhoedd, a
  - mae ffyrdd eraill o gadarnhau'r deunydd ffynhonnell wedi cael eu hystyried a bernir eu bod yn annigonol i brofi'r ymddygiad
  - mae'n bwysig gweld a chofnodi tystiolaeth o'r ymddygiad yn uniongyrchol
  - pan fydd sail resymol i gredu bod modd cael tystiolaeth berthnasol ychwanegol i brofi'r ymddygiad
  - pan fydd recordio'n angenrheidiol i ddarparu cyd-destun, hygrededd ac i gyfrannu at ddilysrwydd y cynnwys
- er mwyn cael deunydd y tu allan i'r DU pan mae cyfreithiau gwlad yn ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl casglu deunydd yn y ffyrdd arferol
- fel dull ymchwilio i faterion defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol er budd y cyhoedd, pan na fyddai dulliau eraill yn gallu cofnodi'r agweddau neu'r ymddygiad dan sylw yn naturiol (Gweler 7.4.24)
- ar gyfer cymryd nodiadau electronig (Gweler 7.4.30)
- ar gyfer ymchwiliadau dychanol sy'n gwella dealltwriaeth neu werthfawrogiad o faterion er budd y cyhoedd
- gellir defnyddio recordio cyfrinachol hefyd ar gyfer allbwn comedi ac adloniant lle mae'r recordio cyfrinachol ac unrhyw dwyll sy'n gysylltiedig yn rhan annatod o bwrpas golygyddol y cynnwys. (Gweler 7.4.25-7.4.28)

7.4.12 Mae'r technegau canlynol yn ddulliau recordio cyfrinachol a all greu perygl o dresmasu ar breifatrwydd:

- defnyddio camerâu neu ficroffonau cudd, neu unrhyw dechneg arall sydd â'r bwriad o gelu'r ffaith bod y recordio'n digwydd oddi wrth ei wrthrych
- defnyddio cyfarpar fideo clywedol yn cynnwys lensys hir, camerâu fideo bach, camerâu ffôn symudol, ffrydio byw, microffonau radio, camerâu a microffonau a wisgir am y corff a chamerâu ar ddronau

- defnyddio camerâu a wisgir ar y corff neu feicroffonau ar drydydd partïon pan nad yw cynhyrchydd cynnwys y BBC yn bresennol â chamerâu gweladwy (Gweler 7.4.32)
- recordio galwadau ffôn neu fideo gyda'r posibilrwydd o'u darlledu heb gydsyniad
- parhau i recordio'n fwriadol pan mae'r parti arall yn meddwl bod y recordio wedi gorffen, neu ddechrau recordio pan mae'r parti arall yn meddwl nad yw wedi dechrau
- gadael camera neu ddyfais recordio heb neb i ofalu amdani ar eiddo preifat heb gael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y meddianwyr neu eu hasiant. (Gweler 7.4.34)

## *Cymeradwyo Recordio Cyfrinachol*

7.4.13 **Rhaid i unrhyw gynnig i recordio'n gyfrinachol, ac eithrio at ddibenion cymryd nodiadau, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol. Dylai hyn fod cyn cael ei gymeradwyo gan y ffigwr golygyddol uwch perthnasol neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu.**

Mae casglu a darlledu deunydd sydd wedi'i recordio'n gyfrinachol bob amser yn broses dau gam, sy'n gofyn am gyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth ar bob cam. Felly mae'r penderfyniad i gasglu bob amser yn cael ei wneud ar wahân i'r penderfyniad i drosglwyddo.

Rhaid cadw cofnod o'r broses gymeradwyo, hyd yn oed os caiff y cais ei wrthod neu os na ddarlledir y deunydd a gasglwyd. Mae pob adran yn gyfrifol am gadw ei chofnodion ei hun am recordio cyfrinachol er mwyn galluogi'r BBC i fonitro ac adolygu'r defnydd ohono yn ei holl allbwn.

(Gweler Ffurflenni: Ffurflenni Recordio Cyfrinachol)

**Dylai unrhyw dwyll sydd ei angen i gael deunydd wedi'i recordio'n gudd, y tu hwnt i guddio offer recordio, fod y lleiaf sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r pwnc dan sylw a rhaid ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu, ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu.**

Wrth feddwl am recordio'n gyfrinachol y tu allan i'r DU, dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol fod y cyfreithiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn amrywio drwy'r byd. **Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu deunydd yn anghyfreithlon y tu allan i'r DU drwy anwybyddu cyfreithiau preifatrwydd neu gyfreithiau tebyg eraill yn y wlad berthnasol gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol, a fydd yn ystyried y cyfiawnhad golygyddol. Rhaid ymgynghori hefyd â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.** Ceir rhestr o'r awdurdodwyr ar wefan y Polisi Golygyddol ac ar y fersiwn ar-lein o'r ffurflenni recordio cyfrinachol.

(Gweler 7.4.43)

7.4.14 Rhaid bod cyfiawnhad ar sail budd y cyhoedd dros ailddefnyddio deunydd a recordiwyd yn gyfrinachol.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.18)

(Gweler y canllawiau: Recordio Cyfrinachol)

## *Recordio Cyfrinachol ar gyfer Ymchwiliadau gan gynnwys Ymchwiliadau Cudd*

Mae ymchwiliadau yn ffordd bwysig o ddatgelu materion sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd[43] ond rhaid cael cyfiawnhad golygyddol drostynt.

7.4.15 Rhaid i unrhyw ymyrraeth a achosir wrth gasglu a darlledu deunydd drwy recordio cyfrinachol fod yn gymesur â'r budd i'r cyhoedd y mae'n ceisio ei sicrhau, gan ystyried y disgwyliadau teg o breifatrwydd sydd gan yr unigolion sy'n cael eu recordio. Bydd mwy o ddisgwyliadau o ran preifatrwydd mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg eraill:

- recordio cyfrinachol mewn man preifat nad yw'r cyhoedd yn cael mynediad iddo
- recordiadau cyfrinachol o driniaethau meddygol neu ofal iechyd
- recordiadau cyfrinachol o bobl y gellir eu hadnabod sy'n galaru neu o dan straen mawr neu lle maent yn agored i niwed fel arall.

7.4.16 Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys beidio â 'physgota' am ddeunydd, h.y. recordio'n gyfrinachol i chwilio am drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion, neu grwpiau adnabyddadwy, pan nad oes tystiolaeth prima facie o ymddygiad o'r fath.

7.4.17 **Rhaid i unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr ar ymchwiliad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

7.4.18 Cyn comisiynu ymchwiliad a allai amharu ar breifatrwydd pobl, mae'n arfer da gofyn am gymeradwyaeth olygyddol a chyngor cyfreithiol, ac ystyried y cwestiynau canlynol:

- beth yw'r cyfiawnhad dros arfer twyll, cudd-weithredu neu recordio cyfrinachol i gasglu rhagor o dystiolaeth?
- ai hon yw'r unig ffordd ymlaen?
- pa dystiolaeth prima facie sydd ar gael eisoes?
- beth yw cefndir a chymhelliant unrhyw ffynonellau?
- a oes unrhyw ffynonellau sy'n gyfrinachol ac a oes modd cadw eu cyfrinachedd?
- beth yw'r canlyniadau posibl?

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.4-8.4.6)

7.4.19 **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi a/neu dalu rhywun y mae'n hysbys bod ganddo gofnod troseddol neu gefndir mewn gweithgarwch anghyfreithlon i weithio ar un o ymchwiliadau'r BBC.** Mae hyn yn cynnwys aelodau golygyddol o'r tîm cynhyrchu a chudd-weithredwyr.

---

[43] Gweler Adran 1 o Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

7.4.20 **Rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol ynghylch ceisiadau am swydd gan gudd-weithredwyr sy'n gweithio ar ymchwiliadau'r BBC.** Fel arfer, ni ddylid cynnwys ond y lleiaf sydd ei hangen o wybodaeth anwir mewn cais am swydd.

7.4.21 **Rhaid ymgynghori â'r Tîm Polisi Golygyddol, Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, a Thîm Risg Uchel Diogelwch y BBC cyn ymchwilio, cysylltu neu o bosibl recordio grwpiau neu unigolion yr amheuir eu bod yn ymwneud â throsedd difrifol neu drosedd treisgar, gweithredoedd o eithafiaeth neu weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.**

(Gweler Adran 12 Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.24)

7.4.22 Yn ystod ymchwiliad, mae'n rhaid i'r dulliau a ddefnyddir, gan gynnwys unrhyw recordiad cyfrinachol, gwaith cudd neu dwyll arall gael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfiawn ac yn berthnasol.

7.4.23 Os bydd ymchwiliad yn llwyddiannus, gall cyfranogiad y BBC barhau ymhell y tu hwnt i'r darllediad gwreiddiol. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu neu'r awdurdodau erlyn yn dymuno cyfweld aelodau o dîm yr ymchwiliad, gan gynnwys cudd-weithredwyr, ynghylch eu dulliau a'u canfyddiadau. Gellir galw aelodau o'r tîm i fod yn dystion dros yr erlyniad. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyfiawnhad golygyddol a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwiliad yn gallu gwrthsefyll craffu.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.31-13.4.41)

(Gweler y canllawiau: Ymchwiliadau)

## Recordio Cyfrinachol ar gyfer Ymchwil Defnyddwyr, Gwyddonol neu Gymdeithasol

7.4.24 Gellir defnyddio recordiad cyfrinachol fel dull o gynnal ymchwil defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol er budd y cyhoedd, lle na allai unrhyw ddulliau eraill ddal yn naturiol yr agweddau neu'r ymddygiad dan sylw. Er ei bod yn bosibl, mewn achosion o'r fath, nad oes tystiolaeth yn erbyn unigolion hysbys, bydd yn bwysig bod arwydd prima facie bod yr ymddygiad yr ymchwilir iddo'n bodoli'n gyffredinol. Dylai canlyniadau'r ymchwil gael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n rhoi darlun teg a chywir o'r ymchwil. Fel arfer, dylid cael cydsyniad ôl-weithredol gan unigolion neu sefydliadau sydd i'w dangos yng nghynnwys y BBC, neu dylid celu eu hunaniaeth mewn ffordd briodol. **Rhaid i unrhyw gynnig i enwi unigolion neu sefydliadau a recordiwyd yn gyfrinachol ar gyfer ymchwil defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol heb eu cydsyniad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a fydd yn ystyried y budd i'r cyhoedd sydd yn eu henwi a rhwymedigaethau'r BBC o ran tegwch.**

(Gweler y canllawiau: Recordio Cyfrinachol)

### *Recordio Cyfrinachol ar gyfer Comedi, Adloniant a Dychan*

7.4.25 Gellir cyfiawnhau recordio deunydd yn gyfrinachol ar gyfer comedi, adloniant neu ymchwiliadau dychanol yn unig os yw'n rhan annatod o'r adloniant ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar breifatrwydd ac yn achosi annifyrrwch, trallod, cywilydd neu embaras sylweddol. Os yw pobl yn sylweddoli eu bod yn cael eu recordio'n gyfrinachol ac yn gofyn i'r recordiad ddod i ben, rhaid i wneuthurwyr cynnwys wneud hynny.

Ar gyfer deunydd sy'n ymchwil gymdeithasol mewn cyd-destun dychanol, gweler 7.4.24 uchod.

7.4.26 Ar ôl i'r deunydd gael ei gasglu, mae'n rhaid i bobl sy'n cael sylw amlwg gydsynio cyn iddo gael ei ddarlledu, neu mae'n rhaid cuddio eu hunaniaeth yn briodol. Os gallai'r recordiad achosi embaras sylweddol i unigolion adnabyddadwy eraill sydd wedi'u dal ar gamera neu ar y ffôn ond nad ydynt wedi cydsynio, rhaid cuddio eu hunaniaeth hefyd.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.44)

7.4.27 Rhaid i unrhyw un adnabyddadwy sydd wedi'i recordio'n gyfrinachol mewn galwad ffôn neu fideo at ddibenion comedi neu adloniant gydsynio cyn i'r alwad gael ei darlledu.

7.4.28 **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys pobl y gellir eu hadnabod mewn darllediad byw at ddibenion comedi, adloniant neu ddychan, yn ddiarwybod iddynt, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy unrhyw gyfrwng arall gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ar y dechrau.**

## Recordiadau Cyfrinachol gan Drydydd Partïon

7.4.29 Pan gynigir recordiadau cyfrinachol a wneir gan eraill, dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried a fyddai'r BBC, o dan amgylchiadau tebyg, wedi barnu bod cyfiawnhad dros wneud y recordiad. Os credir na fuasai cyfiawnhad dros gasglu'r deunydd, ni ddylid ei ddarlledu fel arfer.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio recordiadau cyfrinachol a wnaed gan eraill gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu. Pe na bai'r BBC wedi barnu bod cyfiawnhad dros gasglu'r deunydd o dan amgylchiadau tebyg, rhaid atgyfeirio'r cynnig i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol,** a fydd yn ystyried a yw'r budd i'r cyhoedd o'i ddarlledu yn bwysicach nag unrhyw bryderon am y ffordd y cafwyd ef.

## Gwneud Nodiadau Electronig

7.4.30 Gellir recordio sgyrsiau at ddibenion cymryd nodiadau yn electronig er mwyn sicrhau cywirdeb dyladwy wrth adrodd ar y sgyrsiau hynny. Fel arfer, dylai cynhyrchwyr cynnwys wneud hynny'n agored a chyda chydsyniad y parti arall er mwyn osgoi tarfu ar ei breifatrwydd.

Fodd bynnag, lle byddai'n wrthgynhyrchiol gofyn am ganiatâd, a bod cyfiawnhad golygyddol dros hynny, gellir recordio sgyrsiau ar sain a fideo heb gael cydsyniad na chymeradwyaeth ar gyfer recordiad cyfrinachol. Rhaid i recordiadau o'r fath fod ar gyfer nodiadau ac ymchwil, nid darlledu. Mae cyfiawnhad golygyddol yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau cywirdeb ac uniondeb, a galluogi gwneuthurwyr cynnwys i gasglu tystiolaeth i amddiffyn y BBC rhag achosion cyfreithiol neu gwynion posibl. Lle mae'n ymarferol gwneud hynny, dylid cadw cofnod a wnaed ar y pryd o'r cyfiawnhad dros wneud y recordiad.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.15)

7.4.31 Fel arfer, ni ddylid darlledu recordiadau, gan gynnwys galwadau ffôn, a wnaed yn wreiddiol at ddibenion cymryd nodiadau. **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu, heb gydsyniad, recordiadau a wnaed yn wreiddiol at ddibenion gwneud nodiadau gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd i ddarlledu deunydd a gasglwyd fel hyn.**

Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys y canlynol:

- recordiadau yw'r unig ffordd i brofi drwgweithredu sylweddol a
- bod budd sylweddol i'r cyhoedd.

## Dyfeisiau Recordio Anamlwg

### *Camerâu a Microffonau a Wisgir am y Corff sy'n cael eu defnyddio gan Drydydd Partïon, yn cynnwys Anifeiliaid*

7.4.32 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarparu camerâu a microffonau i'w gwisgo am y corff i drydydd partïon lle byddai gwneud hynny'n gallu tresmasu ar breifatrwydd unigolyn neu lle mae'r trydydd parti'n mynd i mewn i eiddo preifat heb ganiatâd gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol** a fydd yn ystyried:

- y budd sydd i'r cyhoedd o ddeunydd a gesglir fel hyn
- pa fesurau a gymerwyd i osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad
- a oes darpariaeth dechnegol ddigonol i sicrhau bod y cyfarpar recordio o dan reolaeth y BBC.

(Gweler 7.4.40)

(Gweler y canllawiau: Meicroffonau a Chamerâu a Wisgir am y Corff ('Go-Pros'))

### *Dronau*

7.4.33 **Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu deunydd drwy ddefnyddio drôn lle gallai dresmasu ar breifatrwydd gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu,** a fydd yn ystyried:

- y budd sydd i'r cyhoedd o ddeunydd a gesglir fel hyn
- ystyriaethau o ran diogelwch wrth ddefnyddio dronau
- a oes mesurau digonol ar waith i atal tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

Pan fydd unigolion y gellir eu hadnabod yn cael eu ffilmio heb gydsyniad ac y byddai hynny'n tresmasu ar breifatrwydd unigolyn, fel arfer dylid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Fel arfer, ni ddylid defnyddio dronau i adnabod unigolion heb eu cydsyniad, nac i dynnu lluniau agos o gartrefi preifat, gerddi preifat, rhannau preifat o swyddfeydd a lleoedd tebyg heb gydsyniad y perchennog, oni bai fod modd eu gweld o fan cyhoeddus neu fod budd i'r cyhoedd sy'n bwysicach nag unrhyw ddisgwyliadau teg o breifatrwydd. Dylid ystyried a oes cyfiawnhad dros gyhoeddi gwybodaeth a allai ddatgelu union leoliad cartref neu deulu person adnabyddadwy.

Mae dronau'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Hedfan Sifil ac yn destun ystyriaethau diogelwch.

(Gweler y canllawiau: Defnyddio Dronau)

### *Cyfarpar Recordio heb Neb i Ofalu Amdano*

7.4.34 **Rhaid i unrhyw gynnig i adael cyfarpar recordio heb neb i ofalu amdano ar eiddo preifat heb gydsyniad y meddiannydd neu ei asiant gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol,** a fydd yn ystyried:

- a yw'r budd i'r cyhoedd yn y deunydd a recordir yn bwysicach na'r disgwyliadau rhesymol o breifatrwydd sydd gan bawb sydd yn y recordiad
- a oes mesurau digonol ar waith i atal tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

### *Dyfeisiau Tracio*

7.4.35 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio dyfais tracio lle byddai'n tresmasu ar breifatrwydd unigolyn gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol,** a fydd yn ystyried:

- a yw'r budd i'r cyhoedd yn y data a recordir yn bwysicach na'r disgwyliadau rhesymol o breifatrwydd sydd gan bawb a gaiff eu tracio
- a oes mesurau digonol ar waith i atal tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

### *Deunydd o Ddyfeisiau Recordio Anamlwg a Ddarperir gan Drydydd Partïon*

7.4.36 Gall deunydd o'r fath gynnwys deunydd a recordiwyd gan y cyhoedd, y gwasanaethau brys neu gan grwpiau eraill sydd â chamerâu a wisgir am y corff, dronau, teledu cylch cyfyng neu we-gamerâu sefydlog, camerâu ar ddrysau tai, ffonau symudol neu ddyfeisiau personol anamlwg eraill. Pan ddefnyddir deunydd o'r fath, rhaid cael cyfiawnhad golygydd dros ei ddefnyddio, a'i labelu'n briodol. Dylid cymryd camau rhesymol i wirio deunydd o'r fath. Dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd ac unrhyw dresmasu ar breifatrwydd. Gall y deunydd godi materion cyfreithiol hefyd fel tresmasu, difenwi, dirmyg llys neu ddiogelu data.

Os oes lle i gredu bod y deunydd a gafwyd o ddyfeisiau recordio anamlwg wedi'i gael drwy recordio cyfrinachol, gweler Recordiadau Cyfrinachol gan Drydydd Partïon.

(Gweler 7.4.29 a 7.4.41)

(Gweler y canllawiau: Defnyddio Dronau; a Meicroffonau a Chamerâu a Wisgir am y Corff ('Go-Pros'))

## Ffrydio Byw

7.4.37 Mae ffrydio byw – sef darlledu deunydd fideo neu glywedol ar y Rhyngrwyd neu ar y cyfryngau cymdeithasol, wrth i ddigwyddiadau ddatblygu – yr un fath â darlledu byw. Mae'n galluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar gynnwys mewn amser real. Gellir dangos deunydd drwy ffrydio byw o leoliadau pell drwy ddyfeisiau fel gwe-gamerâu neu gamerâu ffôn symudol. Er y gall cynulleidfaoedd ddisgwyl cael eu ffilmio ar ddyfais symudol, mae'n bosibl na fyddant yn rhag-weld y bydd yr hyn a gaiff ei ffilmio yn cael ei ddarlledu'n fyw hefyd.

Dim ond lle mae cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny y dylai'r BBC ddefnyddio ffrydio byw. Dylid dod â'r ffrydio byw i ben pan fydd ei bwrpas wedi'i gyflawni.

Dylai'r BBC gadw cyfrifoldeb golygyddol am fonitro'r allbwn o ffrydio byw, heb ystyried pwy sy'n ei ddarparu neu sy'n berchen arno. Dylai lefel y monitro fod yn briodol i'r cynnwys tebygol. Fel arfer dylai cynhyrchydd fod mewn sefyllfa i allu torri'r ffrwd fyw os bydd angen gwneud hynny.

Os dangosir ffilm wedi'i recordio o ffrwd fyw, dylid ei gwneud yn glir nad yw'n fyw.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.8)

(Gweler y canllawiau: Dolenni a Ffrydiau)

### *Ffrydio Byw o Stiwdio*

7.4.38 Dylid rhybuddio gwesteion ymlaen llaw os yw eu cyfraniad yn mynd i gael ei ffrydio'n fyw o stiwdio BBC. Mae hyn yn bwysig iawn i westeion ar y radio na fyddent yn disgwyl cael eu gweld.

### *Ffrydio Byw yn Gyhoeddus*

7.4.39 Pan fydd y BBC yn darparu ffrwd fyw o fannau y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt fel arfer a lle mae'n debygol y bydd modd adnabod unigolion, er enghraifft, am fod y ffrwd fyw yn darlledu lluniau digon manwl, dylid cymryd camau rhesymol i rybuddio pobl bod y BBC yn dangos ffrwd fyw. Mewn digwyddiad byw, darllediad allanol neu eu tebyg, gellir gwneud hyn drwy osod hysbysiadau y tu allan i'r lleoliad a llinell o wybodaeth ar unrhyw bosteri neu docynnau, neu drwy gyhoeddi ar y llwyfan, bod ffrydio byw ar waith. Os yw'r ffrydio byw yn digwydd mewn man cyhoeddus, fel stryd neu barc, dylid rhoi rhybudd clir ar hysbysiad gerllaw a, pan fo'n ymarferol, gwneud cyhoeddiadau. Yn achos rhai digwyddiadau, mae'n bosibl y bydd y ffaith bod cerbydau darlledu a/neu gyfarpar darlledu i'w gweld yn ddigon i ddangos hyn.

### *Ffrydio Byw Anamlwg yn Gyhoeddus*

7.4.40 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu ffrwd fyw heb dynnu sylw pobl sy'n ymddangos ynddi at y darllediad gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol,** a fydd yn ystyried:

- pa mor gryf yw'r cyfiawnhad golygyddol dros ohebu ar y digwyddiad dan sylw
- a yw budd y cyhoedd yn cyfiawnhau ffilmio heb roi gwybod i'r rheini y gallai'r ffilmio dresmasu ar eu preifatrwydd
- y disgwyliad teg o breifatrwydd sydd gan y rheini a fyddai'n cael eu dangos
- a yw'r budd i'r cyhoedd sydd yn y digwyddiad mor fawr fel bod y budd o'i ddarlledu'n fyw yn fwy na'r risgiau posibl mewn allbwn byw, fel ystyriaethau o ran tresmasu ar breifatrwydd ac achosi niwed a thramgwydd.

### *Teledu Cylch Cyfyng, Recordiadau a Ffrydiau Byw gan Drydydd Parti*

7.4.41 Gall ystyriaethau ychwanegol godi yng nghyswllt recordiadau a ffrydiau byw a ddarperir gan eraill, fel cywirdeb, anhysbysrwydd, tramgwyddo, difenwi, dirmyg llys, tresmasu neu ddiogelu data. Mae

cynnwys o'r fath yn cwmpasu lluniau teledu cylch cyfyng, deunydd o ffrydiau byw, gwe-gamerâu a recordiadau a ddarperir gan y gwasanaethau brys (yn cynnwys galwadau 999), Tollau Tramor a Chartref, neu awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau neu unigolion.

Ym mhob achos, dylid ymchwilio i'w darddiad a dylid ystyried a yw'n gyfystyr â recordio cyfrinachol cyn gwneud penderfyniad i'w ddarlledu.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.8 Adran 16 Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.20-16.4.21 ac Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.67)

(Gweler hefyd Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.26 ac Adran 12 Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.19)

## Ymchwilwyr Preifat

7.4.42 Fel arfer, dylai gwneuthurwyr cynnwys ymgymryd â'r holl dasgau sy'n gysylltiedig â newyddiaduraeth ymchwiliol eu hunain. Gellir defnyddio ymchwilwyr preifat os ydynt yn gallu cynnig cysylltiadau neu sgiliau arbenigol neu os yw'n fwy cost-effeithiol cyflogi is-gontractwr arbenigol, er enghraifft, i gadw gwyliadwriaeth, i gadarnhau lle mae unigolyn. Rhaid cael cyfiawnhad ar sail budd y cyhoedd i'w defnyddio. **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio ymchwilydd preifat gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch a all ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol cyn mynd ymlaen.** Rhaid i'r ffigwr golygyddol uwch gofnodi'r penderfyniad a'i bwrpas. Dylai'r adran sy'n comisiynu'r gweithgaredd gadw'r cofnodion hyn am gyfnod priodol.

Mae'n bwysig bod yr holl ymchwilwyr preifat sy'n helpu mewn ymchwiliadau yn dilyn y safonau a bennwyd yn y Canllawiau Golygyddol bob amser. Cyfrifoldeb y ffigwr golygyddol uwch yw sicrhau eu bod yn gwneud hyn.

**Rhaid i unrhyw gynnig bod ymchwilydd preifat sy'n gweithredu ar ran y BBC yn torri'r Canllawiau Golygyddol neu, fel eithriad, yn torri'r gyfraith wrth gynnal ymchwiliad gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan ffigwr golygyddol uwch, a rhaid iddo yntau ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol cyn cymeradwyo. Rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni hefyd os credir bod posibilrwydd y caiff y gyfraith ei thorri.** Bydd angen dangos cyfiawnhad er budd y cyhoedd yng nghyswllt unrhyw gynnig o'r fath.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.3.1)

(Gweler y canllawiau: Defnyddio Ymchwilwyr Preifat)

## Torri’r Gyfraith

7.4.43 Efallai y bydd achlysuron pan fydd darparu sylw cywir, diduedd a theg er budd y cyhoedd o bosibl yn gwrthdaro â’r gyfraith, yn enwedig o ran y posibilrwydd o darfu ar breifatrwydd pobl. Pan fydd achosion o’r fath yn codi, dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried:

- pa effaith y gallai torri’r gyfraith ei chael ar y BBC
- pa effaith y gallai hyn ei chael ar y bobl sydd â wnelo’r mater
- ar lefel ryngwladol, yr effaith ar ohebu'r BBC ar y rhanbarth yn y dyfodol.

**Os credir y gallai rhywun sy’n gweithio i'r BBC dorri rhyw gyfraith neu’i gilydd, rhaid atgyfeirio'r mater i sylw ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu, a dylai yntau ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, a’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.3.1)

### Hacio

7.4.44 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio data sy’n deillio o hacio neu sydd wedi’i ryddhau’n fwriadol heb ganiatâd gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Pan fydd data o’r fath wedi cael ei anfon at y BBC, rhaid ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn ei ddefnyddio.**

(Gweler Adran 11 Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon: 11.4.18-21)

(Gweler y canllawiau: Ymchwil ar y Rhyngrwyd)

7.4.45 **Fel arfer, nid yw’r BBC yn hacio nac yn comisiynu gweithgareddau hacio gan drydydd partïon. Rhaid i unrhyw gynnig i wneud hynny gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Ceisio Cyfweld yn Ddirybudd

Ceisio cyfweld yn ddirybudd yw pan fydd rhywun yn dod wyneb yn wyneb â rhywun ac yn dweud wrtho ei fod yn ei recordio, neu’n ceisio recordio cyfweliad, galwad ffôn, galwad fideo, sgwrs intercom neu debyg, heb rybudd ymlaen llaw, i’w ddefnyddio yng nghynnwys y BBC. Gall olygu tresmasu ar breifatrwydd sy’n galw am gyfiawnhad er budd y cyhoedd.

Nid yw cyfweliadau dirybudd yn cynnwys cyfweliadau vox pop. Hefyd, nid oes bwriad yn y canllawiau ar gyfweld yn ddirybudd sy’n dilyn i atal casglu deunydd mewn ffordd deg ar gyfer yr agenda newyddion ddyddiol, at ddibenion ymchwil neu ar gyfer allbwn comedi neu adloniant.

7.4.46 Dylai cynigion am geisio cyfweld yn ddirybudd fod yn gymesur ac er budd y cyhoedd. Dylid ystyried diogelwch staff cynhyrchu a’r perygl o dresmasu ar breifatrwydd trydydd partïon. Ni ddylai

partneriaid, plant, aelodau eraill o'r teulu neu weithwyr gael eu cyfweld yn ddirybudd fel arfer, a dylid bod yn ofalus nad ydynt yn rhan o hynny.

## *Ceisio Cyfweld yn Ddirybudd ar ôl Cysylltu Ymlaen Llaw ar gyfer Ymchwiliadau er Budd y Cyhoedd*

7.4.47 **Rhaid i unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd, lle mae cais am gyfweliad neu ddatganiad wedi'i wneud yn flaenorol, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn cael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu.**

Ni fydd hyn yn cael ei gymeradwyo fel arfer oni bai fod budd i'r cyhoedd neu fod rôl unigolyn yn ei wneud yn atebol i'r cyhoedd ac oni bai fod un neu ragor o'r rhesymau canlynol yn berthnasol:

- mae'r sawl sy'n destun y cyfweliad dirybudd, sy'n wynebu honiadau o ddrwgweithredu, wedi methu ag ymateb yn bendant i gynigion o hawl i ymateb neu geisiadau am gyfweliad neu ddatganiad
- bod cais am gyfweliad neu ddatganiad wedi'i wrthod dro ar ôl tro heb reswm da ac un ai bod honiadau sylweddol o ddrwgweithredu wedi'u hosgoi neu fod cwestiynau i unigolyn mewn rôl sy'n atebol i'r cyhoedd wedi'u hosgoi
- bod hanes o fethu ag ymgysylltu neu ymateb yn bendant i geisiadau am gyfweliad neu ddatganiad neu o wrthod cyfweliad neu ddarparu datganiadau.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

## *Ceisio Cyfweld yn Ddirybudd Heb Gysylltu Ymlaen Llaw ar gyfer Ymchwiliadau er Budd y Cyhoedd*

*7.4.48 Rhaid i unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd, lle na ofynnwyd am gyfweliad neu ddatganiad o'r blaen, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol cyn ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu a rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad. Nid yw hyn yn berthnasol i gasglu deunydd ar gyfer yr agenda newyddion ddyddiol.*

*Y materion i'w hystyried yw:*

- bod tystiolaeth glir o droseddu neu ddrwgweithredu sylweddol, ac
- nad yw wedi bod yn bosibl gofyn am gyfweliad neu ddatganiad, neu
- fod rheswm i gredu y bydd ymchwiliad yn cael ei lesteirio neu honiadau'n cael eu hosgoi (er enghraifft, am fod gwrthrych yr ymchwiliad yn debygol o dorri cysylltiad) os cysylltir ymlaen llaw, neu
- nad oes disgwyliad rhesymol y ceir ymateb
- ei fod er mwyn dychan er budd y cyhoedd.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

### Recordiadau Cyfrinachol o Gyfweliadau Dirybudd

7.4.49 Fel arfer, ni ddylid recordio cyfweliadau dirybudd yn gyfrinachol. **Rhaid cael cytundeb y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i unrhyw gynnig i recordio cyfweliad dirybudd ag unigolyn yn gyfrinachol. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol iawn y rhoddir caniatâd i gasglu deunydd fel hyn a rhaid iddo fod er budd y cyhoedd.**

Rhaid cadw cofnod o'r broses gymeradwyo fel sy'n arferol yng nghyswllt recordio cyfrinachol.

(Gweler 7.4.11-7.4.24)

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.46)

### *Ceisio Cyfweld yn Ddirybudd ar gyfer Comedi ac Adloniant*

7.4.50 **Fel arfer, dylai unrhyw gynnig i geisio cyfweld unigolyn neu sefydliad yn ddirybudd at ddibenion comedi, adloniant neu ddychanol gael ei gymeradwyo ymlaen llaw fel arfer gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu. Dylid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol**. Fel arfer dylid cael cydsyniad pobl a gyfwelir yn ddirybudd cyn darlledu'r deunydd oni bai fod eu hunaniaeth wedi'i chelu.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.51-6.4.53)

## Dilyn Cyrchoedd

7.4.51 Wrth ddilyn cyrch, bydd cynhyrchwyr cynnwys yn mynd gyda swyddogion heddlu, tollau, mewnfudo, iechyd yr amgylchedd neu gyrff eraill i'w gwylio'n gweithio ar ran awdurdodau cyhoeddus. Dim ond pan fo budd i'r cyhoedd ac ar ôl ystyried materion golygyddol a chyfreithiol gan gynnwys preifatrwydd, cydsyniad a thresmasu y gellir cyfiawnhau dilyn cyrchoedd.

Pan fydd gwneuthurwyr cynnwys yn dilyn cyrchoedd ar eiddo preifat, dylent fel arfer:

- sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn deall bod yn recordiad ar gyfer y BBC cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny
- ffilmio dim ond y rheini sy'n darged i'r cyrch ac osgoi unrhyw drydydd partïon, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed
- osgoi ffilmio eiddo neu fannau personol amherthnasol a chanolbwyntio ar ffilmio lle mae tystiolaeth wedi'i chanfod neu'n debygol o gael ei chanfod
- rhoi'r gorau i recordio a gadael ar unwaith os bydd y perchennog, y meddiannydd cyfreithiol neu berson sy'n gweithredu o dan eu hawdurdod yn gofyn i ni wneud hynny.

Mae eithriadau, er enghraifft, pan fydd rheswm i gredu bod ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol difrifol yn cael ei ddatgelu, ac y bydd budd y cyhoedd yn cyfiawnhau parhau i recordio neu i fod yn bresennol.

Fel arfer, dylid ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni ynghylch cynigion i ddilyn cyrchoedd.

(Gweler 7.4.6)

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.38-6.4.39)

## Gohebu ar Farwolaeth, Dioddefaint a Gofid

7.4.52 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys gydbwyso’r budd i'r cyhoedd o ohebu’n llawn a chywir â’r angen i fod yn dosturiol ac osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad wrth ohebu ar ddamweiniau, trychinebau, cythrwfl, trais yn erbyn unigolion neu ryfel.

Rhaid iddynt ystyried y cyfiawnhad golygyddol dros ddangos deunydd graffig neu ymyrgar o ddioddefaint a gofid pobl. Pan fydd criwiau sy’n cyrraedd lleoliad trychineb neu argyfwng o dan bwysau sy’n ei gwneud yn anodd penderfynu a yw recordiad yn tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, byddant yn aml yn recordio cymaint o ddeunydd â phosibl. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o’r fath, rhaid cymryd gofal i asesu unrhyw oblygiadau o ran preifatrwydd cyn darlledu.

Mae’n bwysig na fydd gofynion darlledu byw a defnyddio lluniau’n gyflym, yn cynnwys y rheini o gyfryngau cymdeithasol, yn drech nag ystyriaethau am breifatrwydd y rheini sy’n dioddef neu’n profi gofid.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1-5.4.8 a 5.4.37-5.4.42 ac Adran 12 Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.9)

(Gweler y canllawiau: Ffilmio mewn Argyfyngau Meddygol)

7.4.53 Yn syth ar ôl digwyddiad yn ymwneud â marwolaeth, dioddefaint neu ofid, gellir cyfiawnhau defnyddio deunydd mwy graffig er mwyn rhoi disgrifiad rhesymol o’r arswyd a brofwyd. Dylid ystyried preifatrwydd ac urddas dioddefwyr lle bynnag y maent yn y byd. Fodd bynnag, wrth i’r stori ddatblygu, gall fod yn fwy anodd cyfiawnhau parhau i ddefnyddio deunydd o’r fath. Yn ddiweddarach, pan ystyrir y stori mewn cyd-destun hanesyddol cyfoes neu, er enghraifft, wrth nodi'r dyddiad yr oedd wedi digwydd, efallai y bydd cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio’r deunydd eto. Gellir ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol ynghylch ailddefnyddio deunydd graffig a/neu ddeunydd sy’n peri gofid.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.37-5.4.42 a 5.4.21-5.4.23 ac Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.14-13.4.16)

7.4.54 Fel arfer dylid gofyn am gyfweliadau â phobl sydd wedi’u hanafu neu sy’n galaru ar ôl damwain neu drychineb drwy gysylltu â nhw drwy eu ffrindiau, perthnasau neu gynghorwyr. Ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys:

- roi pwysau arnynt i roi cyfweliadau
- aflonyddu arnynt drwy geisio cysylltu â nhw dro ar ôl tro drwy alwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy guro ar eu drws

- aros ar eu heiddo os gofynnir iddynt adael
- eu dilyn os byddant yn symud i ffwrdd.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.7-6.4.12)

7.4.55 Mae mynegiant o alar cyhoeddus yn amrywio ar draws y byd, ynghyd â barn ynghylch a yw'n dderbyniol i ddarlledu'r golygfeydd hynny o alar. Mae'n bwysig osgoi hunan-sensoriaeth, ond mae'n rhaid ystyried disgwyliadau cynulleidfaoedd a'r rheini sy'n cael eu recordio. Mae lluniau o alar dwys yn llai tebygol o dramgwyddo neu beri gofid i'r dioddefwyr a'r perthnasau hynny a roddodd eu cydsyniad i gael eu recordio, ond byddent yn gallu digio neu gynhyrfu rhai yn y gynulleidfa. Wrth gyflwyno lluniau o ofid neu ddioddefaint enbyd, byddai geiriau i egluro amgylchiadau eu casglu yn gallu helpu i osgoi camddealltwriaeth a thramgwydd.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1-5.4.6)

7.4.56 Fel arfer, dim ond os bydd y teulu wedi cydsynio y dylid recordio angladdau preifat. Os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â cheisiadau am breifatrwydd, rhaid bod budd clir i'r cyhoedd.

## Ailedrych ar Ddigwyddiadau'r Gorffennol

7.4.57 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys ystyried a oes disgwyliad teg o breifatrwydd gan ddioddefwyr a pherthnasau sy'n parhau'n fyw pan fyddant yn ystyried edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol a oedd yn cynnwys dioddefaint a thrawma. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os oedd y digwyddiadau neu'r deunydd sydd i'w ddefnyddio yn rhai cyhoeddus ar un adeg. Dylid ystyried graddfa a lleoliad y digwyddiad gwreiddiol a'r amser sydd wedi mynd heibio ers hynny. Hyd y gellir gwneud hynny'n rhesymol, dylai dioddefwyr sy'n parhau'n fyw neu deuluoedd agos i bobl sydd wedi marw a welir yn y rhaglen gael eu hysbysu fel arfer. **Dylai penderfyniad i fwrw ymlaen ag unrhyw wrthwynebiadau rhesymol gan y rhai dan sylw gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai fod y budd i'r cyhoedd o'i ailddefnyddio yn bwysicach na'r gwrthwynebiad.

(Gweler 7.4.53)

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.14-13.4.16)

## Gwybodaeth Bersonol

7.4.58 Wrth gasglu gwybodaeth bersonol, rhaid gwneud hynny'n unol â deddfwriaeth diogelu data a pholisïau'r BBC ar ddiogelu data[44]. Wrth gasglu gwybodaeth bersonol ar gyfer gwasanaethau ar-lein gan blant o dan 13 oed, ac o dan 12 oed yn yr Alban, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn mynnu bod gwneuthurwyr cynnwys yn bod yn ofalus ac efallai y bydd angen 'cydsyniad rhieni' y mae modd ei ddilysu. Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn gofyn am yr un gofal wrth gasglu unrhyw ddata personol gan blant dan 16 oed.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.3 a 9.4.28)

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

7.4..59 Fel arfer, ni ddylai gwybodaeth bersonol am gyfranwyr a chyfranwyr posibl fod ar gael i'w gweld gan adrannau eraill y tu allan i'r maes cynhyrchu sydd wedi'i chasglu. Dylai unrhyw gynnig i wneud eithriad gael ei atgyfeirio i'r tîm Hawliau Gwybodaeth. Rhaid storio manylion cyfranwyr yn ddiogel a pheidio â'u dal yn hwy na thra bo diben dilys i hynny.

7.4.60 Fel arfer, ni ddylid rhannu manylion personol, sylwadau neu wybodaeth bersonol arall cyfranwyr sy'n oedolion â thrydydd partïon heb i'r cyfrannwr gael gwybod, oni bai fod gofynion cyfreithiol neu bryderon diogelu neu les. Lle mae hyn yn hanfodol, dylid ei atgyfeirio i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, y golygydd comisiynu, a fydd efallai eisiau dymuno ymgynghori â'r tîm Hawliau Gwybodaeth cyn mynd ymlaen. Dylid gwneud contract sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y trydydd parti'n defnyddio'r wybodaeth at y diben y cytunwyd arno rhwng y BBC a'r trydydd parti yn unig.

7.4.61 **Rhaid i unrhyw gais gan awdurdod cyhoeddus am wybodaeth bersonol cyfrannwr, neu pan fydd cynhyrchwyr cynnwys yn bwriadu rhannu'r wybodaeth honno am resymau diogelu neu les, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a rhaid iddo atgyfeirio at y tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn rhannu gwybodaeth.**

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.36-13.4.39)

---

[44] Gweler y Llawlyfr Diogelu Data: mae hwn ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol; a Pholisi Preifatrwydd a Chwcis y BBC

7.4.62 **Rhaid i unrhyw gynnig i gasglu gwybodaeth bersonol ar un o wefannau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC a allai gael ei datgelu i drydydd partïon, yn cynnwys Gwasanaethau Masnachol y BBC, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a fydd efallai eisiau ymgynghori â'r tîm Hawliau Gwybodaeth a thîm Masnachu Teg y BBC.**

7.4.63 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddatgelu gwybodaeth bersonol rhywun dan 18 oed i drydydd parti heb ei gydsyniad gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol, y tîm Diogelu a'r tîm Hawliau Gwybodaeth.** Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai:

- fod rhesymau cysylltiedig â diogelu ac amddiffyn plant dros wneud hynny neu
- fod budd i'r cyhoedd sy'n bwysicach na'r disgwyliadau o breifatrwydd neu
- fod gofyniad cyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.28)

## Defnyddio Technoleg

7.4.64 Pan fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu drwy ddefnyddio technoleg, gan gynnwys systemau awtomataidd sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial neu ddysgu peirianyddol, rhaid ei thrin yn unol â Chanllawiau Golygyddol y BBC a chyfraith diogelu data gyfredol. Gellir gofyn am gyngor gan yr adran Hawliau Gwybodaeth.

Rhaid i unrhyw ddefnydd o feddalwedd y BBC gael ei awdurdodi gan y broses rheoli asedau meddalwedd.

(Gweler Y Broses Rheoli Asedau Meddalwedd ar Gateway)

7.4.65 Wrth ddefnyddio technoleg i wella ansawdd technegol cynnwys, fel sain neu luniau, dylid ystyried unrhyw oblygiadau preifatrwydd perthnasol.

## Pobl Ar Goll

7.4.66 Weithiau bydd y BBC yn gohebu ar bobl sydd ar goll drwy ddarlledu manylion a ddarparwyd gan berthnasau, ffrindiau a'r heddlu. Fodd bynnag, dylai gwneuthurwyr cynnwys gymryd cyfrifoldeb golygyddol am gyhoeddi neu ddarlledu manylion o'r fath a bod yn ymwybodol nad yw pob person sydd ar goll yn dymuno cael ei ganfod. Os oes gwybodaeth y gall y person sydd ar goll ei hystyried yn breifat, yn destun cywilydd neu ofid, gall fod yn briodol i ni ei dal yn ôl.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.24-13.4.30)

(Gweler y canllawiau: Preifatrwydd a Phobl sydd Ar Goll)

# ADRAN 8: TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

8.1 Cyflwyniad
8.2 Egwyddorion
8.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
8.4 Canllawiau

- Gohebu ar Droseddu
- Effaith ar Ddioddefwyr
- Ail-greu
- Gohebu ar Ymchwiliadau'r Heddlu ac Ymchwiliadau Rheoleiddiol
- Gohebu o Lysoedd ac Ymdrin â Threialon
- Delio â Throseddwyr a Chyflawnwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Taliadau
- Cyfweld Carcharorion
- Pedoffilyddion a Throseddwyr Rhyw Eraill
- Nodi Pobl sy’n Ymwneud ag Ymddygiad Troseddol neu Wrthgymdeithasol
- Plant a Phobl Ifanc
- Delio â Thystion a Dioddefwyr Troseddu
- Ymchwiliadau i Droseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Deunydd o Ymchwiliadau y Rhoddwyd y Gorau iddynt sydd heb ei Ddefnyddio na’i Ddarlledu

## 8.1 CYFLWYNIAD

Mae’r BBC yn gohebu ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater sydd er budd y cyhoedd. Pwrpas cynnwys y BBC yw rhoi’r ffeithiau yn eu cyd-destun i gynulleidfaoedd ac mae’n adlewyrchu hawl ein darlledwyr i ryddid mynegiant a hawl cynulleidfaoedd i gael gwybodaeth a syniadau[45].

Bydd y BBC yn edrych ar natur troseddoldeb, ei achosion a’i ganlyniadau, a bydd hefyd yn adrodd ar yr asiantaethau sy’n ymladd yn erbyn trosedd.

Rhaid i ymchwiliadau i droseddau fod yn gymesur â lefel y drwgweithredu, a rhaid i wneuthurwyr cynnwys lynu wrth y safonau ymddygiad a nodir yn y Canllawiau Golygyddol.

Gall allbwn y BBC gynnwys cyfraniadau gan bobl sydd wedi gweithredu mewn ffordd droseddol neu wrthgymdeithasol, neu sydd wedi dod i gysylltiad â nhw. Rhaid herio cyfranwyr, ac ni ddylid

[45] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy’n ymwneud â hyn yw 3: Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth ac 8: Preifatrwydd

glamoreiddio, esgusodi nac annog ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol. Rhaid cydbwyso budd y cyhoedd[46] mewn rhoi gwybod am drosedd â pharch at breifatrwydd ac urddas dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mewn gwledydd o gwmpas y byd, mae gwahanol ddiffiniadau o drosedd. Er enghraifft, gall cyfweld â gwrthwynebwyr neu ymgyrchwyr gwleidyddol fod yn bwysig o ran darparu dealltwriaeth lawn o ddigwyddiadau.

Ni ddylai adrodd am drosedd ychwanegu'n ddiangen at ofn pobl o ddod yn ddioddefwyr trosedd os yw ystadegau'n awgrymu ei fod yn annhebygol iawn.

# 8.2 EGWYDDORION

8.2.1 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys sicrhau nad yw deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu, neu o arwain at anhrefn, yn cael ei gynnwys yn allbwn y BBC. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn gyfyngu ar ryddid mynegiant na darlledu unrhyw gynnwys lle gellir dangos budd clir i'r cyhoedd. Bydd adegau pan fydd er budd y cyhoedd i gynnwys safbwyntiau a allai gael eu hystyried yn rhai pryfoclyd neu eithafol. Ar yr achlysuron hynny, rhaid darparu digon o wybodaeth am y cyd-destun a/neu ddigon o her i'r farn honno. Mae cyd-destun yn cynnwys pwrpas golygyddol yr allbwn.

8.2.2 Fel arfer, ni ddylid cynnwys iaith casineb, iaith sarhaus neu ddifrïol neu driniaeth unigolion, grwpiau neu gymunedau ar sail, er enghraifft, hil, cred grefyddol neu gyfeiriadedd rhywiol mewn allbwn oni bai fod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny.

(Gweler 8.4.3)

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.33-5.4.35)

(Gweler y canllawiau: Iaith Hiliol)

8.2.3 Ni ddylid cynnwys disgrifiadau manwl neu arddangosiadau o dechnegau troseddol a allai annog neu alluogi ymddygiad anghyfreithlon oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny ac er budd y cyhoedd.

8.2.4 Rhaid cydbwyso budd y cyhoedd mewn rhoi gwybod am drosedd â pharch at breifatrwydd ac urddas dioddefwyr a'u teuluoedd.

8.2.5 Rhaid i ymchwiliadau i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n cynnwys twyll a/neu ymyrraeth, gael eu cyfiawnhau'n olygyddol, fod er budd y cyhoedd ac yn gymesur â'r drwgweithredu y maent yn ceisio ei ddatgelu.

---

[46] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

# 8.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

8.3.1 Rhaid peidio â chynnwys deunydd yn allbwn y BBC sy'n debygol o annog neu ysgogi pobl i droseddu, neu o arwain at anhrefn. Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i ddarlledu neu gyhoeddi cynnwys sy'n creu risg o ysgogi troseddu neu anhrefn at sylw'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.1)

8.3.2 Wrth ymchwilio i weithgarwch troseddol, mae'n bosibl y bydd gwneuthurwyr cynnwys am gofnodi trosedd penodol neu am gynllunio trosedd penodol. Lle gallai hynny godi cwestiynau ynghylch eu perthynas â'r troseddwr neu lle mae'n golygu bod yn dyst i weithgarwch troseddol, rhaid ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.4)

8.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â throseddwr sy'n gweithredu yn y DU, neu y chwilir amdano yn y DU, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.14)

8.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â charcharorion sydd wedi dianc neu eraill y mae heddlu'r DU yn chwilio amdanynt gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ac i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.17)

8.3.5 Rhaid i unrhyw gynnig i dalu ffi neu i wneud taliad mewn nwyddau i droseddwyr, cyn-droseddwyr, eu teuluoedd neu eu cyd-droseddwyr (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u troseddau, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.19)

8.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i mewn i garchar yn y DU i gynnal cyfweliad â charcharor heb ganiatâd awdurdodau'r carchar gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.21)

8.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i gyhoeddi neu ddarlledu enw neu lun pedoffilydd a gafwyd yn euog neu droseddwr rhyw arall, pan nad yw ei enw ar gael yn gyhoeddus gan yr heddlu, y llysoedd neu dribiwnlys arall, neu os yw ei euogfarn wedi darfod, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.26)

8.3.8 Dylai unrhyw gynnig i gyfweld pedoffilydd neu droseddwr rhyw arall a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, sydd yn y carchar neu sydd wedi ei ryddhau o'r carchar, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol fel arfer.

(Gweler 8.4.28)

8.3.9 Rhaid i unrhyw gynnig i ganiatáu anhysbysrwydd i rywun sy'n ceisio efadu cyfraith y DU, lle mae ymchwiliad yn mynd ymlaen, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.30)

8.3.10 Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld tyst neu dyst posibl am ei dystiolaeth unwaith y bydd achos troseddol yn mynd rhagddo, neu i'w dalu, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.33–8.4.35)

8.3.11 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi neu dalu rhywun y mae'n hysbys bod ganddo gofnod troseddol neu gefndir mewn gweithgarwch anghyfreithlon i weithio ar un o ymchwiliadau'r BBC.

(Gweler 8.4.40)

8.3.12 Rhaid i unrhyw gynnig i hysbysu'r heddlu neu awdurdodau ymchwilio am unrhyw ddrwgweithredu a ganfuwyd yn ystod ymchwiliad, oni bai ei fod yn rhan o broses hawl i ymateb neu ar ôl cyhoeddi neu ddarlledu, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.42)

8.3.13 Wrth ystyried a ddylai deunydd o ymchwiliad y rhoddwyd y gorau iddo fod ar gael i'r heddlu neu unrhyw awdurdod priodol arall, rhaid i lunwyr cynnwys ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.43)

8.3.14 Rhaid i unrhyw fwriad i ddarparu deunydd o ymchwiliad o unrhyw fath y rhoddwyd y gorau iddo i'r heddlu neu i unrhyw drydydd parti arall gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.43)

## Atgyfeiriadau Eraill

8.3.15 Rhaid i unrhyw gynnig, sydd er budd y cyhoedd, i recordio rhywun yn gwneud niwed i anifeiliaid, at ddibenion casglu tystiolaeth neu i ddangos camwedd neu ymddygiad anghyfreithlon, creulon, gwrthgymdeithasol neu ddadleuol, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 8.4.6)

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.42)

8.3.16 Rhaid ystyried yn ofalus yn ystod camau cynnar ymchwiliadau troseddol neu reoleiddiol a oes cyfiawnhad dros enwi rhywun o dan amheuaeth sy'n destun ymchwiliad cyn bod cyhuddiadau – neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt – yn cael eu gwneud. Os mai'r bwriad yw enwi unigolyn a amheuir yn yr amgylchiadau hyn, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.12)

8.3.17 Wrth ystyried a ddylid cyhoeddi gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn sy'n ymwneud â'i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy'n gysylltiedig ag achos llys, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.13 ac 8.4.31-8.4.32)

8.3.18 Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â throseddwr gweithredol, neu unigolyn y mae'r heddlu'n chwilio amdano, unrhyw le y tu allan i'r DU gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol. Mewn gwledydd o gwmpas y byd, mae gwahanol ddiffiniadau o drosedd ac ymddygiad troseddol. Mewn rhai gwledydd, er enghraifft, mae ymgyrchwyr a gwrthwynebwyr gwleidyddol yn cael eu diffinio'n droseddwyr, ond gall cyfweliadau â nhw fod yn bwysig o ran cyfleu dealltwriaeth lawn o ddigwyddiadau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, os cyflawnwyd trosedd dramor, dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol ag yn y DU.

(Gweler 8.4.17-8.4.18)

8.3.19 Rhaid i unrhyw gynnig i wneud taliadau, neu daliadau mewn nwyddau, i unrhyw un nad yw wedi cyflawni trosedd ond y mae ei ymddygiad yn amlwg yn wrthgymdeithasol, am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill am ei ymddygiad gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.20)

8.3.20 Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i mewn i garchar mewn gwlad dramor er mwyn cyfweld carcharor gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Os caiff ei gymeradwyo, dylid fel arfer hysbysu'r swyddfa ryngwladol berthnasol, ac ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.22)

8.3.21 Mae galwad fyw gan garcharor yn gofyn am gyfiawnhad golygyddol cryf ac ni ddylid ei darlledu heb ei hatgyfeirio at ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, at y golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.23)

8.3.22 Rhaid i unrhyw gynnig i ofyn i garcharor wneud cyfraniad at ddibenion darlledu neu i ddarlledu cyfraniad nas gofynnwyd amdano gan garcharor gael ei atgyfeirio at ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.23)

8.3.23 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.38)

8.3.24 Rhaid i unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr mewn ymchwiliad i droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ac i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.39)

8.3.25 Lle gallai ymchwiliadau i weithgarwch troseddol dresmasu ar breifatrwydd, gellir dod o hyd i'r atgyfeiriadau gorfodol perthnasol yn yr adran ar Breifatrwydd. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- cysylltu â phobl neu grwpiau yr amheuir eu bod yn cyflawni trais eithafol at ddibenion gwleidyddol neu ideolegol, trais neu weithredoedd troseddol difrifol, neu gynnig cadw golwg gudd ar bobl neu grwpiau o’r fath, neu eu recordio
- unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr
- ceisiadau am swyddi gan gudd-weithredwyr sy’n gweithio ar ymchwiliadau’r BBC.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.20-7.4.21)

8.3.26 Dylid atgyfeirio penderfyniad i fynd ati i ail-greu neu ddramodi digwyddiadau yn y gorffennol sy’n ymwneud ag ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol, pan fo gwrthwynebiadau rhesymol gan y rhai dan sylw, i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.7)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.57)

# 8.4 CANLLAWIAU

## Gohebu ar Droseddu

### Deunydd sy’n Debygol o Gymell neu Ysgogi Troseddu

8.4.1 **Rhaid peidio â chynnwys deunydd yn allbwn y BBC sy’n debygol o annog neu ysgogi pobl i droseddu, neu o arwain at anhrefn. Rhaid atgyfeirio unrhyw gynnig i ddarlledu neu gyhoeddi cynnwys sy’n creu risg o ysgogi troseddu neu anhrefn i sylw’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

Gall hyn olygu:

- cynnwys sydd, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, gyfystyr â galwad i weithredu’n droseddol neu anhrefn
- cynnwys sy’n hybu neu'n annog cymryd rhan mewn gweithredoedd terfysgol neu fathau eraill o weithgaredd troseddol neu anhrefn
- casineb ar lafar, sy'n debygol o annog gweithgarwch troseddol neu arwain at anhrefn.

Bydd adegau pan fydd er budd y cyhoedd[47] i gynnwys safbwyntiau a allai gael eu hystyried yn rhai pryfoclyd neu eithafol, yn enwedig mewn allbwn newyddion, materion cyfoes a ffeithiol arall. Wrth ystyried a yw allbwn o’r fath yn ‘debygol’ o gymell neu ysgogi troseddu neu anhrefn, mae’r ffactorau perthnasol yn cynnwys:

---

[47] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

- a yw'r allbwn yn cynnwys galwadau uniongyrchol neu anuniongyrchol i weithredu
- a oes cyd-destun a/neu her ddigonol i'r safbwyntiau hynny
- pwrpas golygyddol yr allbwn

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.1)

- natur yr ymddygiad sy'n cael ei ysgogi a pha mor ddifrifol ydyw
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn yr allbwn
- a yw'r allbwn wedi'i amserlennu i'w ddarlledu cyn y trothwy neu pan fydd plant a phobl ifanc yn debygol o fod yn y gynulleidfa
- a oes ystyriaethau pwysig o ran rhyddid barn sy'n cyfiawnhau'r darlledu.

8.4.2 Mewn achosion lle mae'r posibilrwydd o dor-cyfraith neu anufudd-dod sifil yn rhan o stori newyddion gyfredol neu ddadl ar bolisi cyhoeddus, rhaid i olygyddion ystyried eu cyfrifoldeb i adlewyrchu'r ddadl neu'r digwyddiadau'n llawn ac yn gywir a'u rhwymedigaeth i beidio â darlledu deunydd sy'n debygol o gymell neu ysgogi troseddu. Bydd y cyd-destun ac eglurhad yn hollbwysig.

Fel arfer ni fydd recordio a darlledu gweithgarwch troseddol yn gyfystyr â chymell neu ysgogi, oni bai ei fod yn datgelu manylion y gellir eu hefelychu. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau na fydd gweithredoedd troseddol yn cael eu hesgusodi neu eu glamoreiddio.

Dylid herio galwadau uniongyrchol ar gynulleidfaoedd i gyflawni gweithredoedd troseddol, neu bryfocio i'r diben hwnnw.

Ni ddylai gweithgareddau anghyfreithlon, megis defnyddio cyffuriau, gael eu portreadu fel rhai di-broblem neu ddeniadol. Gall fod yn briodol adlewyrchu canlyniadau negyddol gweithgareddau o'r fath, ar ben y ffaith eu bod yn anghyfreithlon.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.52-5.4.56)

## Iaith casineb

8.4.3 Ni ddylid defnyddio deunydd sy'n cynnwys iaith casineb yn yr allbwn oni bai fod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Gall darlledu iaith casineb fod yn drosedd os oes bwriad neu debygolrwydd y bydd yn ysgogi casineb sy'n gysylltiedig â hil, neu os yw'n debygol o ysgogi casineb sy'n ymwneud â chred grefyddol neu ddiffyg cred grefyddol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol.

Mae mwy o gyngor ar gael gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n wahanol yn yr Alban ac mae cyngor ar gael gan y Cyfarwyddwr Cyfreithiol, yr Alban.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.16 ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.43)

## Bod yn Dyst i Weithgarwch Anghyfreithlon a'i Ddisgrifio

8.4.4 **Wrth ymchwilio i weithgarwch troseddol, mae'n bosibl y bydd gwneuthurwyr cynnwys am gofnodi trosedd penodol neu gynllunio trosedd penodol. Lle gallai hynny godi cwestiynau ynghylch eu perthynas â'r troseddwr neu lle mae'n golygu bod yn dyst i weithgarwch troseddol, rhaid ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

Dim ond os yw'n amlwg ei fod er budd y cyhoedd y rhoddir cymeradwyaeth i fod yn bresennol neu i gofnodi gweithgaredd anghyfreithlon[48]. Hyd yn oed wedyn, rhaid osgoi gwneud y canlynol:

- glamoreiddio neu esgusodi ymddygiad troseddol
- cymell neu ysgogi ymddygiad na fyddai wedi digwydd fel arall
- cyfarwyddo'r gweithgarwch mewn unrhyw ffordd.

Gellir erlyn unrhyw un sy'n cyfaddef i weithred anghyfreithlon neu sy'n cyflawni gweithred o'r fath. Gall yr heddlu ofyn am nodiadau ymchwil, dyddiaduron, negeseuon e-bost, negeseuon testun, negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw waith papur arall sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad, yn ogystal â bryslunian na chawsant eu darlledu, gan ddefnyddio gorchymyn llys. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid datgelu'r deunydd hwn fel tystiolaeth i lys, tribiwnlys neu gwêst. Dylid sicrhau bod enwau unrhyw ffynonellau cyfrinachol yn cael eu diogelu, a'u bod yn cael eu rhannu â phobl sydd angen gwybod yn unig. Rhaid bod modd golygu unrhyw fanylion adnabod mewn nodiadau a allai ddod yn destun gorchymyn llys.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.31-6.4.36 ac Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.31-13.4.41)

8.4.5 Fel arfer, ni ddylai technegau troseddol gael eu dangos na'u disgrifio'n fanwl oherwydd y risg o'u hefelychu. Lle mae cyfiawnhad golygyddol dros ddangos y cynnwys hwn, dylid osgoi datgelu gwybodaeth a allai alluogi gweithgarwch anghyfreithlon, neu'r ffyrdd y gellir ei wneud yn fwy effeithiol.

8.4.6 **Rhaid i unrhyw gynnig, sydd er budd y cyhoedd, i recordio rhywun yn gwneud niwed i anifeiliaid, at ddibenion casglu tystiolaeth neu i ddangos camwedd neu ymddygiad anghyfreithlon, creulon, gwrthgymdeithasol neu ddadleuol, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.**

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.42)

[48] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

## Effaith ar Ddioddefwyr

8.4.7 Gall cyfweld unigolion sy'n gyfrifol am droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ail-greu neu ddramateiddio digwyddiadau yn y gorffennol, achosi gofid i ddioddefwyr a'u perthnasau. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid cysylltu â dioddefwyr sydd wedi goroesi, neu berthnasau agos yr ymadawedig, i roi gwybod iddynt am y cynnig. Os oes angen defnyddio canolwr, fel yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, mater i'r gwneuthurwyr cynnwys o hyd yw sicrhau bod y dioddefwyr neu berthnasau agos wedi cael gwybod a bod ganddynt y manylion angenrheidiol i gysylltu â'r BBC. **Dylai penderfyniad i fwrw ymlaen ag unrhyw wrthwynebiadau rhesymol gan y rhai dan sylw gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

**Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai fod y budd i'r cyhoedd o'i ailddefnyddio yn bwysicach na'r gwrthwynebiad.**

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.57)

8.4.8 Gall adrodd y ffeithiau am droseddwyr gynnwys rhoi manylion am eu hamgylchiadau teuluol, ond dylai gwneuthurwyr cynnwys osgoi achosi gofid diangen i'r teuluoedd hyn. Ni ddylent awgrymu eu bod yn euog trwy gysylltiad, heb dystiolaeth.

8.4.9 Wrth adrodd ar droseddau hanesyddol, dylid ystyried y posibilrwydd y gallai rhai o'r unigolion dan sylw – troseddwyr, rhai dan amheuaeth, tystion, perthnasau neu ddioddefwyr – fod wedi newid eu henwau neu eu cyfeiriadau er mwyn ailsefydlu eu bywydau. Os felly, dylid ystyried yn ofalus iawn i ba raddau y cânt eu henwi neu y datgelir eu lleoliad newydd, yn ogystal â'r effaith debygol arnynt o adrodd am drosedd hanesyddol.

8.4.10 Dylid ystyried yr effaith y gallai rhoi gwybod am drosedd ei chael ar gynulleidfaoedd. Dylid cymryd gofal i beidio ag ychwanegu at ofnau pobl o ddod yn ddioddefwyr trosedd os yw hyn yn annhebygol iawn yn ystadegol.

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar Ystadegau)

## Ail-greu

8.4.11 Gall allbwn gynnwys ail-greu troseddau y dylid ei wneud yn glir drwy labelu neu drwy ddefnyddio technegau cynhyrchu eraill. Ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys newyddion gomisiynu ail-greu troseddau

fel arfer, ac eithrio i'w defnyddio ar ddiwedd treial neu ar gyfer adrodd am achosion hanesyddol. Nid yw dychwelyd i leoliad trosedd a/neu gyfweld dioddefwr neu dyst gyfystyr ag ymarferiad ail-greu trosedd.

(Gweler Adran Cywirdeb: 3.4.30)

## Gohebu ar Ymchwiliadau'r Heddlu ac Ymchwiliadau Rheoleiddiol

8.4.12 **Rhaid ystyried yn ofalus yn ystod camau cynnar ymchwiliadau troseddol neu reoleiddiol a oes cyfiawnhad dros enwi rhywun o dan amheuaeth sy'n destun ymchwiliad cyn bod cyhuddiadau – neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt – yn cael eu gwneud. Os mai'r bwriad yw enwi unigolyn a amheuir yn yr amgylchiadau hyn, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol.**

## Gohebu o Lysoedd ac Ymdrin â Threialon

8.4.13 Gall cyfyngiadau adrodd sy'n berthnasol i achosion rhagarweiniol mewn llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron fod yn wahanol ledled y DU. Yng Nghymru a Lloegr, fel arfer dim ond manylion sylfaenol y gellir eu gohebu. Dylid gofyn am gyngor ar wahân ar gyfer gohebu ar achosion rhagarweiniol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gyfer yr Alban, mae cyngor ar gael gan Gyfarwyddwr Cyfreithiol yr Alban; yng Ngogledd Iwerddon dylid gofyn am gyngor gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Yn yr Alban, gall yr holl achosion llys, yn ogystal ag achosion rhagarweiniol, fod yn wahanol i weddill y DU. Eto, mae cyngor ar gael gan Gyfarwyddwr Cyfreithiol yr Alban.

Mae cyfyngiadau adrodd yn berthnasol i achosion mewn Llysoedd Ieuenctid er mwyn diogelu hunaniaeth unrhyw un dan 18 oed. Rhaid peidio ag enwi unrhyw blentyn sy'n destun achos parhaus mewn achosion cyfraith teulu (sy'n cynnwys, er enghraifft, achosion gofal). Gall llysoedd wneud gorchmynion hefyd i gyfyngu ar yr hyn y gellir adrodd yn ei gylch mewn achosion penodol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus i osgoi dweud pwy yw'r dioddefwyr mewn erlyniadau am gam-drin rhywiol o fewn y teulu.

**Wrth ystyried a ddylid cyhoeddi gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn sy'n ymwneud â'i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy'n gysylltiedig ag achos llys, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22 ac Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.3)

Rhaid i adroddiadau am achosion llys fod yn deg ac yn gywir. Gall annhegwch ddigwydd os bydd gwneuthurwyr cynnwys yn methu ag adrodd am yr erlyniad a'r amddiffyniad. Ar ôl dechrau gohebu ar achosion llys, rhaid rhoi gwybod am y dyfarniad. Os yw gwneuthurwyr cynnwys yn dymuno rhoi sylw i

dreial yn fyw ar gyfryngau cymdeithasol, rhaid iddynt roi sylw cyson i achosion yr erlyniad a'r amddiffyniad neu ymdrin â'r dyfarniad yn unig. Mae cyngor ar gael gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.3)

## Delio â Throseddwyr a Chyflawnwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

### Cyfweliadau

8.4.14 **Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â throseddwr sy'n gweithredu yn y DU, neu y chwilir amdano yn y DU, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Ni ddylid mynd ymlaen â chyfweliadau oni bai fod cyfiawnhad golygyddol drostynt, er enghraifft, i gael dealltwriaeth neu wybodaeth bwysig.

8.4.15 Wrth gyfweld troseddwyr, rhaid cymryd gofal i leihau gymaint â phosibl ar y gofid y gall hyn ei achosi i ddioddefwyr y trosedd neu eu perthnasau.

(Gweler 8.4.7-8.4.9)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.57)

8.4.16 Rhaid i gyfweliadau â throseddwyr gweithredol neu sydd wedi'u cael yn euog fod yn briodol heriol a rhaid peidio â glamoreiddio drwgweithredu, dathlu diystyru'r broses farnwrol na datgelu manylion a fyddai'n rhoi'r gallu i efelychu trosedd.

(Gweler 8.4.4-8.4.6)

8.4.17 Gall cysylltu â charcharorion sydd wedi dianc neu bobl y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt fod yn drosedd. **Rhaid i unrhyw gynnig i gysylltu neu gyfweld â phobl o'r fath gael ei atgyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

8.4.18 **Mewn gwledydd o gwmpas y byd, mae gwahanol ddiffiniadau o drosedd ac ymddygiad troseddol. Mewn rhai gwledydd, er enghraifft, mae ymgyrchwyr a gwrthwynebwyr gwleidyddol yn cael eu diffinio'n droseddwyr, ond gall cyfweliadau â nhw fod yn bwysig o ran cyfleu dealltwriaeth lawn o ddigwyddiadau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, os cyflawnwyd trosedd dramor, dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol ag yn y DU. Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â throseddwr gweithredol, neu unigolyn y mae'r heddlu'n chwilio amdano, unrhyw le y tu allan i'r DU gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.**

## Taliadau

8.4.19 Nid yw'r BBC fel arfer yn gwneud taliadau, yn addo gwneud taliadau, na thaliadau mewn nwyddau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (fel drwy ganolwyr neu gyfryngwyr), i droseddwyr, neu i gyn-droseddwyr, sy'n siarad am eu troseddau. Yn gyffredinol, dylid cymhwyso'r un egwyddor at deuluoedd neu berthnasau i droseddwyr neu gyn-droseddwyr. Pwrpas hyn yw diogelu enw da'r BBC a hygrededd ffynonellau a'r bobl sy'n cael eu cyfweld, yn ogystal â pharchu teimladau dioddefwyr troseddau.

**Rhaid i unrhyw gynnig i dalu ffi i droseddwyr, cyn-droseddwyr, eu teuluoedd neu eu cyd-droseddwyr (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u troseddau, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Ni ddylid talu ffi oni bai fod budd clir i'r cyhoedd yn y cyfraniad[49] ac na fyddai modd ei gael fel arall.

Fodd bynnag, gall fod yn briodol gwneud ad-daliad am wariant neu enillion a gollwyd wrth wneud cyfraniad.

Nid yw'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i atal adsefydlu troseddwyr, nac atal taliadau i bobl ag euogfarn droseddol nad yw eu cyfraniad yn ymwneud â'u trosedd.

8.4.20 Yn achos pobl nad ydynt wedi cyflawni trosedd ond bod eu hymddygiad yn amlwg yn wrthgymdeithasol, rhaid peidio â thalu ffi iddynt neu daliad mewn nwyddau fel arfer am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill am eu hymddygiad. **Rhaid i unrhyw gynnig i wneud taliadau o'r fath, yn cynnwys taliadau mewn nwyddau, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.**

## Cyfweld Carcharorion

8.4.21 Cyn ymweld â charchar yn y DU a chynnal cyfweliad â charcharor i'w ddarlledu, dylai gwneuthurwyr cynnwys ofyn am ganiatâd fel arfer gan awdurdodau carchardai'r DU. **Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i mewn i garchar yn y DU er mwyn cyfweld carcharor heb ganiatâd gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

8.4.22 Cyn ymweld â charchar mewn gwlad dramor a chynnal cyfweliad â charcharor i'w ddarlledu, dylai gwneuthurwyr cynnwys ofyn am ganiatâd fel arfer gan awdurdodau'r carchardai.

**Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i mewn i garchar mewn gwlad dramor er mwyn cyfweld carcharor gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Os caiff ei gymeradwyo, dylid fel arfer hysbysu'r swyddfa ryngwladol berthnasol, ac ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

8.4.23 Mae'n bosibl y bydd hawl gan garcharorion i ddefnyddio ffonau cyhoeddus a ffonau symudol, er y gall rheolau'r carchar gyfyngu ar y defnydd ohonynt. **Rhaid i'r canlynol gael eu hatgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol:**

[49] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

- **mae galwadau byw gan garcharorion angen cyfiawnhad golygyddol cryf ac ni ddylid eu darlledu heb eu hatgyfeirio ymlaen llaw**
- **unrhyw gynnig i ofyn i garcharor wneud cyfraniad at ddibenion darlledu o'r carchar**
- **unrhyw gynnig i ddarlledu cyfraniad digymell gan garcharor na chafodd ei atgyfeirio cyn iddo gael ei recordio.**

8.4.24 Yn achos carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, yn enwedig troseddau treisgar, rhaid i wneuthurwyr cynnwys ystyried sut y gallant achosi cyn lleied â phosibl o ofid i'r dioddefwr neu i deulu'r dioddefwr.

(Gweler 8.4.7-8.4.9)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.54)

## Pedoffilyddion a Throseddwyr Rhyw Eraill

8.4.25 Pan fydd pedoffilyddion a throseddwyr rhyw eraill wedi cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned, efallai y bydd gan bobl leol deimladau penodol ynghylch hyn. Dim ond lle mae budd i'r cyhoedd[50] y dylai gwneuthurwyr cynnwys adrodd ar faterion o'r fath, ac osgoi'r canlyniadau posibl canlynol:

- ysgogi neu hwyluso gweithredu gan vigilantes
- camadnabod
- cymell y troseddwr i fynd o'r golwg fel nad yw'n cael ei oruchwylio a lle mae'n fwy tebygol o lawer o aildroseddu
- effaith negyddol ar y dioddefwyr a'u teuluoedd, neu ar deulu'r troseddwr
- tresmasu ar breifatrwydd y troseddwr heb gyfiawnhad.

8.4.26 Fel arfer, dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y bydd y BBC yn ystyried darlledu enwau neu luniau o bedoffilyddion neu droseddwyr rhyw sydd wedi cwblhau eu dedfrydau ac wedi'u rhyddhau o'r carchar. Nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cyhoeddi gan gyfryngau eraill yn gyfiawnhad digonol ar ei ben ei hun.

**Rhaid i unrhyw gynnig i gyhoeddi neu ddarlledu enw neu lun pedoffilydd a gafwyd yn euog neu droseddwr rhyw arall, pan nad yw ei enw ar gael yn gyhoeddus gan yr heddlu, y llysoedd neu dribiwnlys arall, neu os yw ei euogfarn wedi darfod, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

---

[50] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

8.4.27 Wrth ohebu ar bedoffilyddion a throseddwyr rhyw eraill neu wrth ddatgelu troseddwyr posibl, bydd yn rhesymol fel arfer enwi'r dref neu'r ddinas lle maent yn byw. Fodd bynnag, yn gyffredinol dylid osgoi gwybodaeth a allai ddatgelu eu hunion leoliad. Dylid ymgynghori â'r heddlu perthnasol os yw darlledwyr yn bwriadu datgelu lleoliad troseddwyr neu ddangos lluniau ohonynt. Mae hyn er mwyn galluogi'r heddlu i fynd i'r afael â materion posibl mewn perthynas â'r dioddefwr, teulu'r dioddefwr, y troseddwr a theulu'r troseddwr.

8.4.28 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol cryf dros gyfweld pedoffilyddion neu droseddwyr rhyw eraill. Dylid cymryd gofal i leihau gymaint â phosibl ar y gofid posibl y gallai cyfweliad ei achosi i ddioddefwyr neu i deuluoedd dioddefwyr. **Dylai unrhyw gynnig i gyfweld pedoffilydd neu droseddwr rhyw arall a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, sydd yn y carchar neu sydd wedi ei ryddhau o'r carchar, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol fel arfer.**

(Gweler 8.3.8)

## Nodi Pobl sy'n Ymwneud ag Ymddygiad Troseddol neu Wrthgymdeithasol

8.4.29 Pan fydd rhywun sy'n ymddwyn yn droseddol neu'n wrthgymdeithasol yn cael ei gynnwys yn allbwn y BBC, bydd y BBC fel arfer yn datgelu pwy ydyw. Er hynny, gellir cael amgylchiadau pan fydd yn dderbyniol celu hunaniaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhesymau cyfreithiol, fel y posibilrwydd o ddirmyg llys neu ddifenwi
- diogelu ffynhonnell neu ffynonellau
- rhesymau diogelwch, yn y DU neu mewn gwledydd tramor
- sefyllfa lle byddai'r canlyniadau i gyhoeddi pwy ydyw yn anghymesur â'r drwgweithredu
- lle mae arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol yn cael eu hamlygu ond bod yr unigolion dan sylw yn enghraifft o'r ymddygiad yn unig, er enghraifft wrth ffilmio'n gyfrinachol ar gyfer ymchwil defnyddwyr neu gymdeithasol
- lle mae arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol yn cael eu hamlygu ond nad yw'r unigolion dan sylw yn ddigon beius nac yn gyfrifol am eu gweithredoedd
- lle mae arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol gan blant a phobl ifanc yn cael eu datgelu
- lle mae'n amlwg bod y cyfraniad er budd y cyhoedd o ran y mewnwelediad y mae'n ei roi a lle na ellid ei gael heb gelu hunaniaeth y cyfrannwr
- lle mae'r cynnwys yn cael ei ailddefnyddio a'r ffaith bod amser wedi mynd heibio yn golygu y byddai'n anghymesur ei enwi eto.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.31-6.4.36; ac Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22)

(Gweler y canllawiau: Ailddefnyddio Cynnwys Ffeithiol sy'n Dangos Ymddygiad Anghyfreithlon neu Wrthgymdeithasol)

8.4.30 **Rhaid i unrhyw gynnig i ganiatáu anhysbysrwydd i rywun sy’n ceisio efadu cyfraith y DU, lle mae ymchwiliad yn mynd ymlaen, gael ei atgyfeirio i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Plant a Phobl Ifanc

8.4.31 Bydd angen cyfiawnhad golygyddol cryf dros ddarlledu deunydd sy’n ymwneud â hunaniaeth unrhyw un o dan 18 oed sy’n gysylltiedig fel diffynnydd dichonol mewn achos llys cyn dechrau’r achos. Mae’n bosibl hefyd y bydd cyfyngiadau cyfreithiol wedi i’r achos ddechrau. Lle mae achos llys wedi dechrau, rhaid ymgynghori â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

8.4.32 Wrth ystyried a ddylid enwi pobl ifanc dan 18 oed sy’n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, dylid cydbwyso canlyniadau eu henwi, datgelu eu hoedran, a difrifoldeb eu hymddygiad a’r budd i’r cyhoedd[51] o’u henwi a hawl y BBC i ryddid mynegiant. Fodd bynnag, ni ddylai pobl ifanc dan 18 oed gael eu henwi fel arfer wrth ddangos ymddygiad o’r fath – dim ond er mwyn dangos enghraifft o arfer.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22)

**Wrth ystyried a ddylid cyhoeddi gwybodaeth sy’n debygol o ddatgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc sy’n destun gorchymyn sy’n ymwneud â’i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy’n gysylltiedig ag achos llys, rhaid ymgynghori â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a’r tîm Polisi Golygyddol.**

Gall y sefyllfa o ran adrodd am achosion llys fod yn wahanol yn yr Alban, ac mae cyngor ar gael gan Gyfarwyddwr Cyfreithiol yr Alban.

## Delio â Thystion a Dioddefwyr Troseddu

### Cyfweliadau

[51] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

8.4.33 **Rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld tyst neu dyst posibl am ei dystiolaeth unwaith y bydd achos troseddol yn mynd rhagddo gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

Rhaid i gyfweliadau â thystion, yn y DU a thramor, beidio ag ymyrryd yn y broses gyfreithiol. Wrth gynnal cyfweliadau newyddion â phobl sydd wedi bod yn dyst i drosedd yn ddiweddar, dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddirmyg llys os yw achos llys wedi dechrau neu ar fin dechrau. Drwy gyfweld tystion, gellid ystyried bod gwneuthurwyr cynnwys yn eu hyfforddi cyn iddynt ymddangos yn y llys. Mae risg y byddant yn rhoi gwybodaeth newydd i dystion, ac y gallai'r llys orchymyn i'r BBC drosglwyddo unrhyw ddeunydd y mae wedi'i gasglu. Mae tystion yn cynnwys diffynyddion a dioddefwyr.

Pan fydd achos yn mynd rhagddo, a hyd nes y ceir dyfarniad, dylid bod yn ofalus wrth gyfweld tystion er mwyn osgoi'r cyhuddiad y gallent fod wedi cael eu hyfforddi, neu yr ymyrrir â'u tystiolaeth.

## Taliadau

8.4.34 Rhaid peidio â thalu neu addo talu am stori tystion, neu unrhyw un y mae'n rhesymol disgwyl iddo gael ei alw'n dyst yn ystod achos troseddol sydd wedi dechrau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er enghraifft, drwy drefnwyr neu ganolwyr. Ni ddylid gwneud nac awgrymu gwneud unrhyw daliad yn ddibynnol ar ganlyniad y treial. Dim ond am wariant gwirioneddol neu am enillion a gollwyd wrth raid wrth wneud cyfraniad y gellir rhoi ad-daliad.

8.4.35 Ni ddylai pobl y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn dystion lle mae achos troseddol yn debygol ac yn rhagweladwy gael eu talu am eu stori oni bai fod budd amlwg i'r cyhoedd[52], megis ymchwilio i drosedd neu ddrwgweithredu difrifol. Lle gwneir taliad o'r fath, bydd yn briodol datgelu'r taliad i'r amddiffyniad a'r erlyniad os bydd y person yn dyst mewn unrhyw dreial sy'n dilyn.

**Rhaid i unrhyw gynnig i dalu tyst neu dyst posibl pan fydd achos troseddol yn mynd rhagddo gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

## Celu Hunaniaeth Tystion a Dioddefwyr Troseddu

8.4.36 Gellir bod rhesymau cyfreithiol dros beidio â rhoi gwybod pwy yw pobl sy'n rhan o dreial. Os oes angen diogelu hunaniaeth dioddefwyr troseddau a thystion, mae anhysbysrwydd fel arfer yn golygu peidio â datgelu eu henwau nac eu cyfeiriadau, a pheidio â defnyddio llun neu glip sain nac unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy ydynt.

Dylid cymryd gofal i beidio â datgelu pwy yw unigolion yn anuniongyrchol drwy'r hyn a elwir yn 'effaith jig-so'. Bydd hyn yn digwydd pan fydd adroddiadau ar wahân, a allai fod mewn gwahanol gyfryngau, yn rhoi gwahanol fanylion am achos a fyddai, o'u rhoi at ei gilydd, yn gallu dangos hunaniaeth y person sy'n gysylltiedig. Bydd y perygl hwn ar ei fwyaf wrth ohebu ar droseddu rhywiol o fewn teulu. Er enghraifft,

---

[52] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

dylai gwneuthurwyr cynnwys gymryd gofal i beidio â chyfeirio at losgach lle byddai rhywun yn gallu cael ei enwi'n ddioddefwr. Mewn achosion o'r fath, dylid galw llosgach yn 'drosedd rhywiol difrifol'.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.31-6.4.36 ac Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.2)

### Plant a Phobl Ifanc sy'n Ddioddefwyr neu'n Dystion i Droseddu

8.4.37 Dylid cymryd gofal wrth ddelio ag unrhyw un o dan 18 oed sy'n gysylltiedig fel tyst neu ddioddefwr, wrth ohebu ar ymchwiliad i drosedd honedig yn y DU. Dylid gwneud dyfarniadau ynghylch pa mor agored ydynt i niwed cyn datgelu eu henw, cyfeiriad, ysgol neu sefydliad addysgol arall, sut y cânt eu hadnabod ar gyfryngau cymdeithasol, yn y gweithle, neu unrhyw sain neu ddelwedd y gellir ei ddefnyddio i'w hadnabod.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22)

Os bydd achos troseddol yn dilyn, mae'n debygol y bydd cyfyngiadau cyfreithiol ar gyhoeddi gwybodaeth sy'n arwain at adnabod rhywun o dan 18 oed sy'n dyst neu'n ddioddefwr. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Mae ystyriaethau cyfreithiol ar wahân yn yr Alban. Mae cyngor ar gael gan y Cyfarwyddwr Cyfreithiol, yr Alban.

## Ymchwiliadau i Droseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

8.4.38 Mae ymchwiliadau yn ffordd bwysig o ddatgelu materion sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd[53], ond rhaid cael cyfiawnhad golygyddol drostynt.

**Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

8.4.39 **Rhaid i unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr mewn ymchwiliad i droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ac i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

[53] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol: 1.3 Budd y Cyhoedd

Mae cyngor manwl am ymchwiliadau cudd, recordio cyfrinachol a phwyso a mesur ystyriaethau preifatrwydd a budd y cyhoedd ar gael yn yr adran ar Breifatrwydd.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.17)

(Gweler y canllawiau: Ymchwiliadau)

8.4.40 **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi neu dalu rhywun y mae'n hysbys bod ganddo gofnod troseddol neu gefndir mewn gweithgarwch anghyfreithlon i weithio ar un o ymchwiliadau'r BBC.** Mae hyn yn cynnwys aelodau golygyddol o'r tîm cynhyrchu a chudd-weithredwyr.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.19)

8.4.41 Ar gyfer unrhyw ymchwiliad, gall cyfranogiad y BBC barhau ymhell y tu hwnt i'r gwaith casglu cynnwys gwreiddiol. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu neu'r awdurdodau erlyn yn dymuno cyfweld aelodau o dîm yr ymchwiliad, gan gynnwys cudd-weithredwyr, ynghylch dulliau a chanfyddiadau. Gellir galw aelodau o'r tîm i fod yn dystion dros yr erlyniad. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyfiawnhad golygyddol a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwiliad yn gallu gwrthsefyll craffu.

Ar gyfer ceisiadau am ddeunydd y BBC mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol posibl, gan yr heddlu neu unrhyw awdurdod arall, gweler Adran 13.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.32 ac 13.4.41)

Ar gyfer pob cais allanol arall am gynnwys y BBC sydd wedi'i ddarlledu neu heb ei ddarlledu, gweler Adran 13.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.32-13.4.41)

8.4.42 Nid yw'r BBC fel arfer yn hysbysu'r heddlu nac awdurdodau ymchwilio am unrhyw ddrwgweithredu a ganfuwyd yn ystod ymchwiliad, oni bai ei fod yn rhan o broses hawl i ymateb neu ar ôl cyhoeddi neu ddarlledu. **Rhaid i unrhyw gynnig i wneud fel arall gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Deunydd o Ymchwiliadau y Rhoddwyd y Gorau iddynt sydd heb ei Ddefnyddio na'i Ddarlledu

8.4.43 Weithiau bydd amgylchiadau'n codi lle mae honiadau neu dystiolaeth o ymddygiad anghyfreithlon yn cael eu darganfod yn ystod ymchwiliad sydd ddim yn cael eu darlledu. Ni ddylid byth darparu mynediad at ddeunydd nas defnyddiwyd os yw'n cynnwys gwybodaeth a allai nodi ffynhonnell gyfrinachol.

**Fel arfer, dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried a ddylid trefnu i ddeunydd sy'n awgrymu ymddygiad anghyfreithiol fod ar gael i'r heddlu neu unrhyw awdurdod priodol arall, a rhaid holi'r tîm Polisi a Safonau Golygyddol.**

**Rhaid i unrhyw fwriad i ddarparu deunydd o unrhyw fath i'r heddlu neu i unrhyw drydydd parti arall mewn amgylchiadau o'r fath gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ac i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

(Gweler Adran 13 – Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.36-13.4.41)

# ADRAN 9: PLANT A PHOBL IFANC FEL CYFRANWYR

9.1 Cyflwyniad

9.2 Egwyddorion

9.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

9.4 Canllawiau:

- Cydsyniad ar sail Gwybodaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Diogelu Lles Plant a Phobl Ifanc
- Effaith Cyfraniad
- Trwyddedu Perfformwyr sy'n Blant

## 9.1 CYFLWYNIAD

Mae plant a phobl ifanc yn bwysig i'r BBC. Maent yn cyfrannu ac yn rhyngweithio ag ef mewn llawer o wahanol ffyrdd – fel cyfranwyr, perfformwyr, cyflwynwyr, trwy ei gynnwys rhyngweithiol a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, trwy ei holl wasanaethau ac ar lwyfannau trydydd parti.

Dylai'r BBC wasanaethu plant a phobl ifanc drwy ddarparu allbwn neilltuol o ansawdd da sy'n ddyladwy o ddiduedd a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod y cynnwys maent yn ei ddefnyddio yn briodol yn y Canllawiau Golygyddol drwyddynt draw ac, yn benodol, yn Adran 5 Niwed a Thramgwydd. Mae Adran 9 yn ymdrin â'r ffordd mae'r BBC yn delio â phobl ifanc dan 18 oed sy'n cyfrannu i'w gynnwys ac sy'n rhyngweithio ag ef, p'un a yw wedi'i fwriadu ar eu cyfer neu beidio, neu'n eu cynnwys fel cyfranwyr fel mater o drefn[54].

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddweud eu dweud a chymryd rhan, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ond rhaid diogelu lles y rhai sy'n cyfrannu at gynnwys, lle bynnag yn y byd y mae'r BBC yn gweithredu.

At ddibenion yr adran hon o'r Canllawiau Golygyddol ac oni nodir fel arall, mae plentyn yn rhywun o dan 16 mlwydd oed. Pobl ifanc yw'r rheini sy'n 16 a 17 oed. Dylid nodi nad diffiniadau cyfreithiol yw'r rhain.

Mae gwneuthurwyr cynnwys hefyd yn ddarostyngedig i'r gyfraith mewn perthynas â phlant a Pholisi Diogelu y BBC.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb ac i gefnogi addasiadau rhesymol, fel gofynion mynediad, ar draws cynyrchiadau.

## 9.2 EGWYDDORION

[54] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 1: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed, 'Cynnwys pobl dan ddeunaw oed mewn rhaglenni'; 7: Tegwch ac 8: Preifatrwydd

9.2.1 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys gymryd gofal priodol dros les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl ifanc dan 18 oed sy’n cymryd rhan neu sy’n ymwneud fel arall â chynnwys golygyddol. Mae hyn heb ystyried cydsyniad y plentyn neu berson ifanc, neu riant, gwarcheidwad neu berson arall dros 18 oed sy’n gweithredu in loco parentis. Rhaid gofalu am eu lles o flaen unrhyw ofynion golygyddol.

9.2.2 Rhaid peidio ag achosi gofid na phryder diangen i bobl ifanc dan 18 oed oherwydd eu rhan mewn allbwn neu drwy gyhoeddi neu ddarlledu'r allbwn hwnnw.

9.2.3 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys pobl ifanc o dan 18 oed yn allbwn y BBC, dylid cael cydsyniad fel y bo'n briodol i amgylchiadau'r person a natur y cyfraniad a'r cynnwys, a dylid rhoi cymorth iddynt lle bo angen.

# 9.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

9.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i barhau â chyfraniad plentyn neu berson ifanc ar ôl i rieni wrthod cydsynio neu yn absenoldeb cydsyniad o’r fath, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Dylid ymgynghori hefyd â’r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.5)

9.3.2 Os bydd gwneuthurwyr cynnwys, wrth wneud eu gwaith, yn amau y gallai person o dan 18 oed fod mewn perygl, neu eu bod yn cael eu hysbysu am fater yn ymwneud â lles plant, rhaid iddynt ei atgyfeirio’n brydlon at Dîm Diogelu’r BBC[55] neu, ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu. Os oes pryder am oedolyn, gan gynnwys aelod o staff, sy’n gweithio gyda phlentyn, rhaid atgyfeirio’r sefyllfa’n brydlon i sylw’r Pennaeth Diogelu[56] neu'r Pennaeth Ymchwiliadau Corfforaethol[57] neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 9.4.13)

---

[55] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[56] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[57] Gweler y wefan Ymchwiliadau Corfforaethol: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yn achos cynhyrchwyr annibynnol

9.3.3 Os yw plentyn mewn perygl ar y pryd neu os oes arno angen sylw meddygol, ffoniwch am y gwasanaethau brys a gofyn am y gwasanaeth brys priodol. Dylid rhoi gwybod i Bennaeth Diogelu'r BBC[58] neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, y golygydd comisiynu, fel mater o frys.

(Gweler 9.4.14)

9.3.4 Os bydd unrhyw bryderon am ddiogelu plant a phobl ifanc dan 18 oed ar-lein, boed y rheini'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu luniau o gam-drin plant, rhaid eu hatgyfeirio i Dîm Diogelu'r BBC[59] ar unwaith. Ni ddylid rhannu unrhyw ddelweddau.

(Gweler 9.4.15)

9.3.5 Wrth ystyried a ddylid datgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn sy'n ymwneud â'i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy'n gysylltiedig ag achos llys, rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.22)

9.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i beidio â chymedroli gwefannau ar-lein y BBC i rai dan 18 oed ymlaen llaw gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.27)

9.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i ddatgelu manylion personol rhywun dan 18 oed i drydydd parti heb ei gydsyniad gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol, y tîm Diogelu a'r tîm Hawliau Gwybodaeth.

(Gweler 9.4.28)

---

[58] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[59] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

# 9.4 CANLLAWIAU

## Cydsyniad ar sail Gwybodaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

9.4.1 Wrth gynnwys pobl ifanc dan 18 oed yn rhaglenni'r BBC fel cyfranwyr, dylai gwneuthurwyr cynnwys fel arfer sicrhau eu parodrwydd i gymryd rhan a dylid parchu unrhyw wrthodiad i gymryd rhan.

Dylid darparu gwybodaeth mewn ffordd y gallant ei deall a dylai gynnwys unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a negyddol tebygol i gymryd rhan, yn ogystal â manylion eraill sydd eu hangen i gael cydsyniad ar sail gwybodaeth.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.11)

9.4.2 Mae'n bosibl y bydd plant yn ei chael yn anodd gwrth-ddweud awgrym gan oedolyn y dylent gymryd rhan felly mae'n bwysig ei gwneud yn glir i'r plentyn ei bod yn dderbyniol iddo gytuno neu anghytuno pan ofynnir iddo gymryd rhan.

### *Cydsyniad Rhieni*

9.4.3 Ystyr cydsyniad rhieni yw cydsyniad ar sail gwybodaeth gan riant, gwarcheidwad cyfreithiol, neu berson arall sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n gweithredu in loco parentis, yn cynnwys pennaeth ysgol.

Yn ogystal â sefydlu parodrwydd y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan, fel arfer dylid cael cydsyniad rhieni cyn cyfweld ag unrhyw un dan 16 oed, neu eu cynnwys mewn allbwn fel arall. Mae hyn yn berthnasol lle bynnag yn y byd y mae gwneuthurwyr cynnwys yn gweithio. Efallai na fydd angen cael cydsyniad rhieni wrth ofyn i rai dan 16 oed siarad am bynciau nad ydynt yn sensitif lle nad yw'n ddadleuol iddynt ddal a mynegi eu barn.

Ond, po fwyaf agored i niwed neu ifanc yw'r plentyn, a'r mwyaf sensitif yw'r pwnc, y tebycaf yw y bydd yn hanfodol cael cydsyniad rhieni. Dylid cael cydsyniad rhieni os gofynnir i'r plant am eu barn ynghylch materion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ymateb iddynt yn iawn.

(Gweler 9.2.1-9.2.3)

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.11)

9.4.4 Dylid bod yn ofalus wrth benderfynu a yw person dan 18 oed yn gallu nodi ei fod yn barod i gymryd rhan yn y cynnwys. Ar gyfer y rheini sy'n 16 neu'n 17 oed, gall fod yn briodol cael cydsyniad rhieni o hyd, yn dibynnu ar amgylchiadau'r person ifanc a natur y rhaglen a'r cyfraniad, gan gynnwys a yw'r cynnwys yn sensitif neu a allai'r cyfrannwr gael ei ystyried yn agored i niwed. Gall fod yn briodol gofyn am gydsyniad rhieni hefyd ar gyfer perfformwyr 16 a 17 oed os gofynnir iddynt berfformio neu fod yn bresennol mewn golygfeydd lle mae deunydd a all fod yn niweidiol neu dramgwyddus.

Lle mae angen cydsyniad rhieni a bod y rhieni wedi ymddieithrio oddi wrth ei gilydd, dylid cael cydsyniad y rhiant y mae'r plentyn dan 18 fel arfer yn byw gydag ef/hi ac sydd â chyfrifoldeb rhiant. Fodd bynnag, dylid ystyried i ba raddau y mae'r rhiant arall yn rhan o fywyd y person ifanc a, lle nad yw'n gofyn am ei gydsyniad, dylid gwrando ar unrhyw wrthwynebiadau rhesymol a allai fod ganddo.

Pan fydd gan berson arall neu'r awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu'r person ifanc, dylai'r rheini sy'n gwneud y cynnwys fel arfer gael cydsyniad ganddynt, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a'r pwnc dan sylw.

- 9.4.5 **Rhaid i unrhyw gynnig i barhau â chyfraniad plentyn neu berson ifanc ar ôl i rieni wrthod cydsynio, neu yn absenoldeb cydsyniad o'r fath, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Dylid ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol.**
- Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai:
  - fod cyfiawnhad dros hynny ar y sail ei fod er budd y cyhoedd[60] neu
  - wrth roi rhyddid i'r person dan 18 oed i fynegi barn ac
  - os yw er budd iddo gymryd rhan.
- 9.4.6 Lle bo'n briodol dylid hefyd cael cydsyniad rhiant, neu berson sy'n gweithredu in loco parentis, ynghylch faint o wybodaeth sy'n dangos pwy yw plentyn i'w chynnwys. Os yw person ifanc yn 16 neu'n 17 oed, gall fod yn briodol mewn rhai achosion i gael cydsyniad rhieni ynghylch faint o wybodaeth sy'n dangos pwy yw'r person ifanc i'w chynnwys, yn dibynnu ar amgylchiadau'r person ifanc a natur y rhaglen a'r cyfraniad, gan gynnwys pan fydd y cynnwys yn sensitif neu lle gellid barnu bod y cyfrannwr yn agored i niwed.
-

(Gweler 9.4.20-9.4.21)

9.4.7 Mae plant a phobl ifanc yn aml yn awyddus i gyfrannu i allbwn, ond bydd llawer heb y crebwyll sydd ei angen i asesu'r effaith dymor hwy bosibl ar eu bywydau**.** Mae'n bosibl hefyd na fydd rhieni'n deall yr holl oblygiadau sydd ynghlwm â'u plentyn yn cymryd rhan.

Rhaid asesu a yw'n briodol i unigolyn dan 18 oed gyfrannu at allbwn y BBC, ni waeth beth a oes gennym gydsyniad rhieni neu gydsyniad yr unigolyn. Ni ddylai'r cyfraniad fynd yn ei flaen os byddai gwneud hynny'n niweidiol i les yr unigolion dan 18 oed neu os na fyddai fel arall yn bodloni safonau'r Canllawiau Golygyddol.

(Gweler 9.4.29-9.4.33)

9.4.8 Pan fydd risgiau posibl i gyfrannwr dan 18 oed wedi cael eu nodi mewn perthynas â'i gyfraniad at gynnwys y BBC, dylai'r rhiant/gwarcheidwad fel arfer gael gwybodaeth berthnasol am y risgiau posibl hynny ac unrhyw gamau a gymerir i'w lliniaru. Gall fod yn ddefnyddiol cadw cofnodion ysgrifenedig o drafodaethau gyda rhiant/gwarcheidwad y cyfranwyr, yn ogystal â chydsyniad ar sail gwybodaeth yn ysgrifenedig.

---

[60] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

9.4.9 Pan fydd unigolion dan 18 oed yn cyflwyno cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr neu pan ofynnir iddynt am wybodaeth bersonol ar-lein, rhaid i wneuthurwyr cynnwys ddewis safon y prawf o gydsyniad rhieni sy'n briodol, gan ystyried sensitifrwydd y pwnc dan sylw ac oedran yr unigolyn.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.10 Pan fydd plant yn cael eu gwahodd i ryngweithio â'r BBC gan ddefnyddio ffôn, neges destun neu dechnoleg arall sy'n costio arian, rhaid eu hannog i ofyn am ganiatâd y sawl sy'n talu'r bil.

9.4.11 Gall cynnwys archifol sy'n cynnwys plant pan nad oeddent yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth fod yn fwy sensitif dros amser. Dylid ystyried hyn wrth ailddefnyddio deunydd o'r fath.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.14-13.4.15)

## Diogelu Lles Plant a Phobl Ifanc

9.4.12 Dylai gwneuthurwyr cynnwys ddilyn egwyddorion Polisi Diogelu'r BBC wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc.

9.4.13 Mae hawl gan bob plentyn a pherson ifanc i gael ei amddiffyn rhag niwed a cham-drin. **Os bydd gwneuthurwyr cynnwys, wrth wneud eu gwaith, yn amau y gallai person o dan 18 oed fod mewn perygl, neu eu bod yn cael eu hysbysu am fater yn ymwneud â lles plant, rhaid iddynt ei atgyfeirio'n brydlon at Dîm Diogelu'r BBC[61] neu, ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Os oes pryder am oedolyn, gan gynnwys aelod o staff, sy'n gweithio gyda phlentyn, rhaid atgyfeirio'r sefyllfa'n brydlon i sylw'r Pennaeth Diogelu[62] neu'r Pennaeth Ymchwiliadau Corfforaethol[63] neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.**

9.4.14 **Os yw plentyn mewn perygl ar y pryd neu os oes arno angen sylw meddygol, ffoniwch am y gwasanaethau brys a gofyn am y gwasanaeth brys priodol. Dylid rhoi gwybod i Bennaeth Diogelu'r BBC[64] neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, y golygydd comisiynu, fel mater o frys.**

---

[61] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[62] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[63] Gweler y wefan Ymchwiliadau Corfforaethol: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yn achos cynhyrchwyr annibynnol

[64] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

9.4.15 **Os bydd unrhyw bryderon am ddiogelu plant a phobl ifanc dan 18 oed ar-lein, boed y rheini'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu luniau o gam-drin plant, rhaid eu hatgyfeirio i Dîm Diogelu'r BBC[65] ar unwaith. Ni ddylid rhannu unrhyw ddelweddau.** Bydd y Tîm Diogelu neu Ymchwiliadau Corfforaethol[66] yn rhoi cyngor pellach ar ôl i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

## Dyletswydd Gofal tuag at Blant a Phobl Ifanc

9.4.16 Rhaid sicrhau dyletswydd gofal am les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl ifanc dan 18 oed sy'n cymryd rhan neu sy'n ymwneud fel arall â chynnwys golygyddol, ni waeth a ydyn nhw, eu rhiant, gwarcheidwad neu berson arall dros 18 oed a oedd yn gweithredu in loco parentis, wedi cydsynio. Rhaid gofalu am eu lles o flaen unrhyw ofynion golygyddol.

(Gweler y canllawiau: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr)

Gofal dyladwy yw lefel y gofal sy'n briodol o dan amgylchiadau penodol. Mae'n cael ei asesu drwy ystyried natur y cynnwys golygyddol a natur a graddau cyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc, ynghyd â ffactorau perthnasol eraill. Gallai'r ffactorau hyn gynnwys oedran, aeddfedrwydd, amgylchiadau personol, profiadau bywyd blaenorol a'r gallu i wneud penderfyniadau am eu cyfranogiad a'i ganlyniadau tebygol. Ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys gymryd yn ganiataol y bydd pob unigolyn dan 18 oed yn ymateb yn yr un modd wrth gymryd rhan mewn cynnwys.

9.4.17 Fel rhan o ofynion gofal dyladwy, mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol gwirio amgylchiadau cymdeithasol, teuluol, iechyd ac addysgol yr unigolyn a/neu ofyn am gyngor gan arbenigwr ar effaith debygol cyfranogiad ar yr unigolyn.

(Gweler 9.4.30)

9.4.18 Wrth gynllunio i weithio gyda phlant a phobl ifanc, rhaid cynnal asesiad risg 'gofal dyladwy cyfrannwr' i nodi unrhyw risg sylweddol o niwed.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.24)

## Dangos Gofal Dyladwy

9.4.19 Os yw'n ymddangos i gynulleidfaoedd y gallai plentyn neu berson ifanc fod wedi'i roi mewn perygl o ganlyniad i gyfrannu at gynnwys y BBC, gallai hyn fod yn fwy na disgwyliadau'r gynulleidfa. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried darparu gwybodaeth i liniaru hyn.

---

[65] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[66] Gweler y wefan Ymchwiliadau Corfforaethol: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yn achos cynhyrchwyr annibynnol

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.49)

## Datgelu pwy yw Plant a Phobl Ifanc

9.4.20 Mae angen barn olygyddol ar gyfer penderfyniadau ynghylch a ddylid datgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc mewn allbwn a sut i wneud hynny.

Mae'n bwysig bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i hunanfynegiant. Rhaid cydbwyso'r hawl hon â'r gofyniad i ddiogelu eu lles. Dyma rai sefyllfaoedd lle mae cyfiawnhad golygyddol dros ddatgelu pwy yw plant neu bobl ifanc mewn cynnwys:

- wrth adrodd ar eitem newyddion sy'n cynnwys neu'n ymwneud â phlentyn neu blant penodol
- pan fydd plentyn yn haeddu cydnabyddiaeth am ei gyflawniadau
- pan fydd y plentyn neu'r person ifanc eisoes yn ffigwr cyhoeddus.

Lle bo'n briodol adnabod plentyn neu berson ifanc, ni ddylai'r wybodaeth a ddatgelir eu rhoi mewn perygl o niwed.

Mae nodweddion adnabod yn cynnwys enw, oedran, lleoliad, ysgol a manylion penodol am eu teulu neu eu bywyd. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried a yw'n briodol cyfyngu ar yr ystod o nodweddion adnabod a gynhwysir.

(Gweler 9.4.6)

(Gweler y canllawiau: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr)

9.4.21 Os na ddylid datgelu lleoliad unigolyn dan 18 oed, ni ddylid ei ddatgelu'n anfwriadol drwy 'adnabod jig-so'. Mae hyn yn digwydd pan mae modd rhoi darnau o wybodaeth at ei gilydd i'w gwneud yn hawdd adnabod a dod o hyd i'r unigolyn. Er mwyn osgoi hyn, rhaid cofio am wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.34)

(Gweler y canllawiau: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr)

9.4.22 Wrth ystyried a ddylid datgelu pwy yw pobl ifanc dan 18 oed sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, dylid cydbwyso canlyniadau datgelu pwy ydyn nhw, eu hoedran, a difrifoldeb eu hymddygiad a'r budd i'r cyhoedd[67] o ddatgelu pwy ydyn nhw a rhyddid mynegiant y BBC. Fodd bynnag, fel arfer ni ddylid datgelu pwy yw pobl ifanc dan 18 oed pan fydd ymddygiad o'r fath yn cael sylw fel enghraifft yn unig.

Gellir cael rhesymau cyfreithiol hefyd am beidio â datgelu pwy yw rhai dan 18 oed, yn cynnwys y ffaith bod rhywun yn rhan o achos llys.

---

[67] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

**Wrth ystyried a ddylid datgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc sy’n destun gorchymyn sy’n ymwneud â’i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy’n gysylltiedig ag achos llys, rhaid ymgynghori â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.**

Gall y sefyllfa o ran adrodd am achosion llys fod yn wahanol yn yr Alban, ac mae cyngor ar gael gan Gyfarwyddwr Cyfreithiol yr Alban.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.3, Adran 8 Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.13 ac 8.4.31-8.4.32 ac Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.3)

Ni ddylid penderfynu datgelu pwy yw rhai dan 18 oed sydd â’u rhieni’n ymwneud â gweithgarwch gwrthgymdeithasol neu droseddol oni bai fod modd gwneud hynny heb niweidio lles y plentyn a bod cyfiawnhad golygyddol drosto.

## Diogelu Plant a Phobl Ifanc Ar-lein

9.4.23 Mae diogelu plant a phobl ifanc ar-lein yn gydgyfrifoldeb i’r BBC, rhieni/gwarcheidwaid a’r rhai dan 18 oed sy’n gysylltiedig.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.24 Mae gan blant a phobl ifanc hawl i fynegi eu barn ond ni ddylent gael eu hannog i gymryd rhan ar wefannau ar-lein pan fyddant yn iau na gofyniad oedran isaf y wefan.

9.4.25 Pan fydd plant yn defnyddio gwasanaethau ar-lein y BBC, mae’n bosibl y bydd angen cydsyniad rhieni ar gyfer rhai gweithgareddau, megis rhoi sylwadau neu bleidleisio. Mae’n bosibl y bydd ystyriaethau diogelu data ychwanegol pan fydd data personol plant yn cael ei gasglu. I gael mwy o gyngor, edrychwch ar y Llawlyfr Diogelu Data[68] a’r Hawliau Gwybodaeth.

9.4.26 Pan fo cynnwys ar-lein yn debygol o apelio at gyfran uchel o blant a phobl ifanc, dylai gwneuthurwyr cynnwys ddarparu dolenni i gyngor perthnasol i'w helpu i ddeall a lleihau'r risgiau y maent yn eu hwynebu ar-lein, gan gynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Dylai gwybodaeth diogelwch fod mewn lle amlwg, yn glir ac yn hawdd ei chael.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.55-17.4.63)

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.27 Fel arfer, dylai gwefannau BBC Online sydd wedi’u hanelu at unigolion dan 18 oed gael eu cymedroli ymlaen llaw. **Rhaid i unrhyw gynnig i beidio â chymedroli ymlaen llaw ofodau ar-lein y BBC – a anelir at bobl ifanc dan 18 oed gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a fyddai’r dull cymedroli arfaethedig yn amddiffyn plant yn briodol. Ni ddylai cynnwys ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed gynnwys dolenni i wefannau sydd heb eu cymedroli.

---

[68] Gweler y Llawlyfr Diogelu Data: mae hwn ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

## *Gwybodaeth Bersonol*

9.4.28 Ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys ofyn am fwy o wybodaeth bersonol nag sydd ei hangen gan blant a phobl ifanc. Rhaid storio a chael gwared ar unrhyw wybodaeth bersonol yn unol â Pholisi Diogelu Data'r BBC[69].

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddatgelu manylion personol rhywun dan 18 oed i drydydd parti heb ei gydsyniad gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol, y tîm Diogelu a'r tîm Hawliau Gwybodaeth.** Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai:

- fod rhesymau cysylltiedig â diogelu ac amddiffyn plant dros wneud hynny neu
- fod y budd i'r cyhoedd[70] yn bwysicach na'r disgwyliadau o breifatrwydd neu
- fod gofyniad cyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.58-7.4.63)

Ar gyfer unrhyw geisiadau gan drydydd parti i ryddhau cynnwys heb ei ddarlledu, gweler Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.36-13.4.41)

## Effaith Cyfraniad

9.4.29 Rhaid peidio ag achosi trallod na phryder na ellir ei gyfiawnhau i rai dan 18 oed oherwydd eu rhan mewn allbwn neu drwy gyhoeddi neu ddarlledu'r allbwn hwnnw.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys unigolion dan 18 oed yn allbwn y BBC; dylid cael cydsyniad fel y bo'n briodol i'w hamgylchiadau a natur y cyfraniad a'r cynnwys, a dylid rhoi cymorth lle bo angen.

9.4.30 Hyd yn oed pan fydd rhieni wedi cydsynio, rhaid ystyried effaith a chanlyniadau posibl unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys plentyn neu berson ifanc, ar bob cam o'r broses gynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod ar ôl cyhoeddi neu ddarlledu am y tro cyntaf ac unrhyw argaeledd parhaus ar lwyfannau ar-lein; rhaid rhoi mesurau priodol ar waith lle bo angen. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y BBC wedi cysylltu ag unigolion dan 18 oed a phan fyddan nhw wedi cysylltu â'r BBC, gan gynnwys deunydd a gynhyrchir gan

---

[69] Gweler y Llawlyfr Diogelu Data: mae hwn ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

[70] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

ddefnyddwyr. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried effaith negyddol bosibl y cyfryngau cymdeithasol ar rywun dan 18 oed a'i gynghori ef a'i rieni/gwarcheidwaid yn unol â hynny.

Gall fod yn briodol cael gweithdrefnau, asesiadau risg a chynlluniau wrth gefn i ymdrin ag effaith cymryd rhan ar les a llesiant emosiynol a meddyliol yr unigolyn mewn rhai amgylchiadau. Dylid cadw cofnodion o'r rhain a dogfennau eraill, gan gynnwys manylion gwiriadau, gohebiaeth a phryderon, dim ond cyhyd â'u bod yn berthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol cael arbenigwr, y gofynnwyd iddo am gyngor cyn cymryd rhan, drwy gydol y cynhyrchiad fel rhan o ofynion gofal dyladwy.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried a yw fformat yr allbwn yn debygol o gael mwy o effaith ar gyfranwyr dan 18 oed – fel siociau effaith uchel mewn cynnwys byw – ac ystyried a yw'n briodol neu a oes modd rhoi mesurau lliniaru ar waith.

Mewn allbwn wedi'i sgriptio, efallai y byddai'n briodol creu sgript wedi'i golygu ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Ni ddylent fel arfer fod yn bresennol mewn sesiynau darllen-yn-ôl neu ar set wrth gofnodi cynnwys a allai fod yn amhriodol i blentyn neu berson ifanc.

(Gweler 9.4.16-9.4.18)

(Gweler y canllawiau: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr)

9.4.31 Fel arfer, mae'r BBC yn gweithio gyda phlant ym mhresenoldeb y rheini sy'n gyfrifol am eu goruchwylio, ond gall amgylchiadau amrywio. Pan fydd materion sensitif yn cael eu trafod â pherson dan 18 oed, efallai y byddai'n ddoeth cael rhywun yno y maen nhw'n ei adnabod ac a all helpu i ddiogelu eu buddiannau. Gall fod yn briodol i gymorth arbenigol arall fod ar gael iddo yn ystod y broses gynhyrchu.

9.4.32 Efallai y bydd yn briodol i wneuthurwyr cynnwys gadw mewn cysylltiad â rhiant/gwarcheidwad y plentyn neu'r person ifanc ar ôl iddo gael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi er mwyn gweld a oes unrhyw effaith ac a oes angen cymorth dilynol. Dylai unrhyw ôl-ofal fod yn gymesur â'r risgiau parhaus a nodwyd a dylai fod ganddo ffiniau clir ac amserlenni.

9.4.33 Dylai plant a phobl ifanc gael mynegi eu barn ond rhaid i wneuthurwyr cynnwys hefyd fod yn effro i'r risg y gallent geisio plesio, gor-ddweud, neu ailadrodd achlust fel pe bai'n ffaith. Dylid herio ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.14-8.4.20)

## Trwyddedu Perfformwyr sy'n Blant

9.4.34 O dan y gyfraith, dylai perfformiadau gan rai o dan 16 oed (a rhai 16 mlwydd oed sydd yn parhau i fod mewn addysg amser llawn) gael eu trwyddedu fel arfer gan yr awdurdod lleol perthnasol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban neu gan yr awdurdod addysg perthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mewn gwledydd tramor, dylid cydymffurfio â chyfreithiau lleol fel arfer. Rhaid i blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiad fod o dan ofal hebryngwr hefyd gydol y cyfnod. Mae Polisi Diogelu'r BBC yn nodi bod yn

rhaid i hebryngwr trwyddedig proffesiynol gael ei gyflogi pryd bynnag y bydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddefnyddio o dan y Rheoliadau Perfformiad Plant. Gall Tîm Diogelu'r BBC roi rhagor o gyngor ar hyn.

# ADRAN 10: GWLEIDYDDIAETH A PHOLISI CYHOEDDUS

10.1 Cyflwyniad
10.2 Egwyddorion
10.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
10.4 Canllawiau

- Sylw i Bleidiau Gwleidyddol, Llywodraeth a Datganoli yn y DU
- Cyfweliadau a Chyfraniadau Gwleidyddol
- Darlledu Seneddol yn y DU
- Darllediadau Gwleidyddol
- Arolygon a Pholau Piniwn
- Etholiadau a Refferenda

# 10.1 CYFLWYNIAD

Mae'r egwyddorion sy'n ymwneud â didueddrwydd gwleidyddol y BBC a'i annibyniaeth ar ddylanwad gwleidyddol yn hanfodol i'r ffordd rydym yn ymdrin â gwleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus. Dros gyfnod priodol o amser, rhaid i gynnwys gwleidyddol y BBC roi pwys ac amlygrwydd dyladwy i'r holl safbwyntiau pwysig mewn dadleuon ac i'r holl bleidiau gwleidyddol perthnasol. Er mai'r rheini mewn llywodraeth fydd prif ffocws newyddion yn aml ac y bydd angen eu dal i gyfrif yn benodol, dylai lleisiau a barn pleidiau eraill a'r rhai sydd â safbwyntiau a buddiannau gwleidyddol eraill hefyd gael eu cyhoeddi a'u herio'n rheolaidd. Un o ddibenion cyhoeddus y BBC yw: *'Darparu gwybodaeth a newyddion diduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas ... fel y bydd pob cynulleidfa yn gallu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y Deyrnas Unedig a'r byd a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithgar a gwybodus.*[71]*'* O ganlyniad i hyn, mae cyfrifoldeb arbennig at gynulleidfaoedd sydd ar fin pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol y gallai unrhyw gyfrannwr, nid dim ond y rheini o bleidiau gwleidyddol, gynnig barn wleidyddol neu ymgyrchu ar faterion gwleidyddol. Er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy, bydd angen i gynhyrchwyr cynnwys felly wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys neu hepgor unrhyw gyfranwyr posibl i allbwn gwleidyddol.

Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr ag Adran 2 y Canllawiau Golygyddol: Didueddrwydd. Mae'r rhain yn sicrhau bod allbwn y BBC yn bodloni safonau Cod Darlledu Ofcom a nodir yn

---

[71] Erthygl 6 (1) Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

Adrannau 5 (Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Gormod o Amlygrwydd i Farn a Safbwyntiau) a 6 (Etholiadau a Refferenda).

Dylid hefyd ei darllen ochr yn ochr ag Adran 4 y Canllawiau Golygyddol: Gwrthdaro rhwng Buddiannau ac Adran 11: Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon.

# 10.2 EGWYDDORION

10.2.1 Rhaid i'r BBC a'i holl allbwn drin materion gwleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus yn gywir ac yn ddiduedd[72].

10.2.2 Rhaid i'r BBC beidio â mynegi barn ar faterion gwleidyddol neu ddadleuol neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Yr eithriad yw y gall y BBC fynegi barn gorfforaethol ar bolisi sy'n ymwneud â darlledu neu ddarparu gwasanaethau ar-lein, neu ynghylch rhyddid mynegiant.

10.2.3 Gall unigolion sy'n mynegi barn ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol (gan gynnwys materion darlledu), gwleidyddiaeth a materion dadleuol hefyd beryglu didueddrwydd y BBC.

10.2.4 Nid yw'r BBC yn comisiynu polau bwriad pleidleisio yn ystod cyfnodau etholiadau neu refferenda perthnasol.

# 10.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeiriadau Gorfodol at y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth

10.3.1 Yn achos rhaglenni na fyddent fel arfer yn cynnwys gwleidyddion, barn wleidyddol neu 'faterion dadleuol' – er enghraifft, chwaraeon, sioeau cwis/panel, adloniant ffeithiol – mae'n rhaid i gynhyrchwyr cynnwys ymgynghori ymlaen llaw â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn gwahodd gwleidydd i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae'r atgyfeiriad hwn yn berthnasol i bob ffigwr gwleidyddol fel Aelodau Seneddol, cynghorwyr, meiri a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac ni waeth a yw'r cyfraniad arfaethedig ei hun yn 'wleidyddol' ai peidio.

---

[72] Cyfeirnod Cod Ofcom Adran 5 Ystyr Didueddrwydd Dyladwy

(Gweler 10.4.3-10.4.5)

10.3.2 Heblaw am gyfweliadau newyddion byr a gesglir ar y diwrnod heb eu trefnu ymlaen llaw, rhaid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ymlaen llaw ynghylch cynigion cyfweliad arfaethedig neu unrhyw gyfranogiad gweithredol arall mewn allbwn (a chyn i gynigion o gyfranogiad o'r fath gael eu derbyn neu eu gwrthod) ar gyfer yr arweinwyr gwleidyddol canlynol yn y DU: y Prif Weinidog ac Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Yng ngwledydd y DU, rhaid ymgynghori â'r priod Benaethiaid Newyddion hefyd.

(Gweler 10.4.6-10.4.8)

10.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i dalu ffi (heb gynnwys treuliau dilys) i wleidydd neu arglwydd cyflogedig etholedig am unrhyw gyfraniad at allbwn, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 10.4.9)

10.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o siambrau neu bwyllgorau Seneddau neu Gynulliadau – gan gynnwys San Steffan – y tu allan i'r rheolau darlledu perthnasol gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o Seneddau neu Gynulliadau y tu allan i newyddion, rhaglenni ffeithiol neu gynnwys at ddibenion addysgol, a fydd hefyd yn gofyn am gyngor Cyfreithiol perthnasol ar Eiddo Deallusol.

(Gweler 10.4.10)

10.3.5 Rhaid i unrhyw gais gan y llywodraeth am ddarllediad gweinidogol neu am ymateb i ddarllediad gweinidogol gael ei atgyfeirio'n brydlon i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth[73].

(Gweler 10.4.13-10.4.14)

10.3.6 Rhaid i unrhyw gais gan adran o'r llywodraeth i drosglwyddo negeseuon swyddogol neu ffilmiau gwybodaeth gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 10.4.15)

10.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn (neu i ddefnyddio dulliau eraill, fel dadansoddi data) gyda'r bwriad o samplu cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu fwriadau pleidleisio gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i'w gymeradwyo ymlaen llaw.

(Gweler 10.4.16-10.4.18)

(Gweler Adran 11 Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon: 11.4.33 ac 11.4.36-11.4.38)

---

[73] Adran 67 Cytundeb â Siarter y BBC

10.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn neu unrhyw fath o arolwg, pleidlais neu grŵp ffocws ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ar ‘bynciau dadleuol’ mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio i’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ymlaen llaw.

(Gweler 10.4.19-10.4.20)

(Gweler Adran 11 Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon: 11.4.29-11.4.35 a 11.4.39-11.4.45)

# 10.4 CANLLAWIAU

## Sylw i Bleidiau Gwleidyddol, Llywodraeth a Datganoli yn y DU

10.4.1 Dylai'r BBC wneud, a gallu amddiffyn, penderfyniadau golygyddol ynghylch sylw i bleidiau gwleidyddol ar y sail eu bod yn rhesymol ac yn ofalus, gyda didueddrwydd dyladwy. Dylai penderfyniadau newyddion ysgogi penderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni sy’n seiliedig ar newyddion, gan sicrhau bod sylw dyladwy yn cael ei roi i gyfleu, archwilio a herio safbwyntiau a pholisïau’r holl bleidiau perthnasol yn y DU dros amser.

Bydd y ffordd y mae pleidiau’n sicrhau didueddrwydd dyladwy yn amrywio, yn dibynnu ar y fformat, y llwyfan a sut mae’r allbwn yn berthnasol i wahanol rannau o’r DU. Bydd penderfynu’r priod lefelau o sylw i wahanol bleidiau gwleidyddol, sydd â lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn galw’n bennaf am farn olygyddol dda a diduedd, yn hytrach na defnyddio fformiwlâu mathemategol. Dylid ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol mewn etholiadau wrth wneud penderfyniadau am lefelau priodol o sylw ac amlygrwydd.

Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys gymryd cyfrifoldeb am sicrhau didueddrwydd dyladwy yn eu hallbwn eu hunain heb ddibynnu o reidrwydd ar gynnwys neu wasanaethau eraill y BBC.

10.4.2 Mae diwylliannau gwleidyddol amrywiol yn y DU yn y gwahanol wledydd felly, er mwyn sicrhau sylw priodol i bleidiau gwleidyddol, yn enwedig mewn allbwn i’r DU gyfan, rhaid asesu cryfder gwleidyddol cymharol yn y strwythur datganoledig hwn. Er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy, rhaid ystyried y gwahanol bleidiau ym mhob gwlad, yn ogystal â’r rheini sydd â chefnogaeth etholiadol ar draws y DU.

Mae’r iaith a ddefnyddir yn bwysig yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, dylid bod yn ofalus wrth ddisgrifio pleidiau fel ‘prif’, ‘mawr’ neu ‘fach’, gan ystyried y dirwedd wleidyddol ym mhob rhan o’r DU. Mae’r term ‘llywodraeth’ yn cael ei ddeall yn wahanol yn y gwahanol wledydd, dylai fod yn glir i bob cynulleidfa beth sy’n cael ei gyfeirio.

Wrth gyfeirio at bolisi cyhoeddus penodol a pha lywodraeth neu weinidog sy'n gyfrifol amdano, dylai fod yn glir i'r gynulleidfa a allai fod yn berthnasol i wahanol rannau o'r DU a sut.

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar y DU)

## Cyfweliadau a Chyfraniadau Gwleidyddol

10.4.3 Wrth wneud ceisiadau am gyfweliadau gwleidyddol, dylid bod yn glir am natur yr allbwn a'r cyd-destun y maent wedi'u bwriadu ar ei gyfer. Rhaid i'r holl drefniadau fod yn destun craffu cyhoeddus ac ni ddylent atal y rhai sy'n cael eu cyfweld rhag cael cwestiynau priodol.

Pan fydd gwleidyddion (rhyngwladol, cenedlaethol neu leol), neu eraill a allai fod yn ymgeisio am swydd wleidyddol neu'n ymgyrchu'n wleidyddol, yn cael eu gwahodd i gyfrannu at allbwn anwleidyddol, boed ar sail eu harbenigedd y tu allan i wleidyddiaeth neu eu henwogrwydd, ni ddylent gael y fath amlygrwydd fel ei fod yn rhoi mantais wleidyddol ormodol iddynt, yn enwedig yn y cyfnod cyn ac yn ystod cyfnodau etholiad. Lle bo'n berthnasol, dylid gwneud eu teyrngarwch gwleidyddol yn glir i'r gynulleidfa.

10.4.4 **Yn achos rhaglenni na fyddent fel arfer yn cynnwys gwleidyddion, barn wleidyddol neu 'faterion dadleuol' – er enghraifft, chwaraeon, sioeau cwis/panel, adloniant ffeithiol – mae'n rhaid i gynhyrchwyr cynnwys ymgynghori ymlaen llaw â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn gwahodd gwleidydd i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae'r atgyfeiriad hwn yn berthnasol i bob ffigwr gwleidyddol fel ASau, cynghorwyr, comisiynwyr heddlu a throseddu, a meiri gweithredol, ac ni waeth a yw'r cyfraniad arfaethedig ei hun yn 'wleidyddol'.**

10.4.5 Lle mae cynnig i gynnwys eraill a allai fod wedi cymryd safiad gwleidyddol amlwg mewn allbwn o'r fath, mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

### Cyfweliadau ag Arweinwyr Pleidiau neu broffiliau ohonynt

10.4.6 Dylai unrhyw allbwn lle mae arweinwyr pleidiau'n ymddangos roi sylw priodol dros amser i gyfranogiad gan arweinwyr pleidiau perthnasol eraill (neu eu cynrychiolwyr); dylai pob un fod yn gyson ac yn gadarn yn ei ddull ei hun o gynnal cyfweliadau, gan sicrhau craffu priodol ac annibyniaeth olygyddol. Ar adegau, efallai y bydd angen i'r BBC gydlynu a rhesymoli cynigion ar draws ei allbwn.

10.4.7 **Heblaw am gyfweliadau newyddion byr a gesglir ar y diwrnod heb eu trefnu ymlaen llaw, rhaid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ymlaen llaw ynghylch cynigion cyfweliad arfaethedig neu unrhyw gyfranogiad gweithredol arall mewn allbwn (a chyn i gynigion o gyfranogiad o'r fath gael eu derbyn neu eu gwrthod) ar gyfer yr arweinwyr gwleidyddol canlynol yn y DU: y Prif Weinidog ac Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan, Prif**

**Weinidogion Cymru a'r Alban a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Yng ngwledydd y DU, rhaid ymgynghori â'r priod Benaethiaid Newyddion hefyd.**

10.4.8 Dylid hysbysu'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth (a, lle bo'n briodol, y Pennaeth Newyddion) hefyd a yw'r gwahoddiadau wedi cael eu gwrthod neu eu derbyn er mwyn sicrhau:

- bod y BBC cyfan yn gadarn ac yn gyson wrth ymwneud â'r pleidiau
- bod cynigion yn cael eu rhesymoli o fewn y BBC bob tro mae galw mawr
- bod pwys dyladwy yn cael ei roi i ymddangosiadau dros amser
- bod dull golygyddol cyson, er enghraifft, o ran tôn, mewn unrhyw gyfres o gyfweliadau.

### Taliadau i Wleidyddion

10.4.9 Nid yw'r BBC fel arfer yn talu gwleidyddion cyflogedig etholedig am ymddangosiadau rheolaidd na chyfraniadau eraill i allbwn y BBC lle maent yn siarad ar ran eu plaid neu'n mynegi barn wleidyddol. Mae hyn yn cynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd, Aelodau o Senedd yr Alban, Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol, meiri gweithredol, comisiynwyr heddlu a throseddu (gan gynnwys aelodau annibynnol) neu eraill y nodwyd yn glir eu bod yn cynrychioli pleidiau gwleidyddol, fel arglwyddi. Lle bo'n briodol, gellir talu ffi aflonyddu gyfyngedig a realistig iddynt a/neu unrhyw ad-daliad am dreuliau dilys.

Efallai y bydd amgylchiadau lle gellir talu ffi i wleidydd am gyfraniadau i allbwn anwleidyddol, er enghraifft os yw'n ymddangos ar sail arbenigedd penodol neu'n ymwneud â'i enwogrwydd y tu allan i wleidyddiaeth. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, wrth gyflawni rôl y tu hwnt i sylw gwleidyddol arferol, y gellir eu talu am gyfraniad gwleidyddol.

**Rhaid i unrhyw gynnig i dalu ffi (heb gynnwys treuliau dilys) i wleidydd neu arglwydd cyflogedig etholedig am unrhyw gyfraniad at allbwn, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

## Darlledu Seneddol yn y DU

10.4.10 Mae gan Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, pwyllgorau'r ddau dŷ, yn ogystal â Senedd Cymru, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon reolau darlledu y dylid eu dilyn fel arfer.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o siambrau neu bwyllgorau Seneddau neu Gynulliadau – gan gynnwys San Steffan – y tu allan i'r rheolau darlledu perthnasol gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o Seneddau neu Gynulliadau y tu allan i newyddion, rhaglenni ffeithiol**

**neu gynnwys at ddibenion addysgol, a fydd hefyd yn gofyn am gyngor Cyfreithiol perthnasol ar Eiddo Deallusol.**

## Darllediadau Gwleidyddol

### Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda yn y DU

10.4.11 Mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod amser ar yr awyr ar gael ar gyfer darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrch refferendwm[74]. Mae'r rhain ar wahân i gynnwys y BBC, ac nid yw eu darlledu'n golygu bod y BBC yn cefnogi'r farn sydd ynddynt.

Mae dyrannu cyfres o ddarllediadau mewn ffordd briodol yn bodloni'r gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy.

Mae hawlfraint y darllediadau'n eiddo i'r pleidiau neu i grwpiau ymgyrchu refferenda, ond gellir defnyddio rhannau ohonynt heb gael eu cydsyniad.

10.4.12 Mae pleidiau'n gwneud y darllediadau ar eu traul eu hunain ac maent yn gyfrifol am eu cynnwys. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn cydymffurfio i'w ddarlledu, yn cydymffurfio â'r gyfraith, â rhannau perthnasol o God Ofcom[75], â rhannau perthnasol o Ganllawiau Golygyddol y BBC ac â chanllawiau cynhyrchu a amlinellir ar wefan y Grŵp Cyswllt Darlledwyr[76].

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd)

### Darllediadau Gweinidogol a Gwybodaeth gan y Llywodraeth

10.4.13 Mewn amgylchiadau eithriadol, fel penderfyniad i fynd i ryfel neu argyfyngau cenedlaethol eraill, gall fod yn ofynnol i'r BBC[77] ddarparu amser ar gyfer darllediad gan un o weinidogion Llywodraeth y DU. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd hefyd angen i'r BBC ystyried a fyddai ymatebion gan bleidiau gwleidyddol eraill neu lywodraethau yn y DU yn briodol. Y BBC, fel darlledwr, fydd â'r gair olaf ynghylch a yw'r darllediad yn dderbyniol o ran cydymffurfio â safonau cyfreithiol priodol a safonau eraill.

(Gweler Adran 12 - Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.22)

---

[74] Atodlen 3 (5), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Fawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

[75] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0035/99188/pprb-rules-december-2020.pdf

[76] Gwefan y Grŵp Cyswllt Darlledwyr https://www.bbc.co.uk/broadcastersliaisongroup

[77] Cymal 67 Trefniadau Amddiffyn ac Argyfwng, Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Fawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

10.4.14 **Rhaid i unrhyw gais gan y llywodraeth am ddarllediad gweinidogol neu am ymateb i ddarllediad gweinidogol gael ei atgyfeirio'n brydlon i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth[78].**

10.4.15 **Rhaid i unrhyw gais gan adran o'r llywodraeth i drosglwyddo negeseuon swyddogol neu ffilmiau gwybodaeth gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

## Arolygon a Pholau Piniwn

**Dylid darllen yr is-adran hon ochr yn ochr ag Adran 11: Ystadegau, Data, Polau ac Arolygon a gyda'r canllawiau: Polau piniwn, arolygon, holiaduron, pleidleisiau a 'pholau gwelltyn'.**

### Polau Bwriad Pleidleisio

10.4.16 Anaml y bydd y BBC yn comisiynu polau piniwn ar fwriadau pleidleisio neu arwyddion eraill o gefnogaeth ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ac ni fydd byth yn eu cyhoeddi yn ystod cyfnodau etholiadau neu refferenda perthnasol.

Os caiff pleidlais o'r fath ei chomisiynu yn y DU, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, dylai'r BBC ddefnyddio aelodau'r British Polling Council. Ar gyfer y tu allan i'r DU, mae cyngor ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol.

(Gweler 10.4.26-10.4.28)

10.4.17 **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn (neu i ddefnyddio dulliau eraill, fel dadansoddi data) gyda'r bwriad o samplu cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu fwriadau pleidleisio gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i'w gymeradwyo.**

Mae cyngor technegol ar gynllunio cwestiynau er enghraifft ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol.

10.4.18 Wrth adrodd ar bolau bwriad pleidleisio:

- yn y DU dylent, fel arfer, fod wedi cael eu cynnal gan aelod o'r British Polling Council
- ni ddylai canlyniad pôl bwriad pleidleisio, ar ei ben ei hun, fod yn bennawd nac arwain unrhyw allbwn
- rhaid gohebu ar ganfyddiadau arolygon o fwriadau pleidleisio yng nghyd-destun tuedd, a all gynnwys canlyniadau'r holl bolau piniwn mawr dros gyfnod penodol neu fod yn gyfyngedig i'r newid yn y canfyddiadau gan un cwmni polau piniwn

---

[78] Adran 67 Cytundeb â Siarter y BBC

- dylid bod yn ofalus iawn wrth ymdrin â chanlyniadau polau piniwn sy'n wahanol heb esboniad credadwy
- dylid hysbysu'r gynulleidfa os yw'r gwahaniaeth a gofnodwyd rhwng dwy blaid arwyddocaol yn llai na'r lwfans ansicrwydd ar gyfer y pôl piniwn.

### Polau Piniwn, Arolygon, Pleidleisiau a Grwpiau Ffocws Gwleidyddol a Pholisi Cyhoeddus

10.4.19 Gellir disgwyl i bleidleisiau neu unrhyw fath o arolwg, yn enwedig y rhai sy'n gofyn am farn ar bolisi cyhoeddus cyfredol, materion gwleidyddol neu ddadleuon, neu'n gofyn am farn gwleidyddion, ddod o dan chwyddwydr arbennig o ran cywirdeb, cadernid a didueddrwydd. Gallant gynnwys risg i enw da, felly rhaid bod yn ofalus pan gânt eu comisiynu a'u hadrodd.

Bydd mwy o risg os bydd y BBC yn comisiynu arolwg o unrhyw fath sy'n cynnwys sefydliad sydd ei hun yn ymgyrchu neu sydd â barn sy'n ymwneud â'r mater.

Gallai ffyrdd eraill o ddarlunio barn am wleidyddiaeth, fel grwpiau ffocws, vox pops, pleidleisiau ar-lein ac ati, hefyd danseilio newyddiaduraeth y BBC os cânt eu defnyddio'n amhriodol.

10.4.20 **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn neu unrhyw fath o arolwg, pleidlais neu grŵp ffocws ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ymlaen llaw**[79]**.**

Mae cyngor technegol ar gynllunio cwestiynau er enghraifft ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol.

## Etholiadau a Refferenda

### Etholiadau a Refferenda yn y DU

10.4.21 Mae ymrwymiad y BBC i ddidueddrwydd a thegwch yn destun craffu dwys pan fydd pobl yn paratoi i bleidleisio. Cyhoeddir Canllawiau Etholiad Penodol ar gyfer pob etholiad a refferendwm cenedlaethol sy'n ategu'r Canllawiau Golygyddol[80] a Chod Darlledu Ofcom[81]. Ar gyfer etholiadau, maent yn cynnwys cod ymarfer mewn perthynas â'r rhan a gymerir gan ymgeiswyr ym mhob etholaeth neu ardal etholiadol, yn unol â chyfraith etholiadol[82]. Oni bai fod

---

[79] Cod Ofcom Adran 5 ar gyfer Ystyr 'materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol'

[80] Yn y cyfnod cyn ac yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler y wefan Polisi Golygyddol i gael Canllawiau Etholiad

[81] https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-six-elections-referendums

[82] Adran 144 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Canllawiau Etholiadau yn cael eu disodli neu eu diweddaru’n ffurfiol, maen nhw’n dal ar waith mewn perthynas ag isetholiadau tan yr etholiad cyfatebol nesaf, er enghraifft, dros gyfnod Senedd San Steffan. Dylai’r egwyddorion tegwch a didueddrwydd dyladwy sy’n sail i sylw’r BBC i bleidleisiau cenedlaethol hefyd fod yn sail i adrodd am bleidleisiau statudol eraill yn y DU, fel polau plwyf ac etholiadau cynghorau plwyf.

10.4.22 Rhaid i ddyfarniadau am newyddion barhau i ysgogi penderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni sy’n seiliedig ar newyddion a dylai’r dyfarniadau hynny, yn ystod etholiadau neu refferenda, gael eu gwneud o fewn fframwaith o drafodaeth ddemocrataidd. Yn ystod cyfnod yr etholiad, dylid rhoi pwys dyladwy ar gyfleu, archwilio a herio barn a pholisïau’r holl bleidiau ac ymgeiswyr perthnasol, gan gynnwys, lle bo hynny’n briodol, ymgeiswyr annibynnol.

Bydd angen gofal ac ystyriaeth ychwanegol ar rai rhaglenni o ran amserlennu yn ystod cyfnodau etholiadau ac yn y cyfnod cyn ymgyrchoedd etholiadol. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth yn gynnar pan allai fod risg i ddidueddrwydd, er enghraifft, o ddramâu untro, hyd yn oed os ydynt o natur hanesyddol, ymddangosiadau gan wleidyddion mewn allbwn anwleidyddol, neu raglenni sy’n bwriadu bod yn ddiduedd dros amser.

Efallai y bydd gan rai etholiadau, megis cystadlaethau maerol gweithredol, amser arwain hir lle gall ymgyrchu gyda ffocws penodol ar unigolion ddechrau blwyddyn neu fwy cyn y diwrnod pleidleisio. Bydd angen i’r holl allbwn, gan gynnwys allwn anwleidyddol, roi ystyriaeth dros y cyfnod hwn i’r angen am ddidueddrwydd a thegwch i ymgeiswyr a’r rheini sy’n ceisio cael eu henwebu.

(Gweler 10.4.4)

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.31-2.4.32)

10.4.23 Ar ddiwrnod pleidleisio, bydd y BBC yn rhoi’r gorau i ohebu ar ymgyrchoedd o 0600 nes bydd y gorsafoedd pleidleisio yn cau. Yr unig ohebu a ganiateir fydd disgrifiadau ffeithiol annadleuol, fel ymddangosiad gwleidyddion mewn gorsafoedd pleidleisio neu’r tywydd. Rhaid peidio â rhoi sylw i bynciau sydd wedi bod yn destun neu’n rhan o’r ymgyrchu neu faterion dadleuol eraill sy’n ymwneud â’r etholiad cyn i’r gorsafoedd pleidleisio gau, er mwyn sicrhau nad oes dim yn allbwn y BBC y gellir ei ddehongli fel rhywbeth sy’n dylanwadu ar y bleidlais yn ormodol.

Dylid cymryd gofal arbennig hefyd gydag unrhyw ddeunydd a gyhoeddir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol – gan gynnwys rhai unigolion – tra bo’r gorsafoedd pleidleisio ar agor.

## Polau Piniwn yn ystod Etholiadau a Refferenda yn y DU

10.4.24 Bydd Canllawiau Etholiad ar gyfer pob cyfnod etholiad a refferendwm ffurfiol yn cynnwys cyngor penodol ar ymdrin â pholau piniwn perthnasol[83].

10.4.25 Ni chaniateir cyhoeddi pôl piniwn ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth neu'r etholiad perthnasol, gan gynnwys polau bwriadau pleidleisio, ar y diwrnod pleidleisio tan ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau; mae'n drosedd yn y DU i gyhoeddi gwybodaeth am sut mae pobl wedi pleidleisio tra bod y pleidleisiau ar agor.

## Gohebu ar Etholiadau a Refferenda y tu allan i'r DU

10.4.26 Dylai'r egwyddorion tegwch a didueddrwydd dyladwy sydd wrth wraidd darllediadau'r BBC o bleidleisiau'r DU hefyd lywio gohebu mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, wrth ohebu ar yr etholiadau hyn, gellir ystyried yr amgylchiadau y mae'r etholiad dan sylw yn cael ei gynnal ynddynt, yn enwedig pan fo amheuon ynghylch gonestrwydd neu degwch y broses ddemocrataidd.

10.4.27 Gall materion ychwanegol godi pan fydd cynnwys y BBC wedi'i anelu'n benodol at gynulleidfa yn y wlad lle mae'r etholiad neu'r refferendwm yn cael ei gynnal. Gallai cynnwys a wnaed yn wreiddiol ar gyfer cynulleidfaoedd y DU ac a ddosberthir ar wasanaethau rhyngwladol ddylanwadu ar bleidlais yn amhriodol. Os bydd angen, efallai y bydd yn rhaid ei ddiwygio, ei ganslo neu ei oedi nes bydd y cyfnod pleidleisio wedi dod i ben.

10.4.28 Efallai y bydd gan wledydd y tu allan i'r DU gyfreithiau penodol gwahanol sy'n berthnasol i adrodd tra bo pleidleisiau'n digwydd neu yn ystod eu cyfnod etholiad. Os yw cynnwys y BBC yn cael ei ddosbarthu i wlad benodol, mae'n bosibl y bydd angen ystyried materion cyfreithiol.

Mewn rhai gwledydd, gall gofynion cyfreithiol ynghylch etholiadau a refferenda wrthdaro ag egwyddorion golygyddol sylfaenol y BBC, yn enwedig egwyddorion tegwch ac amhleidioldeb. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cynnal ei egwyddorion golygyddol ei hun hyd yn oed os yw hynny'n golygu na all darlledwr lleol ailddosbarthu cynnwys neu wasanaethau'r BBC. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Wasanaethau Rhyngwladol BBC News a BBC Online.

---

[83] Yn y cyfnod cyn ac yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler y wefan Polisi Golygyddol i gael Canllawiau Etholiad

# ADRAN 11: YSTADEGAU, DATA, POLAU PINIWN AC AROLYGON

11.1 Cyflwyniad
11.2 Egwyddorion
11.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
11.4 Canllawiau
- Ystadegau
- Data
- Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau, Grwpiau Ffocws a Vox Pops

# 11.1 CYFLWYNIAD

Mae cywirdeb, didueddrwydd, eglurder a hygrededd yr un mor bwysig pan fydd gwerthoedd rhifiadol a data yn cael eu defnyddio yn allbwn y BBC ag ydynt yng ngweddill ei newyddiaduraeth, a'i allbwn arall. Rhaid i wneuthurwyr cynnwys fod yn drwyadl wrth arfer amheuaeth ddyladwy. Pan fydd y BBC yn comisiynu neu'n cynnal ymchwil ei hun, gan fuddsoddi awdurdod y BBC, rhaid i'r gynulleidfa allu ymddiried yn yr hyn sy'n cael ei adrodd.

Mae ystadegau a data yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth a all arwain at allbwn arwyddocaol a dadlennol cyn belled â bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn, a bod ymwybyddiaeth wybodus o'r peryglon. Gall data gynnwys gwybodaeth o unrhyw fath, nid data ystadegol yn unig, a gellir ei gael mewn sawl ffordd wahanol fel ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, rhyddhau gwybodaeth heb ganiatâd, crafu ac ymchwilio i ffynonellau agored.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir cyfiawnhau defnyddio data a gafwyd drwy hacio, a byddai angen ystyried budd y cyhoedd yn ofalus. Dylai unrhyw gynhyrchydd dibynadwy o ddeunydd o'r fath allu egluro'r dulliau a'r prosesau y mae'n seiliedig arnynt.

Gall defnyddio ystadegau, data a rhifau greu ymdeimlad o sicrwydd i'r gynulleidfa ond maent yn aml yn gynrychioliadau amherffaith, a gallant gynnwys anghywirdebau a gwallau mesur, felly dylid ystyried eu helfennau ansicr.

Gall polau piniwn, arolygon, holiaduron, pleidleisiau ffôn ac ar-lein, vox pops a grwpiau ffocws i gyd chwarae rhan ddefnyddiol a buddiol wrth ddarganfod beth mae gwahanol bobl a grwpiau mewn cymdeithas yn ei feddwl neu'n ei brofi. Rhaid i'r BBC fod yn glir wrth wahaniaethu rhwng y darluniadol a'r mesuradwy, bod yn fanwl gywir yn ei ddefnydd o iaith, er mwyn sicrhau uniondeb newyddiaduraeth a chynnwys y BBC.

Yn yr un modd, pan fydd data – a dadansoddiad o'r data hwnnw – yn sail i allbwn, rhaid i wneuthurwyr cynnwys sicrhau bod y technegau a'r offer a ddefnyddir yn gadarn.

Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr ag Adran 3: Cywirdeb.

## 11.2 EGWYDDORION

11.2.1 Rhaid i'r un amheuaeth a datgysylltiad a fyddai'n cael ei arfer mewn unrhyw ran o newyddiaduraeth y BBC hefyd gael ei arfer gydag ystadegau, data, polau piniwn ac arolygon.

11.2.2 Dylai'r gynulleidfa fod yn hyderus, pan fydd yn darllen neu'n clywed ystadegau gan y BBC, nad yw'r ffigurau'n cael dim mwy na dim llai o bwys na'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei gefnogi.

11.2.3 Dim ond pan fo'n bosibl darparu cyd-destun, cafeatau a chyfyngiadau perthnasol y dylid defnyddio ystadegau, data, polau piniwn ac arolygon.

11.2.4 Rhaid i'r gynulleidfa fod yn glir a yw pôl neu arolwg yn gynrychioliadol neu a yw, er enghraifft, yn un lle mae pobl wedi dewis cymryd rhan.

11.2.5 Nid yw'r BBC yn comisiynu polau bwriad pleidleisio yn ystod cyfnodau etholiadau neu refferenda perthnasol.

## 11.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

### Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

11.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i gael mynediad heb ei awdurdodi at systemau neu gyfrifon cyfrifiadurol drwy hacio neu gomisiynu hacio gan drydydd partïon gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 11.4.18-11.4.21)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44-7.4.45)

### Atgyfeiriadau i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth

11.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn (neu i ddefnyddio dulliau eraill, fel dadansoddi data) gyda'r bwriad o samplu cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu fwriadau

pleidleisio mewn cysylltiad ag etholiadau neu refferenda gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i'w gymeradwyo.

(Gweler 11.4.33)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.3.7)

11.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i ohebu ar fwriadau pleidleisio a gafwyd drwy ddulliau ymchwil heblaw polau piniwn gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 11.4.36-11.4.37)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.16-10.4.18)

11.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth[84].

(Gweler 11.4.29-11.4.30)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.19-10.4.20)

11.3.5 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn neu unrhyw fath o arolwg, holiadur, pleidlais neu grŵp ffocws ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol y diwrnod, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth[85].

(Gweler 11.4.39-11.4.42)

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.19-10.4.20)

11.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i arwain gyda chanlyniad un pôl piniwn, neu i arwain gyda hynny mewn unrhyw allbwn neu hysbysiad gwthio, gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 11.4.34)

11.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu polau piniwn neu unrhyw fath o arolwg sy'n ceisio barn neu'n holi am brofiadau plant a phobl ifanc ar unrhyw fater gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

---

[84] Cyfeiriwch at God Ofcom Adran 5 ar gyfer Ystyr 'materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol'

[85] Gweler troednodyn 1

(Gweler 11.4.31)

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.3, 9.4.10 a 9.4.24-9.4.25)

11.3.8 Pan fydd y BBC yn comisiynu polau piniwn, dylid cyhoeddi'r holl ganlyniadau a'r data ar eu cyfer fel arfer. Dylai unrhyw gynnig i beidio â gwneud hynny gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 11.4.32)

## Atgyfeiriadau Eraill

11.3.9 Dylai unrhyw gynnig i grafu gwefannau am ddata neu i ddefnyddio data a grafwyd neu a echdynnwyd gan raglen gyfrifiadurol o'r rhan gyhoeddus o wefannau gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 11.4.18-11.4.19)

11.3.10 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio data sy'n deillio o hacio neu sydd wedi'i ryddhau heb ganiatâd gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 11.4.18 ac 11.4.20)

11.3.11 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal pleidlais dros y ffôn, drwy neges destun neu ar-lein (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol) ar unrhyw fater gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid cwblhau'r broses gymeradwyo briodol.

(Gweler 11.4.41-11.4.43)

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.23-17.4.24)

# 11.4 CANLLAWIAU

## Ystadegau

11.4.1 Pan fydd allbwn yn cynnwys ystadegau, dylent fod yn eu cyd-destun, wedi'u pwysoli, eu dehongli, eu herio lle bo hynny'n briodol, a'u cyflwyno'n glir. Ni ddylai defnydd y BBC o ffigurau roi dim mwy na dim llai o bwysau iddynt nag y mae'r dystiolaeth yn ei gefnogi.

Gall rhifau gyfleu manylder a sicrwydd ac, o ganlyniad, mwy o hyder neu bwysau. Gellir gwneud y disgrifiad o newid yn fwy manwl a sicr drwy ychwanegu gwerth rhifol. Fodd bynnag, dylid hefyd ystyried lefel ansicrwydd ystadegau yn ofalus.

Os daw’r ystadegau o waith newyddiaduraeth y BBC ei hun, rhaid iddynt fod yn gywir ac yn gadarn. Dylid adlewyrchu cafeatau pwysig, cyfyngiadau a’r ystod berthnasol o dystiolaeth wrth eu cyflwyno. Efallai y bydd angen darparu’r manylion hyn i gynulleidfaoedd i’w helpu i ddeall a gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar werth a phwysau’r ystadegau.

Pan fydd y BBC yn adrodd ar ystadegau sy’n cael eu darparu neu eu dehongli gan eraill, fel grwpiau ymgyrchu ac elusennau, pleidiau gwleidyddol, buddiannau masnachol neu gyfryngau eraill, dylai wneud hynny’n ddigyswllt a gyda’r amheuaeth briodol, ac ni ddylai o reidrwydd eu derbyn ar yr olwg gyntaf.

11.4.2 Hyd yn oed os oes tystiolaeth dda o hawliad penodol, er enghraifft o bôl piniwn neu astudiaeth wyddonol a gynhaliwyd yn dda, mae’n dal yn gallu bod yn anghywir neu beidio â rhoi’r darlun llawn. Dylid cynnwys posibilrwydd o’r fath wrth ystyried amlygrwydd. Yn yr un modd, dylid ystyried a gwirio dyfynnu dethol, sy’n aml yn broblem mewn datganiadau i’r wasg, yn ogystal â chanfyddiadau ffug neu ‘dwyllodrus’ – a all ddigwydd ar hap. Gellir gofyn am gyngor gan y Pennaeth Ystadegau a gohebwyr arbenigol y BBC.

**Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr â’r canllawiau: Gohebu ar Ystadegau.**

## Ffynonellau Ystadegau

11.4.3 Nid yw’r unigolyn neu’r sefydliad sy’n darparu data neu ystadegau a ddefnyddir gan y BBC – y ffynhonnell – mor bwysig ag ansawdd y data na chryfder y dystiolaeth sy’n sail i hawliad. Ond gall gwybodaeth am y ffynhonnell roi cyd-destun pwysig, neu rybudd, am gryfder neu ddibynadwyedd y dystiolaeth. Fel arfer dylid nodi ffynhonnell unrhyw ystadegyn a ddefnyddir.

Dylai ffynhonnell sy’n amharod neu’n methu dangos y dulliau neu’r prosesau y tu ôl i’w honiad, neu ddangos tystiolaeth ehangach ar y pwnc, gael ei thrin yn ofalus a dylid gwirio ei thystiolaeth gydag arbenigwyr eraill yn y maes.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.8-3.4.9)

11.4.4 Os daw ystadegau o ffynhonnell sydd â buddiant personol, nid yw o reidrwydd yn golygu bod y wybodaeth yn annibynadwy, ond mae angen bod yn ofalus iawn i weld sut mae’r ffynhonnell wedi dewis y dystiolaeth ac wedi cyflwyno ei ffigurau. Bydd gan bleidiau gwleidyddol neu grwpiau ymgyrchu fuddiant personol amlwg ond felly hefyd ffynonellau cyffredin eraill, fel melinau trafod, adrannau prifysgolion ac elusennau.

Dylid ystyried a yw ffynhonnell wedi bod yn ddibynadwy yn y gorffennol; gellir cael cyngor gan y Pennaeth Ystadegau.

11.4.5 Mae disgwyl i ystadegau swyddogol gan adrannau'r llywodraeth neu gyrff ystadegol (fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd neu, yn y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol) gael eu cynhyrchu'n ddiduedd ac yn rhydd o ddylanwad gwleidyddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ym mhob gwlad ac efallai nad yw'n wir yn unman ar gyfer adroddiadau neu ddatganiadau i'r wasg sy'n seiliedig ar ystadegau swyddogol.

Mewn nifer o feysydd, mae cyrff proffesiynol yn gosod safonau ar gyfer ymchwil ac ystadegau, er enghraifft Awdurdod Ystadegau'r DU neu, ar gyfer pleidleisio, y British Polling Council; gall cadw at eu safonau fod yn arwydd o ddibynadwyedd.

(Gweler 11.4.25)

11.4.6 Er y gall datganiadau i'r wasg fod yn ffynhonnell o gynnwys defnyddiol, gallant hefyd gynnwys gorliwiadau am ymchwil, gan ddefnyddio ystadegau'n ddetholus. Dylid profi hawliadau o'r fath yn briodol yn hytrach na'u derbyn ar yr olwg gyntaf.

Mae adolygiad gan gymheiriaid o ymchwil a gyhoeddir mewn cyfnodolion gwyddonol yn arwydd o ddibynadwyedd ond nid yw'n gwarantu hynny. Dylid bod yn ofalus iawn wrth drin ymchwil wyddonol nad yw wedi cael ei hadolygu gan gymheiriaid eto.

## Rhoi Ystadegau Mewn Cyd-destun

11.4.7 Mae defnyddio ystadegau'n gywir yn golygu egluro unrhyw gafeatau a chyfyngiadau lle bo hynny'n berthnasol; dylid dweud wrth gynulleidfaoedd beth yw eu harwyddocâd, lle bo hynny'n briodol, gan gymryd gofal i osgoi rhoi mwy o bwysau i ffigurau nag sy'n gallu gwrthsefyll craffu.

Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried defnyddio ystadegau mewn penawdau, hysbysiadau gwthio ac ar gyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol, lle nad yw'n bosibl cynnwys digon o gyd-destun yn aml.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn ofalus wrth ddefnyddio iaith, er enghraifft wrth ddangos cyfartaledd, neu gymedr, neu bwynt canol. Gall defnyddio termau o'r fath yn gyfnewidiol neu yn y cyd-destun anghywir gamarwain y gynulleidfa.

(Gweler y canllawiau: Adrodd ar 'Gyfartaledd' Ystadegau)

## Canrannau a Phwyntiau Canran

11.4.8 Gall canrannau fod yn ffordd ddefnyddiol o ddisgrifio data'n ystyrlon ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir ac mewn cyd-destun priodol; ond weithiau gallai fod yn haws dweud, er enghraifft, bod rhywbeth wedi dyblu yn hytrach na chynyddu 100%.

Gall rhoi gwybod am newid canrannol mawr ar ei ben ei hun swnio'n arwyddocaol ac yn haeddu sylw ar y newyddion, ond gall ystumio'r raddfa. Gellir gwella dealltwriaeth y gynulleidfa drwy adrodd am y niferoedd crai ochr yn ochr neu yn lle cynnydd canrannol. Er enghraifft, gallai math anarferol o drosedd fod wedi cynyddu 300% ond mae'n dal yn gymharol isel o ran nifer gwirioneddol yr achosion – er enghraifft o dri i ddeuddeg.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys ddefnyddio'r termau 'canran' a 'phwyntiau canran' yn ofalus iawn. Efallai y bydd cynulleidfaoedd yn cael eu camarwain os ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol oherwydd maent yn tynnu sylw at ddau beth gwahanol: newid cymharol ac absoliwt.

Er y gall y cyd-destun fod yn ddigon weithiau i wneud yr ystyr a fwriadwyd yn glir, gall bod yn fwy eglur gynyddu dealltwriaeth y gynulleidfa. Er enghraifft: nid yw newid treth o 10% i 15% yn gynnydd o 5% yn y gyfradd dreth. Mae'n gynnydd (absoliwt) o bum pwynt canran. Mewn termau cymharol, mae'r gyfradd dreth wedi codi hanner, sy'n gynnydd o 50% os caiff ei fynegi fel canran.

## Amcanestyniadau

11.4.9 Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcanestyniadau, gan esbonio unrhyw gafeatau neu amodau. Mae amcanestyniadau a rhagolygon fel arfer yn cael eu cyflwyno fel amrywiaeth o bosibiliadau oherwydd ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Dylid rhoi ystod briodol o safbwyntiau posibl, gan ganolbwyntio ar y nifer mwyaf tebygol, yn hytrach na'r gwerth mwyaf eithafol. Dylid defnyddio ymadroddion pennawd sy'n seiliedig ar y gwerth mwyaf eithafol, fel 'hyd at', 'cynifer â', 'gallai godi i', 'gallai fod mor uchel â' neu 'gallai gyrraedd' yn ofalus iawn.

## Ansicrwydd

11.4.10 Dylid ystyried lefel ansicrwydd ystadegau yn ofalus a dylid ei chyfleu i'r gynulleidfa lle bo hynny'n briodol, gan ddefnyddio iaith hygyrch ac annhechnegol.

Efallai y bydd ansicrwydd ynghylch manylder yr union werth sy'n cael ei ddyfynnu neu ansicrwydd ynghylch ansawdd y data sylfaenol.

Dylai adroddiadau gydnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol, er enghraifft drwy osgoi cymariaethau neu safleoedd, drwy dalgrynnu ('200,000 yn fras' yn hytrach na '203,400' neu 'fwy na 60%' yn hytrach na '62.5%') a drwy adrodd amrediadau yn lle un rhif.

(Gweler y canllawiau: Gohebu ar Ystadegau)

## Cydberthyniad ac Achosiad

11.4.11 Rhaid i wneuthurwyr cynnwys fod yn ofalus i beidio â thybio, os bydd dwy set o ddata'n cynyddu neu'n gostwng ar yr un pryd, bod un o reidrwydd yn achosi'r llall. Dyma'r gwahaniaeth rhwng cydberthyniad ac achosiad. Cydberthyniad yw pan fydd dwy set o ddata yn tueddu i symud gyda'i gilydd, ond ni ddylid awgrymu achosiad heb drothwy prawf uchel. Wrth chwilio

am esboniadau o ddata cydberthynol, dylid ystyried a gafodd achosiad ei archwilio gan yr astudiaeth a dylid cymryd gofal i osgoi dibynnu ar ragdybiaethau, gan gynnwys eich rhai eich hun. Os nad oes tystiolaeth arall i gefnogi achosiad, ni ddylid rhoi gwybod am y gydberthynas y tu hwnt i'w bodolaeth, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

## Cymariaethau

11.4.12 Gall cymariaethau helpu i wneud mwy o synnwyr o rifau a allai ymddangos yn ddiystyr ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, dylid osgoi cymariaethau ffug, fel amrywiadau mewn grwpiau neu gyfnodau amser, a allai gamarwain y gynulleidfa. Gall newidiadau a gwahaniaethau mewn systemau mesur neu safonau cofnodi annilysu cymariaethau dros amser, er enghraifft wrth gymharu gwahaniaethau rhwng y gwledydd datganoledig.

## Graffiau, Siartiau, etc

11.4.13 Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio a dehongli graffiau a siartiau. Maent yn adnoddau defnyddiol ar gyfer dangos llawer iawn o ddata'n weledol yn gyflym, ond gallant gamarwain neu ystumio'r data, er enghraifft yn y ffordd o ddefnyddio graddfa fertigol, hepgor rhywfaint o ddata neu ddewis dyddiadau dechrau a gorffen yn ddetholus i gynrychioli newid dros amser. Pan ddefnyddir graffiau a siartiau, dylid dangos eu ffynhonnell bob amser.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys gofio y gallai defnyddio siartiau ymddangos i'r gynulleidfa fel rhywbeth sy'n rhoi mwy o bwys ar ddata; gellir eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol ar eu pen eu hunain, eu hepgor o'u cyd-destun, ac efallai y bydd angen cynnwys cafeatau priodol mewn teitlau, is-deitlau neu droednodiadau.

## Risg

11.4.14 Dylai'r BBC ohebu ar risgiau mewn cyd-destun, gan gymryd gofal i beidio â phoeni'r gynulleidfa'n ddiangen. Dylid osgoi penawdau a allai achosi braw neu bryder diangen.

Mae gohebu ar risg yn gallu dylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd o'r risg honno, yn enwedig yng nghyswllt straeon am beryglon iechyd neu droseddu. Gall adroddiadau camarweiniol ynghylch tebygolrwydd ystadegol, er enghraifft am risgiau iechyd, achosi i unigolion newid eu hymddygiad mewn ffyrdd a allai effeithio ar eu hiechyd; gallai adroddiad nad yw'n glir ynghylch y risgiau o ddioddef trosedd gynyddu ofn pobl yn ddiangen.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried yr effaith emosiynol y gall lluniau a thystiolaeth bersonol ei chael ar ganfyddiadau o risg pan nad ydynt yn cael eu cefnogi gan gydbwysedd tystiolaeth. Os yw barn cyfrannwr yn groes i farn y mwyafrif, efallai y bydd gofynion cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy yn mynnu bod hynny'n cael ei egluro.

Lle mae lefel wirioneddol y risg yn parhau'n isel, er gwaethaf cynnydd cymharol ymddangosiadol fawr (e.e. treblu), rhaid ystyried y cyfiawnhad golygyddol dros adrodd stori o'r

fath. Lle mae cyfiawnhad golygyddol dros adrodd newidiadau mewn risg, fel arfer dylid mynd ar drywydd lefel y risg a'i chynnwys, yn ogystal â'r newid cymharol.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.10)

### Gohebu am Faterion dadleuol

11.4.15 Gall gohebu am amrywiaeth o faterion dadleuol, fel yr economi neu raddfa'r newid yn yr hinsawdd, fod yn gymhleth a dibynnu ar ddealltwriaeth o ystadegau cywir ac ystyrlon. Lle bo'n briodol, dylid gofyn am gyngor gan newyddiadurwyr arbenigol y BBC.

Wrth gyflwyno materion o'r fath, mae'n bwysig sicrhau nad yw dewisiadau dilys ynghylch polisi, megis ar dreth a dyled, neu ar ddefnyddio ynni, yn cael eu cyflwyno fel elfennau hanfodol neu anochel. Dylid egluro'r cyd-destun perthnasol, gan gynnwys lle ceir cyfaddawdu mewn dewisiadau polisi. Dylai'r BBC roi gwybod am ansicrwydd pan fydd yn berthnasol i ddealltwriaeth o'r cyd-destun llawn.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.1-2.4.4)

## Data

11.4.16 Mae'n bwysig defnyddio data at y dibenion cywir ac yn y ffordd gywir. Nid yw data'n cyfeirio at rifau mewn taenlenni yn unig; gall gynnwys testun, delweddau, fideo neu sain. Gellir dod o hyd iddo mewn amrywiaeth o ffynonellau. Gall data fod yn sail i ymchwiliadau neu newyddiaduraeth wreiddiol ond dylid ystyried y pwyntiau canlynol yn y lle cyntaf:

- a all set ddata ddarparu'r ateb i'r mater golygyddol yr ymchwilir iddo
- a yw'r cwestiwn priodol yn cael ei ofyn.

Yn gyffredinol, mae cwestiynau y gellir eu hateb gyda data yn benodol ac yn fesuradwy yn hytrach nag yn ansoddol neu'n achosol. Er enghraifft, mae'n haws ateb 'faint o ymddiriedolaethau'r GIG oedd wedi cyrraedd y targedau ar gyfer amseroedd aros y llynedd?' drwy ddata na 'sut mae'r GIG yn perfformio?'

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data i ddod o hyd i berthynas achosol rhwng dau ffactor, neu i ganfod beth allai ddigwydd yn y dyfodol ar sail yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol, a bydd angen ei ddadansoddi'n ofalus.

(Gweler 11.4.11)

### Ansawdd Data

11.4.17 Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn glir ynghylch beth sydd wedi a heb ei gynnwys mewn setiau data, ac ystyried unrhyw ddisgrifiad o'r data.

Dylai fod yn glir sut mae'r data wedi cael ei gasglu; dylid bod yn ofalus iawn wrth ddadansoddi data ar gyfryngau cymdeithasol.

## Sut mae Cael Gafael ar Ddata

11.4.18 Gall cael mynediad at rai setiau data godi materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd a'r gyfraith, yn enwedig os ydynt yn ganlyniad i ryddhau heb ganiatâd neu hacio gan unigolion neu grwpiau trydydd parti. Cyn defnyddio data o'r fath, ystyriwch sut y cafwyd gafael arno ac a oes budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n cyfiawnhau ei ddefnyddio. Fel arfer, nid yw'r BBC yn hacio nac yn comisiynu gweithgareddau hacio gan drydydd partïon.

Os bydd y data'n cael ei lwytho i lawr o wefan neu storfa ddata gyhoeddus, dylai cynhyrchwyr wirio a oes ganddynt yr hawl i'w ddefnyddio. Bydd y rhan fwyaf o setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael o dan drwydded agored, ond nid pob un. Mae cyngor ar gael gan y tîm Cyfreithiol IP.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.6 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44-7.4.45)

11.4.19 **Dylai unrhyw gynnig i grafu gwefannau am ddata neu i ddefnyddio data sydd wedi'i grafu o wefannau gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, a fydd yn ystyried budd y cyhoedd a pha mor briodol yw'r dull.**

11.4.20 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio data sy'n deillio o hacio neu sydd wedi'i ryddhau heb ganiatâd gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

11.4.21 **Rhaid i unrhyw gynnig i gael mynediad heb ei awdurdodi at systemau neu gyfrifon cyfrifiadurol drwy hacio neu gomisiynu hacio gan drydydd partïon gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Sut mae Data'n cael ei Gyrchu a'i Ddadansoddi

11.4.22 Ystyriwch unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anhysbysrwydd neu 'ddod â'r darnau at ei gilydd' a allai gael eu hachosi drwy unrhyw gyfuniad o setiau data.

Mewn dadansoddiadau data mwy cymhleth, yn enwedig y rheini sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI), mae'n bwysig cael dealltwriaeth drylwyr o sut cafodd yr adnodd ei hyfforddi, beth yw ei gyfraddau cywirdeb a gwallau, a beth yw ei gyfyngiadau.

Wrth gynnig defnyddio AI i dybio teimladau neu fwriad – beth allai pobl fod yn ei feddwl neu'n bwriadu ei wneud – dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried a oes dulliau eraill ar gael.

## Sut mae Data'n Cael ei Gyflwyno a'i Adrodd

11.4.23 Dylai'r fethodoleg sy'n cael ei defnyddio i ddadansoddi unrhyw set ddata fod ar gael i'r gynulleidfa fel arfer, gan gynnwys unrhyw ansicrwydd neu led gwall perthnasol.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys sy'n defnyddio unrhyw ddadansoddiad awtomataidd o ddata ei wirio – ni ddylid tybio ei fod yn gywir, yn enwedig os yw'r canlyniadau'n ymddangos yn anarferol neu'n annisgwyl.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.8)

### Sut mae Data'n Cael ei Storio

11.4.24 Rhaid casglu a storio'r holl ddata yn unol â deddfwriaeth diogelu data a pholisïau diogelu data'r BBC[86]. Os yw'n arbennig o sensitif, dylid ystyried diogelwch neu amgryptio ychwanegol.

Efallai y bydd angen cadw'r set ddata ddyddiedig wreiddiol er mwyn darparu cofnod heb ei olygu o'r ffynhonnell.

## Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau, Grwpiau Ffocws a Vox Pops

11.4.25 Pan fydd y BBC yn adrodd ar ymchwil i safbwyntiau neu brofiadau pobl, mae'n bwysig cyrraedd y safonau cywirdeb a didueddrwydd sy'n galluogi'r gynulleidfa i ymddiried yn nibynadwyedd y cynnwys.

Yn benodol, gall polau piniwn ac arolygon gynnwys risg i enw da, felly rhaid gofalu nad ydynt yn cael gormod o bwysau pan fyddant yn cael eu hadrodd a bod cyd-destun a chafeatau priodol yn eu lle.

Ar gyfer unrhyw bôl piniwn neu arolwg a gomisiynir gan y BBC, rhaid i'r fethodoleg (e.e. ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb), y data sylfaenol a chywirdeb yr iaith a ddefnyddir i'w hadrodd, allu gwrthsefyll craffu. Dylai manylion y data crai fod ar gael i'r gynulleidfa fel arfer.

(Gweler 11.4.29)

Pan fydd y BBC yn adrodd ar bôl piniwn, arolwg, holiadur neu bleidlais y mae wedi'i chomisiynu, rhaid peidio ag awgrymu bod barn gan y BBC am bolisi neu fater penodol, na'i bod wedi'i chomisiynu gyda'r bwriad o ddylanwadu ar farn am bwnc dadleuol cyfredol.

---

[86] Gweler y Llawlyfr Diogelu Data: mae hwn ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol; a Pholisi Preifatrwydd a Chwcis y BBC

Gellir asesu cryfder y dystiolaeth ar gyfer hawliadau sy'n seiliedig ar y dulliau ymchwil hyn yn aml drwy ofyn:

- a yw'r bobl hynny sy'n ymateb yn adlewyrchu'n gywir y grŵp ehangach y maent i fod i'w gynrychioli
- a yw'r ymatebion yn cael eu defnyddio'n gywir, gan adlewyrchu'n ddibynadwy sut y gofynnwyd y cwestiynau gwreiddiol
- a astudiodd yr ymchwil ddigon o bobl i gael ymateb cadarn.

(Gweler 11.4.34)

11.4.26 Mae polau piniwn yn ceisio mesur barn grŵp mawr o bobl (e.e. pob oedolyn, 'pobl dan 35 oed', neu 'rhieni') drwy holi sampl cynrychioladol ohonynt. Gellir dod o hyd i'r sampl naill ai drwy ddewis aelodau o'r grŵp ar hap neu drwy ddefnyddio paneli polau piniwn, lle gellir dewis a phwysoli ymatebwyr er mwyn iddynt adlewyrchu nodweddion demograffig neu nodweddion eraill y grŵp mwy. Gellir disgrifio polau piniwn a gynhelir yn y modd hwn fel arolygon.

(Gweler 11.4.29)

11.4.27 Gall cynhyrchwyr cynnwys hefyd ddefnyddio'r term 'arolwg' i gyfeirio at fath gwahanol o ymchwil, lle cysylltir â holl aelodau o grŵp llai, penodol a gofynnir i bawb ateb cwestiynau. Gall y grŵp gynnwys pobl unigol, fel cadeiryddion pleidiau etholaeth, is-gangellorion prifysgol neu aelodau o gymdeithas benodol; neu gall gynnwys sefydliadau fel ymddiriedolaethau iechyd, awdurdodau lleol, clybiau pêl-droed mewn cynghrair benodol, ac ati. Ar gyfer y math hwn o ymchwil, bydd hygrededd ystadegol yn dibynnu ar gysylltu â'r grŵp cyfan; bydd angen methodoleg gymeradwy a chyson, a bydd angen ymatebion o sylwedd gan gyfran y cytunwyd arni. Bydd cadernid arolwg o'r fath yn dibynnu ar y gyfradd ymateb (gorau po uchaf yw'r gyfradd ymateb) ac ar lefel yr hyder bod yr ymatebwyr yn cynrychioli'r grŵp cyfan (er enghraifft nad ydynt yn gorgynrychioli un rhan o'r wlad, neu is-grŵp penodol). Lle na dderbynnir digon o ymatebion, mae'n bosibl y bydd modd defnyddio ymchwil o'r fath o hyd (er enghraifft adrodd rhifau crai neu gasglu gwybodaeth anecdotaidd); mae cyngor ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 11.4.39)

11.4.28 Gall mathau eraill o ymchwil, er enghraifft un lle mae pobl wedi dewis cymryd rhan, fod yn ffordd ddefnyddiol o gael gwybod am brofiadau aelodau unigol o grŵp neu, o bryd i'w gilydd, nodi niferoedd crai o bobl; ond ni ellir defnyddio methodoleg o'r fath i fesur barn neu brofiadau'r grŵp yn ei gyfanrwydd oherwydd ni ellir ystyried y bobl sy'n dewis cymryd rhan yn gynrychioladol. Nid yw ymateb mwy yn ei wneud yn 'fwy' cynrychiadol. Gall sefydliadau eraill ddisgrifio ymchwil o'r fath yn aml fel 'arolwg' neu 'bôl piniwn'; dylai gwneuthurwyr cynnwys sicrhau nad yw'r gynulleidfa'n cael ei chamarwain ynghylch y pwys sy'n cael ei roi ar y fethodoleg drwy ddefnyddio'r termau hynny.

Pan fydd y BBC ei hun yn comisiynu neu'n cynnal ymchwil o'r fath, ni ddylid ei ddisgrifio fel 'arolwg' na 'phôl piniwn'; gall fod yn 'holiadur' neu'n 'astudiaeth', ond rhaid ei gwneud yn glir i'r gynulleidfa os yw'n un lle mae pobl wedi dewis cymryd rhan ac nad oes ganddo werth cynrychioliadol na chyfrannol.

(Gweler y canllawiau: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

## Comisiynu Polau Piniwn gan Gwmnïau Polau Piniwn

11.4.29 Gellir cynnal polau piniwn wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Yn y DU, ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, dylai polau piniwn gael eu comisiynu fel arfer gan ddefnyddio aelodau o'r British Polling Council. Er mwyn comisiynu polau o'r fath y tu allan i'r DU, dylid gofyn am gyngor gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol ynghylch methodoleg a sefydliadau polau piniwn priodol.

Rhaid i unrhyw bôl a gomisiynir ar y cyd â sefydliad arall fodloni gofynion didueddrwydd dyladwy a mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

11.4.30 **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.19-10.4.20)

11.4.31 Mae angen cymryd gofal arbennig wrth gomisiynu polau piniwn i geisio barn neu i archwilio profiadau plant a phobl ifanc. **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu polau piniwn sy'n ceisio barn neu'n holi am brofiadau plant a phobl ifanc ar unrhyw fater gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.3, 9.4.10 a 9.4.24-9.4.25)

(Gweler y canllawiau: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

11.4.32 **Pan fydd y BBC yn comisiynu polau piniwn, dylid cyhoeddi'r holl ganlyniadau a'r data ar eu cyfer fel arfer. Dylai unrhyw gynnig i beidio â gwneud hynny gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth**.

11.4.33 Anaml y bydd y BBC yn comisiynu polau piniwn ar fwriadau pleidleisio neu arwyddion eraill o gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol. Nid yw'r BBC byth yn comisiynu polau piniwn ar fwriadau pleidleisio neu arwyddion eraill o gefnogaeth ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn ystod unrhyw gyfnod etholiadau neu refferenda perthnasol. **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn (neu i ddefnyddio dulliau eraill, fel dadansoddi data) gyda'r bwriad o samplu**

**cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu fwriadau pleidleisio mewn cysylltiad ag etholiadau neu refferenda gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i'w gymeradwyo.**

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.16-10.4.18)

## Gohebu ar Bolau Piniwn

11.4.34 Fel arfer, ni ddylai canlyniad un pôl piniwn fod yn brif stori neu'n bennawd mewn unrhyw allbwn neu hysbysiad gwthio, oni bai ei fod wedi sbarduno stori sy'n teilyngu ei gwneud yn brif stori neu'n brif bennawd ohoni'i hun a bod angen cyfeirio at ganfyddiadau'r pôl piniwn er mwyn gwneud synnwyr o'r stori. **Rhaid i unrhyw gynnig i arwain gyda chanlyniad un pôl piniwn, neu i arwain gyda hynny mewn unrhyw allbwn, neu hysbysiad gwthio, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

(Gweler 11.4.36)

(Gweler y canllawiau: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

11.4.35 Wrth adrodd ar ganfyddiadau unrhyw bôl piniwn, p'un a yw'n cael ei gomisiynu gan y BBC neu gan rywun arall:

- ni ddylai iaith roi mwy o hygrededd i bolau piniwn nag sy'n haeddiannol; er enghraifft mae polau piniwn yn 'awgrymu' ac yn 'rhoi arwydd' o rywbeth, ond nid ydynt yn 'profi', yn 'dangos' nac yn 'datgelu'
- dylai'r iaith a ddefnyddir i adrodd canfyddiadau pôl piniwn adlewyrchu'n gywir ystyr y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymchwil gwreiddiol
- ni ddylid rhoi gwybod am wahaniaethau bach o fewn lled gwall pôl piniwn penodol fel gwahaniaeth sylweddol fel arfer
- ni ddylai'r BBC ddibynnu'n llwyr ar y dehongliad o ganlyniadau'r pôl piniwn a roddir gan y sefydliad neu'r cyhoeddiad sydd wedi'i gomisiynu
- dylai'r BBC adrodd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd (er enghraifft ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb), maint y sampl, y sefydliad a gynhaliodd y pôl piniwn a'r sefydliad neu'r cyhoeddiad a gomisiynodd y pôl
- os yw'n berthnasol o safbwynt golygyddol, dylid adrodd dyddiadau'r gwaith maes a'r digwyddiadau ers hynny a allai fod wedi newid barn
- os oes amheuon ynghylch methodoleg pôl piniwn neu onestrwydd y rheini sy'n ei gynnal, rhaid defnyddio iaith amodol briodol. Mae cyngor ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol. Rhaid i wneuthurwyr cynnwys ystyried a yw canfyddiadau polau piniwn yn ddigon hygred i'w hadrodd; mae cyngor ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol
- ni ddylai polau piniwn a gomisiynir gan y BBC gael eu disgrifio fel 'pôl piniwn y BBC' fel arfer, ond fel 'pôl piniwn ar gyfer y BBC'. Lle bo modd, dylai manylion perthnasol, gan

gynnwys y cwestiynau, y canlyniadau a'r data sylfaenol, fod ar gael (er enghraifft drwy ddolen i wefan y cwmni polau piniwn) er mwyn i'r gynulleidfa gael gweld y fethodoleg a'r canlyniadau llawn.

## Polau Piniwn – Bwriad Pleidleisio

11.4.36 Rhaid i ganlyniad, ar ei ben ei hun, un pôl piniwn bwriad pleidleisio (neu unrhyw ddull arall o asesu cefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu gwestiynau refferenda) beidio â bod yn bennawd nac yn brif stori unrhyw allbwn.

(Gweler y canllawiau: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

Wrth adrodd ar bolau bwriad pleidleisio:

- yn y DU dylent, fel arfer, fod wedi cael eu cynnal gan aelod o'r British Polling Council
- rhaid gohebu ar ganfyddiadau arolygon o fwriadau pleidleisio yng nghyd-destun tuedd, a all gynnwys canlyniadau'r holl bolau piniwn mawr dros gyfnod penodol neu fod yn gyfyngedig i'r newid yn y canfyddiadau gan un cwmni polau piniwn. Dylid bod yn ofalus iawn wrth ymdrin â chanlyniadau polau piniwn sy'n wahanol heb esboniad credadwy.

11.4.37 **Rhaid i unrhyw gynnig i ohebu ar fwriadau pleidleisio a gafwyd drwy ddulliau ymchwil heblaw polau piniwn gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

Mae'r Uned Ymchwil Wleidyddol ar gael i roi cyngor, gan gynnwys mewn perthynas â pholau bwriad pleidleisio y tu allan i'r DU.

## Polau ar Ddiwrnod Pleidleisio

11.4.38 Yn y DU ac mewn llawer o wledydd eraill, mae cyfyngiadau cyfreithiol ar gyhoeddi a gohebu ar bolau piniwn ar ddiwrnod etholiad; mae cyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.24-10.4.25)

## Arolygon (ac eithrio gan gwmnïau polau piniwn), Holiaduron, Grwpiau Ffocws a Phleidleisiau

(Gweler 11.4.26-11.4.28)

11.4.39 I gael ei ddiffinio fel 'arolwg y BBC' ar unrhyw fater, rhaid i astudiaeth:

- gwmpasu grŵp diffiniedig a chyfyngedig y mae ei safbwyntiau, ei bolisïau, ei ymddygiadau neu ei brofiadau yn cael eu dadansoddi
- gytuno ar baramedrau rhifiadol ymlaen llaw, fel y gyfradd ymateb isaf sy'n dderbyniol
- fod â methodoleg y cytunwyd arni, yn cynnwys cwestiynau sydd wedi'u geirio'n briodol ac yn cael eu gofyn mewn ffordd gyson
- gael ei gofnodi mewn iaith sy'n sicrhau na fydd y BBC yn honni dim byd na ellir ei gadarnhau drwy gyfeirio at ddata
- gael ei gynnal gan y BBC, heb ei gomisiynu gan sefydliad trydydd parti.

Dylid adrodd y canlyniad gan gyfeirio at union nifer yr ymatebwyr fel arfer; rhaid bod yn ofalus wrth gyfeirio at ganrannau a nodi'r cyd-destun priodol bob amser.

(Gweler 11.4.8 ac 11.4.27)

11.4.40 Gellir defnyddio grwpiau ffocws, o'u dewis yn briodol, i ymchwilio i'r rheswm pam mae pobl yn arddel safbwyntiau penodol ond nid i'r graddau y maent yn cael eu harddel.

Rhaid i'r BBC beidio ag awgrymu bod barn grwpiau ffocws, er mor ofalus y gallent fod wedi'u dewis, yn cynrychioli barn y boblogaeth gyfan, nag adran benodol o'r boblogaeth; rhaid peidio â'u defnyddio fel ffordd o geisio amcangyfrif maint y gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu'r farn wleidyddol ymysg yr etholwyr yn gyffredinol.

11.4.41 Mae 'polau gwelltyn', drwy ddiffiniad, yn sampl anghynrychioliadol – maent yn cynnwys pleidleisiau ffôn, negeseuon testun ac ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol); nid ydynt yn dangos barn na phrofiadau grŵp ehangach, ac nid oes ganddynt unrhyw werth mewn mesur gwahaniaethau cymharol rhwng amrywiaeth o ymatebion. Fodd bynnag, gallant fod yn ffordd effeithiol o ryngweithio â'r gynulleidfa, fel pleidleisio mewn cystadlaethau, dangos dadl, neu eu defnyddio at ddiben ysgafn, fel cynnwys adloniant. Lle defnyddir polau gwelltyn mewn perthynas â gwleidyddiaeth, polisi cyhoeddus cyfredol neu faterion dadleuol, dylid cynnwys cyfeiriad penodol sy'n ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd eu bod yn rhai lle mae pobl wedi dewis cymryd rhan ac nad ydynt yn gynrychioladol nac yn wyddonol. Nid yw ymateb mwy yn eu gwneud yn fwy cynrychiadol mewn unrhyw ffordd.

Gellir rhoi'r canlyniadau yng nghyd-destun y cynnwys dan sylw gan nodi niferoedd gwirioneddol; dylid defnyddio canrannau'n ofalus. Fodd bynnag:

- ni ddylai canlyniadau polau gwelltyn am wleidyddiaeth, polisi cyhoeddus cyfredol neu faterion dadleuol ymddangos mewn bwletinau newyddion
- pan gynhelir polau gwelltyn ar yr un pwnc ar wahanol adegau, rhaid peidio â chyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd sy'n gallu awgrymu bod tuedd
- ni ddylid byth ddefnyddio polau gwelltyn i gasglu gwybodaeth bwysig am gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol neu fwriad pleidleisio.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Chynulleidfaoedd; a Pholau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

11.4.42 **Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn neu unrhyw fath o arolwg, holiadur, pleidlais neu grŵp ffocws ar faterion polisi cyhoeddus, pynciau gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol y diwrnod, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

11.4.43 **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal pleidlais dros y ffôn, drwy neges destun neu ar-lein (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol) ar unrhyw fater gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid cwblhau'r broses gymeradwyo briodol.**

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.23-17.4.24)

11.4.44 Gall mathau eraill o ymchwil neu astudiaethau cymdeithasol (a allai gynnwys gwaith academaidd dilys) fod yn rhai lle mae pobl wedi dewis cymryd rhan neu'n peidio â chynrychioli unrhyw grŵp mwy mewn ffordd arall. Gall y math hwn o ymchwil fod yn ffordd ddefnyddiol o gael gwybod am brofiadau unigolion ac, o bryd i'w gilydd, o nodi union nifer y bobl sydd â phrofiad penodol. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio fel arfer i fesur barn neu brofiadau'r grŵp yn ei gyfanrwydd, nac i briodoli gwerth cymesur i wahanol ymatebion; ni ddylid byth ei ddefnyddio at y dibenion hynny o ran gwleidyddiaeth, polisi cyhoeddus cyfredol na materion dadleuol eraill.

11.4.45 Wrth ohebu ar arolygon sydd wedi'u comisiynu neu eu cynnal gan sefydliadau eraill, dylid eu trin ag amheuaeth briodol a, lle bo'n briodol, dylid disgrifio eu methodoleg. Mae angen bod yn ofalus, yn enwedig mewn allbwn newyddion, i beidio â gohebu ar arolygon o'r fath mewn ffordd sy'n arwain y gynulleidfa i gredu eu bod yn fwy dibynadwy nag y maent mewn gwirionedd.

## Vox Pops

11.4.46 Gwerth vox pops yw caniatáu i wahanol ochrau dadl gael eu mynegi drwy leisiau'r cyhoedd. Ond dylai'r cyd-destun ei gwneud yn glir eu bod yn dangos dadl, nid yn mesur barn. Dylid bod yn ofalus, er enghraifft, wrth ddewis y lleoliad lle cânt eu cofnodi a dylid eu golygu fel arfer mewn ffordd sy'n sicrhau bod ystod briodol o safbwyntiau'n cael ei hadlewyrchu. Ni ddylid eu defnyddio i awgrymu cyfwerthedd ffug. Fel arfer, dim ond gyda phwrpas golygyddol penodol y dylid comisiynu vox pops am wleidyddiaeth, polisi cyhoeddus cyfredol a materion dadleuol.

# ADRAN 12: Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, trychineb ac anhrefn

12.1 Cyflwyniad

12.2 Egwyddorion

12.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

12.4 Canllawiau

- Cywirdeb a Didueddrwydd
- Sylwadau gan Gynulleidfaoedd a Chymedroli
- Defnydd o Iaith
- Adnabod Dioddefwyr
- Protestiadau, Aflonyddwch a Therfysgoedd Treisgar
- Digwyddiadau Wedi'u Llwyfannu
- Bygythiadau a Galwadau Ffug
- Gwarchae, Lladd Torfol, Cymryd Gwystlon a Herwgipio
- Diogelwch Gwladol a Gwrthderfysgaeth
- Deddfau Terfysgaeth
- Amgylcheddau Gelyniaethus a Hysbysiadau Cynghori ar Deithio

## 12.1 CYFLWYNIAD

Mae gan y BBC gyfrifoldeb arbennig i'w gynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol wrth roi gwybod am wrthdaro gan gynnwys rhyfeloedd, a thrais eithafol gan gynnwys trais eithafol at ddibenion gwleidyddol neu ideolegol, a gwarchae[87]. Mae pobl ym mhob rhan o'r byd yn defnyddio gwasanaethau'r BBC i gael newyddion a gwybodaeth ddibynadwy. Maent yn disgwyl cyd-destun a dadansoddiad ac amrywiaeth eang o farnau a safbwyntiau. Mae bod yn graff wrth gymhwyso cywirdeb a didueddrwydd dyladwy yn hollbwysig.

Rhaid gofalu na fydd newyddiaduraeth y BBC yn rhoi unigolion mewn perygl o niwed ychwanegol nac yn achosi gofid diangen.

Mae tôn ac iaith yn bwysig wrth roi gwybod am farwolaeth a dioddefaint pobl. Efallai y bydd gan rai o'r cynulleidfaoedd berthnasau neu ffrindiau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol. Dylid osgoi achosi

[87] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 3: Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth ac 8: Preifatrwydd

tramgwydd yn ddiangen yn ogystal â sicrhau bod realiti digwyddiadau'n cael ei gyfleu ac nad yw adroddiadau'n cael eu haddasu'n ormodol. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol cryf dros ddefnyddio lluniau graffig iawn. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ni ddylai perthnasau agosaf gael gwybod am farwolaeth neu anaf perthynas o unrhyw gynnwys y BBC.

Yn ogystal ag ystyriaethau golygyddol a moesegol, mae deddfwriaeth terfysgaeth y DU yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar unigolion – yn cynnwys newyddiadurwyr – i ddatgelu gwybodaeth benodol i'r heddlu cyn gynted ag y gellir yn ymarferol.

Rhoddir canllawiau penodol ar adrodd ar ryfel, yn ôl yr angen, ar y wefan Canllawiau Golygyddol.

Ar adegau o ryfel, terfysgaeth neu drychineb, dylid parhau i adolygu gwasanaethau, yn enwedig allbwn sydd wedi'i amserlennu a rhaghysbysebion yn cynnwys ffilmiau, drama, comedi a cherddoriaeth, er mwyn canfod unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn amhriodol yng nghyd-destun digwyddiadau.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.1 Adran 3 Cywirdeb: 3.1 Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.9 a 5.4.22 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.57)

## 12.2 EGWYDDORION

12.2.1 Rhaid i adroddiadau'r BBC am ryfel, terfysgaeth, trychinebau a digwyddiadau tebyg fodloni gofynion y Canllawiau Golygyddol ar Gywirdeb a Didueddrwydd.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd ac Adran 3 Cywirdeb)

12.2.2 Mae'n bwysig bod urddas dynol yn cael ei barchu heb addasu'n ormodol realiti rhyfel, terfysgaeth, trychinebau na digwyddiadau tebyg. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol cryf dros ddefnyddio cynnwys graffig iawn.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.22 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.55)

12.2.3 Dylai gwneuthurwyr cynnwys ystyried Confensiwn Genefa 1949 a'r Protocolau Ychwanegol, yn enwedig fel y maent yn berthnasol i'r ffordd mae carcharorion rhyfel, gwystlon a charcharorion yn cael eu trin. Os yw darpariaethau wedi cael eu diystyru, dylid ystyried yn ofalus defnyddio unrhyw ddeunydd sy'n bychanu neu'n diraddio carcharorion rhyfel, gwystlon a charcharorion ac yn diystyru eu hawl i urddas dynol.

12.2.4 Pan fydd pobl wedi cael eu lladd, eu hanafu neu pan fyddant ar goll, mae'n bwysig sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, na fydd y perthnasau agosaf yn cael gwybod drwy allbwn y BBC.

# 12.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

*Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.*

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

12.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i ddigwyddiad a lwyfannwyd ar gyfer y cyfryngau gan sefydliadau gwaharddedig dan gyfraith y DU, neu gan grwpiau sy'n adnabyddus am drais eithafol i gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ei atgyfeirio hefyd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 12.4.11)

12.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiad a lwyfannwyd yn y DU neu mewn gwlad dramor, lle gwnaed bygythiadau yn erbyn dinasyddion y DU, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 12.4.12)

12.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu cynnwys a wnaed gan gyflawnwyr gwarchae neu lofruddiaethau torfol, herwgipio, llofruddiaeth neu gymryd gwystlon gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Dylid ei atgyfeirio hefyd i'r tîm Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 12.4.19)

12.3.4 Rhaid i unrhyw gais gan yr heddlu neu eraill am atal stori newyddion am ddigwyddiad penodol yn llawn neu'n rhannol gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, a rhaid iddo yntau ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 12.4.20)

12.3.5 Mae'r ddeddfwriaeth Cyfrinachau Swyddogol yn effeithio ar allu'r BBC i adrodd ar rai materion sy'n ymwneud â diogelwch cyfrinachol a deallusrwydd. Rhaid i wneuthurwyr cynnwys ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni wrth ymdrin â deunydd sy'n dod neu all ddod o dan ei thelerau.

(Gweler 12.4.21)

12.3.6 Rhaid i unrhyw gysylltiad â, neu oddi wrth, Ysgrifennydd Pwyllgor Cynghori'r Cyfryngau ar Amddiffyn a Diogelwch[88] gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

---

[88] Cyfeirir ato weithiau dan ei enw blaenorol 'D-Notice Committee'

(Gweler 12.4.22)

12.3.7 Rhaid i unrhyw sefyllfa lle y gall fod rhwymedigaethau ar staff y BBC neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys i'r BBC o dan y Deddfau Terfysgaeth gael ei hatgyfeirio'n ddi-oed i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 12.4.23)

12.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig i gysylltu â sefydliad (neu unrhyw aelod unigol o sefydliad) sydd wedi'i ddynodi'n 'grŵp terfysgol' gan Ysgrifennydd Cartref y DU o dan y Deddfau Terfysgaeth, ac unrhyw gynnig i gysylltu ag unigolion neu sefydliadau sy'n gyfrifol am drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol, i ofyn iddynt gymryd rhan yn allbwn y BBC, boed hynny yn y DU neu'n rhyngwladol, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 12.4.23)

## Atgyfeiriadau Eraill

12.3.9 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiadau cyfreithlon lle mae grwpiau paramilwrol neu grwpiau eraill sydd â hanes hysbys o drais neu fygwth yn trefnu i ymddangos gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi Golygyddol.

(Gweler 12.4.13)

12.3.10 Cyn ymchwilio, cysylltu neu o bosibl mynd ati'n gyfrinachol i recordio grwpiau neu unigolion yr amheuir eu bod yn cyflawni trosedd difrifol neu a allai fod yn dreisgar, neu drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol ac eithafiaeth, rhaid ymgynghori â Thîm Risg Uchel, Polisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni BBC Safety.

(Gweler 12.4.24)

12.3.11 Rhaid i unrhyw gynnig i deithio i wlad neu ardal sydd wedi'i dynodi'n Amgylchedd Gelyniaethus neu lle mae Hysbysiad Cynghori ar Deithio yn gymwys, gael ei atgyfeirio i Dîm Risg Uchel BBC Safety cyn ymadael.

(Gweler 12.4.25)

# 12.4 CANLLAWIAU

## Cywirdeb a Didueddrwydd

12.4.1 Wrth ohebu ar ryfel, a rhoi sylw i argyfyngau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys trais eithafol at ddibenion gwleidyddol neu ideolegol, trychinebau a damweiniau mawr, mae'n bwysig nodi ffynhonnell yr wybodaeth a'r deunydd gan drydydd partïon, yn enwedig os oes honiadau sy'n anghyson â'i gilydd. Mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau anhrefnus yn aml yn creu camwybodaeth. Er enghraifft, yn aml bydd yr amcangyfrifon cyntaf o nifer y bobl sydd wedi'u hanafu yn cael eu profi'n anghywir. Os bydd gwahanol ffynonellau'n rhoi amcangyfrifon gwahanol, dylai gwneuthurwyr cynnwys naill ai adrodd ar amrediad y niferoedd neu ddewis y ffynhonnell fwyaf awdurdodol a phriodoli'r amcangyfrif iddi.

12.4.2 Dylai'r BBC ei gwneud yn glir os yw adroddiadau'n cael eu sensro neu eu monitro neu os gofynnir i wneuthurwyr cynnwys gadw gwybodaeth yn ôl, neu os oes rhaid iddynt wneud hynny. Dylai'r BBC egluro, lle bynnag y bo modd, yr amodau y mae'n gweithredu oddi tanynt.

12.4.3 Rhaid i ohebwyr fod yn ymwybodol y gall sylwadau y maent yn eu gwneud ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gael eu gweld yn rhai sydd â'r un awdurdod ag adroddiad gan y BBC, felly dylent gofio'r gofyniad am gywirdeb a didueddrwydd dyladwy bob amser. Rhaid cywiro anghywirdebau cyn gynted â phosibl.

12.4.4 Wrth adrodd ar wrthdystiadau, aflonyddwch a digwyddiadau tebyg, dylid trin amcangyfrifon o'r niferoedd dan sylw gyda'r amheuaeth briodol; dylid rhoi gwybod am wahaniaethau mawr yn ogystal â ffynonellau'r ffigurau. Dylid cynnig golwg gynhwysfawr a diduedd ar ddigwyddiadau. Pan fydd yn anodd i ohebwyr ffurfio barn gyffredinol glir oherwydd eu lleoliad, dylid rhoi eu deunydd mewn cyd-destun ehangach.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.1 a 3.4.16)

12.4.5 Mewn argyfwng sifil yn y DU, mae'r BBC yn ceisio darparu gwybodaeth hanfodol er mwyn diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau. Dylai gwneuthurwyr cynnwys weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i adnabod y mathau o ddigwyddiadau mawr sy'n galw am ymateb arbennig. Fodd bynnag, rhaid gwneud penderfyniadau golygyddol priodol i sicrhau cywirdeb ac annibyniaeth.

(Gweler 12.4.20)

## Sylwadau gan Gynulleidfaoedd a Chymedroli

12.4.6 Ar adegau o wrthdaro, ceir mathau arbennig o sensitifrwydd; er enghraifft am ddiogelwch cynlluniau milwrol gweithredol, am osgoi enwi'r bobl sydd wedi'u hanafu cyn hysbysu'r perthnasau

agosaf, a delio â sïon – dylid ystyried y ffactorau hyn gan barhau i gynnal trafodaeth agored. Mae'n bosibl y bydd angen i wneuthurwyr cynnwys ystyried cyfyngu ar storïau ar-lein sy'n agored i sylwadau a gwneud trefniadau priodol ar gyfer cymedroli sylwadau – gallai fod yn angenrheidiol cymedroli sylwadau cyn eu dangos. Efallai na fyddai'n briodol cyhoeddi storïau'r BBC ar gyfryngau cymdeithasol lle nad yw'n hawdd cymedroli sylwadau a lle gall cymedroli alw am ddefnyddio adnoddau helaeth.

(Gweler 12.4.9)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.55)

(Gweler y canllawiau: Cyfraniadau a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr)

## Defnydd o Iaith

12.4.7 Dylid adrodd ar drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol mewn ffordd amserol a chyfrifol, gan gofio'r gofyniad am gywirdeb a didueddrwydd dyladwy. Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio iaith sy'n cynnwys dyfarniadau gwerth ymhlyg. Nid yw'r rhai sy'n cyflawni trais gwleidyddol neu ideolegol eithafol yn cael eu gweld yn yr un ffordd gan bob cynulleidfa.

12.4.8 Dim ond gyda phriodoliad y dylid defnyddio'r term 'terfysgwr' h.y. wrth ddyfynnu neu gyfeirio at ei ddefnydd gan eraill. Ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys fabwysiadu iaith pobl eraill; eu cyfrifoldeb yw aros yn wrthrychol a gohebu mewn ffordd sy'n galluogi cynulleidfaoedd i wneud eu hasesiadau eu hunain. Dylai'r BBC gyfleu i'r gynulleidfa ganlyniadau llawn gweithred drwy ddisgrifio'r cyflawnwyr fel, er enghraifft, 'bomwyr', 'saethwyr', 'herwgipwyr', 'gwrthryfelwyr' a 'milwriaethwyr'. Dylid ond disgrifio eu gweithredoedd fel 'ymosodiadau terfysgol' gan briodoli.

## Adnabod Dioddefwyr

12.4.9 Pan fydd pobl wedi cael eu lladd, eu hanafu neu pan fyddant ar goll, mae'n bwysig sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod y perthnasau agosaf yn cael gwybod gan yr awdurdodau perthnasol ac nid gan dimau cynhyrchu neu allbwn y BBC. Mae hyn yn berthnasol lle bynnag yn y byd y mae'r digwyddiad wedi digwydd.

Er mwyn lleihau pryder, dylid cyfyngu'r maes sydd dan sylw mor fuan â phosibl heb enwi dioddefwyr unigol, er enghraifft yn achos damwain awyren, drwy gynnwys manylion fel y cwmni hedfan, rhif y daith awyren, y man ymadael a'r cyrchfan.

(Gweler 12.4.6)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.52-7.4.55)

## Protestiadau, Aflonyddwch a Therfysgoedd Treisgar

12.4.10 Mae rhoi sylw i brotestiadau treisgar, aflonyddwch a therfysgoedd yn rhan bwysig o'r broses o ohebu newyddion. Gall gwneuthurwyr cynnwys gynnal cyfweliadau gyda threfnwyr ar yr amod bod yr allbwn yn ddigon diduedd. Rhaid i'r cyfweliadau fod yn drwyadl ac yn heriol a dylai'r allbwn gynnwys safbwyntiau gwahanol.

Yn ogystal â'r canllawiau penodol ar gywirdeb a didueddrwydd, mae'n bwysig i wneuthurwyr cynnwys:

- asesu'r risg y gall dangos rhagolygon o brotestiadau a allai fod yn dreisgar annog pobl i gymryd rhan. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal trafodaeth am y materion sy'n sail i'r brotest
- tynnu'n ôl ar unwaith os ydynt yn amau bod eu presenoldeb yn gwaethygu'r sefyllfa
- bod yn barod i gasglu deunydd i'w ddefnyddio neu ei olygu'n ddiweddarach, os bydd y trais neu'r anhrefn yn dod yn rhy amlwg neu graffig i'w ddarlledu'n fyw
- bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried a ddylid defnyddio deunydd sy'n cael ei bostio gan brotestwyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylai gwneuthurwyr cynnwys lynu wrth Ganllawiau'r BBC ar ddidueddrwydd, defnyddio deunydd trydydd parti a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Rhaid i wneuthurwyr cynnwys gofio y gallai defnyddio deunydd o'r fath annog gweithgarwch pellach a mwy peryglus.

(Gweler 12.4.1-12.4.5)

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.22)

## Digwyddiadau Wedi'u Llwyfannu

12.4.11 **Rhaid i unrhyw gynnig i fynd i ddigwyddiad a lwyfannwyd ar gyfer y cyfryngau gan sefydliadau gwaharddedig dan gyfraith y DU, neu gan grwpiau sy'n adnabyddus am drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Rhaid ei atgyfeirio hefyd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

12.4.12 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiad a lwyfannwyd yn y DU neu mewn gwlad dramor, lle gwnaed bygythiadau yn erbyn dinasyddion y DU, gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

12.4.13 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiadau cyfreithlon lle mae grwpiau paramilwrol neu grwpiau eraill sydd â hanes hysbys o drais neu fygwth yn trefnu i ymddangos gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi Golygyddol.**

## Bygythiadau a Galwadau Ffug

12.4.14 Os bydd rhybudd am fom neu fygythiad arall sy'n benodol a chredadwy, ein blaenoriaeth gyntaf fydd ei drosglwyddo i'r awdurdodau priodol.

12.4.15 Rhaid peidio â datgelu manylion diogelwch neu wybodaeth sensitif arall nad yw ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd a allai fod o gymorth i ymosod.

12.4.16 Fel arfer, ni ddylid adrodd ar fygythiadau yn erbyn unigolion a enwir oni bai eu bod wedi cael effaith weladwy, fel canslo ymddangosiad cyhoeddus.

12.4.17 Rhaid cymryd gofal i beidio ag enwi unigolion neu sefydliadau, na fyddent mewn perygl fel arall, yn dargedau posibl oni bai fod cyfiawnhad golygyddol pwysicach. Mae unigolion neu sefydliadau a allai fod mewn perygl o gael eu targedu yn cynnwys y rheini sy'n cynnal profion ar anifeiliaid neu'n gweithio i sefydliadau milwrol.

12.4.18 Fel arfer, ni ddylid adrodd ar ddigwyddiadau sy'n cael eu profi'n ffug oni bai eu bod yn cael effaith ddifrifol ac amlwg, fel problemau teithio difrifol ac amlwg iawn.

## Gwarchae, Lladd Torfol, Cymryd Gwystlon a Herwgipio

12.4.19 Mewn achosion o warchae, llofruddiaethau torfol, herwgipio, cymryd gwystlon, herwgipio, llofruddiaeth a bomio neu ddigwyddiadau tebyg eraill, rhaid i wneuthurwyr cynnwys fod yn ymwybodol y bydd modd i unrhyw beth maent yn ei ddarlledu gael ei weld neu ei glywed, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan y drwgweithredwyr yn y DU ac mewn gwledydd tramor.

Mae'n bwysig bod hawliadau gan ddrwgweithredwyr yn cael eu hadrodd yn eu cyd-destun. Dylai gwneuthurwyr cynnwys roi ystyriaeth ofalus hefyd i'r materion moesegol a godir drwy roi llwyfan i saethwyr, bomwyr, herwgipwyr neu gymerwyr gwystlon, yn enwedig os byddant yn gwneud cyswllt uniongyrchol.

Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol wrth ohebu digwyddiadau ac ni ddylai gwneuthurwyr cynnwys:

- cyfweld drwgweithredwyr yn fyw ar yr awyr

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.14-8.4.16)

- darlledu'n fyw unrhyw gynnwys gan ddrwgweithredwr.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu cynnwys a wnaed gan gyflawnwyr gwarchae neu lofruddiaethau torfol, herwgipio, llofruddiaeth neu gymryd gwystlon gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu. Dylid ei atgyfeirio hefyd i'r tîm Polisi Golygyddol.**

Yn ogystal, rhaid i wneuthurwyr cynnwys:

- cofio nad oes modd rhagweld y canlyniad a bod yn ofalus ynghylch darlledu delweddau byw gan eu bod mewn perygl o ddangos deunydd trallodus sy'n anaddas i'w ddarlledu

- craffu'n newyddiadurol briodol ar gynnwys gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol gan ddioddefwyr honedig, ac adroddiadau gan lygad-dystion i sicrhau ei bod yn gywir cyn ei defnyddio.

Pan fydd dioddefwr honedig mewn sefyllfa sy'n parhau yn cyhoeddi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, bydd angen i wneuthurwyr cynnwys ystyried yn ofalus iawn a fydd yr ohebiaeth ar y sefyllfa yn achosi mwy o berygl i'r dioddefwr honedig, neu ddioddefwyr eraill. Rhaid ystyried a ydynt o dan bwysau gan y sawl sy'n cyflawni'r trosedd i roi datganiadau ffug neu bropaganda.

12.4.20 Wrth adrodd ar storïau sy'n ymwneud â gwarchae, llofruddiaethau torfol, cymryd gwystlon a herwgipio, rhaid i wneuthurwyr cynnwys roi ystyriaeth ddyladwy i gyngor gan yr heddlu ac awdurdodau eraill ynghylch unrhyw beth a fyddai, wrth ohebu arno, yn gallu gwaethygu'r sefyllfa. Weithiau byddant yn gofyn i'r BBC ddal gwybodaeth yn ôl neu ei chynnwys mewn rhai achosion. Bydd y BBC yn cydymffurfio fel arfer â chais rhesymol, ond ni fydd yn darlledu unrhyw beth anwir yn fwriadol.

**Rhaid i unrhyw gais gan yr heddlu neu eraill am atal pob stori newyddion am ddigwyddiad penodol, neu ran ohoni, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch, a rhaid iddo yntau ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol**.

## Diogelwch Gwladol a Gwrthderfysgaeth

### Deddfwriaeth Cyfrinachau Swyddogol

12.4.21 **Mae'r ddeddfwriaeth Cyfrinachau Swyddogol yn effeithio ar allu'r BBC i adrodd ar rai materion sy'n ymwneud â diogelwch cyfrinachol a deallusrwydd. Rhaid i wneuthurwyr cynnwys ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni wrth ymdrin â deunydd sy'n dod neu all ddod o dan ei thelerau.** Mae'n bwysig bod unrhyw ddeunydd o'r math hwn ond yn cael ei rannu lle bo angen.

### Hysbysiadau Cynghori'r Cyfryngau ar Amddiffyn a Diogelwch

12.4.22 Mae Hysbysiadau Cynghori'r Cyfryngau ar Amddiffyn a Diogelwch yn darparu cyfarwyddyd i'r cyfryngau am wybodaeth a fyddai, o'i darlledu neu ei chyhoeddi, yn gallu niweidio diogelwch gwladol. Maent yn ymdrin â chyhoeddi deunydd sy'n cynnwys codau a seiffrau dirgel iawn, gwybodaeth nad yw ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd am gyfleusterau a gorsafoedd milwrol allweddol a gwybodaeth am Wasanaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth a Lluoedd Arbennig y DU.

Gellir darllen yr Hysbysiadau sefydlog ar wefan System Hysbysiadau DSMA.

Mae'r system yn wirfoddol; nid oes awdurdod cyfreithiol iddi a'r BBC sy'n llwyr gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a fyddwn yn darlledu neu'n cyhoeddi deunydd ar y BBC ai peidio. Dylai gwneuthurwyr cynnwys ofyn am gyngor gan ffigwr golygyddol uwch a chyngor cyfreithiol yn gynnar wrth ymdrin â deunydd sy'n dod neu all ddod o dan yr Hysbysiadau.

**Rhaid i unrhyw gysylltiad â, neu gan, Ysgrifennydd Pwyllgor Cynghori'r Cyfryngau ar Amddiffyn a Diogelwch[89] gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Deddfau Terfysgaeth

12.4.23 Mae rhwymedigaeth gyfreithiol o dan y Deddfau Terfysgaeth i ddatgelu i'r heddlu, cyn gynted ag y gellir yn ymarferol, unrhyw wybodaeth y mae gwneuthurwyr cynnwys yn gwybod neu'n credu y gallai fod o gymorth sylweddol i:

- atal cyflawni gweithred derfysgol mewn unrhyw le yn y byd
- sicrhau arestio, erlyn neu gollfarnu person yn y DU, am drosedd yn ymwneud â chyflawni, paratoi neu ysgogi gweithred derfysgol.

Mae peidio â datgelu gwybodaeth o'r fath yn drosedd. **Rhaid i unrhyw sefyllfa lle y gall fod rhwymedigaethau ar staff y BBC neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys i'r BBC o dan y Deddfau Terfysgaeth gael ei hatgyfeirio'n ddi-oed i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ac i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

[89] Cyfeirir ato weithiau dan ei enw blaenorol 'D-Notice Committee'

Mae'r Deddfau'n rhoi pwerau i Ysgrifennydd Cartref y DU ddynodi sefydliadau yn y DU ac mewn gwledydd tramor yn 'grwpiau terfysgol', gan ei gwneud yn anghyfreithlon iddynt weithredu yn y DU. Mae rhestr o sefydliadau gwaharddedig ar wefan y Swyddfa Gartref. **Rhaid i unrhyw gynnig i gysylltu â sefydliad (neu unrhyw aelod unigol o sefydliad) sydd wedi'i ddynodi'n 'grŵp terfysgol' gan Ysgrifennydd Cartref y DU o dan y Deddfau Terfysgaeth, ac unrhyw gynnig i gysylltu ag unigolion neu sefydliadau sy'n gyfrifol am drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol, i ofyn iddynt gymryd rhan yn allbwn y BBC, boed hynny yn y DU neu'n rhyngwladol, gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.4)

12.4.24 **Cyn ymchwilio, cysylltu neu o bosibl mynd ati'n gyfrinachol i recordio grwpiau neu unigolion yr amheuir eu bod yn cyflawni trosedd difrifol neu a allai fod yn dreisgar, neu drais eithafol wrth gyflawni amcanion gwleidyddol neu ideolegol ac eithafiaeth, rhaid ymgynghori â Thîm Risg Uchel, Polisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni BBC Safety.**

## Amgylcheddau Gelyniaethus a Hysbysiadau Cynghori ar Deithio

12.4.25 **Rhaid i unrhyw gynnig i deithio i wlad neu ardal sydd wedi'i dynodi'n Amgylchedd Gelyniaethus neu lle mae Hysbysiad Cynghori ar Deithio yn gymwys, gael ei atgyfeirio i Dîm Risg Uchel BBC Safety cyn ymadael.**

Mae 'amgylchedd gelyniaethus' yn wlad, rhanbarth neu ardal benodol lle ceir rhyfela, gwrthryfel, aflonyddwch sifil, terfysgaeth neu lefelau eithafol o droseddu, ysbeilio neu anghyfraith, neu gynnwrf cyhoeddus neu glefyd epidemig. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd lle ceir hinsawdd neu dirwedd eithafol.

Mae 'Hysbysiad Cynghori ar Deithio' yn berthnasol i wledydd neu ardaloedd lle mae angen arfer gofal arbennig.

Mae BBC Safety yn cadw rhestr o amgylcheddau gelyniaethus a hysbysiadau cynghori ar deithio ar ei wefan[90].

---

[90] Gweler Gwefan BBC Safety: Mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

# ADRAN 13: DEFNYDDIO CYNNWYS Y BBC AR ÔL EI GYHOEDDI NEU EI DDARLLEDU

13.1 Cyflwyniad

13.2 Egwyddorion

13.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

13.4 Canllawiau

- Cyffredinol
- Ystyriaethau o ran Cywirdeb
- Ystyriaethau o ran Tegwch, Cydsyniad a Phreifatrwydd
- Ystyriaethau o ran Niwed a Thramgwydd
- Rheoli Cynnwys Ar-lein
- Ceisiadau gan Drydydd Partïon am Gynnwys y BBC

## 13.1 CYFLWYNIAD

Mae archifau golygyddol y BBC yn gofnod cenedlaethol pwysig ac yn adnodd defnyddiol a gwerthfawr. Mae er budd y cyhoedd[91] i'r archifau fod ar gael pan fo'n bosibl ac yn briodol.

Mae'r archifau'n cynnwys yr holl gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi gan y BBC. Maent hefyd yn cynnwys rhai brysluniau a recordiadau sain a deunyddiau ysgrifenedig sydd heb eu cyhoeddi/darlledu, fel nodiadau ymchwil, gohebiaeth a data arall sy'n ymwneud â chynnwys golygyddol.

Nid yw holl archifau'r BBC ar gael i'r cyhoedd – ac mae'r graddau y mae deunydd archif ar gael i'r cyhoedd yn amrywio. Mae rhagdybiaeth bod deunydd sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein, fel cynnwys BBC News, yn rhan o archif sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn barhaol, oni bai ei fod ar gael dros dro. Gall y BBC ailddefnyddio neu ailfersiynu rhaglenni hanesyddol a, lle bo hynny'n briodol a gyda chaniatâd, gall trydydd partïon wneud hynny. Nid yw brysluniau a recordiadau sain sydd heb eu cyhoeddi/darlledu ar

[91] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

gael i'r cyhoedd ond maent yn dal yn rhan o archifau'r BBC a gall y BBC neu drydydd partïon eu defnyddio eto, lle bo hynny'n briodol.

Mae gan y BBC gyfrifoldeb parhaus i drin ei gynnwys yn unol â'r Canllawiau Golygyddol ar ôl iddo gael ei gyhoeddi neu ei ddarlledu, er enghraifft pan fydd yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau ychwanegol y dylid eu cymryd pan mae cynnwys yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu. Mae'n berthnasol i gynnwys sydd wedi cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi'n ddiweddar, gan gynnwys drwy wasanaethau ar-lein fel BBC Sounds neu BBC iPlayer, ac i gynnwys sy'n hanesyddol. Mae hefyd yn berthnasol p'un a yw'r cynnwys yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu gan y BBC neu gan drydydd parti.

Mae'n cynnwys ceisiadau gan drydydd partïon am unrhyw ddeunydd gan y BBC ac mae hefyd yn rhoi sylw i sut mae rheoli cynnwys ar-lein, gan gynnwys ceisiadau i dynnu neu i ddiwygio cynnwys[92].

# 13.2 EGWYDDORION

13.2.1 Wrth ailddefnyddio neu ailfersiynu cynnwys, rhaid ystyried y Canllawiau Golygyddol cyfredol. Byddai cynnwys yn yr archifau wedi cael ei wneud yn unol â safonau golygyddol y BBC ar y pryd a, gyda threigl amser, mae'n bosibl bod y safonau hynny wedi newid.

13.2.2 Mae cyfrifoldeb parhaus i barchu preifatrwydd a bod yn deg â chyfranwyr, wrth ailddefnyddio neu ailfersiynu cynnwys.

13.2.3 Mae rhagdybiaeth y bydd deunydd a gyhoeddir ar-lein yn rhan o archif a fydd ar gael yn gyhoeddus ac yn barhaol, oni bai ei fod ond ar gael dros dro. Rhaid cadw'r archif ar-lein mor gyfan â phosibl.

13.2.4 Fel arfer, ni ddylid diwygio cynnwys a gyhoeddwyd gyda'r disgwyliad o fod ar gael yn barhaol, yn enwedig cynnwys newyddion, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei ddileu neu ei guddio.

(Gweler 13.4.27)

13.2.5 Mae cyfrifoldeb parhaus i ystyried didueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC; rhaid peidio â thanseilio'r rhain pan fydd cynnwys yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu, boed hynny gan y BBC neu gan drydydd parti.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.2.1)

---

[92] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 2: Niwed a Thramgwydd, 5: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau; 7: Tegwch ac 8: Preifatrwydd

# 13.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL - rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

13.3.1 Rhaid i bob cais am ddeunydd sydd heb ei gyhoeddi, heb ei ddarlledu neu heb ei ddefnyddio fel arall – yn cynnwys nodiadau – gan yr heddlu neu mewn cysylltiad ag achos llys, achos llys posibl neu weithdrefnau eraill lle y gallai'r deunydd gael ei ystyried yn dystiolaeth (fel gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoleiddio), gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 13.4.41)

## Atgyfeiriadau Eraill

13.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio cynnwys o'r archif y cafwyd cyn hynny ei fod yn torri safonau golygyddol neu godau rheoleiddio cynnwys gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.2)

13.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio dull cyffyrddiad ysgafn o sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer rhyddhau cynnwys ar raddfa fawr gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.8)

13.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio cynnwys o'r archif a all beri gofid yn groes i ddymuniadau'r cyfranwyr perthnasol, dioddefwyr neu deulu agos rhywun sydd wedi marw gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu a ddylai, fel arfer, ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.15)

13.3.5 Rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni am unrhyw fwriad i ddefnyddio deunydd o'r archif sy'n dangos trosedd os yw achos llys a all fod yn gysylltiedig ar fin dechrau neu wedi dechrau.

(Gweler 13.4.19)

13.3.6 Rhaid i unrhyw gynlluniau i ailddefnyddio, ailfersiynu neu drefnu bod cynnwys ar gael fel arall, sy'n cynnwys aelodau o'r Teulu Brenhinol neu'r Palasau Brenhinol, gael eu hatgyfeirio i Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC. Nid yw hyn yn berthnasol i gynnwys newyddion sy'n dangos aelodau o'r Teulu Brenhinol yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus.

(Gweler 13.4.20)

### 13.3.7 Os oes cynnig, mewn amgylchiadau eithriadol, i beidio â glynu wrth gyfyngiadau ar ailddefnyddio cynnwys o'r archif a allai beri gofid, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.23)

13.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig i dynnu cynnwys ar-lein sydd ar gael yn gyhoeddus o un o safleoedd y BBC neu rywle arall, sydd naill ai yn y ffenestr o fod ar gael, neu ar gael yn barhaol, gael ei atgyfeirio i'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a fydd, efallai, yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.27)

13.3.9 Rhaid ymgynghori â Phenaethiaid perthnasol Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion ynghylch geiriad esboniadau rhaglen-benodol ar gyfer Label Diddymu, Diwygio neu Gywiro.

(Gweler 13.4.29)

13.3.10 Rhaid i geisiadau am dynnu tudalennau a roddwyd i'w cadw â phennawd bras yn datgan nad yw'r dudalen wedi'i diweddaru'n ddiweddar, gael eu hatgyfeirio i'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol.

(Gweler 13.4.30)

13.3.11 Rhaid i bob cais gan drydydd partïon am gynnwys a gyhoeddwyd neu a ddarlledwyd mewn cysylltiad ag achos llys, neu weithdrefnau eraill lle y gallai'r deunydd gael ei ystyried yn dystiolaeth, gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.32)

13.3.12 Rhaid i'r timau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a World Service ymgynghori â thîm cyfreithiol Technoleg a Chynnyrch Defnyddwyr[93] am unrhyw gais gan drydydd partïon i ailddefnyddio neu ailfersiynu deunydd y BBC (gan gynnwys cynnwys golygyddol, metadata ac asedau eraill) fel cydrannau

---

[93] ConsumerTechnology&ProductsLegal@bbc.co.uk

deallusrwydd artiffisial. Rhaid i dimau BBC Studios ymgynghori â thîm Materion Rheoleiddio BBC Studios am unrhyw geisiadau o'r fath. Gellir ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol ym mhob achos.

(Gweler 13.4.34)

13.3.13 Dylai ceisiadau gan drydydd partïon i gael deunydd sydd heb ei ddefnyddio, yn cynnwys nodiadau, brysluniau neu recordiadau sain, gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, a fydd o bosibl yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol mewn achosion sensitif.

(Gweler 13.4.36)

13.3.14 Dylai unrhyw gynnig i roi manylion personol, sylwadau neu wybodaeth bersonol arall unigolyn i drydydd parti heb gael cydsyniad yr unigolyn gael ei atgyfeirio i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, a phan fo'n briodol, â'r tîm Hawliau Gwybodaeth.

(Gweler 13.4.37)

# 13.4 CANLLAWIAU

## Cyffredinol

13.4.1 Wrth ailddefnyddio neu ailfersiynu cynnwys, rhaid ystyried y Canllawiau Golygyddol cyfredol. Byddai cynnwys yn yr archifau wedi cael ei wneud yn unol â safonau golygyddol y BBC ar y pryd a, gyda threigl amser, mae'n bosibl bod y safonau hynny wedi newid.

Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol beth bynnag fo'r llwyfan arfaethedig ac oedran y deunydd – gan gynnwys cynigion sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial, i ddefnyddio cynnwys archif y BBC.

13.4.2 Pan fydd cynnwys yn cael ei ailddefnyddio, ei ailfersiynu neu'n cael ei ddarparu fel arall, rhaid ystyried dyfarniadau o dorri safonau golygyddol gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC, Ymddiriedolaeth y BBC neu ragflaenwyr eraill, ac achosion o dorri cod a gofnodwyd gan Ofcom neu gyrff rheoleiddio blaenorol.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio cynnwys o'r archif y cafwyd yn flaenorol ei fod yn torri safonau golygyddol neu godau rheoleiddio gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried:

- a fu newid mewn safonau ers y dyfarniad gwreiddiol
- a fyddai modd rhyddhau'r cynnwys pe bai'n cael ei olygu a/neu pe bai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu.

13.4.3 Mae'n bosibl na fydd yn briodol i gynnwys golygyddol a gafodd ei ddarlledu neu ei gyhoeddi'n wreiddiol yn y DU sy'n cael ei ailddefnyddio ar lefel ryngwladol gael ei ailddefnyddio yn yr holl diriogaethau drwy'r byd ar sail dyletswydd o ofal tuag at gyfranwyr mewn gwledydd tramor neu staff y BBC. Dylid hefyd ystyried materion yn ymwneud â hawliau.

13.4.4 Pan fydd hynny'n briodol, dylid ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd nad yw cynnwys yn gyfoes. Mae'n bosibl y bydd angen dangos labeli, dyddiadau darlledu cyntaf, gwybodaeth am y cyd-destun neu hysbysiadau eraill i wneud yn glir mai cynnwys o'r archif ydyw er mwyn osgoi camarwain cynulleidfaoedd.

13.4.5 Pan fydd cynnwys yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu, neu'n cael ei ddarparu fel arall at ddefnydd y BBC neu drydydd parti, dylid ystyried ei gyd-destun gwreiddiol ac ni ddylid ei gamgyfleu fel arfer. Gellir cyfiawnhau eithriadau am resymau golygyddol, er enghraifft wrth ddefnyddio cynnwys at ddibenion comedi/dychan. Fodd bynnag, bydd ystyriaethau o ran tegwch a niwed a thramgwydd yn berthnasol.

Dylid hefyd ystyried hawlfraint gyfreithiol, materion diogelu data a'r hawl gyfreithiol i breifatrwydd.

13.4.6 Er y byddwn yn parchu'r ffaith bod cynnwys archifol yn gofnod hanesyddol, rhaid ystyried a fydd yn briodol ei ddefnyddio heb ei olygu ac a fyddai hyn yn groes i'r Canllawiau Golygyddol neu i'r gyfraith.

Gall fod yn briodol nodi bod cynnwys archifol wedi'i olygu neu ei dynnu, er mwyn hysbysu cynulleidfaoedd bod cofnod wedi'i newid.

13.4.7 Dylid adolygu cytundebau sy'n ymwneud â hawl i weld cynnwys neu leoliad cyn trefnu iddo fod ar gael gan ei bod yn bosibl y bydd amodau arbennig yn berthnasol i'w ailddefnyddio.

13.4.8 Wrth ryddhau casgliadau mawr o gynnwys archifol, gall fod yn dderbyniol mabwysiadu dull cyffyrddiad ysgafn o sicrhau cydymffurfiaeth, lle mae'r risgiau cyffredinol o dorri safonau yn cael eu lliniaru drwy nodi rhannau o'r casgliad y mae'n rhaid eu hepgor neu sicrhau cydymffurfiaeth lwyr ynddynt. Pan gaiff ei gyhoeddi neu ei ddarlledu, dylid darparu ffordd i'r cyhoedd ddod i gysylltiad ac i ni ymateb yn gyflym os bydd angen.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio dull cyffyrddiad ysgafn o sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer rhyddhau cynnwys ar raddfa fawr gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried natur y cynnwys ac a yw'r trefniadau cydymffurfio arfaethedig yn briodol ar gyfer y cynnwys hwnnw.

13.4.9 Mae rhagdybiaeth y bydd deunydd a gyhoeddir ar-lein yn rhan o archif a fydd ar gael yn gyhoeddus ac yn barhaol, oni bai ei fod ond ar gael dros dro. Rhaid cadw'r archif ar-lein mor gyfan â phosibl.

(Gweler 13.4.28)

## Ystyriaethau o ran Cywirdeb

13.4.10 Ni ddylid ailddefnyddio cynnwys mewn ffordd sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol ynghylch sefyllfa, digwyddiadau neu'r hyn sy'n cael ei bortreadu. Mae'n bosibl y bydd angen ei labelu. Mae'n bosibl y bydd eithriadau at ddibenion rhaghysbysebion, comedi neu adloniant.

Efallai fod deunydd y mae gwneuthurwyr cynnwys yn bwriadu ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu yn anghywir, neu wedi dyddio a, lle bo'n briodol, dylid ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd ei fod yn archifol.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.32)

### Cynnwys y mae Amgylchiadau sy'n Newid yn Effeithio arno

13.4.11 Fel arfer, dylid gwirio cynnwys y bwriedir ei ailddangos i wneud yn siŵr nad yw wedi dyddio o ganlyniad i ddigwyddiadau, yn cynnwys marwolaeth y cyfrannwr y gwyddom amdani, neu newidiadau bywyd sylweddol sy'n effeithio ar gyfrannwr, a rhywun sy'n cael ei amau yn cael ei arestio, yn apelio neu'n cael ei gyhuddo. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen gwneud cyhoeddiad ar yr awyr neu ddefnyddio label priodol ac mewn achosion eraill, efallai bydd angen newid neu ddileu cynnwys penodol.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.32)

## Ystyriaethau o ran Tegwch, Cydsyniad a Phreifatrwydd

•

13.4.12 Mae cyfrifoldeb parhaus i barchu preifatrwydd a bod yn deg â chyfranwyr.

13.4.13 Cyn ailddefnyddio neu ailfersiynu cynnwys, rhaid gwirio unrhyw gydsyniadau perthnasol sydd ar gael a roddwyd gan gyfranwyr a chadw at unrhyw gyfyngiadau ar ailddefnyddio'r cynnwys fel arfer, oni bai y gellir dangos bod amgylchiadau wedi newid ers gosod y cyfyngiadau, fel nad ydynt yn berthnasol bellach.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.2)

13.4.14 Gall cynnwys archifol fod yn fwy sensitif dros amser, er enghraifft os yw cyfranwyr:

- wedi marw neu wedi dioddef salwch, trawma emosiynol neu wedi cael eu cynnwys fel cyfranwyr agored i niwed fel arall
- wedi datgelu gwybodaeth bersonol sensitif yn y cynnwys archifol
- wedi eu cynnwys fel plant pan nad oeddent yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth
- wedi ymddangos fel pobl ifanc y gallai eu bywydau fod wedi newid.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.10)

Rhaid ystyried sut i leihau'r gofid posibl i gyfranwyr sy'n dal yn fyw pan fydd cynnwys o'r fath yn cael ei ailddefnyddio, ei ailfersiynu neu ei ddarparu fel arall.

13.4.15 Lle byddai defnyddio cynnwys archifol yn gallu peri gofid i gyfranwyr, i ddioddefwyr neu i aelodau o deulu agos pobl sydd wedi marw sy'n ymddangos ynddo, dylent gael eu hysbysu fel arfer am gynlluniau i'w ailddefnyddio, hyd y gellir gwneud hynny'n rhesymol. **Os byddant yn gwrthwynebu ei ailddefnyddio, rhaid i unrhyw gynnig i wneud hynny gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu, a ddylai, fel arfer, ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.** Ni roddir cymeradwyaeth fel arfer oni bai fod y budd i'r cyhoedd o'i ailddefnyddio yn bwysicach na'r gwrthwynebiad[94].

13.4.16 Dim ond pan fydd cyfiawnhad golygyddol y dylid defnyddio cynnwys archifol o bobl y gellir eu hadnabod yn galaru neu'n ofidus. Dylid pwyso a mesur amgylchiadau'r recordiad, fel y lleoliad; a natur y cynnwys, fel yr agosrwydd a'r hyd, yn erbyn y budd i'r cyhoedd o ailddefnyddio'r cynnwys.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.53-7.4.57)

13.4.17 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ailddefnyddio cynnwys ffeithiol mewn dramâu a dramâu dogfen, rhaglenni adloniant a chynnwys dychanol a rhaid iddo beidio â chreu annhegwch.

Ni ddylai achosi annifyrrwch neu dramgwydd heb gyfiawnhad i bobl y gellir eu hadnabod sy'n ymddangos yn y cynnwys archifol nac i'w perthnasau agos sy'n fyw.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.44 ac Adran 6 Tegwch: 6.4.27)

Ynghylch portreadu pobl go iawn mewn dramâu, gweler Tegwch.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.58-6.4.59)

Ar gyfer unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o siambrau neu bwyllgorau Seneddau neu Gynulliadau, gan gynnwys San Steffan, gweler Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.10)

## Cynnwys a Gafwyd drwy Recordio Cudd

13.4.18 Mae'n bosibl y bydd cynnwys a gafwyd drwy recordio cudd yn tresmasu ar breifatrwydd a/neu yn datgelu drwgweithredu. Wrth ystyried y cyfiawnhad golygyddol am ei ailddefnyddio, rhaid asesu'r budd i'r cyhoedd.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.11-7.4.29)

## Cynnwys sy'n Dangos Gweithgarwch Anghyfreithlon neu Wrthgymdeithasol

13.4.19 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio deunydd archifol sy'n ymwneud â throseddau a dioddefwyr troseddau. Er y gallai fod budd clir i'r cyhoedd o ddangos cynnwys sy'n dangos ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol y tro cyntaf y caiff ei ddarlledu, gallai'r budd hwnnw leihau dros amser. Rhaid ystyried unrhyw gynnig i ailddefnyddio fesul achos.

---

[94] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

Wrth ryddhau cynnwys archifol sy'n ymwneud â throseddau, dioddefwyr troseddau a gweithgarwch gwrthgymdeithasol, dylai gwneuthurwyr cynnwys wneud y canlynol:

- osgoi defnyddio'r un digwyddiad dro ar ôl tro i ddangos thema gyffredinol
- peidio â defnyddio cynnwys archifol sy'n dangos un trosedd y gellir ei adnabod i bortreadu un arall
- cymryd gofal wrth ddefnyddio lluniau archifol o garcharorion i ddisgrifio trosedd penodol neu fath o drosedd. Rhaid sicrhau nad oes modd adnabod unigolion os nad oeddent â rhan yn y trosedd dan sylw.

**Rhaid ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni am unrhyw fwriad i ddefnyddio deunydd o'r archif sy'n dangos trosedd os yw achos llys a all fod yn gysylltiedig ar fin dechrau neu wedi dechrau.**

(Gweler y canllawiau: Ailddefnyddio Cynnwys Ffeithiol sy'n Dangos Ymddygiad Anghyfreithlon neu Wrthgymdeithasol)

### Cynnwys Brenhinol o'r Archif

13.4.20 Mae cynnwys sy'n dangos aelodau o'r Teulu Brenhinol neu'r Palasau Brenhinol yn aml yn dod o dan drefniadau contractiol penodol, yn enwedig lle mae'r BBC wedi negodi mynediad penodol. **Rhaid atgyfeirio unrhyw gynlluniau i ailddefnyddio, ailfersiynu neu drefnu bod cynnwys archifol o'r fath ar gael fel arall, i sylw Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC. Nid yw hyn yn berthnasol i gynnwys newyddion sy'n dangos aelodau o'r Teulu Brenhinol yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus.**

## Ystyriaethau o ran Niwed a Thramgwydd

13.4.21 Rhaid ystyried y canllawiau cyfredol ar Niwed a Thramgwydd wrth ailddefnyddio unrhyw gynnwys archifol. Wrth asesu priodoldeb ailddefnyddio, dylid ystyried y canlynol:

- digwyddiadau ac amgylchiadau cyfoes a all olygu ei bod yn amhriodol ei ryddhau
- newidiadau yn agweddau'r cyhoedd at gynnwys a allai beri tramgwydd
- newidiadau o ran llwyfan, gwasanaeth neu slot amser a fyddai'n effeithio ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa
- a yw'r ffordd y gellir dod o hyd i gynnwys ar-lein, drwy ddolenni neu fewnblannu mewn gwefannau eraill, yn golygu efallai na fydd cynulleidfaoedd yn barod neu'n sylweddoli ei fod yn gynnwys archifol, gan gynyddu'r risg o beri tramgwydd o bosibl.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.35)

13.4.22 Lle na fyddai cynnwys archifol wedi cael ei wneud gan y BBC heddiw oherwydd newid mewn safonau neu agweddau, fe ellir cael rhesymau i drefnu iddo fod ar gael yn awr. Gallai'r rhain gynnwys os

yw o ddiddordeb hanesyddol neu ddiwylliannol, neu os oes cyfiawnhad golygyddol amdano fel arall er budd y cyhoedd.[95] Dylai'r cynnwys gael ei amserlennu a/neu ei labelu'n briodol.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.1)

13.4.23 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio cynnwys archifol trawmatig, yn enwedig pan fydd yn cynnwys pobl y gellir eu hadnabod, a rhaid i'r budd i'r cyhoedd fod yn bwysicach na materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd neu niwed a thramgwydd. Ni ddylid ei ddefnyddio fel 'papur wal'.

**Dylid cadw at unrhyw gyfyngiadau ar ei ailddefnyddio fel arfer. Os oes cynnig, mewn amgylchiadau eithriadol, i beidio â glynu wrth gyfyngiadau ar gynnwys o'r archif a allai beri gofid, rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

## Rheoli Cynnwys Ar-lein

13.4.24 Ar adeg cyhoeddi cynnwys golygyddol ar-lein, dylid cael strategaeth ar gyfer ei reoli dros amser. Dylid ystyried a oes angen diweddaru'r cynnwys neu, os nad oes, sut y dylid ei drin.

13.4.25 Er mwyn osgoi camarwain defnyddwyr yn sylweddol, dylid dangos yn glir fel arfer pryd y cafodd y cynnwys ei gyhoeddi gyntaf ac, os yw'n berthnasol, y tro diwethaf iddo gael ei ddiweddaru'n sylweddol. Dylid cyfeirio'n glir at newidiadau i gynnwys sydd ar gael am gyfnod penodol ac sydd ar gael yn barhaol.

13.4.26 Pan fydd newid sylweddol yn cael ei wneud i gynnwys, fel arfer dylid dangos y newid i ddefnyddwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd rhesymau, gan gynnwys ystyriaethau cyfreithiol neu olygyddol, dros beidio â gwneud hynny.

13.4.27 Mae cynnwys ar-lein y BBC ar gael am byth ac mae'n gofnod cyhoeddus parhaol ac mae ei fodolaeth er budd i'r cyhoedd. Ni ddylid ei newid fel arfer.

Lle mae disgwyliad y bydd cynnwys, o enw un unigolyn i raglen gyfan, yn cael ei ddarparu fel ei fod ar gael yn barhaol, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei dynnu neu ei guddio.

Gall y rhain gynnwys rhesymau cyfreithiol, risgiau i ddiogelwch unigolion neu achos difrifol o dorri safonau golygyddol na ellir ei unioni heb dynnu'r cynnwys; neu lle mae digwyddiadau trist yn golygu nad yw'n weddus parhau i sicrhau bod rhaglen sydd â chynnwys tebyg yn dal i fod ar gael.

Tynnu cynnwys fydd y dewis olaf, ac ni ddylai cynhyrchwyr cynnwys guddio neu dynnu cynnwys fel arfer tra'n ystyried ceisiadau, gan gynnwys ceisiadau sy'n cael eu galw'n 'yr hawl i anghofio', oni bai fod rhesymau cyfreithiol neu olygyddol dros wneud hynny.

**Rhaid i unrhyw gynnig i dynnu cynnwys ar-lein sydd ar gael yn gyhoeddus o un o safleoedd y BBC neu rywle arall, sydd naill ai yn y ffenestr o fod ar gael, neu ar gael yn barhaol, gael ei atgyfeirio i'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a fydd, efallai, yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

---

[5] Gweler Adran 1 Safonau Golygyddol y BBC: 1.3 Budd y Cyhoedd

Dylai'r ystyriaethau gynnwys:

- niwed posibl tynnu'r cynnwys i fudd y cyhoedd ac i gyfanrwydd yr hyn sy'n dal i fod ar gael i'r cyhoedd
- unrhyw niwed neu ofid sylweddol y mae parhau i gyhoeddi yn ei achosi i unigolyn y mae gan gynhyrchwyr cynnwys ddyletswydd gofal tuag ato
- a yw'r wybodaeth wedi cael ei chyhoeddi gan rai heblaw'r BBC neu a yw ar gael mewn cofnod cyhoeddus. Os felly, dylid gwrthod ceisiadau i dynnu'r cynnwys fel arfer.

Hyd yn oed pan fydd cynnwys eisoes yn cylchredeg yn eang ar y rhyngrwyd, rhaid i unrhyw benderfyniad i'w dynnu fod yn gyson â'r Canllawiau Golygyddol.

(Gweler y canllawiau: Tynnu Cynnwys BBC Online)

Lle gallai hynny fod â sgil-effeithiau cyfreithiol, dylai unrhyw gynnig i dynnu cynnwys gael ei atgyfeirio fel arfer i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, sy'n gallu ymgynghori â'r tîm Hawliau Gwybodaeth os yw'r deunydd dan sylw yn cynnwys gwybodaeth bersonol y gellid, o bosib, adnabod rhywun byw ohoni.

13.4.28 Fel arfer, dylid gwrthod ceisiadau i dynnu cynnwys lle mae cyfranwyr i gynnwys y BBC yn cwyno nad oeddent wedi cydsynio i ddangos eu cyfraniad ar-lein neu i drefnu iddo fod ar gael yn barhaol, os oeddent wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i un rhan o'r BBC ac nad yw presenoldeb y cynnwys yn peryglu eu diogelwch.

13.4.29 Dylid gwrthod ceisiadau i dynnu sylwadau oddi ar lwyfannau'r BBC a chyfryngau cymdeithasol eraill hefyd fel arfer os yw telerau ac amodau neu bolisi preifatrwydd y BBC a oedd wedi'u cyhoeddi ar y pryd yn rhoi amddiffyniad digonol.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.64 -17.4.66)

Dim ond yr uwch gynhyrchydd, y comisiynydd neu'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol ddylai gychwyn tynnu a diddymu cynnwys ar-lein. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gynnig i dynnu cynnwys dosbarthedig oddi ar lwyfannau partneriaid.

**Rhaid ymgynghori â Phenaethiaid perthnasol Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion ynghylch geiriad esboniadau rhaglen-benodol ar gyfer Label Diddymu, Diwygio neu Gywiro.** Mewn rhai amgylchiadau, dylid hysbysu Swyddfa'r Wasg os rhoddir Label Diddymu, Diwygio neu Gywiro ac esboniad.

Fel arfer, dylid gwneud gwelliannau sydd wedi'u cymeradwyo er mwyn osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg yn brydlon, yn glir ac yn briodol ac fel arfer dylent nodi beth oedd yn anghywir, yn ogystal â'i gywiro.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.33-3.4.35)

13.4.30 **Rhaid i geisiadau am dynnu tudalennau a roddwyd i'w cadw â phennawd bras yn datgan nad yw'r dudalen wedi'i diweddaru'n ddiweddar, gael eu hatgyfeirio i'r ffigwr golygyddol uwch perthnasol** a fydd yn ystyried a ddylid, fel eithriad, dynnu'r dudalen sy'n gofnod cyhoeddus.

## Ceisiadau gan Drydydd Partïon am Gynnwys y BBC[96]

13.4.31 Mae gan y BBC gyfrifoldeb parhaus tuag at ei gynnwys. Rhaid i'r ffordd mae trydydd partïon yn ei ddefnyddio beidio ag amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol nac annibyniaeth y BBC.

### *Deunydd wedi'i Gyhoeddi/Darlledu*

13.4.32 **Rhaid i bob cais gan drydydd partïon am gynnwys a gyhoeddwyd neu a ddarlledwyd mewn cysylltiad ag achos llys, neu weithdrefnau eraill lle y gallai'r deunydd gael ei ystyried yn dystiolaeth, gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r tîm Polisi Golygyddol**. Bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ystyried a fyddai derbyn y cais yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

13.4.33 Ar gyfer pob cais arall gan drydydd partïon am gynnwys golygyddol, wrth benderfynu a yw'n briodol ei ryddhau, dylid ystyried y canlynol:

- unrhyw oblygiadau o ran hawlfraint neu unrhyw oblygiadau cyfreithiol, contractiol neu olygyddol
- a yw'r cynnwys yn ddadleuol, yn sensitif, neu ddim yn cyrraedd safonau a dderbynnir yn gyffredinol heddiw neu a allai effeithio ar breifatrwydd cyfrannwr o'i ryddhau
- natur y trydydd parti
- a yw hwn yn gais gan gyfrannwr am ddeunydd sy'n ymwneud â'r cyfraniad gwreiddiol
- a oes perthynas allanol sydd eisoes yn bodoli, yn cynnwys a yw'r sefydliad yn bartner
- a fyddai'r defnydd yn fasnachol a/neu a ddylai un o is-gwmnïau masnachol y BBC ymdrin ag ef
- a fyddai'r defnydd yn anfasnachol, yn cynnwys defnydd addysgol neu ddefnydd at ddibenion hyfforddi, ar gyfer newyddiaduraeth seiliedig ar ddata neu er budd y cyhoedd fel arall.

Ar gyfer defnydd anfasnachol, fel arfer dylid codi ffi sy'n adlewyrchu'r gost o ddarparu'r cynnwys a'i gwneud yn ofynnol fel arfer cael trwydded neu gytundeb ysgrifenedig arall yn pennu sut y gellir ei ddefnyddio.

---

[96] Nid yw'r adran hon o'r Canllawiau Golygyddol, sy'n ymdrin â chynnwys sydd wedi'i gyhoeddi/darlledu a chynnwys sydd heb ei gyhoeddi/heb ei ddarlledu, yn berthnasol lle mae gofyniad statudol i gyflwyno cynnwys, er enghraifft i Ofcom

Mae un o wefannau'r BBC yn egluro sut y gall y cyhoedd wneud cais am gynnwys[97].

13.4.34 **Dylai trydydd partïon sy'n ailddefnyddio neu'n ailfersiynu deunydd y BBC (gan gynnwys cynnwys golygyddol, metadata ac asedau eraill) fel cydrannau technoleg awtomataidd, fel deallusrwydd artiffisial, wneud hynny yn unol â gwerthoedd a safonau'r Canllawiau Golygyddol. Ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a World Service, rhaid ymgynghori â thîm cyfreithiol Technoleg a Chynnyrch Defnyddwyr[98]. Ar gyfer ceisiadau BBC Studios, rhaid atgyfeirio i adran Materion Rheoleiddiol BBC Studios. Gellir ymgynghori hefyd â'r tîm Polisi Golygyddol ym mhob achos.**

13.4.35 Dylai trefniadau trwyddedu fel arfer gynnwys darpariaeth i ddeunydd y BBC gael ei ddileu neu ei rwystro ar unwaith os bydd y BBC yn gofyn am hynny. Rhaid peidio â golygu deunydd y BBC oni bai fod y BBC yn cytuno i hynny.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.5)

## *Deunydd Heb ei Gyhoeddi/heb ei Ddarlledu*

13.4.36 **Dylai ceisiadau gan drydydd partïon i gael deunydd sydd heb ei ddefnyddio, yn cynnwys nodiadau, brysluniau neu recordiadau clywedol, gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, a fydd o bosibl yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol mewn achosion sensitif. Bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ystyried:**

- y budd i'r cyhoedd
- a fyddai ei ryddhau'n amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC
- sut y bwriedir defnyddio'r deunydd.

(Gweler 13.4.32-13.4.34 a 13.4.41)

Mae proses ar wahân ar gyfer Canolfan Archifau Ysgrifenedig y BBC.

13.4.37 **Dylai unrhyw gynnig i roi manylion personol, sylwadau neu wybodaeth bersonol arall unigolyn i drydydd parti heb gael cydsyniad yr unigolyn, gan ei atgyfeirio i sylw ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, a phan fo'n briodol, â'r tîm Hawliau Gwybodaeth.**

13.4.38 Ni ddylid byth â rhoi'r hawl i weld deunydd sydd heb ei ddefnyddio:

- os byddai hynny'n achosi perygl i bobl, gan gynnwys y bobl sy'n gweithio i'r BBC
- os byddai hynny'n ei gwneud yn fwy anodd casglu deunydd o'r fath yn y dyfodol
- os yw'n ymddangos bod y ceisiadau'n pysgota am dystiolaeth

---

[97] Y wefan Alla i Ddefnyddio Cynnwys y BBC?

[98] ConsumerTechnology&ProductsLegal@bbc.co.uk

- os yw'r deunydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n dangos pwy yw ffynhonnell neu gyfrannwr cyfrinachol
- os bydd yn gwrthdaro â rhwymedigaethau contract y BBC
- os byddai ei drosglwyddo'n amharu ar hawliau trydydd partïon.

13.4.39 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y BBC yn rhyddhau deunydd sydd heb ei gyhoeddi/heb ei ddarlledu i unigolion neu sefydliadau at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus, marchnata neu fasnachol, a lle mae modd cadw ei uniondeb golygyddol a'i annibyniaeth.

13.4.40 Pan fydd gan y BBC gytundeb partneriaeth, dim ond pan fydd modd cynnal uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC y bydd deunydd heb ei gyhoeddi neu heb ei ddarlledu yn cael ei ryddhau.

13.4.41 **Rhaid i bob cais am ddeunydd sydd heb ei gyhoeddi, ei ddarlledu neu ei ddefnyddio fel arall – yn cynnwys nodiadau – gan yr heddlu neu mewn cysylltiad ag achos llys, achos llys posibl neu weithdrefnau eraill lle y gallai'r deunydd gael ei ystyried yn dystiolaeth (fel gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoleiddio), gael ei atgyfeirio i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

Fel arfer ni fydd y BBC yn trosglwyddo deunydd sydd heb ei ddefnyddio mewn amgylchiadau o'r fath, yn cynnwys i'r heddlu, heb gael gorchymyn llys. Weithiau bydd yn briodol ildio i orchymyn o'r fath; ar adegau eraill bydd angen ei herio ac apelio yn ei erbyn i lysoedd uwch.

Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i gadw dogfennau, cofnodion neu ddeunydd sydd heb ei ddefnyddio oni bai a nes eu bod yn destun cais gan yr heddlu neu'r llysoedd neu fod bygythiad realistig o ymgyfreitha.

# ADRAN 14: CYNNWYS CREFYDDOL


14.1 Cyflwyniad
14.2 Egwyddorion
- 14.3 Canllawiau


# 14.1 CYFLWYNIAD

Mae'r hawl i arfer rhyddid barn, cydwybod a chrefydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys rhyddid i addoli, addysgu, ymarfer a chadw defodau.

Mae'r adran hon ond yn ymdrin â chynnwys crefyddol y BBC ar bob llwyfan. At ddibenion y canllawiau hyn, ac yn unol â Chod Darlledu Ofcom, mae hyn yn golygu rhaglenni sy'n delio'n gyfan gwbl neu'n bennaf â chrefydd, credoau crefyddol a safbwyntiau am grefydd a chredoau crefyddol. Mae'r Cytundeb a ddaw gyda Siarter Frenhinol y BBC yn nodi bod allbwn crefyddol y BBC yn cyfrannu at y modd y mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae'r cynnwys hwn yn cwmpasu rhaglenni ac allbwn arall – fel adroddiadau ar-lein – sy'n deillio o'r rhaglenni hynny neu sy'n gysylltiedig â nhw[99].

Mae credoau crefyddol yn ganolog i fywydau llawer o bobl ac mae'r adran hon yn sicrhau bod cynnwys rhaglenni crefyddol ac allbwn cysylltiedig yn cael ei wneud â chyfrifoldeb priodol.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys mewn genres eraill sy'n cyfeirio at grefydd neu arweinwyr a chredoau crefyddol edrych ar y canllawiau ar Niwed a Thramgwydd a, lle bo angen, Cywirdeb a Didueddrwydd.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.66-5.4.68; Adran 3 Cywirdeb ac Adran 2 Didueddrwydd)

# 14.2 EGWYDDORION

14.2.1 Mae rhyddid golygyddol gan gynhyrchwyr rhaglenni crefyddol a chynnwys cysylltiedig i ganiatáu mynegi ffydd yn yr allbwn ac i ymchwilio i faterion ffydd. Rhaid i dimau cynhyrchu sicrhau na fydd cyfranwyr at gynnwys am safbwyntiau crefyddol a chredoau yn cael eu trin yn sarhaus.

14.2.2 Lle mae crefydd neu enwad crefyddol yn destun rhaglen grefyddol neu gynnwys cysylltiedig, rhaid iddi fod yn glir i'r gynulleidfa beth yw'r grefydd honno.

14.2.3 Rhaid amddiffyn cynulleidfaoedd agored i niwed rhag camfanteisio, a rhaid i raglenni crefyddol beidio â cheisio hyrwyddo barn neu gredoau crefyddol yn llechwraidd.

---

[99] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 4: Crefydd

# 14.3 CANLLAWIAU

14.3.1 Mae rhyddid golygyddol gan wneuthurwyr cynnwys i'r allbwn gynnwys mynegi ffydd ac i ymchwilio i faterion ffydd. Nid yw'r gofyniad i beidio â thrin barnau a chredoau crefyddol yn ddifrïol wedi'i fwriadu i atal trafodaeth neu her resymol. Er y gellir beirniadu crefydd a barnau crefyddol, dylid sicrhau bod cyd-destun priodol a bod barnau beirniadol yn agored i her.

14.3.2 Dylid arfer gwrthrychedd dyladwy wrth ymdrin ag unrhyw honiadau a wneir mewn allbwn crefyddol fod pwerau neu alluoedd arbennig gan berson byw neu grŵp. Ni ddylid gwneud honiadau o'r fath mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o gael ei weld gan blant, pan fydd disgwyl i nifer sylweddol o blant fod yn gwylio'r teledu neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando ar y radio.

14.3.3 Ni ddylai allbwn crefyddol gael ei ddefnyddio i recriwtio, er enghraifft drwy apelio'n uniongyrchol at gynulleidfaoedd i ymuno â chrefydd benodol. Bydd cyfeiriadau at yr effeithiau cadarnhaol o berthyn i grefydd benodol yn dderbyniol fel arfer.

14.3.4 Pan fydd cynnwys crefyddol yn cynnwys rhyngweithio â'r gynulleidfa, rhaid cael mesurau priodol ar waith i ganiatáu mynegi ffydd ac ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â ffydd, gan sicrhau nad yw barnau na chredoau crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol yn cael eu difrïo a bod cynulleidfaoedd agored i niwed hefyd yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.55-17.4.71)

# ADRAN 15: BOD YN ANNIBYNNOL AR FUDDIANNAU MASNACHOL A BUDDIANNAU ALLANOL ERAILL

15.1 Cyflwyniad
15.2 Egwyddorion
15.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
15.4 Canllawiau

- Amlygrwydd Cynnyrch
- Lleoli Propiau
- Cyfleusterau, Cynhyrchion a Gwasanaethau a Geir yn Ddi-dâl neu am Gost Is
- Dolenni Ar-lein a Chyfeiriadau at Lwyfannau Trydydd Partïon
- Logos a Rhestrau Cydnabyddiaeth
- Cyfeiriadau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service at Wasanaethau a Chynhyrchion Masnachol y BBC a Deunydd Arall sy'n Gysylltiedig â Chynnwys Golygyddol
- Gwasanaethau Cynnal a Deunydd Ategol y BBC
- Lleoli Cynnyrch

## 15.1 CYFLWYNIAD

Mae enw da'r BBC a chryfder ei frand yn y DU a thrwy'r byd wedi'u seilio ar ei werthoedd sylfaenol, sef didueddrwydd, uniondeb golygyddol, ac annibyniaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn hanfodol i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, BBC World Service ac i Wasanaethau Masnachol y BBC. Mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd ym mhob man yn gallu ymddiried yn y BBC.

Mae'r adran hon yn y Canllawiau Golygyddol yn ymdrin â phenderfyniadau golygyddol a chreu cynnwys golygyddol a gweithgareddau cysylltiedig y BBC.[100] Dylid ei darllen ochr yn ochr ag Adran 4: Gwrthdaro rhwng Buddiannau, sy'n ymwneud â sicrhau na fydd gweithgareddau a buddiannau allanol y rheini sy'n gweithio i'r BBC ac sydd â rhan mewn cynhyrchu cynnwys neu weithgareddau cysylltiedig yn codi amheuon ynghylch eu huniondeb golygyddol nhw na'r BBC. Mae cydweithredu â phartïon eraill a chyllid yn cael sylw yn Adran 16: Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu.

---

[100] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 9: Cyfeiriadau Masnachol ar deledu a 10: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio

# 15.2 EGWYDDORION

15.2.1 Rhaid gofalu na fydd didueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC yn cael eu tanseilio gan fuddiannau a threfniadau allanol.

15.2.2 Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar ei allbwn.

15.2.3 Gellir cyfeirio at frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau a nodau masnach lle mae cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, ond ni ddylid rhoi gormod o amlygrwydd iddynt.

15.2.4 Fel arfer dylid talu am deithio, llety a'r rhan fwyaf o wasanaethau eraill. Nid yw hyn yn berthnasol i leoli cynnyrch a lleoli propiau.

15.2.5 Rhaid i bobl sy'n gweithio i'r BBC beidio â derbyn rhoddion neu letygarwch lle gallai hynny roi mantais busnes.

15.2.6 Rhaid i'r BBC beidio â chomisiynu, cynhyrchu neu gydgynhyrchu allbwn ar gyfer ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cynnwys lleoli cynnyrch.

## Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU a BBC World Service

15.2.7 Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU sydd wedi'u disgrifio yn Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, yn cael eu hariannu'n bennaf gan refeniw o ffi'r drwydded, ac mae BBC World Service yn cael ei ariannu'n bennaf gan refeniw o ffi'r drwydded ynghyd â chyllid atodol a gytunwyd.

Ni ddylid hyrwyddo brandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau, nodau masnach, gweithgareddau, barn na safbwyntiau ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU na BBC World Service.

## Gwasanaethau Masnachol

15.2.8 Mae Gwasanaethau Masnachol yn weithgareddau y caniateir i'r BBC ymgymryd â nhw drwy is-gwmnïau masnachol ar wahân, sy'n gweithredu er mwyn gwneud elw i ategu refeniw o ffi'r drwydded. Nid ydynt yn cael eu hariannu gan refeniw o ffi'r drwydded yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ac maent yn cael eu rhedeg er mwyn gwneud elw.

Gall Gwasanaethau Masnachol y BBC gyfeirio at frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau, nodau masnach neu weithgareddau eraill fel rhan o drefniant masnachol, ond rhaid iddynt beidio â hyrwyddo brandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau a nodau masnach yn eu cynnwys golygyddol. Os byddant yn cyfeirio at y rhain, rhaid iddynt ddilyn y canllawiau ar leoli cynnyrch ac ar hysbysebu a nawdd sy'n egluro nad yw'n briodol gwneud cytundebau â rhai mathau o sefydliadau.

(Gweler 15.4.32-15.4.37)

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

## 15.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

15.3.1 Wrth gynllunio i gynnwys brand, cynnyrch, sefydliad, gwasanaeth neu nod masnach mewn nifer o eitemau o gynnwys golygyddol (ac eithrio allbwn newyddion dyddiol), a gaiff eu darlledu neu eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodol, fel un diwrnod, rhaid atgyfeirio'r mater i'r rheolwr/rheolwyr allbwn perthnasol ac i'r tîm Polisi Golygyddol, a fydd yn ystyried yr effaith gronnol.

(Gweler 15.4.2)

15.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio clipiau hysbysebu mewn rhaghysbysebion rhaglenni ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gael ei atgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion perthnasol.

(Gweler 15.4.5)

15.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn trip sy'n cael ei dalu neu sy'n cael ei gynnig am bris gostyngol iawn gan drydydd parti gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu a allai droi at y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.19)

15.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i gyfeirio cynulleidfaoedd y DU at elusennau sydd heb eu rhestru ar Linell Weithredu gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.28)

15.3.5 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys allbwn yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU sy'n galw am hysbysrwydd sy'n dangos bod cynnyrch wedi'i leoli gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

(Gweler 15.4.29)

15.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu/cyhoeddi rhaglen a ddarlledwyd yn wreiddiol ar un o wasanaethau masnachol y DU sydd heb gysylltiad â'r BBC sy'n cynnwys lleoli cynnyrch gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r rheolwr sianel perthnasol ac i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.31)

15.3.7 Rhaid i bob cynnig i gynnwys lleoli cynnyrch yng Ngwasanaethau Masnachol y BBC gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu. Yn BBC Studios, rhaid i'r ffigwr golygyddol uwch hefyd ymgynghori â'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion. Y ffigwr golygyddol uwch/golygydd comisiynu sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau pellach perthnasol yn cael eu gwneud.

(Gweler 15.4.32)

15.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig bod un o Wasanaethau Masnachol y BBC, sy'n gweithredu yn y DU, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fideo ar-alw, yn mewnosod lleoli cynnyrch mewn unrhyw gynnwys a gynhyrchwyd gan y BBC neu gan gynhyrchydd annibynnol a gomisiynwyd yn wreiddiol ar gyfer

Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios.

(Gweler 15.4.36)

# 15.4 CANLLAWIAU

## Amlygrwydd Cynnyrch

15.4.1 Mae angen i'r BBC allu adlewyrchu'r byd go iawn a bydd hyn yn golygu bod angen cyfeirio at frandiau, cynhyrchion, sefydliadau a gwasanaethau yn yr allbwn. Gall cynnyrch gynnwys cyfeiriadau at sefydliadau, at bobl, fel artistiaid neu berfformwyr, neu at weithiau celfyddydol fel ffilmiau, llyfrau neu draciau cerddorol. Er hynny, rhaid peidio â rhoi amlygrwydd gormodol i frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau, neu nodau masnach yn y cynnwys. Er mwyn osgoi hyn, rhaid i wneuthurwyr cynnwys:

- sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol dros gyfeiriadau gweledol a chlywedol, yn cynnwys cyfeiriadau geiriol a cherddorol, at frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau, nodau masnach, a sloganau
- sicrhau bod y ffordd y gwneir y cyfeiriad yn briodol. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddisgrifiadau ffafriol. Fel arfer ni ddylid trafod prisiau ac argaeledd y tu allan i gynnwys adolygu ar gyfer defnyddwyr
- osgoi aros yn rhy hir, neu dynnu lluniau agos wrth ddangos enwau brand neu logos, a pheidio â defnyddio cyfeiriadau clywedol yn aml oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny
- sicrhau bod y nifer lleiaf posibl o gyfeiriadau mewn allbwn sydd wedi'i fwriadu i apelio i blant.

Bydd graddau'r amlygrwydd sy'n dderbyniol yn amrywio yn ôl y cyd-destun. Os yw cynnyrch yn rhan annatod o eitem, gall hynny gyfiawnhau rhoi mwy o amlygrwydd iddo. Rhaid priodoli cynnyrch yn ôl yr angen i sefydliadau sy'n bartneriaid, ond rhaid peidio â rhoi amlygrwydd gormodol iddynt.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio deunydd o ymgyrchoedd hysbysebu a hyrwyddo. Fel arfer dylid dewis darn byr.

Gall cyfeiriadau at gynhyrchion fod yn eiriol neu'n weledol ond mae cyfuniad o'r ddau yn debygol o greu risg uwch o amlygrwydd gormodol nag un neu'r llall.

### *Amlygrwydd Cynhyrchion – yr effaith gronnol*

15.4.2 Dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried effaith gronnol cyfeirio dro ar ôl tro wrth gynllunio i gynnwys brand, cynnyrch, sefydliad, gwasanaeth neu nod masnach mewn allbwn dros gyfnod penodol er mwyn sicrhau nad yw'n dod yn rhy amlwg. Dylid cynnwys ailddarllediadau o raglenni a marchnata yn yr asesiad hwn. Mae effaith gronnol yn debygol o fod ar ei mwyaf tuag adeg lansio eitemau newydd gan frandiau neu ryddhau cynnyrch fel ffilm neu record.

**Wrth gynllunio i gynnwys brand, cynnyrch, sefydliad, gwasanaeth neu nod masnach mewn nifer o eitemau o gynnwys golygyddol (ac eithrio allbwn newyddion dyddiol), a gaiff eu darlledu neu eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodol, fel un diwrnod, rhaid atgyfeirio'r mater i'r rheolwr/rheolwyr allbwn perthnasol a'r tîm Polisi Golygyddol a fydd yn ystyried a ellir cyfiawnhau effaith gronnol cyfeiriadau o'r**

**fath ar sail olygyddol.**

## *Amlygrwydd Cynhyrchion a Rhyngweithio*

15.4.3 Wrth annog cynulleidfaoedd i ryngweithio â'r BBC, neu lle cyfeirir at eu sylwadau ar-lein neu ar yr awyr, gall unrhyw gyfeiriadau at gynnyrch, fel llwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu hashnodau, adlewyrchu sut mae'n well gan gynulleidfaoedd ryngweithio â chynnwys. Fodd bynnag, ni ddylent fod yn rhy amlwg naill ai o fewn un darn o gynnwys neu gyda'i gilydd.

Dylai unrhyw frandiau neu hashnodau fod yn briodol i'r gynulleidfa ddisgwyliedig. Yng nghyswllt galwadau am weithredu ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, dylai'r llwyfannau trydydd parti y cyfeirir atynt fod ar gael i'w defnyddio am ddim. Bydd angen i benderfyniadau ystyried disgwyliadau'r gynulleidfa darged a chyfeirio at yr opsiynau mewn ffordd sy'n amlwg yn deg.

15.4.4 Fel arfer dylid cynnig cyfraniadau o amrywiaeth o lwyfannau ond ni ddylid eu priodoli i'r brandiau bob tro y cânt eu defnyddio.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.55-17.4.71)

## *Amlygrwydd Cynhyrchion mewn Rhaghysbysebion Rhaglenni*

15.4.5 Fel arfer dylid osgoi cyfeirio at gynhyrchion neu wasanaethau mewn rhaghysbysebion rhaglenni neu mewn deunydd i farchnata rhaglenni'r BBC gan y byddai'r sylw cyson yn gallu rhoi gormod o amlygrwydd iddynt. Gall cerddoriaeth mewn rhaghysbysebion fod yn rhy amlwg hefyd os yw'n digwydd tua'r adeg y mae'r trac yn cael ei ryddhau o'r newydd. Dylid ystyried effaith gronnol defnyddio trac sy'n cael ei ryddhau o'r newydd mewn rhaghysbyseb pan mae'r trac hefyd wedi'i gynnwys yn yr amserlen i gael ei berfformio rhywle arall yng nghynnwys y BBC. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gyfeiriadau at wasanaeth neu gynnyrch brand mewn rhaghysbysebion.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio clipiau hysbysebu mewn rhaghysbysebion rhaglenni ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gael ei atgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion perthnasol,** a fydd yn ystyried a oes cyfiawnhad golygyddol dros ei ddefnyddio ac nad yw'n rhy amlwg.

## *Amlygrwydd Gormodol a Chyfranwyr*

15.4.6 Rhaid osgoi gormod o amlygrwydd pan fydd cyfranwyr yn trafod eu gwaith newydd, fel rhyddhau ffilm neu gerddoriaeth, neu lyfr neu ddrama newydd. Ni ddylid defnyddio unrhyw gynhyrchion cysylltiedig fel prop oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, a rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gyfeiriadau atynt, yn enwedig lluniau agos, a chyfyngu arnynt yn briodol.

## *Adolygu Cynhyrchion neu Wasanaethau*

15.4.7 Ni ddylid hyrwyddo cynhyrchion neu wasanaethau pan fyddir yn eu hadolygu a dylid adolygu amrywiaeth ohonynt gan wahanol gyflenwyr mewn rhaglen neu gyfres. Yn achos llyfrau, albymau a chynhyrchion digidol eraill, gellir derbyn copïau i'w hadolygu fel arfer. Mae'r rheini sy'n gyfrifol am adolygu neu ohebu ar ddramâu, cyngherddau neu ddigwyddiadau neu berfformiadau eraill yn gallu derbyn tocynnau adolygu. Yn gyffredinol, dylid prynu cynhyrchion o werth sylweddol i'w hadolygu. Fodd

bynnag, os darperir y rhain i wneuthurwyr cynnwys o bryd i'w gilydd, rhaid dychwelyd y cynnyrch i'r gweithgynhyrchydd neu'r cyflenwr.

### *Ffrydiau wedi'u Dolennu neu eu Mewnblannu a Geir gan Drydydd Partïon*

15.4.8 Rhaid peidio â rhoi amlygrwydd gormodol i'r trydydd parti sydd wedi'i ddolennu/mewnblannu. Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service lle mae'r ffrwd wedi'i noddi, rhaid peidio â chyfeirio at y noddwr nac at frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau na nodau masnach y noddwr. Ar Wasanaethau Masnachol gall unrhyw gyfeiriad at noddwr neu ei gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach fod yn lleoli cynnyrch. Fodd bynnag, mae'n bwysig na fydd y cyfeiriadau'n rhai sy'n hyrwyddo.

(Gweler 15.4.32-15.4.37)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.37-7.4.41 Adran 16 Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol, ac Ariannu: 16.4.20-16.4.21 ac Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.67)

### *Cyflenwi Propiau mewn Drama, Comedi, Adloniant neu Gynnwys Ffordd o Fyw*

15.4.9 Rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio neu gyfeirio at gynhyrchion brand, sefydliadau neu wasanaethau mewn drama, comedi, adloniant a chynnwys ffordd o fyw a bod amrywiaeth fawr ohonynt yn cael ei defnyddio dros amser i osgoi amlygrwydd gormodol.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gyfeiriad llafar sydd gyda chyfeiriad gweledol.

Pan ddefnyddir cynhyrchion go iawn i wisgo setiau, dylid osgoi tynnu lluniau agos, a dylai gwneuthurwyr cynnwys geisio osgoi eu dangos mewn lluniau eraill. Dylid ystyried a oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau mewn perthynas â chynnyrch ac unrhyw berthynas fasnachol allanol â thalent a ddefnyddir yn y cynnwys.

## Lleoli Propiau

Lleoli propiau, fel y'i diffinnir gan Ofcom[101], yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeiriad atynt, mewn rhaglen lle nad oes gwerth sylweddol i ddarparu'r cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, a lle nad yw darparwr perthnasol, neu berson sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol, wedi cael unrhyw daliad neu gydnabyddiaeth werthfawr arall mewn perthynas â'u cynnwys, neu gyfeirio atynt, yn y rhaglen, heb ystyried y costau a arbedwyd drwy gynnwys y cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeiriad atynt, yn y rhaglen.

15.4.10 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, dylai gwneuthurwyr rhaglenni fel arfer ddisgwyl talu am bropiau a ddefnyddir mewn cynyrchiadau. Os oes modd, dylai cynyrchiadau ddefnyddio proses caffael mewnol y BBC.

15.4.11 Ar Wasanaethau Masnachol, rhaid peidio â chael trefniadau sy'n gwarantu y bydd propiau a leolwyd yn cael eu dangos mewn cynnwys golygyddol. Os bodlonir yr amodau hyn, bydd yn cael ei

---

[101] Cod Darlledu Ofcom, Adran 9: Cyfeiriadau Masnachol ar deledu

ystyried yn lleoli propiau yn hytrach na lleoli cynnyrch os nad oes mwy na gwerth dibwys i ddarparu'r prop neu'r gwasanaeth.

Gellir trin propiau o werth sylweddol fel lleoli cynnyrch os na ddychwelir nhw i'r darparwr.

(Gweler 15.4.32-15.4.37)

15.4.12 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service pan dderbynnir propiau am gost is, ac ar Wasanaethau Masnachol pan dderbynnir propiau yn ddi-dâl neu am gost is:

- dylai'r tîm cynhyrchu gadw cofnod o'r holl bropiau a gafwyd yn ddi-dâl neu am gost is
- ni ddylid gwarantu y bydd unrhyw frand, cynnyrch, sefydliad neu wasanaeth yn cael ei ddangos ac, os caiff ei ddangos, ni ddylid rhoi gwarant y bydd y sylw'n ffafriol
- ni ddylid rhoi amlygrwydd gormodol i'r prop sydd wedi'i dderbyn.

- 

(Gweler y canllawiau: Propiau)

## Cyfleusterau, Cynhyrchion a Gwasanaethau a Geir yn Ddi-dâl neu am Gost Is

15.4.13 Fel arfer dylai'r cynhyrchiad dalu am deithio, llety a'r rhan fwyaf o wasanaethau eraill. Nid yw hyn yn berthnasol i leoli cynnyrch a lleoli propiau.

15.4.14 Mewn cynnwys sy'n ymwneud â defnyddwyr a ffordd o fyw sy'n adolygu neu'n rhoi sylw i amrywiaeth fawr o gynhyrchion, gellir derbyn cynhyrchion neu wasanaethau yn ddi-dâl neu am gost is os oes cyfiawnhad golygyddol dros hynny a'u bod yn bodloni meini prawf priodol ar gyfer dewis. Ond mewn achosion o'r fath rhaid i'r tîm cynhyrchu:

- gadw cofnod o'r hyn sydd wedi'i dderbyn
- peidio byth ag addo rhoi sylw i frand, cynnyrch, sefydliad neu wasanaeth penodol ac, os rhoddir sylw iddo, y bydd yn cael sylw ffafriol
- peidio â derbyn disgownt oni bai ei fod yn gyson â disgowntiau a gynigir i sefydliadau mawr eraill
- hysbysu cyflenwyr mewn ysgrifen na allant gyfeirio at ddefnydd y BBC o'u brand, cynhyrchion, sefydliad neu eu gwasanaethau mewn unrhyw hysbysebion neu ymgyrchoedd hyrwyddo
- peidio â rhoi cydnabyddiaeth ar-lein ac ar yr awyr oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny. Ni ddylai Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service byth addo cynnwys manylion cyflenwr ar-lein yn gyfnewid am gyflenwi cynhyrchion neu wasanaethau yn ddi-dâl neu am gost is.

15.4.15 Rhaid peidio â derbyn tâl am frandiau, cynhyrchion, sefydliadau neu wasanaethau sydd i'w cynnwys mewn unrhyw allbwn BBC gan fod lleoli cynnyrch wedi'i wahardd mewn cynnwys sy'n cynghori defnyddwyr.

(Gweler 15.4.32-15.4.37)

15.4.16 Rhaid peidio â rhoi llais golygyddol i gyflenwyr yn y cynnwys ac ni ddylid dangos rhagolwg ohono iddynt.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.39)

## *Cyfleusterau a Rennir*

15.4.17 Lle mae cyfleuster, fel ffrwd, yn cael ei rannu rhwng y BBC a thrydydd parti, rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol ar unrhyw gynnwys sy'n deillio ohoni ar wasanaethau'r BBC a thalu cyfran briodol o'r gost.

## *Cyfleusterau Cyfryngau a Thripiau Canfod Ffeithiau*

15.4.18 Fel rheol ni ddylai Gwasanaethau Cyhoeddus y DU na BBC World Service, na chynnwys newyddion a materion cyfoes ar Wasanaethau Masnachol, dderbyn trip y telir amdano neu sy'n cael ei gynnig am bris gostyngol iawn gan drydydd parti oni bai mai dyma'r unig ffordd i ohebu ar ddigwyddiad pwysig.

15.4.19 Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn trip sy'n cael ei dalu neu sy'n cael ei gynnig am bris gostyngol iawn gan drydydd parti fod yn gyson â Pholisi Gwrth-lwgrwobrwyo'r BBC.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gyfeirio at sefydliadau sydd wedi hwyluso'r trip.

Dylid bod yn ofalus wrth dderbyn cyfleusterau gan elusennau neu grwpiau lobïo. **Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn trip sy'n cael ei dalu neu sy'n cael ei gynnig am bris gostyngol iawn gan drydydd parti gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a allai droi at y tîm Polisi Golygyddol** i ystyried:

- a oes cyfiawnhad golygyddol am y trip, ac unrhyw gyfeiriadau at sefydliadau sydd wedi'i hwyluso, ac a oes sicrwydd na fydd yn amharu ar uniondeb golygyddol y BBC
- a ddylid cyfrannu at y gost, os yw hynny'n rhesymol ymarferol
- a fyddai derbyn y trip yn arwain at ganfyddiad rhesymol gan y cyhoedd y gallai ddylanwadu ar benderfyniadau'r BBC.

15.4.20 Gall staff sy'n gweithio i Wasanaethau Masnachol sy'n adolygu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau ofyn am gymorth gan ddarparwyr teithio fel byrddau twristiaeth, cwmnïau hedfan a gwestai. Mewn achosion o'r fath:

- rhaid peidio â rhoi unrhyw sicrwydd o sylw yn gyfnewid am wasanaethau o'r fath
- dylid cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth o gyflenwyr teithiau ac nid y rheini sy'n cynorthwyo yn unig.

## *Deunydd neu Straeon Hyrwyddol a Ddarperir gan Gyrff Allanol*

15.4.21 Rhaid dewis a gohebu ar straeon am resymau golygyddol annibynnol a dylai gwneuthurwyr cynnwys fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai sefydliadau gysylltu â nifer o rannau o'r BBC drwy lwybrau gwahanol i geisio cael sylw ar draws gwasanaethau o fewn cyfnod penodol.

## Dolenni Ar-lein a Chyfeiriadau at Lwyfannau Trydydd Partïon

15.4.22 Rhaid peidio â rhoi'r argraff bod y BBC yn hyrwyddo brand, cynnyrch, sefydliad neu wasanaeth masnachol wrth gynnwys dolen i lwyfan masnachol.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol ar gyfer dolenni o lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ac o gynnwys golygyddol ar lwyfan Gwasanaeth Masnachol.

(Gweler 15.4.1-15.4.9)

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.10 ac Adran 3 Cywirdeb: 3.4.24)

Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, dylai dolenni arwain i wefannau trydydd parti a ddylai gael eu labelu'n wefannau tanysgrifio os na ellir cael mynediad atynt yn ddi-dâl.

(Gweler y canllawiau: Dolenni a Ffrydiau)

## Logos a Rhestrau Cydnabyddiaeth

15.4.23 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio logos a chydnabyddiaethau trydydd parti ar lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service ac yn y cynnwys golygyddol ar lwyfannau Gwasanaethau Masnachol.

Pan fydd y BBC mewn partneriaeth ffurfiol, mae'n bwysig cydnabod partneriaid a phriodoli eu cyfraniad iddynt, yn cynnwys yn y brandio a'r gwaith hyrwyddo ar gyfer yr allbwn a'r gwasanaethau sydd wedi'u creu neu eu dosbarthu.

(Gweler 15.4.1-15.4.9)

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.11-16.4.15)

(Gweler y canllawiau: Cydnabod a Labelu Perthnasoedd Allanol)

15.4.24 Ni ddylai Gwasanaethau Cyhoeddus y DU na BBC World Service byth addo cyfeirio at fanylion cyflenwr yn gyfnewid am gyflenwi cynhyrchion neu wasanaethau yn ddi-dâl neu am gost is.

(Gweler 15.4.13-15.4.21)

## Cyfeiriadau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service at Wasanaethau a Chynhyrchion Masnachol y BBC a Deunydd Arall sy'n Gysylltiedig â Chynnwys Golygyddol

### *Cyfeiriadau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service at Wasanaethau Masnachol y BBC*

15.4.25 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros bob cyfeiriad at gynhyrchion a gwasanaethau masnachol ac mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at Wasanaethau Masnachol y BBC.

Gall y BBC, a chwmnïau annibynnol sy'n gweithio i'r BBC, gynhyrchu a thrwyddedu deunydd cysylltiedig â rhaglenni, fel llyfr, y gellir ei hyrwyddo neu gyfeirio ato yn ystod neu o gwmpas y cynnwys golygyddol y mae'n deillio'n uniongyrchol ohono a/neu mae'n berthnasol iddo. Mae'n bwysig bod unrhyw hyrwyddo o'r fath yn caniatáu i gynulleidfaoedd elwa o'r cynnwys golygyddol cysylltiedig, neu ryngweithio ag ef, a rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

Dylai dilyn y canllawiau uchod sicrhau nad yw Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service yn hyrwyddo unrhyw gynhyrchion neu Wasanaethau Masnachol y BBC yn annheg.

### Rhaghysbysebion am Gynhyrchion Masnachol sy'n Gysylltiedig â Rhaglenni'r BBC

15.4.26 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ar-lein ddarparu dolen i dudalen ar wefan fasnachol lle gellir prynu cynhyrchion masnachol sy'n gysylltiedig â rhaglenni'r BBC os oes cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

Ar yr awyr gellir darlledu rhaghysbysebion am rai mathau o ddeunydd sy'n gysylltiedig â rhaglenni yn ystod cyfnodau ger y cynnwys golygyddol y maent yn deillio'n uniongyrchol ohono.[102]

Rhaid i unrhyw gynnyrch a raghysbysebir fod o dan reolaeth olygyddol y BBC a rhaid iddo fod wedi'i gomisiynu, ei drwyddedu neu ei ddatblygu mewn cysylltiad uniongyrchol â'r cynnwys y mae'n gysylltiedig ag ef. Dylai rhaghysbysebion neu gyhoeddiadau ar ôl rhaglenni ganolbwyntio ar ddarparu digon o wybodaeth ffeithiol i alluogi cynulleidfaoedd i elwa o'r cynnyrch dan sylw, neu ryngweithio â nhw.

Rhaid peidio â rhaghysbysebu cylchgronau â brand y BBC ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU na BBC World Service ar-lein nac ar yr awyr. Ar gyfer cynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig â'r BBC ar radio a BBC Sounds, gweler y cyfarwyddyd perthnasol.

---

[102] Canllawiau ar-lein ar Gyd-hyrwyddo gan dîm Polisi'r BBC

(Gweler y canllawiau: Rhaghysbysebu Cynhyrchion, Deunydd neu Wasanaethau Masnachol sy'n Gysylltiedig â'r BBC ar Orsafoedd Radio Rhwydwaith y BBC, Gwledydd, Sianeli Teledu Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC a Llwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC)

### *Dolenni Gweithrediadol o Lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service i Gynhyrchion Masnachol sy'n Gysylltiedig â Chynnwys Golygyddol y BBC*

15.4.27 Gall llwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service gynnig cyfle i ddefnyddwyr brynu cynnwys golygyddol dethol sy'n gysylltiedig â'r BBC gan nifer o gyflenwyr masnachol ar-lein.

## Gwasanaethau Cynnal a Deunydd Ategol y BBC

15.4.28 Gall y BBC gynnig gwasanaethau cynnal a deunydd ategol rhaglenni sy'n ymestyn effaith ei gynnwys a dealltwriaeth ohono.

Pan fydd y BBC yn cyhoeddi neu'n darlledu cynnwys sy'n codi materion sy'n anodd neu sy'n peri gofid, gall fod yn briodol darparu manylion llinell gymorth sy'n rhestru sefydliadau sy'n cynnig cymorth rheng flaen sy'n berthnasol i'r materion a godwyd. Fel arfer dylid ymgynghori â BBC Action Line mewn perthynas â chynnwys ar gyfer y DU.

**Rhaid i unrhyw gynnig i gyfeirio cynulleidfaoedd y DU at elusennau sydd heb eu rhestru ar Linell Weithredu gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.**

Gellir darparu pecynnau ffeithiau a deunydd cefnogi rhaglenni dysgu arall i ategu mathau eraill o gynnwys.

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i wasanaethau cynnal a deunydd ategol:

- dylai gwybodaeth a ddarperir ar wasanaethau cynnal a deunydd ategol fod yn gywir a diduedd fel y bo'n briodol
- dylid cyfiawnhau unrhyw ddolenni allanol ar sail eu gwerth a'u perthnasedd i'r gynulleidfa. Fel arfer, dylid darparu dolenni i amrywiaeth o elusennau, asiantaethau neu sefydliadau statudol. Dylid defnyddio meini prawf dethol priodol i'w dewis
- dylai unrhyw sefydliad sy'n cael sylw allu darparu adnoddau i fodloni'r galw a ragwelir sy'n gallu dilyn un o gyfeiriadau'r BBC. Dylai unrhyw wasanaethau cymorth rheng flaen drwy linell gymorth (llinell ffôn) neu ryngwyneb byw cyfatebol, fel gwe-sgwrs neu SMS, allu cynnig gwasanaeth cadarn
- dylai llinellau ffôn y gwasanaethau cymorth rheng flaen fod yn ddi-dâl neu wedi'u prisio i adennill costau ac nid i wneud elw. Rhaid i wasanaethau cyfradd premiwm beidio â chael eu defnyddio ar gyfer llinellau gweithredu

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.32-17.4.33)

- ar gyfer llinellau gweithredu, ni ddylid defnyddio'r cymorth a ddarperir gan sefydliad i hybu nodau crefyddol, ymgyrchu, gwleidyddol neu nodau eraill eilaidd a allai amharu ar ddidueddrwydd y BBC. Rhaid cynnal diwydrwydd dyladwy ar nodau ac amcanion y trydydd parti, ei weithgareddau, ei gadernid ariannol, pwy sy'n ariannu neu'n noddi'r sefydliad ac a yw'r sefydliad wedi bod â rhan mewn unrhyw fater dadleuol a all gael effaith negyddol sylweddol ar enw da y BBC

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.1-16.4.3)

- rhaid peidio â rhoi'r argraff bod ymgyrchoedd trydydd parti'n cael eu hyrwyddo pan fydd deunydd ategol yn cael ei gynhyrchu ar y cyd â sefydliadau eraill
- ni ddylid dosbarthu deunydd codi arian trydydd partïon heblaw ar gyfer apeliadau elusennau sydd wedi'u cymeradwyo gan y BBC
- rhaid peidio â derbyn nawdd ar gyfer deunydd ategol ar-lein Gwasanaethau Cyhoeddus y DU
- gall y BBC gydnabod sefydliadau sydd wedi cyfrannu at ddeunydd ategol, ar y deunydd ei hun. Gall y BBC gydnabod cyfraniad partner

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.40)

- yn y DU, ni ddylid rhaghysbysebu llinellau cymorth neu linellau gweithredu sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau eraill fel arfer, ac eithrio rhai sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol.

## Lleoli Cynnyrch

**Lleoli cynnyrch**[103] yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeiriad atynt, mewn rhaglen lle gwneir hynny at ddibenion masnachol ac yn gyfnewid am wneud taliad neu am roi cydnabyddiaeth werthfawr arall i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol. Nid yw'n golygu lleoli propiau.

### Lleoli cynnyrch – Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

15.4.29 Rhaid i'r BBC beidio â chomisiynu, cynhyrchu neu gydgynhyrchu allbwn ar gyfer ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cynnwys lleoli cynnyrch. Rhaid i'r holl raglenni a wneir gan y BBC neu gan gynhyrchydd annibynnol i'w darlledu ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU fod yn rhydd o leoli cynnyrch. **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys allbwn yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU sy'n galw am labelu i ddangos bod cynnyrch wedi'i leoli gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.**

[103] Cod Ofcom Adran 9 Cyfeiriadau Masnachol ar y Teledu

## *Lleoli Cynnyrch mewn Deunydd a Gaffaelir gan Wasanaethau Cyhoeddus y DU oddi wrth Drydydd Partïon sydd Heb Gysylltiad â'r BBC*

### Deunydd a gaffaelir o'r tu allan i'r DU

15.4.30 Pan fydd un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn caffael deunydd sy'n cynnwys lleoli cynnyrch nad yw wedi'i gomisiynu na'i gynhyrchu ac sydd heb gael ei gomisiynu na'i gynhyrchu gan berson cysylltiedig[104], fel un o Wasanaethau Masnachol y BBC, nid oes angen ei labelu i ddangos bod cynnyrch wedi'i leoli.

Mae'n ofynnol na fydd amodau wedi'u gosod ar y deunydd a gaffaelir y bydd y lleoli cynnyrch yn cael ei ddarlledu.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gyfeiriad gweledol neu glywedol at gynhyrchion sydd wedi'u lleoli mewn deunydd a gaffaelwyd nad oedd wedi'i gael gan berson cysylltiedig a rhaid iddo beidio â bod o natur hyrwyddol na bod yn rhy amlwg.

Fel arfer dylid cadw cofnod o unrhyw leoli cynnyrch sy'n hysbys, ac o unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas ag ef.

(Gweler 15.4.1-15.4.9)

Mae'n ofynnol na fydd cynnwys golygyddol a wnaed ar ôl mis Rhagfyr 2009 ac sy'n cael ei ddosbarthu ar wasanaeth a reoleiddir gan Ofcom yn cynnwys lleoli cynnyrch mewn perthynas ag unrhyw gynhyrchion, gwasanaethau neu nodau masnach sydd wedi'u gwahardd o dan God Ofcom.

### Deunydd a Gaffaelir o'r DU

15.4.31 Mae rhywfaint o'r deunydd a gaffaelir yn cynnwys cynhyrchion a leolir. Fel arfer dylai lleoli cynnyrch gael ei dynnu neu ei gelu.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu/cyhoeddi rhaglen a ddarlledwyd yn wreiddiol ar un o wasanaethau masnachol y DU sydd heb gysylltiad â'r BBC sy'n cynnwys lleoli cynnyrch gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r rheolwr sianel perthnasol ac i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried:

- a oes cyfiawnhad golygyddol dros leoli'r cynnyrch
- a fyddai'n dwyn anfri ar y BBC
- a ddylid tynnu neu gelu'r cynhyrchion a leolir

---

[104] Person cysylltiedig - mae'r personau canlynol yn gysylltiedig â pherson penodol (mae 'person' yn cynnwys unigolyn yn ogystal â chorff corfforaethol ac endidau cyfreithiol corfforedig ac anghorfforedig eraill):

- (a) person sy'n rheoli'r person hwnnw
- (b) un sydd â chyswllt â'r naill berson neu'r llall yn (a); ac
- (c) corff a reolir gan yr unigolyn hwnnw neu gyswllt i'r unigolyn hwnnw

- a yw'r trefniadau caffael yn rhoi disgresiwn i'r BBC dynnu neu gelu'r cynnyrch.

## *Gofynion Lleoli Cynnyrch yng nghyswllt Gwasanaethau Masnachol y BBC*

15.4.32 Mewn rhai achosion, gall Gwasanaethau Masnachol y BBC gomisiynu neu wneud cynnwys golygyddol sy'n cynnwys lleoli cynnyrch priodol.

Rhaid bodloni'r gofynion hyn yn yr holl leoli cynnyrch mewn unrhyw gynnwys golygyddol a wneir gan unrhyw ran o'r BBC ar gyfer un o wasanaethau'r BBC neu unrhyw drydydd parti, neu a gomisiynir neu a gynhyrchir gan gwmni cynhyrchu annibynnol ar gyfer un o wasanaethau'r BBC:

- rhaid i'r lleoli cynnyrch beidio ag amharu ar uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y cynnwys neu wasanaeth BBC
- ni chaiff lleoli cynnyrch yn unrhyw gynnyrch neu wasanaeth ddwyn anfri ar y BBC a'i wasanaethau
- mewn gwasanaethau sydd o dan reolaeth y BBC, rhaid i'r lleoli cynnyrch beidio â dylanwadu ar yr hyn sydd yn y cynnwys nac ar ei amserlennu mewn ffordd sy'n effeithio ar gyfrifoldeb ac annibyniaeth olygyddol y darlledwr
- rhaid i gyfeiriadau at gynhyrchion, gwasanaethau a nodau masnach a leolir beidio â bod o natur hyrwyddol nac yn rhy amlwg
- dylid tynnu sylw cynulleidfaoedd at y ffaith bod lleoli cynnyrch wedi'i gynnwys
- mae'n ofynnol bod y lleoli cynnyrch yn bodloni'r rheoliad ar leoli cynnyrch sy'n berthnasol i'r diriogaeth lle caiff ei ddarlledu.

**Rhaid i bob cynnig i gynnwys lleoli cynnyrch yng Ngwasanaethau Masnachol y BBC gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan y golygydd comisiynu,** a fydd yn ystyried a fyddai'r lleoli cynnyrch yn gwneud drwg i enw da y BBC.

**Yn BBC Studios, rhaid i'r ffigwr golygyddol uwch hefyd ymgynghori â'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion.**

**Y ffigwr golygyddol uwch/golygydd comisiynu sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau pellach perthnasol yn cael eu gwneud.**

## *Cyfyngiadau ar Genres Rhaglenni Lle Gellir Lleoli Cynnyrch ac ar Fathau o Gynhyrchion y Gellir eu Lleoli*

15.4.33 Rhaid peidio â chynnwys lleoli cynnyrch mewn:

- cynnwys newyddion a materion cyfoes
- cynnwys crefyddol
- cynnwys plant
- cynnwys sy'n cynghori defnyddwyr.

15.4.34 Gwaherddir lleoli cynnyrch yn achos y cynhyrchion canlynol:

- unrhyw gynnyrch neu wasanaeth sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol neu sefydliad gwleidyddol

    - unrhyw gynnyrch neu wasanaeth sy’n gysylltiedig â chorff sy’n cael ei gysylltu â ffydd, crefydd neu systemau credo cyfatebol
    - cynhyrchion a gwasanaethau i oedolion
    - cynhyrchion tybaco (yn cynnwys sigaréts ymysg cynhyrchion eraill)
    - lleoli cynnyrch gan neu ar ran unrhyw fusnes y mae ei brif weithgarwch yn weithgynhyrchu neu werthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill
    - arfau
    - unrhyw gynnyrch neu wasanaeth na ellir ei hysbysebu ar yr allbwn.

-

- Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gynhyrchion eraill a allai beryglu enw da.

-

- Mae’r gwaharddiadau hyn yn berthnasol yn ogystal â’r deddfau a’r rheoliadau perthnasol yn y diriogaeth benodol.

## *Gofynion o ran Tryloywder a Thynnu Sylw*

15.4.35 Mewn cynnwys sydd wedi’i gomisiynu, ei gynhyrchu neu ei gydgynhyrchu ar gyfer y BBC, dylid ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd os yw lleoli cynnyrch wedi’i gynnwys. Dylid gwneud hyn fel arfer drwy gynnwys rhestr o’r holl gynhyrchion a leolwyd yn y cydnabyddiaethau ar gyfer rhaglenni a gynhyrchwyd neu a gomisiynwyd a dylid ei wneud mewn ffordd niwtral nad yw’n hyrwyddol, yn debyg i gydnabyddiaethau rhaglenni eraill.

Rhaid cydymffurfio bob amser ag unrhyw reoliadau lleol ar labelu lleoli cynnyrch.

## *Gwasanaethau Masnachol y BBC a Anelir at Gynulleidfaoedd yn y DU*

15.4.36 Fel arfer ni ddylai Gwasanaethau Masnachol y BBC a anelir at gynulleidfaoedd yn y DU fewnosod lleoli cynnyrch yng nghyswllt unrhyw gynnwys a gynhyrchwyd gan y BBC a wnaed yn wreiddiol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU.

**Rhaid i unrhyw gynnig bod un o Wasanaethau Masnachol y BBC, sy’n gweithredu yn y DU, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fideo ar-alw, yn mewnosod lleoli cynnyrch mewn unrhyw gynnwys a gynhyrchwyd gan y BBC neu gan gynhyrchydd annibynnol a gomisiynwyd yn wreiddiol gan Wasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU, gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a Phennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios** a fydd yn ystyried p’un a fyddai lleoli'r cynnyrch yn niweidio enw da Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a Gwasanaethau Masnachol y BBC.

## *Gwasanaethau Masnachol y BBC a Anelir at Gynulleidfaoedd y tu allan i'r DU*

15.4.37 Lle mae un o Wasanaethau Masnachol y BBC neu berson cysylltiedig[105] yn cydgomisiynu neu'n cydgynhyrchu rhaglen ag un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, rhaid sicrhau na fydd y fersiwn ar y Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn cynnwys lleoli cynnyrch.

[105] Person cysylltiedig - mae'r personau canlynol yn gysylltiedig â pherson penodol (mae 'person' yn cynnwys unigolyn yn ogystal â chorff corfforaethol ac endidau cyfreithiol corfforedig ac anghorfforedig eraill):

- (a) person sy'n rheoli'r person hwnnw
- (b) un sydd â chyswllt â'r naill berson neu'r llall yn (a); ac
- (c) corff a reolir gan yr unigolyn hwnnw neu gyswllt i'r unigolyn hwnnw

# ADRAN 16: PERTHNASOEDD ALLANOL, GAN GYNNWYS PERTHNASOEDD MASNACHOL AC ARIANNU

16.1 Cyflwyniad

- Ariannu

16.2 Egwyddorion

16.3 Atgyfeiriadau Gorfodol

16.4 Canllawiau

- Rhan A: Canllawiau ar gyfer yr Holl Wasanaethau
- Canllawiau ar gyfer yr Holl Berthnasoedd Golygyddol Allanol
- Partneriaethau Golygyddol
- Mentrau Golygyddol ar y Cyd
- Cydgynyrchiadau
- Dosbarthiad
- Ffrydiau Byw gan Drydydd Partïon
- Cymhellion Lleoli a Chynhyrchu
- Hysbysebu gan Drydydd Partïon a Brand y BBC
- Tystlythyrau
- Rhan B: Canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service
- Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service – Dulliau Ariannu a Ganiateir
- Perthnasoedd Allanol eraill Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service
- BBC World Service – Dulliau Ariannu Ychwanegol a Ganiateir
- Rhan C: Canllawiau Ychwanegol ar gyfer BBC World Service a BBC Media Action
- Cyllid Allanol i BBC World Service nad yw'n Gydgynhyrchu nac yn Nawdd ac ar gyfer BBC Media Action
- BBC Media Action
- Rhan D: Gwasanaethau Masnachol y BBC
- Defnydd Gwasanaethau Masnachol y BBC o Frandiau BBC News ar gyfer Digwyddiadau Marchnata

# 16.1 CYFLWYNIAD

Gall y BBC ymestyn effaith a gwerth ei allbwn drwy gydweithio â sefydliadau eraill. Gall gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol ac archwilio cyfleoedd creadigol newydd. Drwy wneud hyn, gall hefyd gynyddu'r gwerth cyhoeddus cymaint â phosibl[106].

Mae ymrwymiad y BBC i bartneriaethau wedi'i nodi yn Siarter y BBC sy'n cynnwys gofyniad i ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, yn enwedig yn yr economi greadigol, lle byddai gwneud hynny er budd i'r cyhoedd. Rhaid ffurfio'r partneriaethau hyn ag amrywiaeth eang o sefydliadau o bob maint, boed y rheini'n rhai masnachol neu anfasnachol, ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ar y teledu, radio ac ar-lein.

Mae'r BBC yn annog pobl i ymgysylltu â phynciau a gweithgareddau newydd drwy bartneriaethau, er enghraifft gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant, elusennau priodol a thechnolegau newydd.

At ddibenion yr adran hon, diffinnir partneriaeth fel perthynas rhwng y BBC ac un neu ragor o sefydliadau trydydd parti sydd â'r nod o sicrhau canlyniadau sy'n fuddiol i'r naill a'r llall ar ffurf:

- cyfraniadau, er y byddant yn aml o wahanol fathau gan y rheini sy'n gysylltiedig
- creu gweithgareddau partneriaeth dynodedig
- cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir.

## Ariannu

Mae partneriaethau a pherthnasoedd allanol eraill yn gallu cynnwys defnyddio cyllid trydydd parti i ddarlledu cynnwys ar wasanaethau'r BBC.

### Ariannu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn cael eu hariannu o ffi'r drwydded, ac mae'r graddau y gellir defnyddio ffynonellau ychwanegol o gyllid wedi'i nodi yng Nghymal 49 o Gytundeb Fframwaith y BBC[107]. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu, er enghraifft, defnyddio cyllid o weithgareddau masnachol y BBC a chyllid cydgynhyrchu. Mae'r fframwaith hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y BBC sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng nghynnwys y BBC[108] a'r Datganiad Polisi ar Docynnau ar gyfer digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC[109].

---

[106] Yr adrannau o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 9: Cyfeiriadau Masnachol ar deledu a 10: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio. O dan Siarter 2016, daeth Gwasanaethau Cyhoeddus y DU o dan ddarpariaethau Adran 9 ac Adran 10 o God Darlledu Ofcom am y tro cyntaf

[107] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

[108] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

[109] Datganiad Polisi ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC 2017

## Ariannu ar gyfer BBC World Service

Ffi'r drwydded sy'n ariannu BBC World Service. Ar ben hynny, gall y BBC, drwy gytundeb ar y cyd, dderbyn cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer BBC World Service. Mae mathau penodol o gyllid arall hefyd wedi'u nodi yn Natganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded[110].

### Gwasanaethau Masnachol

Caniateir i'r BBC ymgymryd â gweithgareddau masnachol drwy is-gwmnïau masnachol ar wahân, sy'n gweithredu er mwyn gwneud elw i ategu refeniw o ffi'r drwydded. Nid ydynt yn cael eu hariannu gan refeniw o ffi'r drwydded, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ac maent yn cael eu rhedeg er mwyn gwneud elw.

Rhaid i weithgareddau masnachol y BBC beidio â pheryglu ei enw da na gwerth ei frand a rhaid iddynt fodloni'r canllawiau ar hysbysebu a nawdd.

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

Mae'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[111], y Datganiad Polisi ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC[112], Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded[113]a'r Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC i gyd yn gosod safonau ar gyfer cynnwys golygyddol yn eu meysydd perthnasol.

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

# 16.2 EGWYDDORION

16.2.1 Wrth geisio cydweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys rhai masnachol, rhaid i berthnasoedd allanol a threfniadau cyllido beidio ag amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC. Dylent hefyd fod yn unol â gwerthoedd y BBC, er mwyn peidio â dwyn anfri ar y BBC.

16.2.2 Cyn ffurfio perthynas allanol rhaid sicrhau:

- bod y trydydd parti yn briodol
- bod y berthynas yn briodol o ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu gwneud
- y bydd y BBC yn cadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar ei gynnwys golygyddol a'i allbwn.

(Gweler 16.4.1-16.4.8)

[110] Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded ('Cyllid Arall') 2017
[111] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)
[112] Datganiad Polisi ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC 2017
[113] Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded ('Cyllid Arall') 2017

16.2.3 Rhaid i bartneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i'r holl sefydliadau yn y bartneriaeth.

16.2.4 Er mwyn bod yn deg a thryloyw mewn partneriaethau ac mewn perthnasoedd eraill, rhaid cyfeirio'n briodol i'r gynulleidfa beth yw natur y berthynas a chydnabod y partner a phriodoli ei gyfraniad iddo.

(Gweler y canllawiau: Cydnabod a Labelu Perthnasoedd Allanol)

16.2.5 Rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU beidio â darlledu cynnwys golygyddol noddedig neu gynnwys hysbysebion[114], er bod y BBC wedi cael caniatâd penodol i dderbyn nawdd ar gyfer digwyddiadau'r BBC[115].

16.2.6 Mae'n bwysig na fydd trefniadau gyda sefydliadau allanol yn rhoi'r argraff bod un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cael ei noddi. Mae trefniadau sy'n ymwneud â chyllid a gafwyd gan gyrff nid-er-elw a chyrff tebyg eraill yn gorfod bod yn unol â Chymal 49 (4)(e) o'r Cytundeb Fframwaith[116].

16.2.7 Ar Wasanaethau Masnachol a'r World Service rhaid gwahaniaethu rhwng cynnwys golygyddol a chynnwys masnachol, fel hysbysebu. Gwaherddir hysbysebu dirgel.

16.2.8 Ar Wasanaethau Masnachol a'r World Service, ni chaniateir nawdd na chyllid allanol ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes, er mwyn peidio ag amharu ar ei ddidueddrwydd dyladwy a'i annibyniaeth. Nid yw cynnwys cynghori defnyddwyr i gael ei noddi'n uniongyrchol na'i ariannu'n allanol gan noddwyr neu arianwyr y mae eu cynhyrchion, eu gwasanaethau neu'u gweithgareddau yn debygol o gael eu hadolygu yn y cynnwys golygyddol.

# 16.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

## Atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

16.3.1 Rhaid i unrhyw gynnig i ffurfio partneriaeth gydag unrhyw lywodraeth gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 16.4.14)

---

[114] Ni chaniateir i'r BBC gynnwys unrhyw ddeunydd noddedig mewn unrhyw un o'i wasanaethau heb gael cymeradwyaeth y Gweinidog priodol ymlaen llaw. Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig 2016 Cymal 50 (2)

[115] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

[116] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig 2016

16.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys llywodraethiant democrataidd BBC World Service neu Media Action gael ei ariannu'n allanol gael ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwr perthnasol ar ôl cael cyngor gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 16.4.60)

## Atgyfeiriadau Eraill

16.3.3 Wrth gaffael technoleg gan drydydd partïon, gan gynnwys systemau awtomataidd sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial, rhaid i unrhyw gynnyrch a allai effeithio ar gynnwys golygyddol gael ei gymeradwyo gan ffigwr cynnyrch uwch mewn ymgynghoriad â ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 16.4.8)

16.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i ffurfio perthynas rhwng y BBC â'r Loteri Genedlaethol neu sefydliadau loteri eraill yn y DU gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch a fydd yn gorfod ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.14)

16.3.5 Rhaid i unrhyw gynnig i ffurfio partneriaeth olygyddol rhwng un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service â sefydliad masnachol neu elusen gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.15)

16.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu neu fewnblannu ffrwd fyw trydydd parti gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, sy'n gorfod troi at y tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.21)

16.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i osod dolen i ffrwd fyw oddi wrth noddwr digwyddiad trydydd parti neu i'w mewnblannu gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.21)

16.3.8 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, rhaid i unrhyw brosiectau cydariannu gael eu cymeradwyo mewn ysgrifen gan y cyfarwyddwr perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig.

(Gweler 16.4.28)

16.3.9 Rhaid i unrhyw gynnig i leihau cost digwyddiad ar-lein neu ar yr awyr un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, neu ddigwyddiad ar-lein neu ar yr awyr BBC World Service sydd wedi'i anelu at gynulleidfa yn y DU drwy dderbyn incwm nawdd masnachol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus, a Chyfreithiol Reoleiddiol.

(Gweler 16.4.30)

16.3.10 Rhaid i unrhyw gynnig i un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gynnal digwyddiad ar y cyd gyda thrydydd parti, neu ddigwyddiad hybrid lle bydd un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service yn trefnu digwyddiad ar ran trydydd parti, ac a ddangosir ar sianeli Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac yn derbyn nawdd masnachol, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus a Chyfreithiol Reoleiddiol i'w ystyried yn erbyn y Datganiad Polisi.

(Gweler 16.4.30)

16.3.11 Rhaid i unrhyw gynnig i noddi un o ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu un o ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr BBC World Service sydd wedi'i anelu at gynulleidfa yn y DU, a'r cydnabyddiaethau arfaethedig, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.30)

16.3.12 Rhaid i unrhyw gynnig i ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr ar un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU dderbyn nawdd gan gynhyrchion gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.32)

16.3.13 Dylai unrhyw gynnig i dderbyn nawdd gan sefydliadau alcohol, gamblo ac e-sigaréts gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i ffigwr golygyddol uwch a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.33)

16.3.14 Gallai nawdd gan unrhyw fwrdd twristiaeth neu fwrdd masnach fod yn dderbyniol ond rhaid ei atgyfeirio ymlaen llaw i ffigwr golygyddol uwch a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.33)

16.3.15 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, gellir cynnwys tocynnau i ddigwyddiadau a/neu sioeau'r BBC mewn raffl neu arwerthiant i godi arian ar gyfer elusennau partner y BBC. Rhaid atgyfeirio cynigion o'r fath i'r ffigwr golygyddol uwch sy'n gyfrifol am yr hyn sydd i'w gynnwys. Rhaid iddynt gefyd gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ac ITACU (Uned Cyngor a Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd).

(Gweler 16.4.38)

16.3.16 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, rhaid i unrhyw fwriad i gomisiynu digwyddiad mewn categori newydd nad yw'n recordiad arferol gyda threfniadau i godi tâl am docynnau gael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Adran/rheolwr perthnasol a fydd yn gorfod ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus a Chyfreithiol Reoleiddiol.

(Gweler 16.4.38)

16.3.17 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, rhaid i unrhyw gynnig i ariannu deunydd cymorth ar-lein neu ddeunydd nad yw ar yr awyr gan sefydliad masnachol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.40)

16.3.18 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys cyfeiriadau at noddwyr digwyddiadau trydydd parti heblaw chwaraeon ar-lein neu ar yr awyr gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio cynnwys gan y noddwr ar allbwn neu lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gael ei atgyfeirio hefyd.

(Gweler 16.4.42)

16.3.19 Rhaid atgyfeirio unrhyw sylw gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu BBC World Service i ddigwyddiad a noddir gan frand neu gynnyrch masnachol i ffigwr golygyddol uwch, a gallai gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol. Er mwyn osgoi'r risg o gyd-hyrwyddo, os yw digwyddiad yn cael ei noddi gan un o Wasanaethau Masnachol y BBC, rhaid ei atgyfeirio hefyd i ffigwr golygyddol uwch ac i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.45)

16.3.20 Rhaid i gynigion ar gyfer darlledu apelau (nad ydynt yn fentrau ariannu elusennol ar draws y BBC) gael eu hatgyfeirio i'r Cynghorydd Apelau Elusennau a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.47)

16.3.21 Rhaid i'r trefniadau ar gyfer darlledu apelau'r Pwyllgor Argyfyngau Brys gael eu hatgyfeirio i'r Cynghorydd Apelau Elusennau.

(Gweler 16.4.48)

16.3.22 Rhaid gofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol cyn dechrau trafodaethau â darpar bartneriaid i gychwyn menter codi arian newydd ar gyfer elusen ar draws y BBC. Wedyn bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ymgynghori â'r Cynghorydd Apelau Elusennau os bydd y cynnig am gael ei ddatblygu er mwyn cael cyfle i ystyried unrhyw effaith debygol ar draws apelau arferol eraill y BBC.

(Gweler 16.4.49)

16.3.23 Rhaid i unrhyw gyfeiriad at ariannwr allanol yng nghynnwys golygyddol BBC World Service neu Media Action gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu.

(Gweler 16.4.56)

16.3.24 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys golygyddol BBC World Service neu Media Action gael ei ariannu'n allanol gan adran neu asiantaeth llywodraeth dramor gael ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwr perthnasol.

(Gweler 16.4.57)

16.3.25 Rhaid i ddiolchiadau am ariannu allanol gan BBC World Service a Media Action gael eu cymeradwyo gan y rheolwr allbwn perthnasol yn y World Service, neu gan y cyfarwyddwr gwlad perthnasol yn BBC Media Action ar gyfer cynnwys Media Action nad yw'n ymddangos ar un o wasanaethau'r BBC.

(Gweler 16.4.58)

16.3.26 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio un o frandiau BBC News i ddibenion marchnata mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiad oddi ar yr awyr gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 16.4.65)

# 16.4 CANLLAWIAU

## RHAN A: CANLLAWIAU I’R HOLL WASANAETHAU

## Canllawiau ar gyfer yr Holl Berthnasoedd Golygyddol Allanol

16.4.1 Cyn ffurfio perthynas allanol rhaid sicrhau:

- bod y trydydd parti yn briodol
- bod y berthynas yn briodol o ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu gwneud
- y bydd y BBC yn cadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar ei gynnwys golygyddol a’i allbwn.

### Priodoldeb: trydydd partïon

16.4.2 Rhaid gwneud asesiad o nodau ac amcanion y trydydd parti, ei weithgareddau, ei gadernid ariannol, pwy sy’n ariannu neu’n noddi’r sefydliad ac a yw’r sefydliad wedi bod â rhan mewn unrhyw fater dadleuol a all gael effaith negyddol sylweddol ar enw da y BBC.

16.4.3 Rhaid sicrhau na fydd y berthynas allanol yn groes i’r gwerthoedd a'r safonau yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC.

Rhaid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â phriodoldeb y berthynas allanol ac mae’n rhaid i ffigwr golygyddol uwch, ar lefel pennaeth adran o leiaf, wneud penderfyniad yng ngoleuni hyn.

Dylid sicrhau diwydrwydd dyladwy ar ddechrau prosiectau neu gyfresi cynnwys pellach gyda’r un sefydliad i sicrhau nad oes dim wedi newid a all effeithio ar ba mor briodol yw’r berthynas. Dylid ystyried a fydd yr effaith gronnol o ymestyn y berthynas yn briodol.

### Priodoldeb: y berthynas sy’n cael ei ffurfio

16.4.4 Rhaid peidio â ffurfio perthynas allanol â phartïon eraill petai’n creu gwrthdaro rhwng buddiannau a allai amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

### Priodoldeb: rheolaeth olygyddol

16.4.5 Rhaid i’r BBC gael rheolaeth olygyddol annibynnol ar bopeth y mae’n ei gynhyrchu, ei ddarlledu neu ei gyhoeddi a rhaid iddo gael yr hawl i wrthod deunydd sydd wedi’i ddarparu gan unrhyw drydydd parti. Mewn cynnwys a grëwyd gan drydydd partïon i’r BBC, rhaid cyrraedd y safonau yn y Canllawiau Golygyddol. Rhaid i’r BBC gadw’r hawl bob amser i olygu fel y mae’n gweld yn dda.

16.4.6 Gall y BBC drwyddedu neu gynnal cynnwys ar ei lwyfannau sydd heb gael ei gomisiynu gan y BBC o bosibl. Rhaid i’r BBC gadw’r hawl i gydymffurfio â’r cynnwys hwn er mwyn bodloni safonau golygyddol.

16.4.7 Fel arfer dylai perthnasoedd allanol gyd-fynd â chylch gwaith golygyddol y gwasanaeth a'r hyn y mae'r gynulleidfa yn ei ddisgwyl ganddo. Rhaid peidio â chreu cynnwys golygyddol yn unswydd i gynnig cyfle ar gyfer perthynas fasnachol, er enghraifft hysbysebu, nawdd neu ariannu allanol.

16.4.8 **Wrth gaffael technoleg gan drydydd partïon, gan gynnwys systemau awtomataidd sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial, rhaid i unrhyw gynnyrch a allai effeithio ar gynnwys golygyddol gael ei gymeradwyo gan ffigwr cynnyrch uwch mewn ymgynghoriad â ffigwr golygyddol uwch.**

Rhaid i unrhyw ddefnydd o dechnoleg mewn perthynas â chynnwys y BBC, neu wrth greu cynnyrch y BBC, fodloni'r Canllawiau Golygyddol.

Efallai y bydd risgiau cyfreithiol hefyd, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, diogelu data a materion hawliau, felly dylid gofyn am ragor o arweiniad. Rhaid i unrhyw ddefnydd o feddalwedd gan y BBC, gan gynnwys meddalwedd a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio drwy'r rhyngrwyd ('gwasanaethau cwmwl') yn unig gael ei awdurdodi drwy'r broses rheoli asedau meddalwedd.

(Gweler y Broses Rheoli Asedau Meddalwedd)

Rhaid i unrhyw gynnyrch a allai effeithio ar gynnwys golygyddol gael ei gymeradwyo gan ffigwr cynnyrch uwch a fydd yn ystyried:

- pa mor briodol yw defnyddio'r dechnoleg
- mewn ymgynghoriad â ffigwr golygyddol uwch, p'un a fydd y cynnwys sy'n deillio ohono'n bodloni'r Canllawiau Golygyddol neu a fydd y canlyniadau sy'n deillio ohono'n bodloni'r Canllawiau Golygyddol.

16.4.9 Rhaid i'r BBC beidio â derbyn arian neu gydnabyddiaeth werthfawr arall yn gyfnewid am sylw golygyddol, dolenni, diolchiadau neu gyhoeddusrwydd gan y BBC. Fodd bynnag, fe all Gwasanaethau Masnachol wneud trefniadau ar gyfer lleoli a noddi cynnyrch.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.32-15.4.37)

Fel arfer dylai'r BBC gymeradwyo unrhyw gyfeiriad cyhoeddus at y BBC neu at berthynas â'r BBC a wneir gan y trydydd parti neu bartïon yn y berthynas allanol.

16.4.10 Er mwyn gweithredu'n dryloyw, dylai adrannau a chynhyrchwyr gadw cofnodion am unrhyw ariannu gan sefydliad allanol a chadw manylion yr asesiadau a wnaed at ddibenion diwydrwydd dyladwy.

## Partneriaethau Golygyddol

Partneriaeth olygyddol yw partneriaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys golygyddol neu frand a gomisiynwyd gan y BBC. Yn yr un modd â phob cynnwys golygyddol, rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar ei gynnwys a brandiau.

16.4.11 Mae'r BBC yn ceisio cynnig gwerth cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill. Dylai rhannu nodau ac uchelgeisiau cyffredin fod o fudd i gynulleidfaoedd a'r partïon dan sylw. Drwy weithio gydag eraill, mae'r BBC yn ceisio creu profiad cyfoethocach nag y gellid ei gyflawni ar wahân.

Gall y bartneriaeth gynnwys gweithgareddau ategol, fel oriel yn trefnu arddangosfa ar thema un o raglenni'r BBC, neu her chwarae gemau addysgol sy'n rhan o'r hyn a gynigir ar beiriant gemau trydydd parti. Mewn achosion eraill, gall y partner a'r BBC ariannu a chreu gweithgarwch oddi ar yr awyr ar y cyd.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros y partneriaethau, a rhaid dewis y partner ar sail meini prawf golygyddol priodol.

16.4.12 Rhaid i bartneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i'r holl sefydliadau yn y bartneriaeth. Rhaid i bartneriaeth olygyddol beidio â chael ei chyfyngu i'r BBC ddim ond yn rhoi sylw i weithgareddau partner neu hyrwyddo ei ymgyrchoedd. Rhaid i'r BBC beidio â rhoi amlygrwydd gormodol i drydydd partïon, eu brandiau, eu cynhyrchion, eu sefydliad, eu gwasanaethau na'u nodau masnach.

16.4.13 Rhaid cydnabod partneriaid golygyddol a phriodoli eu cyfraniad iddynt, yn cynnwys yn y brandio a'r gwaith hyrwyddo ar gyfer yr allbwn, y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd wedi'u creu neu eu dosbarthu. Dylai'r BBC geisio bod yn arloesol o ran sut mae'n rhoi cydnabyddiaeth deg i bartneriaid.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gydnabyddiaethau i bartneriaid, a rhaid iddynt fod yn briodol ac yn deg.

(Gweler y canllawiau: Cydnabod a Labelu Perthnasoedd Allanol)

16.4.14 Ni ddylai partneriaethau golygyddol beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC.
Ni ddylid eu ffurfio â'r canlynol:

- pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol
- grwpiau lobïo
- cwmnïau tybaco neu'r rheini sy'n cael eu hadnabod yn bennaf am gynhyrchion cysylltiedig â thybaco, neu gynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig ag ysmygu
- sefydliadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion neu wasanaethau i oedolion
- gweithgynhyrchwyr arfau
- ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU, gwneuthurwyr neu gyflenwyr diodydd alcoholig.

Mae'n bwysig sicrhau na fydd perthnasoedd ag adrannau neu lywodraethau'r DU, neu sefydliadau crefyddol, elusennau, ymddiriedolaethau, cyrff sefydledig a sefydliadau anllywodraethol sy'n lobïo yn amharu ar ddidueddrwydd y BBC. Rhaid sicrhau hefyd na fydd deunydd noddedig yn cael ei ddarlledu na'i gyhoeddi.

Ni ddylai'r BBC gael ei ddefnyddio gan fenter gan y llywodraeth neu grŵp ymgyrchu i lansio neu i ymddangos fel pe bai'n cymeradwyo polisi llywodraeth, plaid wleidyddol neu grŵp ymgyrchu. **Fel arfer ni ddylai'r BBC ffurfio partneriaeth ag unrhyw lywodraeth. Rhaid i unrhyw gynnig i wneud hynny gael ei atgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

**Rhaid i unrhyw gynnig i ffurfio perthynas rhwng y BBC â'r Loteri Genedlaethol neu sefydliadau loteri eraill yn y DU gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch a fydd yn gorfod ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.23)

## Partneriaethau ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service

16.4.15 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, mae'n rhaid i'r BBC geisio ffurfio partneriaethau, yn enwedig yn yr economi greadigol, lle byddai hynny er budd y cyhoedd, a chydag ystod eang o sefydliadau.

Gellir rhannu costau heblaw costau darlledu ar gyfer partneriaethau golygyddol â chyrff addas fel cyrff celfyddydol a diwylliannol, sefydliadau elusennol, ymddiriedolaethau neu gyrff sefydledig a sefydliadau yn cynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau llywodraeth lle mae cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny. Rhaid sicrhau bod pob partneriaeth yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[117].

**Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ffurfio partneriaethau golygyddol gyda sefydliad masnachol neu elusen. Rhaid i gynigion o'r fath gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried:

- y manteision cadarnhaol i'r BBC ac i allbwn, gwasanaethau a llwyfannau'r BBC
- a fyddai'r bartneriaeth yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC
- a yw'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi
- a fyddai'n rhoi amlygrwydd gormodol i'r trydydd parti.

Mae'n bwysig na fydd partneriaeth olygyddol ar un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn rhoi'r argraff bod gwasanaeth y BBC yn cael ei noddi.

Bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ymgynghori, neu'n hysbysu'r Cynghorydd Apelau Elusennau fel y bo'n briodol ynghylch partneriaethau elusennol newydd.

# Mentrau Golygyddol ar y Cyd

Menter olygyddol ar y cyd yw lle bydd y BBC yn ymuno â sefydliad arall ar gyfer prosiect neu fenter untro, fel arfer rhaglen neu ddarn o gynnwys penodol.

Nid oes bwriad iddi fod yn berthynas hirdymor felly nid yw'n bartneriaeth ffurfiol. Mae'n codi yn hytrach lle mae'r ddau sefydliad yn rhannu nod cyffredin, a gall fod yn briodol iddynt rannu adnoddau a chyfeirio at ei gilydd er mwyn ymestyn y profiad i'r gynulleidfa.

16.4.16 Wrth ymgymryd â menter olygyddol ar y cyd:

---

[117] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

- rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar unrhyw elfen o'r prosiect sy'n cyfeirio ato
- rhaid peidio â defnyddio'r fenter i hyrwyddo'r corff allanol
- ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, ni ddylai'r BBC fel arfer osod dolen sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw dudalen ar wefan y trydydd parti sydd â'r prif amcan o hyrwyddo neu werthu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth masnachol.

Gall y BBC a'r sefydliad gyflawni gweithgareddau eraill mewn perthynas â'r prosiect yn ogystal â chynhyrchu cynnwys.

## Cydgynyrchiadau

Cydgynhyrchu yw trefniant lle mae allbwn y BBC yn cael ei greu, ei gomisiynu neu ei gael fel arall gan y BBC drwy gydweithredu ag un neu ragor o drydydd partïon priodol, a lle darperir cyllid yn gyfnewid am ddarlledu, cyhoeddi neu hawliau eraill yn y deunydd.

16.4.17 Gall cydgynhyrchydd ymwneud â'r cynnwys golygyddol. Mewn rhai achosion gall hefyd fod yn bartner. Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service, rhaid i ddiolchiadau i gydgynhyrchwyr fod yn gyson â'r cyfarwyddyd ar gydnabod a labelu perthnasoedd allanol.

Ni ddylai cytundeb cydgynhyrchu amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC. Gall cydgynhyrchwyr gynnwys darlledwyr eraill, endidau cynhyrchu mewn unrhyw gyfrwng, celfyddydau, addysg, gwyddoniaeth, chwaraeon, sefydliadau diwylliannol ac elusennol, llwyfannau, labeli recordio a chyrff addas eraill.

(Gweler y canllawiau: Cydnabod a Labelu Perthnasoedd Allanol)

## Dosbarthiad

Dosbarthu yw trefnu i gynnwys fod ar gael i wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr eraill. Gall ddigwydd drwy amrywiaeth fawr o ddulliau drwy nifer mawr o wahanol dechnolegau a llwyfannau a rhaid iddo ddatblygu'n gyson wrth i dechnolegau a llwyfannau newydd gael eu datblygu. Mae'n cwmpasu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys:

- trosglwyddo teledu a radio i'w derbyn yn uniongyrchol gan gynulleidfaoedd
- syndicetio gwasanaethau i lwyfannau a reolir
- cyhoeddi asedau unigol ar lwyfannau ar-lein agored.

Nid yw'n cynnwys gwerthu rhaglenni.

16.4.18 Wrth ddosbarthu ei gynnyrch, rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol annibynnol ar y cynnwys.

Rhaid i'r BBC allu tynnu neu atal ei gynnwys yn ddi-oed, a rhaid i lwyfannau beidio â golygu cynnwys neu fetadata'r BBC oni chytunwyd fel arall.

Mae’n bwysig iddi fod yn hawdd i ddefnyddwyr allu gweld pa gynnwys ar lwyfan sy’n cael ei ddarparu gan y BBC.

Mae’n ofynnol bod Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a ddosberthir o fewn y DU yn cydymffurfio â Pholisi’r BBC ar Ddosbarthu.

16.4.19 Ar wasanaethau eraill, mae’r Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd i Wasanaethau Masnachol y BBC yn berthnasol.

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

## Ffrydiau Byw gan Drydydd Partïon

16.4.20 Dylai’r BBC gadw rheolaeth olygyddol ar ffrwd fyw sydd ar unrhyw wasanaeth.

Rhaid asesu’r risg o ganiatáu i allbwn byw trydydd parti ymddangos ar un o wasanaethau’r BBC cyn bwrw ymlaen. Dylid ystyried ffynhonnell y ffrwd fyw, natur y cynnwys a’r fformat.

Fel arfer ni ddylai’r BBC osod dolen i ffrydiau byw neu unrhyw fath arall o ddarlledu byw di-dor o gyfrifon cymdeithasol personol neu rai sydd heb eu gwirio, na’u mewnblannu. Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ni ddylai osod dolen i ffrydiau byw oddi wrth noddwr digwyddiad trydydd parti na’u mewnblannu fel arfer.

16.4.21 **Rhaid i unrhyw gynnig i ddarlledu neu fewnblannu ffrwd fyw trydydd parti gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu sy’n gorfod troi at y tîm Polisi Golygyddol.** Ni roddir cymeradwyaeth oni bai:

- na fyddai’n bosibl i’r BBC gael y cynnwys ei hun oherwydd ei natur unigryw a/neu’r amgylchiadau wrth ei ffrydio’n fyw
- y byddai’n bodloni'r Canllawiau Golygyddol ar breifatrwydd, niwed a thramgwydd, didueddrwydd dyladwy ac amlygrwydd gormodol
- ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service na fydd unrhyw gyfeiriad yn y cynnwys at ei noddwr, neu ei frandiau, cynhyrchion, sefydliadau, gwasanaethau neu nodau masnach.

Fel arfer nid yw’n briodol darlledu neu fewnblannu ffrwd fyw a gafwyd gan noddwr digwyddiad ar un o lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service.

**Rhaid i unrhyw gynnig i osod dolen i ffrwd fyw oddi wrth noddwr digwyddiad trydydd parti neu i’w mewnblannu gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a fyddai’r cynnig yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.37-7.4.41 Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.8 ac Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.67)

## Cymhellion Lleoli a Chynhyrchu

16.4.22 Yn aml, bydd cymhellion lleoli a chynhyrchu yn cael eu cynnig gan gynghorau ffilm neu sefydliadau llywodraethol neu ranbarthol o gwmpas y byd ar gyfer cynnwys golygyddol ac mae'r rhain yn eithriad a ganiateir o dan Gymal 49 o'r Cytundeb Fframwaith[118].

Mae'n bwysig na fydd unrhyw amodau a osodir gan y noddwr yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

Rhaid sicrhau na fydd buddiant gan ffynhonnell y cymhelliad yn y cynnwys a fyddai'n creu gwrthdaro os derbynnir cyllid ganddi[119].

## Hysbysebu gan Drydydd Partïon a Brand y BBC

16.4.23 Rhaid peidio â defnyddio brand y BBC i hyrwyddo sefydliadau eraill. Gellir sicrhau hyn drwy ofalu na fydd hysbysebion, deunydd hyrwyddo a datganiadau i'r wasg gan sefydliadau eraill yn rhoi'r argraff o gymeradwyaeth gan y BBC, ac nad yw hysbysebion yn peri coelio mai cynnwys y BBC ydynt.

Fel arfer ni ddylai enw'r BBC, ei logos, teitlau, enwau sianeli, teitlau rhaglenni, fformatau neu gymeriadau, setiau, cerddoriaeth nac arwyddeiriau ac unrhyw gynnwys adnabyddadwy ac Eiddo Deallusol y BBC gael eu defnyddio gan hysbysebwyr masnachol, ac eithrio yng nghyswllt hyrwyddo neu hysbysebu ar y cyd ar gyfer cynhyrchion a drwyddedwyd gan y BBC.

Ar gyfer hyrwyddo a hysbysebu ar y cyd ar gyfer cynhyrchion a drwyddedwyd gan y BBC, gellir cyfeirio at frand y BBC yn yr hysbysebu os yw nifer ac amlygrwydd y cyfeiriadau at y BBC yn yr ymgyrch drwyddi draw yn gymesur â rhan y BBC yn y cynnyrch.

### Tystlythyrau

16.4.24 Gall y BBC gael ceisiadau gan gyflenwyr presennol neu flaenorol am ganiatâd i gyfeirio at eu perthynas â'r BBC yn eu deunydd hyrwyddo ar gyfer y nwyddau neu'r gwasanaethau y maent wedi'u darparu. Mae perygl y bydd y cyfeiriadau hyn yn gamarweiniol neu'n awgrymu bod y BBC yn cymeradwyo'r cyflenwr hwnnw. Fel arfer, felly, dylai contractau a wneir â chyflenwyr gynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr ofyn am ganiatâd y BBC ar gyfer yr holl ddeunydd hyrwyddo sy'n cyfeirio at ei berthynas â'r BBC.

16.4.25 Gellir rhoi caniatâd i gyflenwr gyfeirio at ei berthynas â'r BBC ar yr amod:

- bod y BBC yn fodlon ar y nwyddau neu'r gwasanaethau a gafwyd gan y cyflenwr
- bod y BBC wedi cytuno ymlaen llaw i gyfeiriadau o'r fath a'i fod yn cadw rheolaeth olygyddol annibynnol arnynt

---

[118] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

[119] Canllawiau ar Gytuno ar Gyllid Arall gan y tîm Hawliau Masnachol a Materion Busnes: ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol

- bod cyfeiriadau at y BBC yn ffeithiol, yn gywir a heb fod yn gamarweiniol mewn perthynas â natur a chwmpas y berthynas ac nad ydynt yn awgrymu bod y BBC yn cymeradwyo unrhyw sefydliad.

# RHAN B: CANLLAWIAU AR GYFER GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y DU A BBC WORLD SERVICE

## Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service – Dulliau Ariannu a Ganiateir

16.4.26 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service gymryd cyllid:

- o Weithgareddau Masnachol y BBC[120]
- o Weithgareddau Masnachu'r BBC[121]
- o daliadau gwirfoddol o ffi'r drwydded, cymynroddion neu roddion eraill
- gan y Brifysgol Agored ar gyfer allbwn dysgu ac addysgol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y Brifysgol Agored a'r BBC
- o unrhyw gytundeb cydgynhyrchu[122].

Mae'n ofynnol bod y gweithgareddau canlynol yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[123]:

### Partneriaethau

16.4.27 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ddefnyddio cyllid a gafwyd gan unrhyw gyrff diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon, addysgol a gwyddoniaeth nid-er-elw neu sefydliadau tebyg ond dim ond lle mae derbyn y cyllid yn gydnaws â'r Datganiad Polisi. Gweler Partneriaethau Golygyddol am ragor o fanylion.

(Gweler 16.4.11-16.4.15)

### Cydariannu

Cydariannu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yw ariannu ar gyfer allbwn gan gyrff nid-er-elw mewn ieithoedd lleiafrifol. Gallai hefyd fod yn briodol mewn nifer bach o amgylchiadau eraill fel allbwn dysgu

---

[120] Yn ôl diffiniad Cymal 23 y Cytundeb Fframwaith

[121] Yn ôl diffiniad Cymal 31 y Cytundeb Fframwaith

[122] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016 Cymal 49

[123] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

ac addysgol wedi'i anelu at ran benodol o'r gynulleidfa, lle nad oes cyfiawnhad o bosibl dros ariannu'r allbwn yn llwyr o ffi'r drwydded.

16.4.28 Gall y BBC dderbyn cydariannu gan gyrff nid-er-elw ar gyfer allbwn mewn ieithoedd lleiafrifol fel ar BBC Alba, neu mewn Gwyddeleg, ac mewn amgylchiadau cyfyngedig eraill - ond dim ond pan mae hynny'n gydnaws â'r Datganiad Polisi, i bortreadu a gwasanaethu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Weithiau, gall y BBC dderbyn cydariannu gan gyrff nid-er-elw ar gyfer cynnwys dysgu neu addysgol, neu allbwn wedi'i anelu at ran benodol o'r gynulleidfa, mewn amgylchiadau lle na fyddai cyfiawnhad dros ariannu'r allbwn yn gyfan gwbl o ffi'r drwydded.

Mae cydarianwyr addas yn cynnwys cyrff a ariennir gan y cyhoedd, elusennau, ymddiriedolaethau elusennol a chyrff gwirfoddol.

Rhaid peidio byth â derbyn cydariannu ar gyfer cynnwys newyddion, materion cyfoes neu gynnwys cynghori defnyddwyr.

Rhaid i gynnwys golygyddol a gydariennir beidio â hyrwyddo'r ariannwr.

**Rhaid i unrhyw brosiectau cydariannu gael eu cymeradwyo mewn ysgrifen gan y cyfarwyddwr perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig.**

## Cystadlaethau a Gwobrau

16.4.29 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r BBC World Service, rhaid sicrhau bod cystadlaethau a drefnir ar y cyd, gwobrau sy'n cael eu rhoi ar gyfer cystadlaethau i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein, ac ariannu allanol ar gyfer gwobr neu fwrsari yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[124].

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.2.8)

## Digwyddiadau Noddedig Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service

### Digwyddiadau BBC Online neu Ar yr Awyr sy'n cael eu Noddi

Cynnwys golygyddol noddedig (a all gynnwys rhaglen, sianel, segment mewn rhaglen neu floc o raglenni) yw cynnwys golygyddol y talwyd rhai neu'r cyfan o'i gostau gan noddwr. Mae'n cynnwys rhaglenni a ariannwyd gan hysbysebwyr. Rhaid enwi noddwyr mewn cydnabyddiaethau am nawdd.

Noddwr (cynnwys golygyddol) yw unrhyw ymgymeriad cyhoeddus neu breifat neu unigolyn (nad yw'n ymwneud â darparu neu gynhyrchu cynnwys) sy'n ariannu'r cynnwys golygyddol (neu ei gyhoeddi neu ei ddarlledu) er mwyn hyrwyddo ei enw, ei frandiau, ei gynhyrchion, ei sefydliadau, ei wasanaethau, ei nodau masnach a/neu ei weithgareddau.

[124] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

16.4.30 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service drefnu digwyddiadau cyhoeddus, fel cyngherddau a seremonïau gwobrwyo, a fydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau allanol ac yn derbyn sylw ar-lein neu ar yr awyr. Mae digwyddiadau o'r fath yn hanfodol i gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC drwy ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau ac ymwneud yn bersonol â'r BBC.

Mewn rhai achosion, gall fod yn dderbyniol defnyddio arian nawdd a geir gan gorff anfasnachol fel tâl atodol tuag at y gost o drefnu digwyddiad cyhoeddus.

**Rhaid i unrhyw gynnig i leihau cost digwyddiad ar-lein neu ar yr awyr un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, neu ddigwyddiad ar-lein neu ar yr awyr BBC World Service sydd wedi'i anelu at gynulleidfa yn y DU drwy dderbyn incwm nawdd masnachol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus, a Chyfreithiol Reoleiddiol a fydd yn ystyried:**

- a yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[125]
- a fyddai'r cynnig yn dwyn anfri ar y BBC
- a fyddai'r cynnig yn codi materion sy'n ymwneud ag effaith andwyol ar y farchnad
- a fyddai'r cynnig yn arwain at ganfyddiad bod y BBC yn hyrwyddo un sefydliad masnachol dros ei gystadleuwyr.

**Rhaid i unrhyw gynnig i un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gynnal digwyddiad ar y cyd gyda thrydydd parti, neu ddigwyddiad hybrid lle bydd un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service yn trefnu digwyddiad ar ran trydydd parti, a fydd yn cael ei ddangos ar sianeli Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac yn derbyn nawdd masnachol, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus a Chyfreithiol Reoleiddiol i'w ystyried yn erbyn y Datganiad Polisi.**

**Rhaid i unrhyw gynnig i noddi un o ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU, neu un o ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr BBC World Service sydd wedi'i anelu at gynulleidfa yn y DU, a'r cydnabyddiaethau arfaethedig, gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu ac i'r tîm Polisi Golygyddol**, a fydd yn ystyried:

- a yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[126]
- a fyddai'r cynnig yn dwyn anfri ar y BBC
- a yw'r cydnabyddiaethau arfaethedig yn unol â'r canllawiau ar Ddigwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus Noddedig a heb fod yn rhy amlwg.

---

[125] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

[126] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

(Gweler y canllawiau: Noddi Digwyddiadau'r BBC Ar yr Awyr neu Ar-lein sy'n cael eu Darlledu ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC)

16.4.31 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU, ac yng nghyswllt digwyddiadau BBC World Service a anelir at gynulleidfa yn y DU, ni ellir ond defnyddio arian y noddwr tuag at y gost o drefnu'r digwyddiad ac ni cheir defnyddio arian nawdd i dalu costau cynhyrchu neu ddarlledu ar gyfer y digwyddiad.

Rhaid i'r tîm cynhyrchu gadw cyfrifon ar wahân ar gyfer costau'r digwyddiad a'r costau darlledu.

16.4.32 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service sydd wedi'u targedu at y DU gynnwys digwyddiadau'r Loteri Genedlaethol a digwyddiadau eraill y loterïau gan atgyfeirio at y tîm Polisi Golygyddol – gweler atgyfeiriadau eraill yn gynharach. Ni ellir derbyn arian nawdd ond ar gyfer digwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr sy'n neilltuol ac sy'n helpu'r BBC i hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus. Mae digwyddiadau sy'n gymwys ar gyfer derbyn nawdd yn cynnwys:

- cyngherddau, perfformiadau neu ddigwyddiadau diwylliannol neu gelfyddydol gan gynnwys, ymysg eraill, digwyddiadau perfformio cystadleuol sy'n dathlu cyflawniadau artistig
- seremonïau gwobrwyo'r BBC
- mentrau cymunedol neu chwilio am dalent ifanc y BBC sy'n cynnwys digwyddiad ar-lein neu ar yr awyr.

Ni cheir noddi digwyddiadau newyddion a materion cyfoes ar yr awyr neu ar-lein, na digwyddiadau wedi'u seilio ar raglenni cyngor i ddefnyddwyr.

Hefyd:

- rhaid peidio â chynnwys enw noddwr yn nheitl digwyddiadau'r BBC
- ni ddylai digwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr greu gwrthdaro rhwng buddiannau a allai amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC[127]
- ni ddylai trefniadau noddi roi'r argraff bod un o raglenni neu un o wasanaethau'r BBC yn cael ei noddi. Rhaid ei gwneud yn glir yn y cydnabyddiaethau mai'r digwyddiad ei hun sy'n cael ei noddi
- ni ddylid gwneud trefniant contractiol sy'n gwarantu cydnabyddiaeth ar-lein neu ar yr awyr oherwydd gall hynny fod yn gyfystyr â lleoli cynnyrch.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddigwyddiadau ar-lein neu ar yr awyr ar un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU dderbyn nawdd gan gynhyrchion gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a fydd yn ystyried:**

- a yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[128]
- a fyddai'r cynnig yn dwyn anfri ar y BBC.

16.4.33 Ni chaniateir i sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r isod noddi digwyddiadau a drefnir gan Wasanaethau Cyhoeddus y DU na BBC World Service:

---

[127] Gallai enghraifft o hyn gynnwys nawdd gan sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phwnc y digwyddiad neu gynnwys golygyddol sy'n gysylltiedig ag ef

[128] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

- pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol
- llywodraethau tramor
- grwpiau lobïo
- grwpiau ffydd, crefydd neu systemau cred cyfatebol
- cwmnïau tybaco neu'r rheini sy'n cael eu hadnabod yn bennaf am gynhyrchion cysylltiedig â thybaco, neu gynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig ag ysmygu
- cynhyrchion a gwasanaethau i oedolion
- gweithgynhyrchwyr arfau.

**Dylai unrhyw gynnig i dderbyn nawdd gan sefydliadau alcohol, gamblo ac e-sigaréts gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i ffigwr golygyddol uwch a'r tîm Polisi Golygyddol.**

**Gallai nawdd gan unrhyw fwrdd twristiaeth neu fwrdd masnach fod yn dderbyniol ond rhaid ei atgyfeirio ymlaen llaw i ffigwr golygyddol uwch a'r tîm Polisi Golygyddol.**

16.4.34 Rhaid sicrhau na fydd agenda'r noddwr yn pennu cylch gwaith golygyddol y digwyddiad a rhaid sicrhau na fydd y digwyddiad yn gyfrwng i hyrwyddo'r noddwr neu ei weithgareddau.

Fel arfer nid yw'n briodol darlledu neu fewnblannu ffrwd fyw a gafwyd gan noddwr digwyddiad ar un o lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service.

(Gweler 16.4.20-16.4.21)

### Noddi Gwobrau

- 16.4.35 Gellir derbyn cymorth gan noddwr anfasnachol ar gyfer gwobrau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a gyflwynir yn un o ddigwyddiadau'r BBC.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.8-17.4.11)

### Noddi Digwyddiadau Oddi Ar yr Awyr

16.4.36 Gellir derbyn nawdd ar gyfer digwyddiadau'r BBC nad ydynt ar yr awyr.

(Gweler y canllawiau: Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus Oddi Ar yr Awyr)

## Gwerthu Tocynnau

16.4.37 Gall y BBC adennill costau o'r elw o werthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau gan Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service sy'n cyfrannu at gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC[129]. Dylai hyn fod yn unol â'r Datganiad ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC[130].

16.4.38 Ni ddylid codi tâl am fynediad i recordiadau rheolaidd o raglenni.

(Gweler y canllawiau: Tocynnau ar gyfer Digwyddiadau a Rhaglenni'r BBC)

---

[129] Cymal 49(4)(h) o Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

[130] Datganiad Polisi ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC 2017

Rhaid defnyddio'r refeniw o werthu tocynnau i dalu costau'r digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau yn unig a rhaid peidio â'i ddefnyddio i dalu costau darlledu neu gynhyrchu. Nid diben yr elw yw creu incwm ychwanegol i'r BBC.

**Gellir cynnwys tocynnau i ddigwyddiadau a/neu sioeau'r BBC mewn raffl neu arwerthiant i godi arian ar gyfer elusennau partner y BBC. Rhaid atgyfeirio cynigion o'r fath i'r ffigwr golygyddol uwch sy'n gyfrifol am yr hyn sydd i'w gynnwys. Rhaid iddynt hefyd gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol ac ITACU (Uned Cyngor a Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd).**

Dylai'r tîm cynhyrchu, comisiynu a Hawliau Masnachol a Materion Busnes (CRBA) gadw cyfrifon ar wahân ar gyfer costau digwyddiadau a chostau cynhyrchu a chofnodion o'r refeniw o werthu tocynnau sy'n mynd i'r BBC neu drwy'r BBC.

Mae gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau newydd ac ar gyfer cael cymeradwyaeth barhaus i ddigwyddiadau sydd mewn bod eisoes.

(Gweler y canllawiau: Tocynnau ar gyfer Digwyddiadau a Rhaglenni'r BBC)

**Rhaid i unrhyw fwriad i gomisiynu digwyddiad mewn categori newydd, nad yw'n recordiad arferol, gyda threfniadau i godi tâl am docynnau gael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Adran/ rheolwr perthnasol a fydd yn gorfod ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol, Polisi Cyhoeddus a Chyfreithiol Reoleiddiol.**

## Rhaglenni Trawsnewid

16.4.39 Rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service dalu costau cynhyrchu llawn rhaglenni trawsnewid.

Gall perchennog y cartref neu'r sefydliad sy'n elwa gyfrannu at rai o'r costau trawsnewid, ond ni ddylai cyfraniad ariannol fod yn rhagofyniad ar gyfer cymryd rhan mewn rhaglen trawsnewid. Rhaid i drefniadau o'r fath gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[131].

(Gweler y canllawiau: Rhaglenni Trawsnewid – ariannu a dewis cyfranwyr)

Ni cheir rhoi arian a gafwyd gan berchennog y cartref at y gyllideb cynhyrchu. Rhaid i'r tîm cynhyrchu gadw cyfrifon ar wahân ar gyfer y rhaglen a'r gwaith trawsnewid.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.16)

## Ariannu Deunydd Ategol Ar-lein neu Oddi Ar yr Awyr

16.4.40 Gellir derbyn cyllid allanol ar gyfer deunydd neu wasanaethau ategol ar-lein neu oddi ar yr awyr ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service ar ffurf nawdd gan drydydd parti, a fydd fel arfer yn sefydliad nid-er-elw.

[131] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

**Rhaid i unrhyw gynnig i ariannu deunydd ategol ar-lein neu oddi ar yr awyr gan sefydliad masnachol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a fyddai'r ariannu'n gyfystyr â'r BBC yn hyrwyddo'r sefydliad, ei gynhyrchion neu ei wasanaethau. Rhaid i'r trydydd parti hefyd fodloni'r Canllawiau ar Briodoldeb.

(Gweler 16.4.1-16.4.10)

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

# Perthnasoedd Allanol eraill Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a BBC World Service

## Sylw i Ddigwyddiadau a Noddir gan Drydydd Parti

16.4.41 Mae'r BBC yn rhoi sylw i amrywiaeth fawr o ddigwyddiadau trydydd parti, digwyddiadau chwaraeon, sioeau gwobrwyo a digwyddiadau cerddorol, ac mae nifer mawr o'r rhain wedi'u noddi.

Mewn sylw o'r fath:

- dylai rôl alluogi noddwyr gael cydnabyddiaeth deg
- rhaid peidio â hyrwyddo noddwyr mewn darllediadau gan y BBC. Mae'n bwysig na fydd unrhyw gyfeiriadau neu gydnabyddiaethau yn rhy amlwg

  (Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.1-15.4.9)
- rhaid i ddigwyddiadau a noddir gan drydydd partïon beidio â bod wedi'u creu'n unswydd i gael sylw darlledu
- rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd y DU beidio â derbyn unrhyw arian gan noddwyr neu drefnwyr tuag at gost unrhyw elfen yn y sylw i'r digwyddiad sy'n cael ei ddarlledu, oni bai fod y trefnydd yn gydgynhyrchydd. Er hynny, gallant dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ei hun
- rhaid peidio â gwneud trefniant contractiol sy'n gwarantu nifer penodol o funudau o sylw i arwyddion ar yr awyr i'r noddwr.

16.4.42 **Rhaid i unrhyw gynnig gynnwys cyfeiriadau at noddwyr digwyddiadau trydydd parti heblaw chwaraeon ar-lein neu ar yr awyr gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, ac i'r tîm Polisi Golygyddol**. **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio cynnwys gan y noddwr ar allbwn neu lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service gael ei atgyfeirio hefyd.** Byddant yn ystyried:

- a yw'r cynigion yn gyson â'r cyfarwyddyd ar Sylw i Ddigwyddiadau Noddedig (Heblaw Chwaraeon) sy'n cael eu trefnu gan Drydydd Partïon (Gweler y canllawiau: Sylw i Ddigwyddiadau Noddedig (Heblaw Chwaraeon) sy'n cael eu trefnu gan Drydydd Partïon)
- a yw'r cyfeiriad yn creu'r argraff bod cynnwys golygyddol Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service wedi'i noddi.

16.4.43 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys dolenni o lwyfannau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU neu BBC World Service sy'n rhoi sylw i ddigwyddiadau i lwyfannau'r noddwr a rhaid iddynt fod yn

ddolenni sy'n cysylltu â gwefannau sy'n rhoi gwybodaeth berthnasol am y digwyddiad ac nid yn gwerthu cynhyrchion neu wasanaethau.

16.4.44 Rhaid i'r noddwr fod yn briodol. Mae'n bwysig na fydd y sylw i'r digwyddiad noddedig yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

(Gweler 16.4.1-16.4.10)

16.4.45 **Gallai unrhyw sylw gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu BBC World Service i ddigwyddiad a noddir gan frand neu gynnyrch masnachol achosi risg uwch o roi amlygrwydd gormodol. Rhaid ei atgyfeirio at ffigwr golygyddol uwch a gellir ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a ellir lliniaru'r risg. **Os yw digwyddiad yn cael ei noddi gan un o Wasanaethau Masnachol y BBC, rhaid ei atgyfeirio hefyd i ffigwr golygyddol uwch ac i'r tîm Polisi Golygyddol mewn achos o risg o gyd-hyrwyddo.** Byddant yn ystyried a oes modd lliniaru hyn.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.25)

## Y Loteri Genedlaethol

16.4.46 Gall y BBC roi sylw i'r Loteri Genedlaethol sydd wedi'i sefydlu gan Ddeddf Seneddol.

(Gweler 16.4.14)

## Elusennau

### Darlledu Apelau

16.4.47 Fel darlledwr gwasanaethau cyhoeddus, mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn trefnu i amser fod ar gael ar yr awyr ac ar-lein ar gyfer darlledu apelau gan elusennau. Mae'r apelau hyn yn wahanol i bartneriaethau hirdymor ag elusennau. Maent yn perthyn i sawl categori gwahanol:

- y slotiau apêl 'mynediad' rheolaidd ar Radio 4, Lifeline BBC One, Radio Ulster a BBC TV Northern Ireland
- radio lleol
- apelau untro eraill.

(Gweler 16.4.49)

(Gweler y canllawiau: Apelau gan Elusennau)

Bydd yn bwysig bod y dewis o apelau i'w darlledu yn adlewyrchu amrywiaeth y sector elusennol. Rhaid i'r broses ddethol fod yn deg ac yn dryloyw a dylai gynnwys meini prawf sy'n ymwneud â chadernid ariannol a llywodraethiant y sefydliad.

Rhaid i'r dewis o elusennau gael ei oruchwylio gan y Cynghorydd Apelau Elusennau, gyda chyngor gan y tîm Polisi Golygyddol.

Ar gyfer ceisiadau am y gynnwys gan elusennau, gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.31-13.4.41)

Mae'n bwysig bod pob apêl a ddarlledir yn cyd-fynd â'r cyfarwyddyd ar Apelau gan Elusennau. **Rhaid atgyfeirio cynigion i ddarlledu apelau (nad ydynt yn fentrau codi arian at elusennau ar draws y BBC) i'r Cynghorydd Apelau Elusennau a'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn rhoi cyngor ar y prosesau sydd eu hangen i sicrhau dewis teg a thryloyw.

(Gweler y canllawiau: Apelau gan Elusennau)

### Apelau'r Pwyllgor Argyfyngau Brys

16.4.48 Os ceir trychineb ryngwladol fawr, gall y BBC ddarlledu neu gyhoeddi apêl ar ran y Pwyllgor Argyfyngau Brys, sy'n cynrychioli prif elusennau cymorth dyngarol y DU. Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol annibynnol a rhaid i'r darllediad gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol.

**Dylai'r broses gymeradwyo a'r trefniadau ar gyfer darlledu apelau o'r fath gyd-fynd â chyfarwyddyd y BBC ar apelau'r Pwyllgor Argyfyngau Brys a rhaid eu hatgyfeirio i'r Cynghorydd Apelau Elusennau** a fydd yn cysylltu â ffigyrau uwch ledled y BBC i geisio cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer yr apêl.

(Gweler y canllawiau: Apelau gan Elusennau)

### Mentrau Codi Arian i Elusennau ar Draws y BBC

16.4.49 Mae'r BBC yn cynnal mentrau codi arian i elusennau ar draws y BBC, er enghraifft, BBC Plant mewn Angen a Comic Relief.

Mae'r mentrau hyn yn bartneriaethau rhwng y BBC a sefydliadau elusennol. Maent yn fentrau:

- sy'n rhan o gytundeb partneriaeth a gall y BBC gydgynhyrchu â'r elusen mewn mentrau o'r fath
- y gellir eu trefnu gydag elusen sy'n sefydliad ambarél sy'n rhoi grantiau i amrywiaeth fawr o elusennau neu fenter gyda nifer o wahanol elusennau i gyflawni nod golygyddol cyffredin a gytunwyd â'r BBC fel partner darlledu
- a fydd fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o raglenni a chynnwys a geir gan y BBC a'r partner elusennol
- a ddylai gyd-fynd â chanllawiau'r BBC ar Fentrau Codi Arian i Elusennau ar draws y BBC.

(Gweler y canllawiau: Apelau gan Elusennau)

**Rhaid gofyn am gyngor gan y tîm Polisi Golygyddol cyn dechrau trafodaethau â darpar bartneriaid i gychwyn menter codi arian newydd ar gyfer elusen ar draws y BBC. Bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ystyried a fyddai'r fenter yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth y BBC.** Wedyn bydd y tîm Polisi Golygyddol yn ymgynghori â'r Cynghorydd Apelau Elusennau os bydd y cynnig am gael ei ddatblygu er mwyn cael cyfle i ystyried unrhyw effaith debygol ar draws apelau arferol eraill y BBC.

### Cyfeiriadau at Elusennau yn Allbwn Arall y BBC

16.4.50 Ar wahân i Apelau'r BBC a mentrau codi arian i elusennau ar draws y BBC, ni ddylai cynnwys golygyddol y BBC wneud apêl uniongyrchol am arian i elusennau.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.13-3.4.14)

Rhaid cadw didueddrwydd, uniondeb golygyddol ac annibyniaeth wrth ymdrin â gwaith elusennau, ac ni ddylai ymddangos bod un elusen yn cael ei ffafrio dros un arall.

## BBC World Service – Dulliau Ariannu Ychwanegol a Ganiateir

16.4.51 Yn ogystal â'r dulliau ariannu a ganiateir sy'n berthnasol o dan y Cytundeb Fframwaith,[132] gellir defnyddio cyllid arall i ategu ei arian o ffi'r drwydded fel y nodwyd yn Natganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded[133].

(Gweler 16.4.26-16.4.40)

Rhaid i BBC World Service gadw cofnod o'r symiau cyfyngedig o gyllid arall y mae'n eu cymryd.

16.4.52 Caniateir i'r World Service gynnal dim ond swm priodol a chymesur o hysbysebu a nawdd ar ei wasanaethau nad ydynt wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd yn y DU. Rhaid sicrhau bod hysbysebu a nawdd yn cyd-fynd â'r Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd i Wasanaethau Masnachol y BBC a rhaid ystyried disgwyliadau tebygol y cynulleidfaoedd arfaethedig, gofynion mewn rheoliadau a normau'r farchnad leol yn y diriogaeth berthnasol.

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

Gall BBC World Service hefyd gymryd cynnwys a ariannwyd gan sefydliad allanol nad yw'n gynnwys a noddwyd ond sydd un ai:

- wedi'i ariannu gan BBC Media Action ar yr amod bod unrhyw gyllid allanol perthnasol a ddarparwyd i Media Action yn bodloni'r gweithdrefnau cydymffurfio perthnasol yn unol â chyfansoddiad BBC Media Action neu
- wedi'i ariannu gan arianwyr allanol priodol eraill, ar yr amod bod hynny'n gyson â'r Canllawiau Golygyddol.

Gall BBC World Service hefyd ymrwymo i gytundeb sy'n pennu y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i BBC World Service am gyfnod penodol neu at ddiben penodol. Rhaid iddo fod yn gyson â Chytundeb Fframwaith y BBC[134].

[132] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016
[133] Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded ('Cyllid Arall') 2017
[134] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

# RHAN C: CANLLAWIAU YCHWANEGOL AR GYFER BBC WORLD SERVICE A BBC MEDIA ACTION

## Cyllid Allanol i BBC World Service nad yw'n Gyd-gynhyrchiad nac yn Nawdd ac ar gyfer BBC Media Action

Ystyr ariannu allanol yw pan fydd unrhyw ymgymeriad cyhoeddus neu breifat (yn cynnwys unigolion ymysg eraill) yn ariannu cynnwys golygyddol ond heb ei gydgynhyrchu na'i noddi. Ni ellir hyrwyddo ariannwr allanol yn y cynnwys golygyddol nac o'i gwmpas drwy gydnabyddiaeth i noddwr.

Fodd bynnag, er mwyn gweithredu'n dryloyw, rhaid cydnabod yr ariannwr allanol yn y cydnabyddiaethau ar y diwedd neu ger y cynnwys golygyddol. Bydd cyllid allanol o'r fath ar ffurf grant fel arfer. Nid yw arianwyr allanol yn gyd-gynhyrchwyr oherwydd nid cyfnewid hawliau yw prif bwrpas yr ariannu.

16.4.53 Rhaid i'r holl berthnasoedd ariannu allanol gydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer yr Holl Berthnasoedd Golygyddol Allanol.

(Gweler 16.4.1-16.4.10)

Rhaid peidio â derbyn cyllid allanol os oes cysylltiad rhwng amcanion yr ariannwr allanol a'r cynnwys golygyddol a fyddai'n amharu ar annibyniaeth y BBC.

Gall BBC World Service dderbyn cyllid allanol i wneud cynnwys golygyddol sy'n cydymffurfio â Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded[135].

16.4.54 Rhaid peidio â derbyn cyllid allanol ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes. Ni chaniateir derbyn cyllid allanol ar gyfer cynnwys cynghori defnyddwyr gan arianwyr allanol y gallai eu cynhyrchion, eu gwasanaethau neu eu gweithgareddau gael eu hadolygu yn y cynnwys golygyddol.

16.4.55 Gellir derbyn cyllid ar gyfer cynnwys nad yw'n gynnwys newyddion, materion cyfoes neu gynghori defnyddwyr gan bartïon priodol eraill sy'n bodloni'r meini prawf yn y canllawiau ar gyfer yr Holl Berthnasoedd Golygyddol Allanol.

(Gweler 16.4.1-16.4.10)

Gall arianwyr allanol priodol fod yn sefydliadau anfasnachol neu fasnachol. Fodd bynnag, rhaid peidio â hyrwyddo'r ariannwr allanol na'i enw, ei frand, ei gynhyrchion, ei sefydliad, ei wasanaethau, ei nod masnach, ei ddelweddau na'i weithgareddau yn y cynnwys neu o'i gwmpas naill ai yn y deunydd golygyddol neu drwy gydnabyddiaeth i noddwr.

Gwaherddir ariannu allanol ar gyfer cynnwys gan sefydliadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol
- grwpiau lobïo
- grwpiau ffydd, crefydd neu systemau cred cyfatebol
- cwmnïau tybaco neu'r rheini sy'n cael eu hadnabod yn bennaf am gynhyrchion cysylltiedig â thybaco, neu gynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig ag ysmygu

---

[135] Datganiad Polisi BBC World Service ar Ffynonellau Cyllid heblaw Ffi'r Drwydded ('Cyllid Arall') 2017

- cynhyrchion a gwasanaethau i oedolion
- gweithgynhyrchwyr arfau.

16.4.56 **Rhaid i unrhyw gyfeiriad at ariannwr allanol yng nghynnwys golygyddol BBC World Service neu Media Action gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu,** a fydd yn ystyried a oes cyfiawnhad golygyddol dros y cyfeiriad ac nad yw'n hyrwyddo.

16.4.57 **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys golygyddol BBC World Service neu Media Action gael ei ariannu'n allanol gan adran neu asiantaeth llywodraeth dramor gael ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwr perthnasol** a fydd yn ystyried a fyddai'r cyllid allanol yn gwneud drwg i enw da'r BBC am fod yn ddiduedd ac annibynnol.

(Gweler 16.4.60)

16.4.58 Rhaid tynnu sylw at drefniadau ariannu allanol drwy eu cydnabod yn ffeithiol a heb hyrwyddo. Rhaid peidio ag awgrymu yn y gydnabyddiaeth honno fod y rhaglen wedi'i gwneud gan yr ariannwr allanol. Er mwyn osgoi hyrwyddo, ni cheir defnyddio logos unrhyw arianwyr allanol. Rhaid cydnabod ar ffurf safonol ger y cynnwys golygyddol. Yn achos cynnwys sain a fideo, dylid gwneud hyn yn y diolchiadau ar y diwedd fel arfer. Rhaid iddynt beidio â bod yn gredyd nawdd. Rhaid peidio â chynnwys manylion cyswllt yr ariannwr allanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfeiriadau gwe.

Rhaid sicrhau na fydd y diolchiadau am ariannu allanol yn cynnwys unrhyw elfen o'r rhaglen nac o frandiau eraill y BBC, ac na fyddant yn cael eu llefaru gan rywun sy'n ymddangos yn y rhaglen. BBC Media Action yw elusen ryngwladol y BBC. Fe'i cyllidir yn bennaf drwy grantiau a chyfraniadau a rhoddion gwirfoddol. **Rhaid i ddiolchiadau BBC World Service neu Media Action am ariannu allanol gael eu cymeradwyo gan y rheolwr allbwn perthnasol yn y World Service, neu gan y cyfarwyddwr gwlad perthnasol yn Media Action ar gyfer cynnwys Media Action nad yw'n ymddangos ar un o wasanaethau'r BBC**, a fydd yn ystyried a fyddai'r diolchiadau yn hyrwyddo'r ariannwr allanol, sydd wedi'i wahardd.

Nid yw ariannwyr allanol yn cael gweld rhagolwg o gynnwys y BBC fel arfer.

16.4.59 Gall gwasanaethau BBC World Service ddarlledu rhaglenni sydd wedi'u gwneud gan neu ar y cyd ag elusen ryngwladol y BBC, BBC Media Action.

Gellir ariannu rhaglenni Media Action sy'n cael eu cyhoeddi neu eu darlledu ar BBC World Service drwy grantiau a wneir i Media Action gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

## Cynnwys Llywodraethiant Democrataidd

Cynnwys llywodraethiant democrataidd yw math o gynnwys materion cyfoes ar BBC World Service a Media Action sydd â'r nod o wella atebolrwydd democrataidd drwy feithrin gwell dealltwriaeth o'r broses a sefydliadau gwleidyddol, a drwy ddal y rheini sydd mewn grym yn atebol. Gwneir hyn drwy alluogi dinasyddion i gael gwybodaeth ac i herio neu drafod â deiliaid swyddi cyhoeddus. Yn aml bydd yn rhoi gwybodaeth i ddinasyddion am sefydliadau cyhoeddus a'u ffordd o weithredu, a chyfle i holi'r rheini sydd mewn grym drwy fformatau fel dadleuon, paneli trafod, rhaglenni ffonio i mewn neu

ddigwyddiadau eraill lle mae arweinwyr yn cael eu dal yn atebol. Mae cynnwys llywodraethiant democrataidd yn cael ei anelu at gynulleidfaoedd y tu allan i'r DU.

Mae cynnwys llywodraethiant democrataidd yn gategori cynnwys golygyddol a all gael ei ariannu'n allanol gan arianwyr allanol priodol ar BBC World Service a gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hariannu drwy ffi'r drwydded.

16.4.60 **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnwys llywodraethiant democrataidd BBC World Service neu Media Action gael ei ariannu'n allanol gael ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwr perthnasol ar ôl cymryd cyngor gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol** a fydd yn ystyried a fyddai'n amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC.

## BBC Media Action

16.4.61 Rhaid i'r holl gynnwys golygyddol a gynhyrchir gan elusen ryngwladol y BBC, BBC Media Action, gyrraedd y safonau yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC, ar ba wasanaeth bynnag y bydd ar gael, boed BBC World Service neu wasanaeth darlledwr neu gyhoeddwr lleol. Lle nad yw Media Action yn rheoli'r cynnwys golygyddol (er enghraifft wrth gyflawni ei swyddogaeth fel darparwr hyfforddiant), nid yw'n ofynnol bod y cynnwys yn cyd-fynd â Chanllawiau Golygyddol y BBC.

## RHAN D: GWASANAETHAU MASNACHOL Y BBC

16.4.62 Ni ddylai Gwasanaethau Masnachol y BBC beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC[136].

16.4.63 Rhaid sicrhau bod hysbysebu a nawdd o gwmpas brand y BBC yn unol â'r Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol yn ogystal â'r rheoliadau perthnasol ar hysbysebu mewn tiriogaethau penodol.

(Gweler y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC)

Cynnwys golygyddol noddedig (a all gynnwys rhaglen, sianel, segment mewn rhaglen neu floc o raglenni) yw cynnwys golygyddol y talwyd rhai neu'r cyfan o'i gostau gan noddwr. Mae'n cynnwys rhaglenni a ariannwyd gan hysbysebwyr. Rhaid enwi noddwyr mewn cydnabyddiaethau am nawdd.

Noddwr (cynnwys golygyddol) yw unrhyw ymgymeriad cyhoeddus neu breifat neu unigolyn (nad yw'n ymwneud â darparu neu gynhyrchu cynnwys) sy'n ariannu'r cynnwys golygyddol (neu ei gyhoeddi neu ei ddarlledu) er mwyn hyrwyddo ei enw, ei frandiau, ei gynhyrchion, ei sefydliadau, ei wasanaethau, ei nodau masnach a/neu ei weithgareddau.

Gellir hefyd gael noddwyr yng nghyswllt digwyddiadau a gwobrau.

---

[136] Gweler Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol yn ogystal â'r rheoliadau perthnasol ar hysbysebu mewn tiriogaethau penodol.

Bydd yn bwysig bod trefniadau ar gyfer Hysbysebu a Nawdd ar Wasanaethau Masnachol y BBC sydd ar gael yn y DU yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n sicrhau na fydd defnyddwyr yn cael eu drysu o ran yr hyn sy'n Wasanaeth Cyhoeddus a'r hyn sy'n Wasanaeth Masnachol. Dylai fod yn bosibl gweld bod gwasanaethau o'r fath yn Wasanaethau Masnachol.

16.4.64 Pan fydd Gwasanaethau Masnachol y BBC yn cynhyrchu cynnwys i drydydd partïon, dylai'r trefniadau fod yn unol â gwerthoedd a safonau'r BBC, a rhaid iddynt beidio â gwneud drwg i enw da'r BBC. Dylid dilyn y safonau yn y canllawiau hyn ond mewn rhai achosion ni fydd y manylion penodol yn briodol, er enghraifft lle nad yw'r trydydd parti yn cael ei reoleiddio gan Ofcom.

## Defnydd Gwasanaethau Masnachol y BBC o Frandiau BBC News ar gyfer Digwyddiadau Marchnata

16.4.65 Rhaid sicrhau na fydd didueddrwydd brand BBC News yn cael ei danseilio gan weithgareddau marchnata oddi ar yr awyr Gwasanaethau Masnachol y BBC.

Dylai gweithgareddau o'r fath ddilyn y canllawiau Polisi Golygyddol ar Ddefnydd Gwasanaethau Masnachol y BBC o Frandiau BBC News ar gyfer Digwyddiadau Marchnata.

(Gweler y canllawiau: Defnydd Gwasanaethau Masnachol y BBC o Frandiau BBC News ar gyfer Digwyddiadau Marchnata)

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio un o frandiau BBC News at ddibenion marchnata mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiad oddi ar yr awyr gael ei gymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch** a fydd yn ystyried a fyddai'r cynnig yn amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC, neu'n dwyn anfri mewn rhyw ffordd arall ar y BBC.

# ADRAN 17: CYSTADLAETHAU, PLEIDLEISIAU A RHYNGWEITHIO

17.1 Cyflwyniad

17.2 Egwyddorion
17.3 Atgyfeiriadau Gorfodol
17.4 Canllawiau

- Cystadlaethau a Phleidleisiau
- Gwobrau
- Cynnwys sydd wedi'i Recordio Ymlaen Llaw, sydd Ar Gael ar Wasanaethau Dal i Fyny, neu sy'n cael ei Ailddarlledu
- Gwobrau, Rafflau, Rhoddion, Arwerthiannau a Thynnu Tocynnau
- Yr Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU)
- Gwasanaethau Teleffoni
- Sioeau Gemau a Chwisiau
- Chwilio am Dalentau a Chynnwys y BBC sy'n Cynnig Cyfleoedd Newid Bywyd
- Ffonio i mewn
- Sylwadau a Chymedroli
- Cynnwys wedi'i Gynhyrchu gan Ddefnyddwyr
- Cynnwys ar Ddyfeisiau Symudol, yn cynnwys Apiau
- Gemau a Chwarae Gemau
- Gwasanaethau Rhyngweithiol gan gynnwys Realiti Rhithwir, Botwm Coch, Realiti Estynedig a Deallusrwydd Artiffisial

## 17.1 CYFLWYNIAD

Mae cynulleidfaoedd y BBC yn disgwyl gallu rhyngweithio â'i gynnwys yn y ffyrdd mwyaf creadigol ac arloesol posibl. Mae rhannau mawr o'r gynulleidfa wedi cael eu magu yn chwarae gemau cyfrifiadurol ac mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan hanfodol o'u bywydau, ac mae datblygiadau cyflym mewn technolegau fel deallusrwydd artiffisial a phrofiadau ymdrwythol yn dod â chyfleoedd a heriau golygyddol eraill. Mae'r BBC yn ceisio cynnig cyfleoedd i ryngweithio i bawb drwy ddefnyddio gwahanol lwyfannau mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r adran hon yn cynnwys pob math o ryngweithio â'r gynulleidfa, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, ffonio i mewn a fformatau perthnasol fel sioeau gemau, chwilio am dalent a chwisiau.

I gyfoethogi'r hyn mae'n ei gynnig a gwella profiadau cynulleidfaoedd cymaint â phosibl, mae Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn debygol o gynnal cytundebau a phartneriaethau â sefydliadau masnachol a allai ddarparu technoleg, ymchwil ac arloesi. Mae'n bwysig nad yw trefniadau

o’r fath yn gweithredu fel gwasanaeth masnachol neu eu bod wedi’u cynllunio i wneud elw os ydynt wedi’u bwriadu fel gweithgaredd Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU.

Mae gweithgarwch y Gwasanaethau Cyhoeddus a rhai Gwasanaethau Masnachol yn y maes hwn yn cael eu rheoleiddio gan God Darlledu Ofcom (yn enwedig adrannau 2, 5, 7, 8, 9 a 10), a rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a’r BBC World Service gydymffurfio â’r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[137].

## 17.2 EGWYDDORION

17.2.1 Rhaid i’r holl ryngweithio â chynulleidfaoedd gael ei gynnal mewn ffordd deg a gonest.

17.2.2 Rhaid i ymgeiswyr a chystadleuwyr bob amser gael eu trin yn deg, yn briodol ac yn unol â’r rheolau/telerau ac amodau.

17.2.3 Rhaid i gynulleidfaoedd beidio â chael eu camarwain yn sylweddol ynghylch unrhyw gystadleuaeth neu bleidlais.

17.2.4 Mae’n bwysig bod holl gystadlaethau, pleidleisiau a gwobrau’r BBC ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a’r World Service yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y BBC ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio.

(Gweler y Cod Ymddygiad ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio ar-lein)

17.2.5 Pan fydd y BBC yn cynnig cyfleoedd i ryngweithio i’n cynulleidfaoedd, rhaid iddynt fod yn neilltuol a chwrdd â disgwyliadau’r gynulleidfa debygol. Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a’r World Service, rhaid iddynt ychwanegu gwerth cyhoeddus, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol drostynt, a rhaid iddynt wella allbwn mewn ffordd sy’n cyd-fynd â’r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.

17.2.6 Rhaid parchu preifatrwydd pawb sy’n rhyngweithio â’r BBC. Rhaid storio a chael gwared ar wybodaeth bersonol yn unol â holl bolisïau diogelu data perthnasol grŵp y BBC.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1)

17.2.7 Gellir sefydlu a chymeradwyo gweithgareddau rhyngweithiol ymlaen llaw fel dull o godi arian ar gyfer menter codi arian elusennol ar draws y BBC. Rhaid iddo hefyd fod ar gael i’r gynulleidfa darged.

17.2.8 Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a’r World Service, rhaid sicrhau bod cystadlaethau a drefnir ar y cyd, gwobrau sy'n cael eu rhoi ar gyfer cystadlaethau i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein, ac ariannu allanol ar gyfer gwobr neu fwrsari yn cydymffurfio â’r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[138].

---

[137] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

[138] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

17.2.9 Wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill, rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol gyffredinol ar ryngweithio yn ei allbwn.

17.2.10 Rhaid i gyfeiriadau at lwyfannau a darparwyr gwasanaeth masnachol fel dull mynediad gael eu cyfiawnhau'n olygyddol a heb fod yn rhy amlwg.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.3-15.4.4)

17.2.11 Fel arfer ni chaiff cyflogeion y BBC, cyflogeion trwyddedigion brand y BBC a'u teuluoedd agos a cysylltiadau agos gymryd rhan mewn cystadlaethau, sioeau chwilio am dalent a rafflau'r BBC.

17.2.12 Wrth ryngweithio â chynulleidfaoedd gan ddefnyddio technolegau a llwyfannau newydd, rhaid i dimau'r BBC a'r rhai sy'n gweithio iddo gynnal pob gweithgaredd mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd golygyddol y BBC.

17.2.13 Dylai'r BBC geisio sicrhau bod gallu'r gynulleidfa i ryngweithio ac argaeledd cyfleoedd drwy gystadlaethau, gwobrau a chwiliadau doniau, mor hygyrch â phosibl.

# 17.3 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

17.3.1 Rhaid i holl gystadlaethau a phleidleisiau'r BBC gael eu cymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 17.4.2)

17.3.2 Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu unrhyw fath o bleidlais ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.

(Gweler 17.4.4)

17.3.3 Rhaid i unrhyw gynnig i redeg cystadleuaeth neu bleidlais ar y cyd â thrydydd parti gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) mewn da bryd.

(Gweler 17.4.5)

17.3.4 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth neu bleidlais Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gyda sefydliad masnachol gael ei atgyfeirio mewn da bryd i'r Pennaeth Polisi Golygyddol perthnasol ac i ITACU. Fel arfer, dylai'r BBC dalu cyfran sylweddol o'r costau, ac ni ddylai arian o'r sefydliad allanol lifo i unrhyw gyllideb cynhyrchu fel arfer heb geisio cyngor gan y tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyfreithiol Rheoleiddio yn gyntaf.

(Gweler 17.4.6)

17.3.5 Rhaid i unrhyw eithriadau i'r ffaith bod y BBC yn rheoli systemau a gweithdrefnau'n uniongyrchol wrth gynnal pleidlais gael eu hatgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol ac ITACU cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb. Byddant yn cynghori a yw'r cynnig yn gadarn ac yn bodloni safonau'r BBC a/neu os bydd angen rhoi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith.

(Gweler 17.4.7)

17.3.6 Rhaid i unrhyw gynnig i sefydlu gwobr BBC gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 17.4.10)

17.3.7 Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn nawdd cyllid arall ar gyfer gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus BBC yn y DU neu World Service gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.11)

17.3.8 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnig gwobr sylweddol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.15)

17.3.9 Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn rhodd o wobr sylweddol ar gyfer menter codi arian i elusennau ar draws y BBC gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.20)

17.3.10 Rhaid i roddion lle nad oes prawf sgiliau fodloni meini prawf penodol a'u bod yn dal i fod angen cymeradwyaeth ITACU a'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid i gystadlaethau a phleidleisiau'r BBC gael eu cymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 17.4.21)

17.3.11 Rhaid i unrhyw gystadleuaeth, pleidlais, gwobr, neu raffl Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service sy'n cynnwys rhyngweithio â'r gynulleidfa gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol.

Ar gyfer unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan BBC Studios, nad yw'n cael ei gomisiynu gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU, dylai timau ei atgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion BBC Studios, a fydd yn ymgynghori ag ITACU neu'r tîm Polisi Golygyddol fel y bo'n briodol.

(Gweler 17.4.23)

17.3.12 Rhaid i bob cynnig i ddefnyddio rhyngweithio am dâl ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.26)

17.3.13 Rhaid i unrhyw ddefnydd o ryngweithio am dâl ar Wasanaethau Masnachol y BBC gael ei atgyfeirio yn y lle cyntaf i uwch swyddog golygyddol a ddylai ymgynghori â Phennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios.

(Gweler 17.4.27)

17.3.14 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm i godi arian i elusen drwy unrhyw fath o ryngweithio â chynulleidfaoedd gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU). Bydd angen cael cymeradwyaeth hefyd gan ffigwr golygyddol uwch.

(Gweler 17.4.28)

17.3.15 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm sydd wedi'u hanelu at blant gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r cyfarwyddwr perthnasol.

(Gweler 17.4.28)

17.3.16 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio negeseuon testun ar gyfer cystadlaethau neu bleidleisiau i wylwyr, i wrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU).

(Gweler 17.4.29)

17.3.17 Rhaid i unrhyw gynnig i wahodd pobl i wneud cais i gymryd rhan mewn rhaglen drwy ffonio llinell cystadleuwyr gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU).

(Gweler 17.4.30)

17.3.18 Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio llinell wybodaeth cyfradd premiwm ar gyfer digwyddiadau neu berfformiadau sy'n cael sylw yng nghynnwys y BBC, neu i gynnig tocynnau ar werth drwy linellau gwybodaeth o'r fath gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.31)

17.3.19 Rhaid i unrhyw gynnig o wobr ariannol neu wobr a roddwyd ar gyfer sioe gemau neu gwis ar Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gael ei atgyfeirio i'r rheolwr allbwn perthnasol a chael ei gymeradwyo ganddo. Rhaid i wobrau ariannol sylweddol gael eu hatgyfeirio i'r rheolwr comisiynu a fydd yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.43)

17.3.20 Rhaid i wobrau ariannol sylweddol ar gyfer cynnwys Gwasanaethau Masnachol nad yw wedi'i gomisiynu gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gael eu hatgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios.

(Gweler 17.4.44)

17.3.21 Rhaid i unrhyw gynnig i lansio rhaglen talent/chwilio am dalent hefyd gyfeirio at y canllawiau ar Chwilio am Ddoniau, a rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Os nad yw'r cynnig ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, rhaid ymgynghori â thîm Materion Rheoleiddiol BBC Studios hefyd.

(Gweler 17.4.46)

17.3.22 Rhaid i unrhyw gynnig bod y BBC yn derbyn cyfle gyrfa neu gyfle sy'n newid bywyd yn rhodd ar gyfer cystadleuwyr neu gyfranogion gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.48)

17.3.23 Rhaid i unrhyw gynnig i beidio â chymedroli mannau ar-lein ymlaen llaw i unigolion dan 18 oed gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.56)

17.3.24 Os bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu plant a phobl ifanc dan 18 oed ar-lein, boed y rheini'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu luniau o gam-drin plant, rhaid eu hatgyfeirio i Dîm Diogelu'r BBC[139] ar unwaith. Ni ddylid rhannu unrhyw ddelweddau.

(Gweler 17.4.60)

17.3.25 Fel arfer, bydd defnyddwyr pob rhwydwaith symudol yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ryngweithio symudol Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service. Rhaid i unrhyw eithriadau arfaethedig gael eu hatgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.72)

17.3.26 Gall y BBC a chwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC ymrwymo i drefniadau cyd-gynhyrchu Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gyda chwmnïau chwarae gemau mewn cydweithrediadau technegol a chreadigol. Dylid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Efallai y bydd angen ymgynghori â'r tîm Materion Rheoleiddio a Pholisi Cyhoeddus, a rhaid i bob trefniant o'r fath gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC.

(Gweler 17.4.81)

# 17.4 CANLLAWIAU

## Cystadlaethau a Phleidleisiau

17.4.1 Rhaid i holl gystadlaethau a phleidleisiau'r BBC fod yn onest, yn agored ac yn deg, a bod yn gyson â'r safonau golygyddol, moesegol a thechnegol y mae cynulleidfaoedd y BBC yn eu disgwyl.

17.4.2 **Rhaid i gystadlaethau a phleidleisiau'r BBC gael eu cymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch.** Rhaid sicrhau bod cystadlaethau a phleidleisiau yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid i'r systemau technegol fod yn gadarn
- mae cystadlaethau a phleidleisiau yn creu gofynion cymhleth, a rhaid cael adnoddau priodol ar eu cyfer

---

[139] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

- mae cynlluniau wrth gefn yn hanfodol ar gyfer materion golygyddol a thechnegol
- rhaid cymryd mesurau priodol i sicrhau bod y bleidlais a'r canlyniad yn ddilys
- rhaid cyhoeddi rheolau ar gyfer cystadlaethau a phleidleisiau
- rhaid adrodd ar y canlyniadau gyda chywirdeb dyladwy i'r gynulleidfa
- rhaid ei gwneud yn glir i'r gynulleidfa pryd mae pleidleisiau'n agor ac yn cau a beth yw'r terfyn amser ar gyfer derbyn cynigion mewn cystadlaethau
- rhaid caniatáu digon o amser rhwng cau'r gystadleuaeth neu'r bleidlais a chyhoeddi'r canlyniad er mwyn sicrhau bod modd ei wirio
- rhaid i gystadlaethau a phleidleisiau gael eu trefnu a'u rhedeg yn unol â'r canllawiau perthnasol
- rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros gynnal cystadlaethau a phleidleisiau ar Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service.

- Mae rhagor o ystyriaethau yng nghyswllt cystadlaethau a phleidleisiau i blant ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y canllawiau.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Chynulleidfaoedd)

## Cystadlaethau

17.4.3 Rhaid i'r holl gynigion cymwys fod â chyfle teg i ennill a rhaid cynllunio'r broses ddethol i sicrhau hyn. Dylai'r BBC gynnig prawf gwirioneddol ar fedrau, gwybodaeth neu grebwyll sy'n briodol i'r gynulleidfa:

- rhaid i'r cwestiynau ac atebion alw am lefel briodol o fedr gan y gynulleidfa debygol a bod yn addas o ran tôn a phwnc. Rhaid iddynt fod yn gywir i raddau dyladwy
- ni ddylai cystadlaethau sy'n defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm fod yn loterïau, sydd wedi'u diffinio mewn cyfraith. Rhaid cael cyngor cyfreithiol
- gall y BBC gynnal rafflau ar gyfer elusennau, ond rhaid i bob cynnig o'r fath gael ei atgyfeirio mewn da bryd i ITACU ac i'r tîm Polisi Golygyddol

(Gweler Gwobrau a Rafflau isod)

- rhaid i baneli dyfarnu mewn cystadlaethau i wylwyr, gwrandawyr, darllenwyr a defnyddwyr ar-lein gael meini prawf clir ar gyfer dewis enillwyr, a fydd ar gael i gynulleidfaoedd. Gellir ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol
- Ni ddylai Gwasanaeth Cyhoeddus y DU na'r World Service hyrwyddo unrhyw gystadleuaeth yn uniongyrchol sydd heb gael ei threfnu neu ei rhedeg ar y cyd â nhw
- rhaid i'r BBC gynnal annibyniaeth olygyddol, a rhaid i gystadlaethau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service beidio â hyrwyddo unrhyw wasanaeth, cynnyrch neu gyhoeddiad yn ormodol
- dylid tynnu sylw priodol at y gost am gymryd rhan
- ni ddylai fod yn ofynnol i bobl brynu unrhyw beth i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service oni bai ei fod yn gysylltiedig â menter codi arian ar draws y BBC i elusennau.

(Gweler 17.4.14-17.4.20)

(Gweler Adran 16 Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.29)

## Pleidleisiau

17.4.4 Rhaid ystyried ar y dechrau ai pleidlais gyhoeddus yw'r dull golygyddol mwyaf priodol o ddod i benderfyniad ynghylch canlyniad. Gellir defnyddio pleidleisiau i ddarparu adloniant, i godi arian i elusennau drwy fentrau ar draws y BBC neu i helpu'r gynulleidfa i fynegi barn am bynciau yn amrywio o faterion ysgafn i faterion polisi cyhoeddus neu wleidyddiaeth. Dylid ystyried yn ofalus y gallai canlyniad y bleidlais, mewn rhai achosion, gynrychioli cyfle a all newid bywydau'r enillydd neu'r sefydliad buddugol, y gallai fod o ddiddordeb i grwpiau lobïo, neu y gallai roi mantais fasnachol bosibl.

- rhaid peidio â chamarwain cynulleidfaoedd ynghylch pwrpas pleidlais
- fel arfer, ni ddylid cyhoeddi cyfansymiau cyfredol cyn gwirio a darlledu'r canlyniad terfynol oherwydd gallai hyn effeithio arno
- rhaid i'r BBC fod yn deg ag unrhyw un sy'n cael ei farnu drwy bleidlais cynulleidfa a rhaid iddo hefyd gyfleu barn y gynulleidfa sy'n pleidleisio mewn ffordd deg a chywir
- nid yw offer pleidleisio a ddarperir gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau ar-lein eraill yn darparu canlyniadau ystadegol neu gynrychiadol. Ni ddylid ond eu defnyddio i ymgysylltu â chynulleidfaoedd neu eu diddanu.

**Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu unrhyw fath o bleidlais ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall gael ei atgyfeirio i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth.**

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.4.31-2.4.32 ac Adran 10 Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus: 10.4.16-10.4.20)

(Gweler y canllawiau: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn)

## Cystadlaethau a Phleidleisiau sy'n Cael eu Rhedeg ar y Cyd

17.4.5 Gall cystadlaethau a phleidleisiau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service gael eu cynnal ar y cyd â thrydydd parti priodol, fel sefydliad academaidd neu artistig a/neu bartner masnachol addas.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.1-16.4.10)

**Rhaid i unrhyw gynnig i redeg cystadleuaeth neu bleidlais ar y cyd â thrydydd parti gael ei atgyfeirio mewn da bryd i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU)** a fydd yn ystyried:

- a yw'r sefydliad y mae'r BBC yn bwriadu gweithio ag ef yn briodol
- a yw'r gystadleuaeth neu'r bleidlais yn ddibynadwy ac a yw'r cynlluniau wrth gefn y cytunwyd arnynt yn briodol

- a oes digon o dryloywder o ran yr holl agweddau allweddol os yw'r bleidlais neu'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn olygyddol neu'n dechnegol gan y trydydd parti

- a fydd y BBC yn cadw rheolaeth olygyddol dros ei allbwn.

17.4.6 **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth neu bleidlais Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gyda sefydliad masnachol gael ei atgyfeirio mewn da bryd i'r Pennaeth Polisi Golygyddol perthnasol ac i ITACU.**

**Fel arfer, dylai'r BBC dalu cyfran sylweddol o'r costau, ac ni ddylai arian o'r sefydliad allanol lifo i unrhyw gyllideb cynhyrchu fel arfer heb geisio cyngor gan y tîm Polisi Golygyddol a'r tîm Cyfreithiol Rheoleiddio yn gyntaf.**

17.4.7 Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol a chael goruchwyliaeth dechnegol a chymeradwyaeth ar gyfer y gystadleuaeth gyfan. Wrth redeg pleidlais, rhaid i'r BBC fod yn fodlon â'r systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a dylai fod â rheolaeth uniongyrchol arni fel arfer. **Rhaid i unrhyw eithriadau i'r ffaith bod y BBC yn rheoli systemau a gweithdrefnau'n uniongyrchol gael eu hatgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol ac ITACU cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb. Byddant yn cynghori a yw'r cynnig yn gadarn ac yn bodloni safonau'r BBC a/neu os bydd angen rhoi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith.**

## Gwobrau

17.4.8 Gall y BBC sefydlu ei wobrau ei hun i gydnabod cyflawniadau a doniau aelodau o'r cyhoedd neu grwpiau penodol fel awduron, cerddorion a sêr chwaraeon. Weithiau gellir rhedeg y gwobrau hyn ar y cyd â thrydydd partïon priodol.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.1-16.4.10)

17.4.9 Mae gwobrau'r BBC yn dwyn brand y BBC ac felly'n rhoi cymeradwyaeth am gyflawniadau unigolion neu sefydliadau trydydd parti. Rhaid iddynt gyflawni pwrpas pwysig a rhaid sicrhau bod y trefniadau a'r adnoddau ar eu cyfer yn briodol.

Rhaid trefnu a rhedeg gwobrau'r BBC yn unol â'r canllawiau perthnasol.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Chynulleidfaoedd)

17.4.10 **Rhaid i unrhyw gynnig i sefydlu gwobr BBC gael ei atgyfeirio i ffigwr golygyddol uwch.** Rhaid sicrhau bod gwobrau'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- dylai pwnc gwobrau'r BBC fod yn briodol ac ni ddylai amharu ar ddidueddrwydd, uniondeb golygyddol neu annibyniaeth y BBC

- rhaid cael telerau, amodau a meini prawf clir ar gyfer yr enwebeion a'r beirniaid.

- gellir derbyn cymorth gan noddwr anfasnachol ar gyfer gwobrau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a gyflwynir yn un o ddigwyddiadau'r BBC.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.1-16.4.13)

17.4.11 Rhaid sicrhau bod y trefniadau ariannu ar gyfer gwobrau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[140], a'r canllawiau ar Noddi Digwyddiadau Ar yr Awyr neu Ar-lein y BBC ac a Ddarlledir ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC. **Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn nawdd cyllid arall ar gyfer gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gael ei atgyfeirio ymlaen llaw i'r tîm Polisi Golygyddol.**

(Gweler y canllawiau: Noddi Digwyddiadau'r BBC Ar yr Awyr neu Ar-lein sy'n cael eu Darlledu ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC)

## Cynnwys sydd wedi'i Recordio Ymlaen Llaw, sydd Ar Gael ar Wasanaethau Dal i Fyny, neu sy'n cael ei Ailddarlledu

17.4.12 Pan fydd rhaglenni byw (neu sydd bron â bod yn fyw) sy'n cynnwys cystadlaethau, pleidleisiau neu ryngweithio arall yn cael eu hailddarlledu, eu darlledu ar amser gwahanol neu eu dosbarthu drwy wasanaethau dal i fyny, rhaid rhoi gwybod i'r gynulleidfa nad yw'r rhyngweithio ar gael bellach.

17.4.13 Rhaid i raglenni sy'n cynnwys pleidlais neu gystadleuaeth sy'n torri safonau golygyddol y BBC gael eu hailolygu fel nad yw'r gynulleidfa'n cael ei chamarwain.

(Gweler y canllawiau: Tynnu Cynnwys BBC Online)

## Gwobrau, Rafflau, Rhoddion, Arwerthiannau a Thynnu Tocynnau

17.4.14 Rhaid disgrifio gwobrau'n gywir. Dylent gwrdd â disgwyliadau'r gynulleidfa debygol a rhaid iddynt beidio â dwyn anfri ar y BBC.

Rhaid osgoi rhoi gormod o amlygrwydd i gyfeiriadau at wobrau a'u rhoddwyr. Fel arfer ni ddylai cystadlaethau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service gyfeirio at nwyddau neu wasanaethau brand sy'n cael eu cynnig yn wobrau.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.1-15.4.9)

17.4.15 Fel arfer, dylai'r BBC dalu am y gwobrau sy'n cael eu cynnig mewn cystadlaethau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service i wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ar-lein a dylid ceisio cynnig gwobrau gwreiddiol, yn hytrach na rhai drud. **Rhaid i unrhyw gynnig i gynnig gwobr sylweddol gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a yw'n briodol yn yr amgylchiadau dan sylw.

Fel arfer, ni chynigir gwobrau ariannol ar gyfer cystadlaethau i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein Gwasanaethau Cyhoeddus y DU.

(Gweler 17.4.43)

[140] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

17.4.16 Dylai gwobrau i blant fod yn briodol i oedran y gynulleidfa darged a'r ymgeiswyr, a dylent fel arfer fod yn rhai cymharol fach, yn unigryw neu'n rhai sy'n dibynnu ar brofiadau 'amhrisiadwy'.

17.4.17 Ni ddylid cynnig gwobrau ariannol ar gyfer unrhyw sioe gemau, cwis neu gystadleuaeth i blant.

(Gweler 17.4.42-17.4.45)

17.4.18 Ar Wasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service, ni ddylai cyfeiriadau at wobrau roi'r argraff eu bod yn cael eu hyrwyddo. Ni ddylai gwobrau sy'n cynnwys cynnyrch masnachol y BBC neu a drwyddedir gan y BBC roi'r argraff eu bod yn hyrwyddo'r Gwasanaethau Masnachol.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.25)

## Gwobrau a Roddir ar gyfer Cystadlaethau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service

17.4.19 Rhaid i eitemau sy'n cael eu rhoi fel gwobrau ar gyfer cystadlaethau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng nghynnwys y BBC[141].

Fel arfer, dylai gwobrau sy'n cael eu rhoi fod â gwerth ariannol cymedrol. Gallent gynnwys cyfle, fel taith gefn llwyfan.

Mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol:

- ni ddylid derbyn gwobrau ariannol
- dros amser, dylid cael amrywiaeth fawr o roddwyr
- rhaid tynnu sylw'n briodol at wobrau sy'n cael eu rhoi er mwyn sicrhau tryloywder, ond ni ddylent fod yn rhy amlwg.

Ni ddylai fod unrhyw gyfeiriadau at wobrau sydd wedi'u rhoi mewn bwletinau newyddion, nac yn union cyn/ar ôl bwletinau newyddion.

## Gwobrau ar gyfer Cystadlaethau ac Arwerthiannau sy'n Rhan o Fentrau Codi Arian i Elusennau ar draws y BBC

17.4.20 Gall fod yn bosibl cynnig neu dderbyn rhodd o wobr sylweddol ar gyfer cystadleuaeth, raffl neu arwerthiant sy'n rhan o fenter codi arian ar draws y BBC. **Rhaid i unrhyw gynnig i dderbyn rhodd o wobr**

[141] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

**sylweddol ar gyfer menter codi arian ar draws y BBC gael ei gyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a yw'r wobr yn briodol o dan yr amgylchiadau penodol.

### Rhoddion

17.4.21 Mae rhoddion yn ffordd syml ac effeithiol o ennyn diddordeb y gynulleidfa mewn digwyddiadau y mae'r BBC yn eu cynnal neu'n rhoi sylw iddynt, neu a allai fod yn digwydd yn yr ardal leol. Mewn gwirionedd, mae'n raffl rhad ac am ddim lle mae eitemau (tocynnau fel arfer) yn cael eu cynnig fel gwobrau. Mae'n wahanol i gystadleuaeth gan nad oes prawf sgiliau neu wybodaeth. Mae'r enillwyr yn cael eu dewis ar hap o'r gronfa ymgeiswyr.

Rhaid i wobrau fod o werth cymharol isel, dylent fod ar gael yn gyffredinol (h.y. ddim yn brofiadau 'amhrisiadwy' neu ddrud) ac ni ddylent fod yn rhy boblogaidd neu ormod o alw amdanynt.

**Rhaid i roddion lle nad oes prawf sgiliau fodloni meini prawf penodol a'u bod yn dal i fod angen cymeradwyaeth ITACU a'r tîm Polisi Golygyddol. Rhaid i gystadlaethau a phleidleisiau'r BBC gael eu cymeradwyo gan ffigwr golygyddol uwch.**

### Tynnu Tocynnau

17.4.22 Gellir tynnu tocynnau i ddewis cynulleidfaoedd ar gyfer digwyddiadau a sioeau stiwdio ar y cyd y BBC a'r BBC. Efallai y byddant yn cael eu cynnal gan y BBC neu drwy drydydd parti sy'n rheoli'r tocynnau ar ran y BBC. Efallai y bydd y BBC hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addas eraill i dynnu tocynnau ar y cyd ar gyfer digwyddiad. Mae cyngor mwy manwl ar gael gan y tîm Polisi Golygyddol.

## Yr Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU)

17.4.23 Mae'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) yn uned arbenigol gan y BBC sy'n rhoi cyngor ar bob agwedd dechnegol ar gystadlaethau, rhoddion, pleidlais neu wobr, arwerthiannau, rhoddion elusennol, tynnu tocynnau a rafflau ar unrhyw lwyfan ac yn benodol yng nghyswllt defnyddio teleffoni cyfradd premiwm.

Mae ITACU yn contractio darparwyr gwasanaethau ffôn ac yn gwirio prosesau'r darparwyr hynny. Mae'r uned hefyd yn darparu cyngor cyfreithiol a thelerau ac amodau ar gyfer cystadlaethau a phleidleisiau. Nid yw ITACU yn cynnig cyngor ar gynnwys golygyddol na pholisi golygyddol, ond mae'n cydweithio'n agos â'r tîm Polisi Golygyddol.

**Rhaid i unrhyw gystadleuaeth, pleidlais, gwobr, neu raffl y Gwasanaeth Cyhoeddus neu BBC World Service sy'n cynnwys rhyngweithio â'r gynulleidfa gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol.**

**Ar gyfer unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan BBC Studios, nad yw'n cael ei gomisiynu gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU, dylai timau ei atgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion BBC Studios, a fydd yn ymgynghori ag ITACU neu'r tîm Polisi Golygyddol fel y bo'n briodol.**

## Gwasanaethau Teleffoni

17.4.24 Mae'n bwysig bod unrhyw gynnig i redeg cystadleuaeth, pleidlais neu wobr drwy ddefnyddio gwasanaethau teleffoni hefyd yn dilyn y broses gymeradwyo orfodol sydd wedi'i disgrifio yn y cyfarwyddyd ar ryngweithio.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Chynulleidfaoedd)

### Rhyngweithio am Dâl

17.4.25 Rhyngweithio am dâl yw rhyngweithio lle mae rhai neu'r cyfan o'r costau a delir gan y gynulleidfa yn dod i'r darlledwr. Gall ddigwydd drwy wasanaeth ffôn cyfradd premiwm, ap neu ddyfais symudol neu fath arall o dechnoleg.

Rhaid i gynnwys y BBC gydymffurfio â'r cod ymarfer a roddwyd gan reoleiddiwr y diwydiant, yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA).

Rhaid i'r gost i'r gynulleidfa am ddefnyddio gwasanaethau teleffoni annaearyddol gael ei gwneud yn glir a'i darlledu fel y bo'n briodol.

Rhifau ffôn nad ydynt yn gysylltiedig â lleoliad penodol yw gwasanaethau teleffoni nad ydynt yn rhai daearyddol.

17.4.26 **Rhaid i bob cynnig i ddefnyddio rhyngweithio am dâl ar Wasanaeth Cyhoeddus y DU a'r World Service gael ei atgyfeirio i'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a yw'n briodol yn yr amgylchiadau dan sylw.

17.4.27 **Rhaid i unrhyw ddefnydd o ryngweithio am dâl ar Wasanaethau Masnachol y BBC gael ei atgyfeirio yn y lle cyntaf i uwch swyddog golygyddol a ddylai ymgynghori â Phennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios.**

### Gwasanaethau Cyfradd Premiwm ar Sianeli Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus

17.4.28 Gwasanaethau cyfradd premiwm yw gwasanaethau lle mae'r refeniw yn cael ei rannu rhwng partïon perthnasol. Maent yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn.

Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service, defnyddir gwasanaethau cyfradd premiwm fel arfer os mai'r rhain yw'r ffordd fwyaf diogel ac addas i ymdrin â nifer mawr o alwadau'n effeithiol.

Rhaid i wasanaethau cyfradd premiwm fodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid codi'r tariff isaf sy'n ymarferol

- rhaid cael systemau technegol sy’n atal codi tâl ar alwyr os byddant yn ceisio defnyddio’r system pan nad yw’r llinellau’n agored
- ni ddylid eu defnyddio gyda’r nod o wneud elw ac eithrio i godi arian ar gyfer cynllun codi arian elusennol ar draws y BBC os yw hyn wedi’i gymeradwyo.

- Mae proses gymeradwyo orfodol ar gyfer defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm mewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a’r World Service ac mae cyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol ar wahân hefyd.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm i godi arian i elusen drwy unrhyw fath o ryngweithio â chynulleidfaoedd gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a’r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a fydd yn ystyried a yw’r cynnig yn briodol yn yr amgylchiadau dan sylw. Bydd angen cael cymeradwyaeth hefyd gan ffigwr golygyddol uwch.**

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm wedi’u hanelu at blant gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a’r cyfarwyddwr perthnasol.** Os defnyddir gwasanaethau o’r fath, yna rhaid annog plant i ofyn am ganiatâd gan y sawl sy’n talu’r bil i ffonio.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Chynulleidfaoedd)

## Negeseuon Testun (SMS)

17.4.29 Mae materion technegol yn ymwneud â defnyddio SMS a all beryglu uniondeb golygyddol.

**Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio negeseuon testun ar gyfer cystadlaethau neu bleidleisiau i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein gael ei atgyfeirio i’r tîm Polisi Golygyddol a’r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU)** a fydd yn ystyried a yw’r cynnig yn ddigon dibynadwy yn yr amgylchiadau dan sylw.

Rhaid caniatáu digon o amser i dderbyn, casglu ac archwilio negeseuon testun oherwydd gellir cael oedi wrth ryngweithio yn y ffordd hon.

## Llinellau i Gystadleuwyr

17.4.30 Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol gwahodd pobl i ymgeisio i gymryd rhan mewn rhaglen/cynnwys y BBC drwy ffonio llinell i gystadleuwyr. **Rhaid i unrhyw gynnig i wahodd pobl i wneud cais am gymryd rhan mewn rhaglen drwy ffonio llinell cystadleuwyr gael ei atgyfeirio i’r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU).**

## Llinellau Gwybodaeth am Ddigwyddiadau ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a’r World Service

17.4.31 Gall y BBC raghysbysebu llinellau ffôn ar yr awyr sy’n darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau neu berfformiadau sy’n derbyn sylw yng nghynnwys y BBC. Fel arfer ni ddylai'r rhain fod yn llinellau cyfradd premiwm ac ni ddylid eu defnyddio fel ffordd i brynu tocynnau, er y gallant roi manylion am rifau ar gyfer gwerthu dros y ffôn. **Rhaid i unrhyw gynnig i ddefnyddio llinell wybodaeth cyfradd premiwm ar gyfer digwyddiadau neu berfformiadau sy’n derbyn sylw yng nghynnwys y BBC, neu i gynnig tocynnau**

**ar werth drwy linellau gwybodaeth o'r fath, gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a yw'r cynnig yn briodol yn yr amgylchiadau dan sylw.

### Gwasanaethau Gwybodaeth wedi'u Hawtomeiddio

17.4.32 Dylai gwasanaethau gwybodaeth 'deialu a gwrando' sydd wedi'u recordio fod yn uniongyrchol berthnasol i'r allbwn.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

17.4.33 Dylid sicrhau bod galwadau mor fyr â phosibl a dylid rhoi gwybod i'r gynulleidfa am y gost. Rhaid peidio â defnyddio'r gwasanaeth i hyrwyddo unrhyw gynnyrch, manwerthwr neu gyflenwr.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.28)

## Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.34 Rhaid i sioeau gemau a chwisiau a gomisiynir gan y BBC gael eu cynnal yn onest. Ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service, rhaid i gynhyrchwyr cynnwys y BBC ofalu nad ydynt yn ymddangos yn rhy fasnachol nac yn hyrwyddo gormod o ran cyfeirio at frandiau mewn cwestiynau a chyfeiriadau at gynnyrch masnachol fel gwobrau.

### Dewis Cystadleuwyr ar gyfer Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.35 Mae cystadleuwyr mewn sioeau gemau a chwisiau yn gyfranwyr, felly mae'r darpariaethau hyn yn ychwanegol i'r Canllawiau Golygyddol ar gyfranwyr a chydsyniad.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.11)

Bydd cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yng nghynnwys Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn destun craffu cyhoeddus. Felly, ni ddylai'r cystadleuydd a ddewisir ddwyn anfri ar y BBC na'r cystadleuwyr eu hunain. Dylid cymryd camau rhesymol i sgrinio cystadleuwyr sy'n anaddas ac i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys lle bo modd.

17.4.36 Dylid rhoi mesurau priodol ar waith i asesu a yw er budd gorau darpar gystadleuwyr i gymryd rhan mewn sioe gemau a fydd yn cael ei darlledu. Dylid ystyried a oes angen cynnal asesiad seicolegol.

17.4.37 Mae'r ddyletswydd gofal a ddangosir gan gynyrchiadau i'w cyfranwyr yn eithriadol o bwysig, a dylai comisiynau sicrhau bod dyletswydd gofal briodol ac ôl-ofal a staffio yn cael eu cynnwys.

### Tegwch i Gystadleuwyr mewn Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.38 Rhaid trin aelodau o'r cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn sioeau gemau a chwisiau yn onest ac yn deg, gan ystyried eu hurddas. Rhaid iddynt gael eu hysbysu am y rheolau, a dylid rhoi gwybodaeth iddynt

fel arfer am yr hyn sy’n debygol o ddigwydd iddynt a beth a ddisgwylir ganddynt. Os ydynt i ymddangos mewn ffordd ddoniol, bydd yn bwysig iddynt deimlo’n rhan o’r hwyl yn hytrach na bod hwyl yn cael ei wneud am eu pen. Rhaid cymryd gofal lle mae cystadleuwyr wedi’u cynnig gan eu teulu neu ffrindiau a chydweithwyr.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.32, Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.5 a 6.4.23 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.25-7.4.28)

## Diogelwch Cystadleuwyr mewn Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.39 Ni ddylai'r BBC roi iechyd neu ddiogelwch cystadleuwyr neu unrhyw gyfranogwyr eraill mewn perygl sylweddol. Rhaid peidio â gofyn i gyfranogwyr wneud dim sy’n golygu perygl i fywyd. Lle bo’n berthnasol, dylid gofyn am gyngor arbenigol.

Er mwyn osgoi ymddygiad dynwaredol neu honiadau o ddiffyg cyfrifoldeb, gall fod yn fuddiol i ni ei gwneud yn glir yn yr allbwn lle mae mesurau diogelwch addas wedi’u cymryd.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.49 ac Adran 6 Tegwch: 6.4.22-6.4.26)

## Gosod Cwestiynau ar gyfer Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.40 Dylai cwestiynau a’r atebion iddynt fod yn gywir, yn gyfreithlon, yn galw am lefel resymol o sgiliau, a bod yn briodol o ran tôn a thestun i ddisgwyliadau’r gynulleidfa.

## Rheolau neu Delerau ac Amodau ar gyfer Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.41 Rhaid cael rheolau ar gyfer sioeau gemau neu gwisiau, sy’n nodi'r hyn a ddisgwylir gan y cystadleuwyr a'r telerau ar gyfer cymryd rhan.

Dylai cystadleuwyr gael eu hysbysu’n glir am y rheolau hyn cyn iddynt gymryd rhan a dylent gadarnhau eu bod yn deall ac yn derbyn y telerau ar gyfer cymryd rhan.

## Gwobrau ar gyfer Sioeau Gemau a Chwisiau

17.4.42 Rhaid disgrifio gwobrau gyda chywirdeb dyladwy. Fel arfer, ni dderbynnir gwobrau a roddir ar gyfer sioeau gemau neu gwisiau, ac eithrio ar gyfer mentrau codi arian ar draws y BBC.

17.4.43 **Rhaid i unrhyw gynnig o wobr ariannol neu wobr a roddwyd ar gyfer sioe gemau neu gwis ar Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU gael ei atgyfeirio i’r rheolwr allbwn perthnasol a chael ei gymeradwyo ganddo. Rhaid i wobrau ariannol sylweddol gael eu hatgyfeirio i’r rheolwr comisiynu a fydd yn ymgynghori â’r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried:

- a yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[142]

- a yw'r wobr yn briodol yn yr amgylchiadau dan sylw

- a oes lefelau sgiliau addas wedi cael eu dangos.

17.4.44 Rhaid i wobrau ariannol sylweddol ar gyfer cynnwys Gwasanaethau Masnachol nad yw wedi'i gomisiynu gan Wasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service gael eu hatgyfeirio i'r Pennaeth Safonau Golygyddol/Cydymffurfio a Chwynion, BBC Studios.

17.4.45 Pan fydd plant yn gystadleuwyr mewn sioeau gemau neu gwisiau, rhaid gofalu bod y fformat, y tôn, yr arddull, y cwestiynau a'r gwobrau yn briodol i ystod oedran y plant sy'n cymryd rhan.

## Chwilio am Dalentau a Chynnwys y BBC sy'n Cynnig Cyfleoedd Newid Bywyd

17.4.46 Mae rhaglenni chwilio am ddoniau/talent yn wahanol i gystadlaethau gwylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein. Maent yn mynnu bod gan gystadleuwyr sgil neu dalent benodol a bod cystadleuwyr yn cael eu castio a/neu eu dewis drwy broses clyweliad. Maent yn aml yn gofyn i gystadleuwyr fod yn rhan o broses ymdrwytho a allai bara sawl wythnos. **Rhaid i unrhyw gynnig i lansio rhaglen talent/chwilio am dalent hefyd gyfeirio at y canllawiau ar Chwilio am Ddoniau, a rhaid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Os nad yw'r cynnig ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, rhaid ymgynghori â thîm Materion Rheoleiddiol BBC Studios hefyd.**

(Gweler y canllawiau: Chwilio am Dalent a Chystadleuwyr)

17.4.47 Gall y BBC wneud cytundebau â thrydydd parti priodol lle mae cyfiawnhad golygyddol drostynt er mwyn cynnig cyfle unwaith mewn oes i enillwyr neu gyfranogwyr mewn cystadleuaeth na fyddai'r BBC yn gallu ei gynnig ar ei ben ei hun. Er enghraifft, mae'n bosibl i drydydd parti gynnig cyfle gyrfa arbenigol, buddsoddiad mewn busnes newydd, cyfle i ddangos sgil, contract mewn sefydliad gemau neu gyfle seiliedig ar berfformiad fel cyngerdd neu gontract recordio neu ymddangosiad mewn cynhyrchiad proffesiynol ar y llwyfan neu mewn ffilm.

(Gweler Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.1-16.4.4)

Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol.

---

[142] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

17.4.48 **Rhaid i unrhyw gynnig i'r BBC dderbyn cyfle gyrfa neu gyfle sy'n newid bywyd ar gyfer cystadleuwyr neu gyfranogion gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol a** fydd yn ystyried:

- a yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[143]
- a yw'r cynnig yn briodol yn yr amgylchiadau dan sylw.

## Dewis Cystadleuwyr/Cyfranogwyr i Chwilio am Dalent

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.5)

17.4.49 Mae cystadleuwyr a chyfranogwyr mewn cynnwys chwilio am dalent a gomisiynir gan Wasanaethau Cyhoeddus y BBC sy'n cynnig cyfleoedd newid bywyd yn gyfranwyr felly mae'r darpariaethau hyn yn ychwanegol i'r Canllawiau Golygyddol ar gyfranwyr a chydsyniad.

Mae'n hanfodol i gynhwysiant a thegwch sicrhau bod y BBC a chynyrchiadau mae'n eu comisiynu wedi archwilio'n llawn sut mae gwneud pob addasiad rhesymol er mwyn gallu cynnwys yr ystod ehangaf bosibl o gyfranogwyr.

Yn aml bydd angen sgiliau arbenigol ar gystadleuwyr/cyfranogwyr a gellir eu recriwtio o amrywiaeth o ffynonellau. Bydd cystadleuwyr o'r fath yn aml yn ymddangos ar yr awyr am nifer o wythnosau ac yn derbyn sylw sylweddol. Mae'r mesurau a phrosesau dyletswydd i ofalu yn eithriadol o bwysig ac mae'n rhaid eu sefydlu ar y dechrau.

17.4.50 Rhaid gwirio cefndir darpar gystadleuwyr/cyfranogwyr cyn eu dewis yn derfynol, i sicrhau eu bod yn addas i ymddangos yng nghynnwys y BBC. Mae'r BBC yn gweithredu ar sail yr egwyddor cynhwysiant lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl, yn hytrach nag eithrio. Rhaid ystyried ffactorau fel y gallu i wrthsefyll pwysau fformat darlledu cystadleuol sydd weithiau'n cael ei ddarlledu'n fyw, yn ogystal â chollfarnau blaenorol am droseddau neu faterion eraill a all ddwyn anfri ar y BBC ac arnyn nhw eu hunain.

## Gofalu am Gystadleuwyr/Cyfranogwyr

17.4.51 Ar y dechrau, mae'n bosibl na fydd cystadleuwyr/cyfranogwyr yn sylweddoli bod yr effaith o ymddangos yng nghynnwys y BBC o'r math hwn yn gallu newid eu bywyd. Dylid defnyddio prosesau i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu, eu paratoi a'u cynorthwyo'n briodol a hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill, cymorth addas os yw'r gyfres yn debygol o ddenu sylw sylweddol yn y wasg ac mewn

[143] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

deunydd marchnata. Bydd angen prosesau ychwanegol ar gyfer cystadleuwyr/cyfranogwyr sydd o dan 18 oed, yn enwedig os yw'r allbwn i gael ei ddarlledu'n fyw.

Mae ôl-ofal yn eithriadol o bwysig. Dylai darpariaethau priodol fod ar waith ar adeg comisiynu.

### Tegwch i Gystadleuwyr/Cyfranogwyr

17.4.52 Rhaid i bob cystadleuydd/cyfranogwr gael ei drin yn onest ac yn deg gan ystyried ei urddas. Dylid cymryd camau priodol i sicrhau ei fod yn deall ac yn gwerthfawrogi'r meini prawf a ddefnyddir i'w farnu.

Dylai cystadleuwyr/cyfranogwyr gael copïau o'r telerau ac amodau penodol sy'n rheoli eu cyfranogiad a, lle bo hynny'n berthnasol, y cod ymddygiad ar gyfer y cynhyrchiad. Rhaid egluro'r cosbau am dwyllo a/neu dorri'r cod ymddygiad, yn enwedig os yw'r sioe yn cynnwys pleidlais gan y gynulleidfa.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.1-6.4.5)

(Gweler y canllawiau: Chwilio am Dalent a Chystadleuwyr)

## Ffonio i mewn

17.4.53 Mae rhaglenni ffonio i mewn yn chwarae rhan bwysig yn allbwn y BBC ac maent yn galluogi cynnwys y BBC i gysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd. Gallant ddefnyddio sylwadau a anfonwyd drwy gyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun ac e-bost yn ogystal â siarad â galwyr yn uniongyrchol.

Gan fod y gwasanaeth ffonio i mewn yn fyw, dylai pawb sy'n gweithio ar yr allbwn fod yn barod i ddelio â'r annisgwyl. Gall cyfranwyr fynd yn ofidus neu gallant achosi gofid, tramgwydd, neu eiriol dros dorri'r gyfraith. Ni ddylid caniatáu i raglenni ffonio i mewn fod yn gyfrwng i gyfleu barn y cyflwynydd.

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.1)

Gallai'r canlynol helpu i leihau risgiau ar yr un pryd â galluogi cynulleidfaoedd i fynegi eu barn a sicrhau bod y BBC yn parhau i fod mor hygyrch â phosibl:

- fel arfer dylid ffonio cyfranwyr i raglenni ffonio i mewn yn ôl a'u briffio os oes angen cyn iddynt fynd ar yr awyr. Dylai hyn sefydlu a yw'n briodol bwrw ymlaen ai peidio
- mewn achosion o amheuaeth dylid cofnodi'r cyfraniad ymlaen llaw a gwneud atgyfeiriad priodol
- mae'n bwysig bod gan gyflwynwyr a chynhyrchwyr gynlluniau wrth gefn i ddelio ag achosion annisgwyl, gan gynnwys achosion posibl o dorri'r Canllawiau Golygyddol neu'r gyfraith
- wrth gynhyrchu rhaglen ffonio i mewn ar bwnc anodd neu sensitif, dylid briffio'r tîm cynhyrchu ynghylch sut i ddelio'n briodol â chyfranwyr, yn cynnwys plant a phobl ifanc a galwyr agored i niwed. Mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth am wasanaethau cymorth i gyfranwyr
- dylid ceisio sicrhau amrywiaeth ac ystod eang o safbwyntiau a bodloni'r gofynion o ran didueddrwydd dyladwy
- dylai'r BBC sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar sesiynau ffonio i mewn a gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu

(Gweler Adran 2 Didueddrwydd: 2.1)

- os nad yw rhaglen wedi denu unrhyw alwyr neu gyfraniadau, dylai chwilio am gynnwys arall. Ni ddylai rhaglenni, o dan unrhyw amgylchiadau, ddyfeisio galwyr neu ryngweithiadau eraill megis negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost a negeseuon testun. Rhaid i'r BBC a'r rheini sy'n gweithio gyda'r BBC fod yn onest gyda chynulleidfaoedd bob amser.

- (Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.1-9.4.11)

17.4.54 Pan fydd rhywun sy'n dymuno rhannu stori anodd neu sensitif yn cysylltu â rhaglen yn annisgwyl, dylai timau ystyried a yw'n briodol ei chynnwys. Dylent hefyd ystyried a yw'n briodol ei darlledu ar unwaith neu a fyddai oedi'n rhoi amser ar gyfer rhagor o waith paratoi ac i ddelio'n briodol â'r cyfrannwr dan sylw.

## Sylwadau a Chymedroli

17.4.55 Mae'n bwysig bod pob man ar-lein ar lwyfannau'r BBC sy'n cynnwys sylwadau yn cael ei gymedroli'n briodol. Yn achos byrddau negeseuon i rai dros 18 oed, dylai sylwadau gael eu cymedroli drwy ddull ymatebol fel arfer oni bai fod natur sensitif y pwnc yn galw am ddull cymedroli mwy gweithredol.

17.4.56 Dylai gwefannau ar-lein i rai dan 18 oed gael eu cymedroli ymlaen llaw. **Rhaid i unrhyw gynnig i beidio â chymedroli gwefannau ar-lein ymlaen llaw i rai dan 18 oed gael ei atgyfeirio i'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a fyddai'r dull cymedroli arfaethedig yn amddiffyn plant yn briodol. Ni ddylai cynnwys y BBC ddarparu dolenni i wefannau sydd heb eu cymedroli i gynulleidfa dan 18 oed.

17.4.57 Y ffigwr golygyddol uwch sy'n gyfrifol am y cynnwys cysylltiedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y bwrdd negeseuon yn cynnal safonau cymedroli cyffredinol priodol.

Mae'n bosibl y bydd angen mesurau ychwanegol ar adegau arbennig o sensitif, er enghraifft, yn ystod gwrthdaro arfog neu etholiadau.

(Gweler Adran 12 - Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.6)

17.4.58 Mae gwefannau ar-lein sy'n cyhoeddi lluniau neu fideo neu gynnwys digidol arall gan aelodau'r cyhoedd fel arfer yn cael eu safoni ymlaen llaw.

17.4.59 Mae'n bwysig bod modd rhoi strategaeth uwchgyfeirio gadarn a phriodol ar waith yn gyflym ar gyfer pob man ar-lein, er enghraifft, os bydd deunydd anghyfreithlon neu niweidiol yn cael ei bostio neu os oes amheuaeth o ymddygiad anghyfreithlon.

Dylai strategaethau uwchgyfeirio fod ar waith hefyd i ddelio ag amheuon o feithrin perthynas amhriodol ar-lein, bygythiadau i fywyd, ymosod rhywiol difrifol neu i osgoi niwed difrifol.

17.4.60 **Os bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu plant a phobl ifanc dan 18 oed ar-lein, boed y rheini'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu luniau o gam-drin plant, rhaid eu hatgyfeirio i Dîm Diogelu'r BBC[144] ar unwaith. Ni ddylid rhannu unrhyw ddelweddau.** Bydd y Tîm Diogelu neu Ymchwiliadau Corfforaethol[145] yn rhoi cyngor pellach ar ôl i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

17.4.61 Mae'n bwysig bod rheolau hawdd eu deall yn cael eu cyhoeddi ar bob man rhyngweithiol i bennu pa gynnwys fydd yn dderbyniol a beth fydd yn cael ei dynnu fel arfer.

Dylid hefyd cael cyfleuster hysbysu hawdd ei ddefnyddio i dynnu sylw'r BBC at achosion o dorri'r rheolau hynny.

17.4.62 Dylai'r BBC a'r rhai sy'n gweithio gydag ef geisio darparu ar gyfer yr ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau sy'n gyson â rheolau'r BBC a'r gyfraith. Dylai'r BBC hefyd gynnwys sylwadau sy'n feirniadol o'r BBC, ei gyflwynwyr, ei raglenni neu ei bolisïau os ydynt yn cael eu cynnig.

17.4.63 Dylid cymryd gofal i liniaru'r risg sydd ynghlwm â chynnwys, cyswllt ac ymddygiad wrth redeg byrddau negeseuon sydd wedi'u hanelu at blant.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.27)

(Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

## Y Cyfryngau Cymdeithasol a Llwyfannau Trydydd Parti Eraill

17.4.64 Dylai gweithgarwch a chynnwys sy'n defnyddio brand y BBC ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau trydydd parti eraill adlewyrchu'r un gwerthoedd a disgwyliadau â llwyfannau'r BBC ei hun, yn amodol ar gyfyngiadau penodol a phrofiad y gynulleidfa ar bob llwyfan.

17.4.65 Rhaid i'r dewis o wefannau trydydd parti beidio â dwyn anfri ar y BBC na pheri risgiau sylweddol i blant a phobl ifanc a chyfranwyr agored i niwed neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn agored i niwed.

Dylai timau fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau cyfreithiol a chytundebol y BBC o ran gweithredu ar y gwefannau hyn a disgwyliadau defnyddwyr eraill o ran gweithgarwch ac ymddygiad y BBC ar y gwefannau hyn.

---

[144] safeguarding@bbc.co.uk, Gweler y wefan Diogelu - Cysylltu â Ni: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yng nghyswllt cynhyrchwyr annibynnol, https://www.bbc.com/safeguarding/

[145] Gweler y wefan Ymchwiliadau Corfforaethol: mae hon ar gael ar Gateway at ddefnydd staff y BBC neu drwy olygyddion comisiynu yn achos cynhyrchwyr annibynnol

Dylai unrhyw ymyriad fod yn ysgafn fel arfer, ond gall fod yn rhesymol tynnu deunydd a allai achosi tramgwydd na ellir ei gyfiawnhau.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.29)

17.4.66 Rhaid cynnal gwahaniaeth clir rhwng gofodau'r BBC sy'n cael eu rhedeg gan y BBC at ddibenion y BBC a mannau personol sy'n cael eu rhedeg gan staff neu gyflwynwyr y BBC at eu dibenion personol.

Rhaid arfer goruchwyliaeth a chyfrifoldeb golygyddol dros yr holl weithgarwch ar wefannau'r BBC.

(Gweler y canllawiau: Cyfryngau Cymdeithasol Cyfrifon Rhaglenni, Brand a Genre y BBC)

### Sylwadau ar Ffrydiau Byw

17.4.67 Mae ffrydio byw yn rhoi'r cyfle i ryngweithio'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd mewn amser real ar wasanaethau'r BBC. Dylid cymryd camau priodol i reoli sylwadau yn ystod y ffrwd fyw ac am gyfnod ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben, yn unol â'r llwyfan, ei ymarferoldeb, a'r gynulleidfa debygol.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.37-7.4.41 Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.8; ac Adran 16 - Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu: 16.4.20-16.4.21)

## Cynnwys wedi'i Gynhyrchu gan Ddefnyddwyr

17.4.68 Gall cynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr fod ar ffurf fideo neu luniau llonydd neu gynnwys digidol arall yn ogystal â thestun a sylwadau. Gellir dod o hyd iddo naill ai drwy alwad uniongyrchol i weithredu i gynulleidfaoedd neu drwy chwilio ar draws y we.

Pryd bynnag y bydd yn defnyddio cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn allbwn y BBC, dylid ystyried y canlynol:

- dilysrwydd y cynnwys a'r cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo, er mwyn sicrhau cywirdeb dyladwy
- cydsyniad - i ddefnyddio'r cynnwys a, lle bo'n berthnasol, gan y rhai sy'n ymddangos ynddo, yn enwedig lle mae hyn yn cynnwys rhai dan 18 oed neu unrhyw un a allai gael ei ystyried yn agored i niwed
    - (Gweler y canllawiau: Rhyngweithio â Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)
- disgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd unrhyw un sy'n ymddangos ynddo, er enghraifft os ydynt yn derbyn triniaeth feddygol, neu os mai bwriad y cyhoeddiad gwreiddiol ar

gyfryngau cymdeithasol oedd iddo gael ei rannu ymhlith nifer cyfyngedig o ddilynwyr megis trwy grŵp WhatsApp a mannau caeedig neu gyfyngedig eraill

- a yw'r BBC yn cymell tor-cyfraith neu'n rhoi cyfranwyr mewn perygl drwy gomisiynu neu ddefnyddio cynnwys lle mae perygl posibl i ddiogelwch personol
- unrhyw ystyriaethau o ran y gyfraith neu hawlfraint
- rhoi cydnabyddiaeth ar-lein neu ar y sgrin i berchennog y llun neu'r fideo.

17.4.69 Lle mae'r BBC yn gwreiddio cynnwys trydydd parti ar ei lwyfannau ei hun, dylid gofalu bod cynnwys cysylltiedig a allai fod ar gael i gynulleidfaoedd yn briodol.

17.4.70 Dylai cynhyrchwyr cynnwys hefyd fod yn ymwybodol o risgiau hysbysebu neu gyfeiriadau masnachol sy'n ymddangos ar ddeunydd trydydd parti sydd wedi'i fewnosod a'u dileu os oes angen.

17.4 71 Ni ellir gwneud cyfeiriadau at gynnyrch, fel llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny a heb fod yn rhy amlwg.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.3-15.4.4)

(Gweler y canllawiau: Cyfraniadau a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr)

## Cynnwys ar Ddyfeisiau Symudol, yn cynnwys Apiau

Rhaglenni meddalwedd yw apiau y gall cynulleidfa eu defnyddio i gymryd rhan mewn cynnwys. Mae'r rhan fwyaf yn rhaglenni cyfrifiadurol sydd wedi'u cynllunio i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r we. Nid yw rhai apiau wedi'u cynllunio i gael mynediad i'r we – yn enwedig y rheini sydd wedi'u hanelu at blant. Yn gyffredinol, maent yn gysylltiedig â dyfeisiau symudol fel ffonau a dyfeisiau tabled.

(Gweler 17.1)

17.4.72 **Fel arfer, bydd defnyddwyr pob rhwydwaith symudol yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ryngweithio symudol Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu World Service. Rhaid atgyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig i sylw'r tîm Polisi Golygyddol** a fydd yn ystyried a oes cyfiawnhad dros gau rhai rhwydweithiau allan.

17.4.73 Dylid cadw'r gost i'r gynulleidfa o ryngweithio symudol Gwasanaeth Cyhoeddus ar y tariff isaf posibl, ac eithrio ar gyfer mentrau codi arian elusennol cymeradwy ar draws y BBC.

17.4.74 Wrth wahodd pobl i ryngweithio â chynnwys y BBC, dylid rhoi gwybodaeth briodol am gostau a, lle bo'n berthnasol, gwybodaeth am gynnwys gyda chynnwys ar gyfer dyfeisiau symudol. Dylid rhybuddio cynulleidfaoedd fel arfer y gall taliadau data gael eu codi.

17.4.75 Dylai cynnwys sy'n cael ei ddosbarthu drwy ddyfeisiau symudol fod yn addas i'r gynulleidfa debygol a dylai gwrdd â'i disgwyliadau. Wrth olygu ei gynnwys ar gyfer dyfeisiau symudol, dylai'r BBC

sicrhau na fydd hynny'n effeithio ar addasrwydd a chyfanrwydd y cynnwys gwreiddiol. Dylai cynhyrchwyr ystyried y cyd-destun gwreiddiol ac osgoi camliwio.

(Gweler Adran 13 Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu: 13.4.1-13.4.9)

17.4.76 Gall Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service gynnwys cyfeiriadau at apiau cysylltiedig â chynnwys sydd ar gael am ddim, ac sy'n debygol o gael eu hystyried yn ddeunydd sy'n gysylltiedig â rhaglenni.

(Gweler Adran 15 Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol Eraill: 15.4.22)

Fodd bynnag, lle codir tâl am ap, neu lle mae'r ap ar gael am ddim ond ei fod yn rhoi'r gallu i dderbyn tâl, bydd y canllawiau ar deleffoni cyfradd premiwm yn berthnasol.

(Gweler 17.4.28)

## Gemau a Chwarae Gemau

17.4.77 Gall gemau ar ddyfeisiau symudol, teledu ar-lein/digidol a rhyngweithiol, yn ogystal â chynnwys chwarae y gellir ei ddarparu trwy apiau ac amrywiaeth o lwyfannau, gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwella allbwn. Dylid cadw'r gost o gael gafael arnynt ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service mor isel â phosibl. Mae'n bwysig na fydd y gemau wedi'u bwriadu i wneud elw ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r World Service.

17.4.78 Wrth chwarae gemau, dylai cynnwys y BBC geisio adlewyrchu amrywiaeth o gemau, llwyfannau gemau neu gonsolau gemau ac osgoi amlygrwydd gormodol a/neu gronnus. Rhaid i'r cynnwys chwarae gemau fod yn addas ar gyfer y gynulleidfa debygol. Rhaid ystyried mesurau diogelu priodol os yw'r cynigion yn cynnwys cyflwyno cynulleidfaoedd i gymunedau trydydd parti ymgolli a rhyngweithiol.

17.4.79 Mae defnyddio technoleg ymgolli yn galluogi'r BBC i wella profiadau cynnwys a dod â chynulleidfaoedd yn nes at yr hyn sy'n digwydd. Gallai'r rhain gynnwys:

- Mae Realiti Estynedig (AR) yn amgylchedd yn y byd go iawn sydd wedi cael ei wella drwy osod effaith arbennig ar gyfrifiaduron (gweledol, seiniau ac eraill). Efallai y bydd defnyddiwr yn cael profiad mwy ymdrwythol. Nid oes angen penset, a gellir cael gafael arno drwy ffôn clyfar
- Mae Realiti Rhithwir (VR) yn amgylchedd ymgolli rhithwir sy'n cael ei gynhyrchu gan gyfrifiadur, lle mae golygfeydd, gwrthrychau a chymeriadau yn ymddangos yn real. Maent wedi'u cynllunio i roi'r argraff i'r defnyddiwr ei fod wedi ymgolli yn yr hyn sydd o'i gwmpas. Gall defnyddwyr gael mynediad at yr amgylchedd hwn drwy benset neu helmed realiti rhithwir
- System sy'n seiliedig ar beiriant yw Deallusrwydd Artiffisial (AI) sy'n gallu cyflawni tasgau sy'n cael eu cysylltu'n gyffredin â deallusrwydd dynol
- Math o ddeallusrwydd artiffisial yw Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol sy'n gallu cynhyrchu testun, delweddau, lleferydd, cerddoriaeth, fideo a chod mewn ymateb i ysgogiadau gan ddefnyddiwr.

17.4.80 Wrth ddefnyddio technoleg ac effeithiau realiti estynedig a realiti rhithwir, dylid ystyried y canlynol:

- effaith realiti dwysach ac ymdrochi ar yr aelod o'r gynulleidfa. Mae hwn yn brofiad gwahanol i gynnwys arall ac mae angen meddwl yn ofalus am risgiau uwch posibl o niwed a thramgwydd a sioc
- efallai y bydd ystyriaethau diogelwch ynghylch defnyddio technoleg glywedol o amgylch, yn enwedig os yw cynnwys (fel podlediad) wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio wrth symud
- gall cynulleidfaoedd ryngweithio â'i gilydd heb wybod yn union â phwy maen nhw'n cyfathrebu er enghraifft swyno trwy dwyll ('catfishing') os ydyn nhw'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun canlyn
- gallu'r gynulleidfa i newid y naratif mewn amrywiaeth o genres a sut mae hyn yn cael ei reoli fel nad yw'r BBC yn colli rheolaeth olygyddol gyffredinol.

17.4.81 **Gall y BBC a chwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC ymrwymo i drefniadau cyd-gynhyrchu Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service gyda chwmnïau chwarae gemau mewn cydweithrediadau technegol a chreadigol. Dylid ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol. Efallai y bydd angen ymgynghori â'r tîm Materion Rheoleiddio a Pholisi Cyhoeddus, a rhaid i bob trefniant o'r fath gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC[146].**

## Gwasanaethau Rhyngweithiol gan gynnwys Realiti Rhithwir, Botwm Coch, Realiti Estynedig a Deallusrwydd Artiffisial

17.4.82 Ni ddylai gwasanaethau rhyngweithiol a ddarlledir ar deledu Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service, megis BBC iPlayer a BBC Sounds a'r rhai sy'n cael eu hysgogi gan y botwm coch, hyrwyddo unrhyw lwyfan penodol. Rhaid iddynt fod yn briodol i gynulleidfa unrhyw raglen deledu gysylltiedig.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1-5.4.3)

17.4.83 Dylid ei gwneud yn glir i gynulleidfaoedd lle mae angen talu a chyfanswm y gost yn cael ei arddangos lle bo hynny'n ymarferol. Mae'n bwysig na fydd bwriad i wneud elw o wasanaethau teledu rhyngweithiol ar sianeli Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu'r World Service.

---

[146] Datganiad Polisi ar Ddefnyddio Cyllid Arall yng Nghynnwys y BBC (Cymal 49 (4) o Gytundeb Fframwaith y BBC 2016)

## ADRAN 18: Y gyfraith

18.1 Cyflwyniad
18.2 Atgyfeiriadau Gorfodol
18.3. Cyffredinol
18.4 Prif Ystyriaethau Cyfreithiol

- Difenwi a Phreifatrwydd
- Hawliau Cyfreithiol i Anhysbysrwydd
- Cyfyngiadau ar Ohebu
- Rhwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Terfysgaeth
- Dirmyg
- Cael Mynediad at Gynnwys Anghyfreithlon
- Llwgrwobrwyo
- Diogelu Data

# 18.1 CYFLWYNIAD

BBC Legal sy’n ymdrin â materion cyfreithiol sy'n effeithio ar y BBC, gyda gwahanol adrannau’n delio â materion gwahanol.

Mae'r Adran Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn rhoi cyngor cyn darlledu ar y prif ystyriaethau sy’n berthnasol i gynnwys, gan gynnwys difenwi, preifatrwydd, dirmyg llys, hawliau cyfreithiol o ran anhysbysrwydd a phob math arall o gyfyngiadau ar ohebu. Mae gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni gyfreithiwr ar ddyletswydd ar alwad 24 awr y dydd y gellir troi ato ar gyfer ymholiadau brys. Ar ben hyn, mae'r adran Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn cadw rhestr o gyfreithwyr mewn awdurdodaethau eraill a allai, efallai, roi cyngor ar gyfraith dramor.

Mae'r tîm Eiddo Deallusol ar gael i roi cyngor ar hawlfraint (gan gynnwys trin yn deg) a nodau masnach.

Gellir cael cyngor am ddiogelu data arbenigol gan y tîm Hawliau Gwybodaeth.

Mae rhai gwahaniaethau pwysig rhwng cyfundrefnau cyfreithiol Cymru a Lloegr a’r Alban a Gogledd Iwerddon sy'n gallu achosi problemau difrifol os na chedwir atynt. I gael cyngor ar y gyfraith cyfryngau yn yr Alban, gellir ymgynghori â Chyfarwyddwr Cyfreithiol y BBC, Yr Alban.

Er y bydd dilyn y Canllawiau Golygyddol yn aml yn sicrhau y gellir amddiffyn cynnwys y BBC yn gyfreithiol, mae sefyllfaoedd yn bod pan fydd y gyfraith yn gosod rhwymedigaethau penodol, neu’n pennu safonau sy'n ofynnol, nad yw'r Canllawiau hyn yn ymdrin yn llawn â nhw. Felly, mae’n bwysig cadw at atgyfeiriadau i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni ac adrannau cyfreithiol eraill. Gan fod y gyfraith yn amodol ar ddehongliad llysoedd ac yn agored i newid drwy statud, ym mhob achos, dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried a fyddai ceisio cyngor cyfreithiol yn briodol.

Mae'r adran hon yn esbonio ystyriaethau cyfreithiol cyffredin eraill.

## 18.2 ATGYFEIRIADAU GORFODOL – rhaid eu hatgyfeirio ymlaen llaw

***Mae pob atgyfeiriad gorfodol yn rhan hanfodol o broses olygyddol a sicrhau cydymffurfiaeth y BBC a rhaid cadw atynt.***

Mae nifer ohonynt i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn yr adrannau blaenorol. Y rhai sydd wedi'u rhestru isod yw'r rheini sy'n codi yng nghyd-destun yr adran hon yn unig.

18.2.1 Os credir, yn ystod y broses gwneud rhaglenni neu gynnwys, y gallai rhywun sy'n gweithio i'r BBC dorri rhyw gyfraith neu'i gilydd, rhaid atgyfeirio'r mater i sylw ffigwr golygyddol uwch, neu, yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i'r golygydd comisiynu, a dylai yntau fel arfer ymgynghori â'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni, ac os oes angen, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 18.3.1)

18.2.2 Os yw'n bosibl bod achos o gael mynediad diawdurdod at ddata wedi codi, rhaid llenwi ffurflen mynediad diawdurdod at ddata ar Gateway neu rhaid atgyfeirio'r mater i sylw'r tîm Hawliau Gwybodaeth. Bydd y tîm yn asesu'r achos o gael mynediad diawdurdod at ddata i weld a yw'n cwrdd â'r trothwy cyfreithiol ar gyfer hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano.

(Gweler 18.4.8)

## 18.3 CYFFREDINOL

18.3.1 Ar adegau, efallai y bydd rhoi sylw teg, diduedd a chywir er budd y cyhoedd, o bosibl, yn mynd yn groes i'r gyfraith. Pan fydd achosion o'r fath yn codi, mae'n rhaid ystyried y canlynol:

- pa effaith y gallai cyfreithiau na chydymffurfiwyd â nhw ei chael ar y BBC ac ar unrhyw bobl dan sylw
- ar lefel ryngwladol, yr effaith ar ohebu'r BBC ar y rhanbarth yn y dyfodol.

**Lle credir y bydd creu rhaglen neu gynnwys yn golygu gwrthdaro posibl â’r gyfraith, rhaid atgyfeirio’r mater i sylw ffigwr golygyddol uwch, neu yn achos cwmnïau cynhyrchu annibynnol, i’r golygydd comisiynu, a ddylai fel arfer ymgynghori â’r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni ac, os oes angen, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

# 18.4 PRIF YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

## Difenwi a Phreifatrwydd

18.4.1 Gall unigolion neu gorfforaethau erlyn am niweidio’u henw da yng nghyswllt deunydd sy'n cael ei gyhoeddi amdanynt. Yr enw ar y maes cyfreithiol hwn yw difenwi neu enllib, ac mae’n gallu cael canlyniadau ariannol difrifol os bydd y BBC yn ei gael yn anghywir. Er bod nifer o amddiffyniadau posibl ar gael, mae'n bwysig nodi, wrth ddibynnu ar wirionedd yr hyn a gyhoeddwyd, mai'r diffynnydd (neu’r amddiffynnydd yn yr Alban) sy'n gorfod profi ei fod yn wir. Pan fydd honiadau difrifol o ddrwgweithredu’n cael eu gwneud, fel arfer bydd yn rhaid i wneuthurwyr cynnwys ddangos eu bod yn cynnig hawl i’r unigolyn neu’r gorfforaeth dan sylw ymateb.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.43-6.4.49)

Gall unigolion gymryd camau cyfreithiol i orfodi eu hawl i breifatrwydd, gan gynnwys gofyn i'r llys ganiatáu gwaharddeb (neu ‘interdict’ yn yr Alban) i atal straeon gwir sy’n seiliedig ar wybodaeth breifat rhag cael eu cyhoeddi. Mae enghreifftiau o wybodaeth breifat yn cynnwys gwybodaeth am eu bywyd teuluol, iechyd neu berthnasoedd rhywiol. Mae’n bosibl y bydd gan blant a phobl agored i niwed fwy o ddisgwyliadau o ran preifatrwydd nag oedolion. Mae’r ffaith bod gwybodaeth yn y parth cyhoeddus yn lleihau’r disgwyliad o breifatrwydd ond nid yw o reidrwydd yn ei ddileu. Mae honiadau o ddrwgweithredu a/neu droseddoldeb yn codi materion difenwi a phreifatrwydd.

Mae’n bosibl hefyd bod gan endidau cyfreithiol, gan gynnwys corfforaethau, hawliau y gellir eu gorfodi i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Mewn achosion o'r fath, bydd y llys yn ceisio cydbwyso’r hawl i breifatrwydd neu gyfrinachedd â hawl y cyfryngau i ryddid mynegiant a hawl y cyhoedd i gael gwybodaeth.

## Hawliau Cyfreithiol i Anhysbysrwydd

18.4.2 Mae gan ddioddefwyr a dioddefwyr honedig o droseddau rhywiol, rhai troseddau masnachu pobl a throseddau anffurfio organau cenhedlu benywod hawl gyfreithiol i fod yn ddienw. Mae'r rheolau ynghylch anhysbysrwydd yn yr achosion hyn yn gymhleth ac ni ellir bob amser ildio’r hawl i anhysbysrwydd.

Mae gan athrawon hefyd hawl gyfreithiol i fod yn anhysbys mewn rhai amgylchiadau pan wneir honiad o drosedd sy'n ymwneud â disgybl.

(Gweler Adran 6 Tegwch: 6.4.36)

## Cyfyngiadau ar Ohebu

18.4.3 Mae nifer o sefyllfaoedd pan fydd cyfyngiadau ar ohebu yn berthnasol naill ai’n awtomatig neu’n gallu cael eu gorchymyn yn benodol gan lys.

Mae cyfyngiadau awtomatig yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

- adroddiadau am wrandawiadau rhagarweiniol mewn achosion troseddol. Mae'r hyn y gellir gohebu arno yn gyfyngedig iawn
- adroddiadau am achosion mewn Llysoedd Ieuenctid. Yn benodol, ni ddylid cyhoeddi unrhyw beth sy’n debygol o’i gwneud yn bosibl adnabod rhywun o dan 18 oed fel rhywun sy’n rhan o achos mewn Llys Ieuenctid
- achosion teuluol ac achosion yn y Llys Gwarchod (mae gwrandawiadau achosion o'r fath yn gallu cael eu cynnal mewn nifer o lysoedd, gan gynnwys llysoedd ynadon, y Llys Sirol, Adran Deulu yr Uchel Lys, y Llys Apêl a’r Goruchaf Lys). Yn benodol, ni ddylid cyhoeddi unrhyw beth sy'n debygol o’i gwneud yn bosibl adnabod plentyn fel rhywun sy’n rhan o achos o'r fath.

Gall llys godi neu amrywio cyfyngiadau o'r fath.

Ymysg rhai o'r cyfyngiadau mwy arferol ar ohebu y gellir eu gorchymyn mae:

- gorchmynion sy’n atal pobl ifanc o dan 18 oed sy’n rhan o achos gerbron llys oedolion rhag cael eu henwi
- gorchmynion gohirio, sy’n atal adroddiadau am achosion rhag cael eu cyhoeddi, fel arfer tan ar ôl i'r achos dan sylw ddod i ben

- gorchmynion anhysbysrwydd, pan mae'r llys wedi caniatáu atal manylion unigolyn rhag cael eu rhyddhau.

Dylid atgyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch achosion yn yr Alban i sylw Cyfarwyddwr Cyfreithiol y BBC, Yr Alban.

(Gweler Adran 8 - Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.13 ac Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.22)

## Rhwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Terfysgaeth

18.4.4 Mae deddfau terfysgaeth yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar unigolion, yn cynnwys newyddiadurwyr, i ddatgelu gwybodaeth am weithgareddau terfysgol i'r heddlu cyn gynted ag y gellir gwneud hynny'n rhesymol ymarferol. Mae methu gwneud hyn yn gallu bod gyfystyr â throsedd. Hefyd, mae gan yr heddlu ac awdurdodau eraill amrywiaeth eang o bwerau at eu defnydd i gael gwybodaeth gan newyddiadurwyr fel rhan o ymchwiliad i derfysgaeth.

(Gweler Adran 12 - Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn: 12.4.23)

## Dirmyg

18.4.5 Mae dirmyg llys yn drosedd. Mae sawl ffurf ar ddirmyg. Nod y gyfraith yw atal ymyrraeth ag achosion cyfreithiol yn y DU. Mae'n diogelu achosion ym mhob llys a thribiwnlys yn y DU sy'n cyflawni swyddogaethau barnwrol.

Mae'r gyfraith dirmyg statudol yn gwahardd cyhoeddi deunydd sy'n creu risg sylweddol o niweidio neu lesteirio achosion cyfreithiol 'gweithredol' yn ddifrifol. Mae'r risg o achosi niwed difrifol ar ei uchaf pan mae'r achos yn cynnwys rheithgor lleyg, er enghraifft, mewn achosion troseddol difrifol.

Mae'r cyfnod 'gweithredol' mewn achos cyfreithiol troseddol yn dechrau pan ganiateir codi gwarant arestio, pan fydd rhywun a ddrwgdybir yn cael ei arestio neu pan godir gwŷs (neu, yn yr Alban, cwyn) neu dditiad. Gall hyn ddigwydd ymhell cyn i'r person dan sylw gael ei gyhuddo.

Gellid achosi niwed difrifol i achos troseddol drwy, er enghraifft, gyhoeddi gwybodaeth sy'n cysylltu'r person â'r drosedd, sy'n awgrymu eu bod o gymeriad drwg neu'n cyhoeddi euogfarnau blaenorol.

## Cael Mynediad at Gynnwys Anghyfreithlon

18.4.6 Efallai y bydd newyddiadurwyr sy’n cynnal ymchwiliadau yn dymuno cael mynediad at gynnwys anghyfreithlon a allai gynnwys delweddau anweddus neu wybodaeth sy’n ymwneud â therfysgaeth. Mae troseddau’n ymwneud â chael gafael ar y deunydd hwn a’i ddosbarthu, sy’n gallu achosi anawsterau. Dylid gofyn am gyngor gan y tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys hefyd ofyn am gyngor ynghylch a yw cyfreithiau sy’n ymwneud â lledaenu delweddau anweddus yn berthnasol i baentiadau a gwaith celf.

## Llwgrwobrwyo

18.4.7 Mae’n anghyfreithlon o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo’r DU i gynnig neu dderbyn llwgrwobr yn unrhyw le yn y byd, ac mae llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor yn drosedd ar wahân.

## Diogelu Data

18.4.8 Rhaid prosesu data personol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a Chod Ymarfer Diogelu Data a Newyddiaduraeth Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Mewn rhai amgylchiadau, mae torri rheolau diogelu data yn gallu arwain at sancsiynau troseddol yn ogystal â dirwy. Ar ben hyn rhaid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am achosion o fynediad diawdurdod i ddata sy’n gallu arwain at risg uchel o gael effaith niweidiol ar hawliau a rhyddid unigolion cyn pen 72 awr.

**Lle gallai fod achos o fynediad diawdurdod at ddata, rhaid llenwi ffurflen mynediad diawdurdod at ddata ar Gateway neu rhaid atgyfeirio'r mater i'r tîm Hawliau Gwybodaeth, a fydd yn asesu’r achos o fynediad diawdurdod at ddata i weld a yw’n cwrdd â’r trothwy cyfreithiol ar gyfer rhoi gwybod i’r Comisiynydd Gwybodaeth.**